Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **GWYS A RHAGLEN** | **SUMMONS AND AGENDA** |
| **ar gyfer** | **for a** |
| **CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN** | **MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL** |
| **a gynhelir yn** | **to be held at the** |
| **SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |
| **DYDD MAWRTH, 5 MAWRTH 2013** | **TUESDAY, 5 MARCH, 2013** |
| **am 2.00 o'r gloch** | **at 2:00 pm** |

## R H A G L E N

1 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn:-

- 6 Rhagfyr, 2012
- 14 Rhagfyr, 2012 (Arbennig)
- 24 Ionawr, 2013 (Arbennig)

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

3 **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL**

4 **COFNODION ER GWYBODAETH - BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYEDD** (Tudalennau 19 - 42)

Cyflwyno er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfodydd o Fwrdd Gwella a Chynaliadwyedd Ynys Môn:-

- 1st Hydref, 2012
- 29th Tachwedd, 2012
- 20th Rhagfyr, 2012
- 31st Ionawr, 2013

5 **CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

6 **STRATEGAETH GYLLIDEBOL AR GYFER Y TYMOR CANOL, Y GYLLIDEB, Y DRETH GYNGOR, RHEOLI TRYSORLYS A DANGOSYDDION PWYLLGOR 2013-14** (Tudalennau 43 - 100)

**6.1** Cyflwyno cynigion y Pwyllgor Gwaith newn perthynas â strategaeth gyllidebol ar gyfer y tymor canol, cynllun cyfalaf interim a chyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2013-14.

**6.2 Blaenoraethau Gwella 2013-14**

(a) Dweud bod y Pwyllgor Gwaith, ar ôl ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 18 Chwefror, 2013 wedi penderfynu:-

- *"Ei fod yn cymeradwyo'r Blaenoriaethau Gwella am 2013-14;*
- *Rhoi awdurdod i Swyddogion mewn ymgynhoriad gyda'r Aelodau*

*Portffolio perthnasol i ddatblygu rhaglenni cysylltedig ar gyfer pob un o'r Blaenoriaethau Gwella a bod blaenoriaethau gwella'r Cyngor ar gyfer 2013-14 yn cael eu cyhoeddi ym mis Ebrill yn dilyn y cylch cynllunio busnes blynyddol."*

(b) Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi).
**(Cylchredwyd copi eisoes i'r holl Aelodau fel rhan o raglen y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 18 Chwefror, 2013).**

**6.3 Ymgynghori ar y Cynigion ar Gyfer y Gyllideb**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) ar ganlyniadau'r ymgynghori ar y cynigion mewn perthynas â'r gyllideb.
**(Cylchredwyd copi eisoes i'r holl Aelodau fel rhan o raglen y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 18 Chwefror, 2013).**

**6.4** Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yn delio gyda materion statudol mewn perthynas a'r Gyllideb.

**6.5** Ystyried y penderfyniad ffurfiol fel y mae'n ymddangos yn adroddiad yr Uwch Ymgynghorydd Ariannol / Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151.

**6.6** Cyflwyno unrhyw newidiadau i'r Gyllideb y cafwyd rhybudd yn eu cylch yn unol â Pharagraff 4.3.2.2.11 y Cyfansoddiad.
**(Sylwer: Mae angen ystyried y cyfan o'r papurau uchod fel un pecyn)**

7 **<u>CYNLLUN INTEGREDIG SENGL</u>** (Tudalennau 101 - 202)

Dweud bod y Pwyllgor Gwaith, ar ôl ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror, 2013 wedi penderfynu "cyfeirio'r fersiwn derfynol o'r Cynllun Integredig Sengl i'r Cyngor Sir ar gyfer ei gymeradwyo".

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)

8 **<u>NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR</u>**

Newidiadau i rannau isod y Cyfansoddiad:-

1. Strwythur Pwyllgorau
2. Protocol Aelodau a Swyddogion
3. Protocol Wardiau Amlaelod
4. Hyfforddiant Gorfodol

Dweud bod y Pwyllgor Gwaith ar ôl ystyried yr uchod yn eu cyfarfod ar 18 Chwefror, 2013 wedi penderfynu fel a ganlyn:-

*"Argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn diwygio Cyfansoddiad y Cyngor yn unol â'r adroddiad (sef mewn perthynas â Hyfforddiant Aelodau, Strwythur Pwyllgorau, Protocol Wardiau Amlaelod a Phrotocol Aelodau a Swyddogion) a rhoddi'r awdurdod i'r swyddogion wneud unrhyw newidiadau dilyniadol i'r Cyfansoddiad".*

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol) ar y newidiadau uchod.

**(Cylchredwyd copi eisoes i'r holl Aelodau fel rhan o raglen y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 18 Chwefror, 2013).**

**9** **POLISI CWYNION A PHRYDERON** (Tudalennau 203 - 252)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)

**10** **NEWIDIADAU I BOLISI INDEMNIADAU'R CYNGOR** (Tudalennau 253 - 270)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)

**11** **STRATEGAETH RHEOLI LLIFOGYDD A DWR**

Dweud fod y Pwyllgor Gwaith, ar ôl ystyried yr adroddiad uchod yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror, 2013, wedi penderfynu:-

*"argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cymeradwyo'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli'r Risg o Lifogydd."*

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff).
**(Cylchredwyd copi eisoes i'r holl Aelodau fel rhan o Raglen y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 11 Chwefror, 2013).**

**12** **ADOLYDIAD O BOLISI GAMBLO'R AWDURDOD** (Tudalennau 271 - 296)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Safonau Masnach

**13** **ADOLYGIAD O BOLISI TRWYDDEDU'R AWDURDOD** (Tudalennau 297 - 318)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Safonau Masnach

**14** **CARCHAR YNG NGOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 319 - 342)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr

**15** **RHYBUDD O GYNIGIAD A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.2.2.12 Y CYFANSODDIAD**

Cyflwyno'r Rhybudd o Gynigiad isod gan y Cynghorwyr Richard A Dew ac Aled Morris Jones:-

"Rydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i ystyried gosod plac coffa ym mhentref Rhosneigr, fel y lle y ganwyd, ym 1883, y Llyngesydd Syr Max Kennedy Horton, GCB, DSO, Cadbennaeth Ardaloedd y Gorllewin yn ail hanner yr Ail Ryfel Byd.

Roedd y Llyngesydd, Syr Max Kennedy Horton, GCB, DSO yn gyfrifol am ran Prydain ym Mrwydr Môr Iwerydd, ac ym mis Mai eleni byddir yn coffau 70 o flynyddoedd ers y frwydr honno."

**16** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

**17** **DATGANIAD POLISI TÂL 2013-14** (Tudalennau 343 - 352)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adnoddau Dynol Dros Dro

This page is intentionally left blank

# CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2012

**PRESENNOL:**

Cynghorydd R Ll Jones - Cadeirydd
Cynghorydd E. G. Davies (Is-Gadeirydd)

Cynghorwyr W J Chorlton; Jim Evans; R Anthony Dew; C. L. Everett; K P Hughes; R Ll Hughes; T. Ll. Hughes; W I Hughes; Vaughan Hughes; Aled M Jones; Eric Jones; G O Jones; H Eifion Jones; O. Glyn Jones; R Dylan Jones; Rhian Medi; C McGregor; A Mummery; Bryan Owen; R L Owen; Bob Parry OBE; G O Parry MBE; J. Arwel Roberts; P S Rogers; E Schofield.

**YN BRESENNOL:**

Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy
Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)
Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)
Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)
Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro
Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr Lewis Davies, Derlwyn Hughes, Ff. M. Hughes, Tom Jones, Eric Roberts, Ieuan Williams, Selwyn Williams.

Cyflwyniadau - Cyflwynwyd Gwobrwyon Chwaraeon Blynyddol Ynys Môn 2012 gan Gadeirydd y Cyngor yn y categorïau a ganlyn:-

Merch y Flwyddyn – Christie Pritchard, Gwalchmai
Bachgen y Flwyddyn – Sam Henderson, Caergybi
Tîm y Flwyddyn - Llanfair Hotshots
Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn – Sarah Emily Livett, Benllech
Gwirfoddolwr y Flwyddyn – Aled Thomas, Llandegfan
Camp Eithriadol mewn Chwaraeon – Gareth Evans, Caergybi (Codwr Pwysau)

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i Sian Mai Jones, Prif Swyddog, Datblygu Chwaraeon, am ei gwaith yn trefnu'r Seremoni Wobrwyo.

**1. COFNODION**

Cadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn:-

- 27 Medi, 2012
- 4 Hydref, 2012
- 23 Hydref, 2012

## 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganwyd diddordeb gan y Cynghorydd R. G. Parry OBE, yn eitem 7 y cofnodion hyn ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth na phleidleisio.

## 3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TALEDIG

Llongyfarchwyd Mrs. Beth Roberts, Caergybi gan y Cadeirydd yn dilyn dyfarnu Medal yr Ymerodraeth Brydeinig iddi am ei gwasanaeth i gerddoriaeth a'r gymuned yn rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines ym mis Mehefin. Bu gan Mrs Roberts gysylltiad â cherddoriaeth drwy gydol ei bywyd ac roedd wedi dysgu yn Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol Morswyn yn ogystal â hyfforddi rhai yn ei chartref. Derbyniodd y fedal yng Ngwesty'r Anchorage gan Arglwydd Raglaw Gwynedd, Huw Morgan Daniel.

Estynnwyd croeso cynnes iawn yn ôl i'r Cynghorydd R. L. Owen yn dilyn cyfnod i ffwrdd yn ddiweddar.

Ar ran y Cyngor, estynnodd yr Is-Gadeirydd ei gydymdeimlad â'r Cadeirydd a'i wraig yn dilyn marwolaeth ei frawd-yng-nghyfraith Mr Tony Jones.

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle hefyd i gydymdeimlo gydag unrhyw Aelod neu aelod o staff oedd wedi cael profedigaeth. Safodd yr Aelodau a'r swyddogion mewn teyrnged ddistaw fel arwydd o'u parch.

Ar nodyn hapusach, talodd y Cadeirydd deyrnged i Mr Meirion Jones fyddai'n ymddeol ar ddiwedd y mis hwn. Roedd Meirion wedi gweithio fel Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro am 11 mlynedd. Roedd yr holl Aelodau yn ei adnabod yn dda ac roedd yn y Cyngor yn gwerthfawrogi yn fawr ei waith i'r Awdurdod dros y blynyddoedd hynny. Roedd Meirion yn ymddeol fel y gallai roddi mwy o amser i'w farddoniaeth ac ar ran y Cyngor Sir fe ddymunwyd iddo ymddeoliad hir a hapus.

Cymerodd y Cynghorydd Aled Morris Jones y cyfle i ddymuno pob llwyddiant i'r Cadeirydd yn ystod ei raglen brysur dros y Nadolig. Roedd hefyd am longyfarch Arweinydd y Cyngor ar arwain yr Awdurdod yn ôl i reolaeth ddemocrataidd a chynigiodd ei longyfarchiadau iddo ymhellach am fod yr Arweinydd cyntaf o'r Cyngor hwn i annerch cyfarfod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ddiweddar.

Dywedodd y Cadeirydd hefyd wrth yr Aelodau y byddai cyfarfod arbennig o'r Cyngor yn cael ei gynnal am 10yb ar 14 Rhagfyr 2012.

**----------------------------------------------------------------------**

## 4. COFNODION ER GWYBODAETH – BWRDD CYNALIADWYEDD

Cyflwynwyd er gwybodaeth gofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Cynaladwyedd a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2012.

Crybwyllodd y Prif Weithredwr bod Cylch Gorchwyl newydd yn y broses o gael ei lunio fel rhan o Gam 2 yr ymyriad gan y Comisiynwyr, yn arwain at yr etholiad ym mis Mai 2013.

**PENDERFYNWYD nodi cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Cynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2012.**

## 5. CYFLWYNO DEISEBAU

Cyflwynodd y Prif Weithredwr y deisebau canlynol i Gadeirydd y Cyngor:-

1. Deiseb gydag 141 o enwau yn galw am sefydlu cyfleusterau croesi yn ddiogel i gerddwyr a'r anabl rhwng y feddygfa a'r Swyddfa Bost ym mhentref Llanfaelog;

2. Deiseb gyda 73 o enwau yn gwrthwynebu penderfyniad y Cyngor i ddileu'r gwasanaeth bws 25/45 drwy bentref Pencarnisiog.

Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorydd O. Glyn Jones siarad ar y deisebau uchod a gofynnodd i'r Deilydd Portffolio ac i'r Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy weithredu ar fyrder ynglŷn â chynnwys y deisebau.

**PENDERFYNWYD fod y deisebau'n cael eu cyfeirio i'w hystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol.**

## 6. NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR

### (a) Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Adroddwyd - Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 18 Hydref 2012 wedi penderfynu i argymell i'r Cyngor Sir :-

*"Ei fod yn ymestyn cylch gorchwyl y Pwyllgor i gynnwys cyfrifoldebau am y rhaglen hyfforddi a datblygu Aelodau gan gynnwys eu sgiliau TG a chefnogaeth ar gyfer hynny;*

*Bod y Pwyllgor yn cynnal tri chyfarfod cyffredinol yn ychwanegol at ei Gyfarfod Blynyddol bob blwyddyn, gyda'r hawl i drefnu cyfarfodydd pellach yn ôl yr angen."*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn hyn o beth.**

### (b) Adolygu Rheolau Twyll a Llygredd

Cyflwynwyd - Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Archwilio) oedd wedi ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ar 25 Medi 2012 a gan y Pwyllgor Gwaith ar 15 Hydref, 2012.

**PENDERFYNWYD derbyn cynnwys yr adroddiad..**

## 7. RHEOLAU GWEITHDREFN MATERION CYNLLUNIO

Cyflwynwyd - Adroddiad ar y cyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) yn gofyn i'r Cyngor wneud newidiadau parhaol i'r Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio yn dilyn diwedd y cyfnod treialu o 12 mis.

Adroddwyd - Bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2012 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor "fod y newidiadau a wnaeth y Gweinidog i'r Rheolau yng Nghyfansoddiad y Cyngor (am gyfnod arbrofol o 12 mis o 20 Tachwedd 2011) yn cael eu hymestyn am gyfnod arbrofol pellach o 12 mis."

Mynegodd y Cynghorydd Aled Morris Jones beth pryder ynglŷn â’r effaith bosibl a gâi’r rheolau hyn o ran sicrhau bod cworwm yn cyfarfodydd o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, o ganlyniad i’r gostyngiad yn nifer yr Aelodau fyddai’n gwasanaethu ar y Cyngor hwn yn dilyn etholiadau 2013.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith yn hyn o beth ac y byddai’r estyniad yn y cyfnod arbrofol yn dechrau o heddiw ymlaen am 12 mis arall.**

**8. DIRPRWYAETHAU**

Cyflwynwyd- Adroddiad y Prif Weithredwr yn nodi unrhyw newidiadau i’r cynllun dirprwyo yn ymwneud â swyddogaethau Gweithredol gan y Pwyllgor Gwaith ers y cyfarfod cyffredin diwethaf (Rheol 4.4.1.2. o Reolau’r Cyfansoddiad Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith)

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.45pm.

**CYNGHORYDD R Ll. JONES**
**CADEIRYDD**

**CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2012**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL**: | Y Cynghorydd R Ll Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd E G Davies (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Anthony Dew, Ff M Hughes, K P Hughes, R Ll Hughes, T Ll Hughes, W I Hughes, W T Hughes, Vaughan Hughes, A Morris Jones, Eric Jones, G O Jones, Tom Jones, C McGregor, A Mummery, Bryan Owen, J V Owen E Schofield, Selwyn Williams. |
| **WRTH LAW**: | Cyfarwyddwr Datblygiad Cynaliadwy<br>Prif Swyddog Cynllunio (EGJ)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Jim Evans, Keith Evans, H E Jones, O Glyn Jones, Raymond Jones, R Dylan Jones, Rhian Medi, R L Owen, R G Parry OBE, G O Parry MNE, Eric Roberts, G Winston Roberts OBE.<br>Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes. |

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim i'w datgan.

**2. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL**

Achubodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r aelodau a'r swyddogion am eu gwaith caled dros y 12 mis diwethaf.  Dymunodd i bawb Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda.

**3. PROSIECT CYSYLLTIADAU GOGLEDD CYMRU – YMATEB I YMGYNGHORIAD RHAGARWEINIOL AC ANFFURFIOL Y GRID CENEDLAETHOL AR YR OPSIWN Y MAE'N EI FFAFRIO**

Dywedwyd – Bod yr adroddiad yn crynhoi'r Opsiwn Cychwynnol sy'n cael ei Ffafrio gan y Grid Cenedlaethol ar gyfer ei ystyried yn ystod cyfnod ymgynghori rhagarweiniol ac anffurfiol ar gyfer y prosiect isadeiledd cenedlaethol pwysig hwn ac ynddo hefyd ceir ymateb sy'n cael ei argymell i'r ymgynghori anstatudol ar yr Opsiwn Cychwynnol sy'n cael ei Ffafrio.  Ymateb ydyw a gymeradwywyd i ymgynghori rhagarweiniol ac anffurfiol y Grid Cenedlaethol a oedd yn egluro bod dull y Grid Cenedlaethol o ddethol ac ymgynghori ar yr Opsiwn Cychwynnol sy'n cael ei Ffafrio yn ddiffygiol a bod posibilrwydd hefyd y câi'r Opsiwn hwn effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd negyddol iawn ar Ynys Môn o gymharu â'r opsiynau posibl eraill.

Roedd y Grid Cenedlaethol wedi nodi pump o opsiynau strategol ac aethpwyd â'r rheiny ymlaen ar gyfer gwerthusiad opsiynau strategol. Roedd y Grid Cenedlaethol yn ffafrio Opsiwn 3, sef, cylchedau newydd ar y tir yn cysylltu Wylfa a Phentir (AC neu HVDC), un cylched AC newydd rhwng Pentir a Thrawsfynydd i gael ei osod ar y peilonau cyfredol, cysylltiad newydd rhwng Wern a'r Garth, is-orsaf newydd yng Ngorllewin Gwynedd, ail-ddargludo'r cylchedau presennol yng Ngogledd Cymru, gosod cyfres o offer i wneud i fyny am y newidiadau a gwaith addasu yn yr is-orsafoedd cyfredol.

Roedd nifer o goridorau'n cael eu hawgrymu gan y Grid Cenedlaethol a nodwyd y rheiny ym mharagraff 5.3 yr adroddiad hwn, ynghyd â safleoedd posibl ar gyfer is-orsaf newydd ger Bryncir, Gwynedd. Roedd y Grid Cenedlaethol yn cydnabod hefyd y byddai angen gwneud gwaith ychwanegol i gryfhau'r rhwydwaith trydan. Byddai'n cynnwys gwaith ar y gwifrau uwchddaearol cyfredol yng Ngogledd Cymru, gosod offer i gryfhau'r cyflenwad a gwaith ar yr is-orsafoedd cyfredol yn Wylfa, Pentir a Thrawsfynydd.

Cyflwynwyd sylwadau manwl ar amryw o rannau yn y ddogfen ymgynghori fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

Roedd angen i'r Grid Cenedlaethol atgyfnerthu'r rhwydwaith cyfredol ar gyfer trawsyrru trydan yng Ngogledd Cymru er mwyn darparu'r cysylltiadau angenrheidiol, fel arall, ni fyddai Prosiectau Isadeiledd Sylweddol Cenedlaethol, e.e. yr Orsaf Niwclear newydd yn Wylfa yn mynd yn eu blaenau. Roedd yn hollbwysig felly bod y Cyngor hwn yn parhau i ymgysylltu gyda'r Grid Cenedlaethol ar y Prosiect Cysylltiadau Gogledd Cymru ac yn ymateb i'r ymgynghoriad anstatudol cyfredol, gan sicrhau bod yr effeithiau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol perthnasol wedi cael sylw priodol gan y Grid Cenedlaethol o'r cychwyn cyntaf.

Serch hynny, roedd y Cyngor yn siomedig ac yn bryderus bod y Grid Cenedlaethol eisoes wedi dewis yr opsiwn strategol y mae'n ei ffafrio heb yn gyntaf roi cyfle i'r Cyngor a chydranddeiliaid eraill:-

- Ystyried a chyflwyno sylwadau ar ei amrediad o opsiynau strategol posib, neu
- Awgrymu opsiynau strategol eraill posib a fyddai'n sicrhau'r cysylltiadau angenrheidiol i'r rhwydwaith newydd ond hefyd yn lleihau'r effaith yn Ynys Môn.

Roedd y Cyngor yn bryderus bod y Grid Cenedlaethol, wrth ddewis yr opsiwn cychwynnol y mae'n ei ffafrio, wedi rhoi mwy o bwys ar yr hyn y mae'n ei ystyried fel opsiwn llai drud o gymharu â'r effeithiau amgylcheddol ac economaidd-cymdeithasol yn Ynys Môn a'r tir mawr.

Gwnaed y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau yn ystod y drafodaeth ar y mater:-

- Roedd yr Aelodau'n gwbl anfodlon gyda'r modd y cynhaliodd y Grid Cenedlaethol yr ymarfer ymgynghori oherwydd iddynt fethu ymgynghori yn y lle cyntaf gyda chydranddeiliaid a'r cyhoedd ar yr amryfal Opsiynau Strategol cyffredinol. Roedd y Grid Cenedlaethol wedi cymryd arno'i hun i 'barcio' yr amryfal opsiynau strategol, gostwng eu nifer i 5 opsiwn ac yna, benderfynu ar yr opsiwn y mae'n ei ffafrio, hynny yw, Opsiwn 3, sef:-

  "cylchedau newydd ar y tir yn cysylltu Wylfa a Phentir (AC neu HVDC), un cylched AC newydd rhwng Pentir a Thrawsfynydd i gael ei osod ar y peilonau cyfredol, cysylltiad newydd rhwng Wern a'r Garth, is-orsaf newydd yng Ngorllewin Gwynedd, ail-ddargludo'r cylchedau presennol yng Ngogledd Cymru, gosod cyfres o offer i wneud i fyny am y newidiadau a gwaith addasu yn yr is-orsafoedd cyfredol".

- Nid yw'r Aelodau'n bleidiol o gwbl i unrhyw beilonau pellach gael eu codi uwchlaw'r ddaear ar yr Ynys.

- Gwrthwynebir yn gryf unrhyw fwriad i osod peilonau ar draws y Fenai oherwydd ei dynodiad arbennig a phrydferthwch yr ardal.

- Mae'r Aelodau'n pryderu fod y Grid Cenedlaethol yn rhoi pwyslais mawr ar y gwahaniaeth yng nghostau'r amryfal opsiynau ac mai'r sawl sy'n defnyddio'r ynni fydd, yn y pen draw, yn gorfod talu am yr opsiwn mwyaf costus petai'r opsiwn hwnnw'n cael ei ddewis.

- Cwestiynodd yr Aelodau y ffigyrau o ran y costau a ddyfynnwyd gan y Grid Cenedlaethol gan gadarnhau y bydd rhaid i ni fel Awdurdod eu herio drwy mofyn cyngor annibynnol.

- Roedd un Aelod yn bryderus y byddai'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan y Grid Cenedlaethol yn cael effaith ar ei ward ef (Llanfechell) a thrigolion y ward honno, waeth pa lwybr y byddid yn ei ddewis.

- Cododd un Aelod gwestiwn ynghylch capasiti cynhyrchu yr amryfal ddatblygiadau isadeiledd mawr a fyddai'n effeithio Ynys Môn a Gwynedd a sut y gellir darparu ar gyfer capasiti o'r fath yn wyneb yr opsiwn(ospiynau) arfaethedig sy'n cael ei(eu) ffafrio gan y Grid Cenedlaethol.

- Roedd yr Aelodau'n teimlo fod ystyriaeth arbennig yn cael ei rhoi i osod rhan o'r rhwydwaith dan y ddaear yn Aber Glaslyn ac yn beirniadu'r ffaith nad oedd Ynys Môn, neu ran ohoni, yn cael yr un ystyriaeth arbennig.

- Er yn tybio fod hyn y tu hwnt i gylch gorchwyl y Grid Cenedlaethol, roedd pryder mai dim ond 1 Comisiynydd sydd gan y Gyfadran Isadeiledd Cenedlaethol ar ei Banel a fedr siarad Cymraeg. Mae gan Ynys Môn ei hunaniaeth a'i diwylliant ei hun ac mae angen gwerthfawrogi a deall hynny yn nhermau effeithiau amryfal

ddatblygiadau isadeiledd mawr megis yr un a gynigir gan y Grid Cenedlaethol.

Roedd yr Aelodau'n llwyr gefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad a chynigiwyd ymhellach y dylid sefydlu Panel Ymgynghorol (ac arno 1 aelod o bob un o'r Grwpiau Gwleidyddol ac un aelod digyswllt), y bydd iddo rôl ymgynghorol. [Ni ddylai aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion wasanaethu ar y Panel Ymgynghorol].

**PENDERFYNWYD**

- **Cymeradwyo ymateb arfaethedig y swyddog i'r ymgynghori fel y manylir ar hynny yn yr adroddiad a'i anfon i'r Grid Cenedlaethol cyn y dyddiad cau sef 21 Rhagfyr;**
- **Sefydlu Panel Ymgynghorol ac arno un aelod o bob un o'r Grwpiau Gwleidyddol ynghyd ag un Aelod Digyswllt i weithredu fel corf ymgynghorol ar gyfer swyddogion**.

**4. FFERM WYNT RHIANNON YN Y MÔR – YMATEB I GAM 1 YMGYNGHORIAD CELTIC ARRAY LIMITED**

Dywedwyd - bod yr adroddiad yn rhoi ymateb y Cyngor i Gam 1 y Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (GAR) a gyhoeddwyd gan Celtic Array Limited ar gyfer Fferm Wynt Rhiannon yn y Môr. Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried, cyflwyno sylwadau a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad ynghyd ag Atodiad 1 fel ei ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau, sef 20 Rhagfyr.

Roedd hi'n bwysig bod y Cyngor yn ymgysylltu gyda'r datblygwr fel rhan o'r broses ymgynghori statudol er mwyn cyflwyno ei sylwadau ac ymdrechu i leddfu a dylanwadu mewn perthynas ag effaith bosib y Fferm Wynt ar yr ynys a'i thrigolion. Ar hyn o bryd, roedd Celtic Array yn gofyn am sylwadau gan y Cyngor ac ymgyngoreion eraill ar gynnwys y GAR. Roedd yr Awdurdod eisoes wedi gwneud sylwadau ar y datganiad o Ymgynghoriad Cymunedol. Roedd y cam cyntaf hwn yn rhagflaenu'r cam nesaf o'r ymgynghori yn ystod Chwarter 3 2013 pryd y byddai Celtic Array Ltd wedi cwblhau a mireinio ei gynigion datblygu gan gynnwys ei Ddatganiad o'r Effaith Amgylcheddol fel rhan o gyflwyno'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu.

Er bod y fferm wynt 19km o'r arfordir ac i'r gogledd o'r ynys, byddai swyddogion yn ymgysylltu ymhellach gyda'r datblygwr ar y materion a amlygwyd yn yr adroddiad, yn ogystal ag ar y datblygiadau ar y tir sy'n gysylltiedig â'r fferm wynt. Byddid yn ymgynghori gyda'r Cyngor yn gynnar y flwyddyn nesaf ar yr Adroddiad Sgopio a fydd yn cynnwys lle mae'r ceblau'n dod i'r lan a'r gofynion o ran is-orsaf. Bydd yr elfennau hyn o'r datblygiad, sy'n cael eu hystyried yn ddatblygiadau cysylltiedig, yn faterion y bydd yr Awdurdod yn eu hystyried ac yn penderfynu yn eu cylch.

Gwnaed y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau yn ystod y drafodaeth ar y mater:-

- Lleisiodd yr Aelodau bryderon ynghylch effeithiau cronnol y fferm wynt mewn perthynas â'r prosiectau isadeiledd mawr eraill gan gynnwys datblygiadau ar gyfer datblygu ynni gwynt ar y tir.

- Dylai Ynys Môn sicrhau ei bod yn elwa'n economaidd o'r cynllun mawr ac y dylid rhoi ystyriaeth gadarnhaol i Gaergybi fel Porthladd ar gyfer canolfan ar gyfer gwneuthur, gosod a chyflogi gweithwyr mewn perthynas â Fferm Wynt Rhiannon'

- Dylai'r Awdurdod sicrhau'r manteision mwyaf posibl o ran Budd Cymunedol, yn arbennig o ran lleoliad yr is-orsaf arfaethedig ar y tir.

- Mae'r Aelodau'n pryderu ynghylch effaith y fferm wynt ar ddiwydiant twristiaeth yr ynys.

- Dylai Celtic Array gynnal asesiad o'r effaith yn ystod y nos ac asesu'r goleuadau.

- Dylid cynnal asesiadau sŵn er mwyn ystyried effeithiau hyn ar drigolion sy'n cael eu heffeithio ynghyd â'r effaith ar ddyfroedd.

- Ar yr adeg briodol, dylid ystyried lliw y tyrbinau gwynt arfaethedig er mwyn lleihau eu heffaith weledol.

Roedd yr Aelodau'n llwyr cefnogi'r argymhelliad yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r ymgynghoriad fel y manylir ar hynny yn yr adroddiad hwn ac yn Atodiad 1 a'i gyflwyno cyn y dyddiad cau, sef 20 Rhagfyr 2012.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55 a.m.

**Y CYNGHORYDD R LI JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R.Ll. Jones – Cadeirydd<br>Y Cynghorydd E.G. Davies - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W.J. Chorlton; Lewis Davies; R. Anthony Dew; Jim Evans; K. Evans; Ff.M. Hughes, K.P. Hughes; R.Ll. Hughes; W.I. Hughes; W.T. Hughes; Vaughan Hughes; A. Morris Jones; Eric Jones; G.O. Jones; H. Eifion Jones; O. Glyn Jones; Raymond Jones; R. Dylan Jones; C. McGregor; A. Mummery; Bryan Owen; J.V. Owen; G.O. Parry,MBE; R.G. Parry,OBE; E. Roberts; E.Schofield; Ieuan Williams; Selwyn Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy<br>Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)<br>Pennaeth Dros Dro (Adnoddau)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) (Eitem 4 yn unig)<br>Prif Swyddog Cynllunio (EGJ)<br>Rheolwr Cynllunio (Polisi) (NHD)<br>Arweinydd Tîm (Tai a Chymunedau) (BT)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr D.R. Hughes, T. Lloyd Hughes, Tom Jones, Rhian Medi, R.L. Owen, P.S. Rogers. |

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorwyr R. A. Dew a Bryan Owen yn eitem 4 y cofnodion hyn ac nid oeddent yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth na phleidleisio ar yr eitem.

Datganodd y Cynghorydd R. Ll. Hughes ddiddordeb yn Eitem 4 y cofnodion hyn, arhosodd yn y cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad fel y Deilydd Portffolio ac yna gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio a ddilynodd ar yr eitem.

Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol) a'r Arweinydd Tîm (Tai a Chymunedau) yn Eitem 4 y cofnodion hyn ac nid oeddent yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth na phleidleisio ar yr eitem.

**2. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, BWRDD Y COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETH TALEDIG.**

Estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad dwysaf ar ran y Cyngor â Mrs. Myfanwy Williams ar farwolaeth y cyn Gynghorydd W.J. Williams, MBE yn ddiweddar. Roedd y rhai a fynychodd ei angladd yn ymwybodol o'r teyrngedau a wnaed i'w gymeriad ac i'w hiwmor iach.

Bu'n cynrychioli'r hen Gyngor Bwrdeistref a'r Cyngor Sir fel aelod dros Llanddyfnan ac fel cyn Faer, Cadeirydd ac Arweinydd y Cyngor Sir. Bu'n cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol sy'n rhy niferus i'w henwi a chymerodd ddiddordeb arbennig mewn materion economaidd ac mewn cludiant yn ei rôl fel Cadeirydd TAITH. Yn fwy diweddar, roedd yn ymfalchïo iddo gael ei ethol yn Aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd W.J. yn cael ei barchu fel llysgennad gwirioneddol dros y Cyngor ac fel rhywun a roddodd wasanaeth cyhoeddus i'r gymuned am hanner can mlynedd.

Cydymdeimlwyd hefyd a Mrs. Raj Parry Jones ar farwolaeth ei gwr, Dr. Tom Parry Jones. Roedd Dr. Parry Jones yn fyd-enwog am ddyfeisio'r anadliedydd electronig a ddefnyddiwyd i ddal gyrwyr ceir sy'n yfed. Roedd hefyd wedi sefydlu Cronfa'r Dr. Tom Parry Jones i annog pobl ifanc i ddilyn gyrfaoedd mewn gwyddoniaeth a thechnoleg a hefyd wedi sefydlu Labordai Lion i gynhyrchu a marchnata'r anadliedydd yn fyd-eang. Roedd ganddo enw da byd-eang a brwdfrydedd gwirioneddol dros ddatblygu economi Cymru i'r dyfodol, drwy sicrhau fod pobl ifanc yn cael eu cefnogi'n dda o ran datblygu eu gwybodaeth wyddonol a'u sgiliau entrepreneuraidd.

Safodd yr Aelodau a'r swyddogion mewn teyrnged ddistaw fel arwydd o'u parch.

**3. CYFARWYDDYD CYNLLUNIO ATODOL YNNI GWYNT AR Y TIR (CCA)**

Yn unol â pharagraff 4.1.27.1 o Gyfansoddiad y Cyngor PENDERFYNWYD atal y Rheolau Sefydlog yn ystod trafod yr eitem arbennig hon fel y gellid cael trafodaeth lawn ac agored ar y mater.

(a) Adroddwyd – Bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr, 2013, wedi penderfynu *'i gyfeirio'r mater i'r Cyngor Sir i'w drafod.'*

(b) Adroddwyd - Bod y Cyngor hwn wedi paratoi Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (CCA) yng nghyswllt gwaith datblygu oedd yn ymwneud â datblygiadau ynni gwynt ar y tir a gafodd ei adolygu yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus cyntaf ac a fu wedyn yn destun cyfnod o ymgynghori cyhoeddus pellach. Roedd yr adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth i'r ymateb oedd yn cael ei argymell i'r sylwadau a dderbyniwyd a'r newidiadau i'r CCA. Byddai'r CCA yn ystyriaeth o bwys wrth ddelio gyda cheisiadau cyfredol a rhai yn y dyfodol hyd nes y byddai'r cynlluniau presennol

yn cael eu disodli gan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd mabwysiedig ac/neu unrhyw CCA perthnasol all gael ei ffurfio i gefnogi ei bolisïau.

Er bod y gwrthwynebiadau'n ymwneud â nifer o wahanol themâu, roedd yna ryw dri mater yr oedd nifer o'r gwrthwynebwyr wedi cyfeirio atynt :-

- Pellteroedd gwahanu
- Effaith sŵn
- Effaith y tyrbinau ar yr A.H.N.E.

Roedd y mwyafrif llethol o'r gwrthwynebwyr i'r ail ymgynghoriad cyhoeddus yn teimlo y dylai'r ddogfen fod yn fwy penodol yn ei manylion gan ddarparu cyfarwyddyd cliriach ynglŷn â phellteroedd gwahanu a rhwystrau uwch yn yr A.H.N.E. Roedd gweddill y gwrthwynebwyr yn teimlo bod y ddogfen eisoes yn or-benodol a'i bod yn ymestyn y tu hwnt i orchwyl CCA, yn arbennig o ran cyfyngiadau uchder mewn A.H.N.E.

Rhoddwyd atodiad i'r adroddiad gerbron yn y cyfarfod yn awgrymu mân newidiadau pellach i'r ddogfen.

Gwnaed sylwadau fel a ganlyn gan yr Aelodau yn ystod y drafodaeth ar y mater :-

- y ffaith bod 8,000 o drigolion wedi arwyddo deiseb yn galw am barth gwahanu 1.5km rhwng tyrbinau a chartrefi ac ni ellid annwybyddu hynny;

- roedd un aelod yn ystyried y dylid defnyddio bond i sicrhau bod safleoedd a ddefnyddir i gynhyrchu gwynt yn cael eu clirio'n gyfan gwbl unwaith y bydd tyrbin wedi dod i ddiwedd ei oes ymarferol (crybwyllwyd y byddai hynny rhwng 15-25 mlynedd). Oni bai bod bond yn cael ei greu, efallai y byddai cost dadgomisiynu a chlirio'r safle yn disgyn ar drethdalwyr Ynys Môn;

- roedd un Aelod yn ystyried bod disgwyliad y byddai'r CCA yn diogelu ein Hynys werdd a dymunol, ond nid oedd yn llwyddo yn hynny o beth. Un ystyriaeth arall i'w chadw mewn cof oedd effaith gronnol datblygiadau o'r fath ar ardaloedd unigol. Dylai'r Cyngor gael map ar wefan y Cyngor ac yn swyddfeydd y Cyngor yn dangos ble roedd pob cais am dyrbin gwynt wedi ei leoli. Roedd y ddogfen hefyd yn drwm o blaid y datblygwr ac nid y trigolion;

- roedd un Aelod yn gwrthwynebu'n gryf yr effaith y byddai tyrbinau'n eu cael ar A.H.N.E ac effaith hynny ar dwristiaeth ac ar Lwybr Arfordirol Ynys Môn. Nid oedd y ddogfen ychwaith yn crybwyll unrhyw gyfraniadau budd cymunedol;

- yr effaith a gâi datblygiadau o'r fath ar gymeriad y dirwedd ac ar safon y mwynderau a fwynheir gan breswylwyr a thwristiaid. Dywedwyd ei fod hefyd yn groes i Strategaeth Gyfathrebu 2012-15 y Cyngor Sir oedd ar nod (inter-alia) o sicrhau bod angen i drigolion Ynys Môn fod yn iach ac yn ddiogel ac i ddiogelu'r amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol i genedlaethau'r dyfodol;

- byddai datblygiadau o'r fath yn difetha'r dreftadaeth, yr iaith ac economi'r Ynys yn arbennig fel cyrchfan i dwristiaid. Roedd rhai o awdurdodau lleol yn Lloegr a'r Alban wedi newid y pellteroedd gwahanu;

- cyfeiriodd un Aelod at bryderon a leisiwyd gan breswylwyr ynglŷn â'r pellteroedd gwahanu oddi wrth eiddo, busnesau ac A.H.N.E. Roedd paragraff 18.1 y ddogfen ymgynghori wreiddiol yn cyfeirio at yr uchder mwyaf a ganiateir i dyrbinau gwynt o fewn A.H.N.E, neu o fewn 1km, sef 15 metr. Nid oedd unrhyw sôn am 1km yn y ddogfen newydd. Roedd y parth gwahanu wedi diflannu'n gyfan gwbl ac roedd y 15m wedi mynd yn 20m. Roedd y CCA yn ei ffurf bresennol wedi ei wanhau yn hytrach na'i gryfhau;

- mynegodd aelod arall bryder bod tyrbinau yn ffynhonnell ynni annibynadwy ac anghyson. Roedd Awdurdodau Lleol yn cael eu gorfodi i ddilyn polisïau'r Llywodraeth a Pholisïau Ewropeaidd a hynny er niwed sylweddol i'w cymunedau;

- perygl i awyrennau sydd yn hedfan yn isel, y gwasanaeth achub mynydd a'r gwasanaeth ambiwlans awyr;

- roedd y ddogfen yn caniatáu gormod o hyblygrwydd i ddatblygwyr. Roedd pryderon ynglŷn â goblygiadau iechyd posibl i deuluoedd oedd yn byw yn agos a hefyd ddifrod sŵn i'r amgylchedd;

- roedd rhai o'r Aelodau'n ystyried y dylid cael rhagdybiaeth yn erbyn pob cais fyddai'n cael ei dderbyn.

Roddwyd cyfle i'r Prif Swyddog Cynllunio ymateb i'r pryderon/sylwadau a godwyd yn y cyfarfod a dywedodd wrth yr Aelodau bod nifer o'r materion a oedd wedi eu codi eisoes wedi cael sylw a'u hegluro yn y CCA drafft. Gofynnodd i'r Cyngor gefnogi'r argymhellion oedd yn yr adroddiad.

Cafwyd cynnig o welliant gan y Cynghorydd H. Eifion Jones fel a ganlyn:-

*"ar gyfer tyrbinau gwynt dros 20 metr, bydd y pellteroedd gwahanu oddi wrth eiddo preswyl neu dwristiaeth y mwyaf o 500m neu 20 gwaith yr uchder i flaen y llafn (mewn metrau) a;*

*ni fydd tyrbinau gwynt canolig a mawr yn yr* A.H.N.E *neu o fewn 2km yn cael eu cefnogi."*

Cynigwyd gwelliant i'r prif gynnig gan y Cynghorydd A. Morris Jones sef, *"y dylid cymryd i ystyriaeth effaith gronnol tyrbinau gwynt ar ardaloedd unigol wrth benderfynu ar geisiadau."*

Cynigwyd gwelliant pellach i'r prif gynnig gan y Cynghorydd E.Schofield sef,*"cyn rhyddhau caniatâd cynllunio, rhaid i ddatblygwyr tyrbinau gwynt gyflwyno bond i'r*

*Awdurdod Cynllunio Lleol er mwyn sicrhau y bydd y safle'n cael ei glirio a'i adfer i'w gyflwr blaenorol unwaith y daw'r tyrbinau i ddiwedd eu hoes."*

Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio mewn ymateb i'r gwelliannau a gynigwyd nad oedd swyddogion wedi cael cyfle i werthuso'r gwelliannau a lleisiodd ei bryder bod aelodau'n newid polisi a bod hynny'n tanseilio'r polisïau cyfredol.

Rhoddodd y Swyddog Monitro gyngor na ddylid gwneud unrhyw welliannau i'r CCA drafft rhag ofn gwneud y CCA, neu benderfyniadau a wneir oddi tano, yn agored i her gyfreithiol e.e. o ganlyniad i lyffetheirio disgresiwn dan y polisïau neu osod pellteroedd gwahanu mympwyol na allai'r Cyngor eu hamddiffyn ar apêl. Atgoffodd y Swyddog Monitro yr Aelodau o'r pwerau wrth gefn oedd gan y Comisiynwyr.

PENDERFYNWYD ailsefydlu'r Rheolau Sefydlog yn y fan hon cyn cymryd pleidlais ar y mater.

**PENDERFYNWYD bod y newidiadau oedd yn cael eu hargymell yn yr adroddiad yn cael eu hymgorffori yn y CCA a'u bod yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor i'w defnyddio fel ystyriaeth o bwys wrth ddelio â cheisiadau am Dyrbinau Gwynt ar y Tir, ond yn amodol ar y gwelliannau canlynol y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod hwn :-**

- **I dyrbinau gwynt dros 20 metr, bydd y pellteroedd gwahanu o eiddo preswyl neu dwristiaeth yn 500m neu 20 gwaith yr uchder i flaen y llafn (mewn metrau) p'un bynnag yw'r mwyaf;**

- **Ni fyddir yn cefnogi tyrbinau gwynt canolig a mawr o fewn A.H.N.E neu o fewn 2km iddi;**

- **Dylid cymryd i ystyriaeth yr effaith gronnol a gaiff tyrbinau gwynt ar ardaloedd unigol wrth benderfynu ceisiadau;**

- **Cyn rhyddhau unrhyw ganiatâd cynllunio, rhaid i ddatblygwyr tyrbinau gwynt gyflwyno bond i'r Awdurdod Cynllunio Lleol er mwyn sicrhau y bydd safle yn cael ei glirio a'i adfer i'w gyflwr blaenorol unwaith y bydd tyrbin(au) yn dod i ddiwedd eu hoes.**

**4. Y STRATEGAETH A FFEFRIR O RAN Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL**

(a) Adroddwyd - Bod y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr, 2013 wedi *"penderfynu argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cymeradwyo'r ddogfen Strategaeth a Ffefrir i bwrpasau ymgynghori gyhoeddus."*

(b) Adroddwyd - bod y ddogfen hon yn dangos sut y byddid yn mynd i'r afael a'r materion a'r patrymau amgylcheddol economaidd a chymdeithasol cyfredol sy'n cael effaith ar ardal y cynllun. Roedd hefyd yn edrych ar sut y byddid yn cyflawni anghenion datblygu'r ardal, yn cynnwys lleoliadau bras arfaethedig ar gyfer tai newydd, gwaith, a gofynion strategol eraill. Yn dilyn ei gymeradwyo gan Gynghorau Môn a Gwynedd, byddai'r ddogfen ar gael ar gyfer ymgynghori cyhoeddus am chwe wythnos. Byddai'r

safbwyntiau a fynegir o gymorth i baratoi cynllun mwy manwl, sef y Cynllun Adneuol fyddai'n cael ei ystyried gan y ddau Gyngor yn hwyrach yn 2013.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Eric Jones drafod ei ymholiad gyda swyddogion Cynllunio ar ddiwedd y cyfarfod, sef pam nad oedd Penmynydd wedi ei nodi o fewn yr hierarchaeth anheddau o dan Bolisi PS3.

**PENDERFYNWYD**

- **Cymeradwyo'r ddogfen Strategaeth a Ffefrir ddrafft ar gyfer ymgynghori cyhoeddus;**
- **Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) i wneud mân gywiriadau i'r ddogfen Strategaeth a Ffefrir cyn ei rhyddhau ar gyfer ymgynghori cyhoeddus.**

**5. MABWYSIADU CYNLLUN CYMORTH AT Y DRETH GYNGOR**

(a) Adroddwyd - Bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr, 2013 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn :-

*"Ei fod yn nodi gwneud Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") gan Gynulliad Cymru ar 19 Rhagfyr 2012;*

*Ei fod yn nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori gan y Cyngor ynghylch cyflwyno Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor;*

*Ei fod yn mabwysiadu'r Cynllun fel y nodir ef yn Atodiad 1 yr adroddiad."*

(b) Adroddwyd - Y bydd y cynllun Budd-dal Treth Gyngor cyfredol yn dod i ben ac y bydd cynllun Cymorth at y Dreth Gyngor yn dod yn ei le o Ebrill 2013. Roedd yn anghenraid statudol yng Nghymru i fabwysiadu'r cynllun erbyn 31 Ionawr, 2013 ac roedd angen i'r Cyngor hwn reoli cost y cynllun o fewn ei gyllideb. Cost amcanol y cynllun arfaethedig pe bai wedi bod yn ei le yn y flwyddyn gyfredol oedd £4.6m. Gyda chynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor, byddai'r ffigwr yn codi i £4.8m. Felly, roedd cost ragamcanedig y cynllun yn 2013-14 rhwng £4.80m - £4.95m oedd yn £150-300k yn fwy na'r grant o £4.65m. Byddai'r diffyg hwn yn cael ei drin fel risg gorfforaethol ar gyllidebau'r Cyngor a'i fonitro mewn adroddiadau monitro'r gyllideb i'r Pwyllgor Gwaith.

Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru bellach wedi rhoi Rheoliadau newydd gerbron ar gyfer 2013 a fyddai'n diwygio'r Rheoliadau blaenorol a gymeradwywyd ar 19 Rhagfyr 2012 ac roedd hynny yn golygu na fyddai'n rhaid i'r holl hawlwyr sy'n derbyn cefnogaeth o dan y cynllun orfod talu cyfran o'u bil treth gyngor. Byddai'r newidiadau yn cynyddu'r lefel uchaf o gefnogaeth y gallai hawlwyr cymwys ei dderbyn o 90% i 100% gyda chost y newid hwn yn cael ei gefnogi gyda £22m ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi bod Cynulliad Cymru ar 19 Rhagfyr 2012 wedi creu Rheoliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion a Ragnodir (Cymru) ("y Rheoliadau Gofynion a Ragnodir") fel y cawsant eu diwygio gan reoliadau Cynulliad Cymru 2013;**

- **Nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori wnaed gan y Cyngor ar gyflwyno'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor oedd i'w weld yn Atodiad B;**

- **Mabwysiadu'r cynllun fel y caiff ei nodi yn Atodiad A yr adroddiad;**

- **Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) i ddiwygio'r Cynllun Cymorth lleol ar gyfer y Dreth Gyngor 2013-14 pe bai angen i gymryd i ystyriaeth y newidiadau a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11:50 a.m.

**CYNGHORYDD R. Ll. JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# BWRDD CYNALIADWYEDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2012 (11:00am)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Comisiynydd Mick Giannasi (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, K. P. Hughes, T. Lloyd Hughes, Bryan Owen, Bob Parry OBE, G. O. Parry MBE, Tom Jones (fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio), Selwyn Williams (fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol), Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cymuned, Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes. |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Archwilio)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant)<br>Rheolydd Risg ac Yswiriant (JJ)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Mri. Andy Bruce a Huw Lloyd Jones (Swyddfa Archwilio Cymru) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Comisiynwyr Byron Davies ac Alex Aldridge<br>Y Cynghorwyr O. Glyn Jones. |

---

Cafwyd cyflwyniad gan y Comisiynydd Mick Giannasi ar Gam 2 yr Ymyrraeth a chyfeiriodd yn benodol at y materion isod:-

- Darparu rhywfaint o gyd-destun ar gyfer y cyfarfod o'r Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd;
- Crynhoi effaith y Cyfarwyddyd gan y Gweinidog a gyhoeddwyd ar 24 Medi 2012;
- Egluro'r rôl 'ostyngol' y byddai'r Comisiynwyr yn ei mabwysiadu i'r dyfodol;
- Amlinellu'r ffordd y byddai cam nesaf yr Ymyrraeth (Cam 2 - Gwelliant a Chynaliadwyedd) yn datblygu;
- Rhoi rhyw syniad bras o'r feddylfryd sy'n esblygu o ran Cam 2 - model llywodraethu;
- Egluro rôl a swyddogaeth Bwrdd Gwelliant a Chynaliadwyedd y Comisiynwyr i'r dyfodol.

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

## 2 YMDDIHEURIADAU

Fel yr uchod.

## 3 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Cynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2012.

## 4 RECRIWTIO A CHADW STAFF YN Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cymuned – Bod y Gwasanaethau Plant yn Ynys Môn wedi bod yn destun sgriwtini manwl trwy gydol 2011/12 gyda phryderon am gapasiti ac ansawdd y gwasanaethau yn ganolbwynt ar gyfer arolygiad ac adolygiad AGGCC. Datblygwyd ymateb gyda dau gam pendant mewn golwg. Y cam cyntaf oedd sefydlogi'r gwasanaethau a chanolbwyntio'n drwyadl ar berfformiad a chwistrellu ymdeimlad o gyflymder ac uchelgais i lwyddo. Yr ail gam oedd gwella ansawdd a chreu trawsnewid i ddarparu gwasanaeth sy'n addas i'r pwrpas dros y degawd nesaf.

Roedd y gwelliant mewn perfformiad i'w briodoli yn rhannol i'r ffordd yr oedd yr Adran wedi medru cyflogi staff asiantaeth profiadol i ychwanegu at ei staff ei hun. Fodd bynnag, pe bai aelod o staff dibrofiad sydd newydd gymhwyso yn cymryd lle staff asiantaeth, byddai hynny'n creu anghydbwysedd difrifol ac yn gwanio'r asesiadau amddiffyn plant yn benodol. Roedd hi'n sefyllfa debyg mewn perthynas â rheolaeth, yn arbennig ar lefel rheolwyr gwasanaeth. Roedd manylion ynghylch nifer a chostau staff asiantaeth i'w gweld ym mharagraff 2.1 yr adroddiad.

Roedd yn amlwg bod nifer o heriau i'r Cyngor o ran cwrdd â'i gyfrifoldeb corfforaethol i sicrhau bod ganddo weithlu medrus a galluog ar gyfer ei Wasanaethau Plant. Roedd swyddogion wedi gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn i roi sylw i'r heriau gweithlu a gydnabuwyd yn y gwasanaeth ac i ddarparu ystod o gyfleon hyfforddi a datblygu ar gyfer staff. Gallai'r Strategaeth Recriwtio a Chadw Staff roi'r Adran mewn sefyllfa gadarnhaol o ran gwneud cynnydd gyda llawer o'r materion hyn.

Roedd rhaid sylweddoli'r risgiau i'r sefydliad pe na bai staff cymwys a medrus yn y Gwasanaethau Plant. Roedd y cynnig (ar gyfer un Uwch Ymarferydd Ychwanegol a dau o Weithwyr Cymdeithasol ychwanegol) yn golygu bod angen £121,000 y flwyddyn yn ychwanegol at gyllideb y gwasanaeth. Bwriad y swyddi hyn, ynghyd â'r swyddi ar y sefydliad, oedd arwain at sefyllfa yn y gwasanaeth lle na fyddai unrhyw weithwyr asiantaeth yn cael eu cyflogi. Trwy ddisodli staff asiantaeth gyda gweithwyr Ynys Môn, byddai hynny'n arwain at arbedion oddeutu £150k ar gyfer y flwyddyn ariannol lawn nesaf (heb weithwyr Asiantaeth). Byddai'r ychwanegiadau arfaethedig hefyd yn cefnogi manteision sylweddol yn y tymor hir o ran gwell effeithlonrwydd, gweithlu mwy sefydlog a gwell ysbryd ymysg y staff – y cyfan oll yn cyfrannu at well perfformiad a chyflawniad.

Er y llwyddwyd i wneud gwelliannau sylweddol, ni fyddai modd cynnal y gwelliant heb roi sylw boddhaol i'r materion gweithlu. Roedd y rhain yn cael effaith ar gynaliadwyedd, ansawdd y gwasanaeth a ddarperir a gwariant arfaethedig ar y gweithlu, a byddai'n rhaid rheoli, monitro ac adrodd ar y cyfan. Cydnabuwyd bod hynny'n golygu y byddai pwysau'n parhau ar y gyllideb ar gyfer y gweithlu. Fodd bynnag, byddai'n cyfrannu'n sylweddol at ddull y Cyngor o reoli risg gan gyfeirio at ganlyniadau gwasanaeth, rheoli perfformiad ac osgoi costau yn y tymor hir.

*Penderfynodd y Bwrdd Cynaliadwyedd nodi cynnwys yr adroddiad ac, yn amodol ar drafodaeth foddhaol ar yr Achos Busnes yn y TUA a'r dull cyllido, cytunwyd mewn egwyddor i benodi dau weithiwr cymdeithasol ychwanegol ac un uwch ymarferydd am gyfnod cyfyngedig o hyd at 2 flynedd (er mwyn rhoi cefnogaeth hyfforddiant parhaus gyda golwg ar ostwng yn sylweddol y gwaith a wneir gan asiantaethau).*

## 5 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (GAN GYNNWYS STRATEGAETH A CHANLLAWIAU GWEITHREDOL)

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro – fod y Pwyllgor Archwilio, ar 24 Gorffennaf 2012, wedi penderfynu cyflwyno diweddariad ar y gofrestr risg i'r cyfarfod nesaf.

Fel rhan o'r diweddariad hwn, cynhaliwyd adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ddrafft, y Strategaeth Rheoli Risg a Chanllawiau cysylltiedig gyda golwg ar gyflwyno drafft y cytunwyd arno o'r tair dogfen i'r Pwyllgor Archwilio ar 25 Medi 2012 fel bod modd iddo argymell mabwysiadu'r strategaeth a'r canllawiau gan y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwaith.

Roedd y Strategaeth Rheoli Risg yn cynnwys argymhelliad i sefydlu Grŵp Rheoli Risg a fyddai'n gyfrifol yn y dyfodol am sicrhau bod y Fframwaith Rheoli Risg yn cael ei weithredu a'i adolygu'n barhaus. Byddai'r grŵp hwn yn gyfrifol am gynorthwyo i nodi risgiau newydd ac esblygol a'u hasesu a'u sgorio yn unol â gofynion y Strategaeth Rheoli Risg. Byddai'r Grŵp hefyd yn gyfrifol am adolygu a diweddaru'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn rheolaidd yn dilyn adolygiad o gofrestrau risg gwasanaethau.

Ar ôl i'r Pwyllgor Gwaith fabwysiadu'r Strategaeth a'r Canllawiau Rheoli Risg, byddai gan yr Awdurdod Fframwaith Rheoli Risg gweithredol ar gyfer nodi, gwerthuso, lliniaru ac adrodd ar risgiau corfforaethol.

Y Bwrdd Cynaliadwyedd:-

- Nododd y Bwrdd Cynaliadwyedd gynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a amlinellwyd ynddo;
- Nodwyd mai cyfrifoldeb Arweinydd y Cyngor fyddai'r cymeradwyo'r datganiad o reolaeth fewnol yn cymeradwyo datgelu'n gyhoeddus ganlyniad blynyddol yr asesiad hwn a'i gyhoeddi yn y Datganiad Cyfrifon blynyddol.

## 6 LLYTHYR ASESIAD GWELLA – ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Cyflwynodd Mr Huw Lloyd Jones y llythyr Asesiad Gwella dyddiedig 24 Medi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn adrodd ar waith archwilio ac asesu a wnaed ynghylch a yw'r Cyngor hwn wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi cwrdd â gofynion Mesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2009.

Gellid crynhoi'r llythyr fel a ganlyn:-

- *Roedd y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant dan y Mesur ac wedi gweithredu'n unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru;*
- *Yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r archwilwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, credir bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio gyda'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon;*
- *Roedd y Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran rhoi sylw i 10 thema gwella Llywodraethu Corfforaethol y Comisiynwyr;*
- *Roedd eglurder cyfeiriad y Cyngor yn gwella a gwnaed cynnydd rhesymol o ran rhoi sylw i'r cynigion ar gyfer gwelliant a nodwyd yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf;*

- *Er nad yw'n gyflawn hyd yma, roedd ailstrwythuro'r uwch reolaeth wedi ychwanegu'n sylweddol at gapasiti a gallu'r Cyngor i sicrhau gwelliant pellach o ran swyddogaethau corfforaethol a swyddogaethau gwasanaethau penodol;*

- *Roedd y Cyngor yn delio â materion dadleuol mewn ffordd fwy aeddfed nag o'r blaen ac roedd wedi cymryd camau i sicrhau y gellir cynnal y gwelliant;*

- *Roedd y Cyngor wedi gwella ei drefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn dechrau ymdrin ag adnewyddu democrataidd;*

- *Roedd y Cyngor wedi ymateb mewn ffordd adeiladol a chyfrifol i'r arolygiad hynod feirniadol a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru o'i wasanaethau addysg.*

Roedd y llythyr yn cyfeirio at gynigion pellach ar gyfer gwelliannau/argymhellion mewn perthynas â throsglwyddo grym i wneud penderfyniadau yn raddol o'r Comisiynwyr i'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol ac ynghylch ailddiffinio rôl y Comisiynwyr fel eu bod yn awr yn monitro cynnydd y Cyngor, tra'n cadw'r grym i ymyrryd os oes angen. Roedd y llythyr hefyd yn rhoi diweddariad i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer darparu'r gwaith Asesiad Gwella.

Byddai SAC yn parhau i fonitro ac adrodd ar gynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a amlinellwyd mewn adroddiadau a llythyrau blaenorol.

*Nododd a chroesawodd y Bwrdd Cynaliadwyedd gynnwys yr adroddiad.*

## 7 CHWARTER 1 – ADRODDIAD PERFFORMIAD CORFFORAETHOL

Dywedodd y Prif Weithredwr – Yn unol â'r Fframwaith Rheoli Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol, roedd yr adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran perfformiad y Cyngor yn erbyn trefniadau a gynlluniwyd ar draws meysydd darparu allweddol fel yr amlinellir yng Nghynllun Busnes Corfforaethol 2012/15.

Roedd yr adroddiad hwn yn fodd i'r Cyngor bwyso a mesur cynnydd yn erbyn y trefniadau a gynlluniwyd ac yn galluogi'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i sgriwtineiddio a chyflawni ei swyddogaeth rheoli perfformiad. Lle nodwyd risgiau i berfformiad, roedd swyddogion wedi sefydlu mesurau lliniarol.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r sefyllfa fel yr oedd ar ddiwedd Chwarter 1 (2012-13) yn dilyn y rownd gyntaf o'r trefniadau monitro perfformiad chwarterol. Byddai adroddiad ar wahân yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 8 Hydref 2012 i gyflwyno darlun y Cyngor o berfformiad yn erbyn trefniadau a gynlluniwyd yn y Cynllun Busnes Corfforaethol yn ystod 2011-12.

Cyflwynwyd manylion yr adroddiad yn unol â'r weithdrefn sgorio Coch-Ambr-Gwyrdd er mwyn rhoi arwydd clir o'r sefyllfa gyfredol mewn perthynas â pherfformiad. Roedd Atodiad 1 yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am eithriadau ar bob maes perfformiad allweddol, gan ganiatáu i aelodau a swyddogion ganolbwyntio ar y gwendidau cyfredol.

Roedd paragraff 4 yr Adroddiad yn cyfeirio at fanylion gorwariannau posib o fewn 4 gwasanaeth, ynghyd â gorwariant a ragwelir yn y gyllideb ar gyfer risgiau corfforaethol a llithriad ar agweddau corfforaethol y rhaglen arbedion.

Roedd y materion mewn perthynas â chwrdd â thargedau'r Cytundeb Canlyniadau yn achos pryder gan y byddai methiant i gwrdd â chytundebau canlyniadau yn arwain o bosib at golli grant

yn ystod 2012-13. Yn seiliedig ar berfformiad 2010/11, byddai cyflawniadau yn erbyn trefniadau a gynlluniwyd yn golygu y derbynnir grant o 75%. Roedd y Bwrdd Cynaliadwyedd o'r farn bod angen tynhau pethau er mwyn sicrhau bod modd derbyn y grant uchaf posib.

*Nododd y Bwrdd Cynaliadwyedd gynnwys yr adroddiad.*

**8 CEFNOGAETH GORFFORAETHOL AR GYFER RISGIAU A PHROSIECTAU A NODWYD**

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro – fod adroddiadau a gyflwynwyd i'r cyfarfod hwn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol wedi dwyn sylw at y prif risgiau isod yng nghyllideb 2012-13:-

- Integreiddio
- Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion
- Lleoliadau Allsirol i Blant
- Parciau a Chyfleusterau Awyr Agored
- Allanoli Canolfan Hamdden Biwmares
- Llithriad ar arbedion effeithlonrwydd Corfforaethol

Gweithredwyd prosiectau penodol i roi sylw i nifer o'r risgiau hyn a darparwyd cefnogaeth gorfforaethol ychwanegol gan gyfadrannau. O'r gorwariannau posib a nodir uchod, roedd y prif weithgareddau a oedd wedi cychwyn a'r gefnogaeth a roddwyd wedi eu rhestru ym mharagraffau 2 a 3 yr adroddiad.

Roedd rhaglen o adolygiadau gwasanaeth hefyd wedi cychwyn yn ddiweddar. Byddai'r rhain yn canolbwyntio ar nodi arbedion a'r bwriad oedd y byddant yn bwydo i mewn i Strategaeth Effeithlonrwydd ar gyfer 2013 ymlaen. Os oedd modd, byddai unrhyw arbedion a nodwyd yn cael eu gwneud yn y flwyddyn gyfredol.

Cadarnhaodd y TUA yn ddiweddar y byddai gyrru arbedion effeithlonrwydd a herio gorwariannau posib yn flaenoriaeth iddynt, er mwyn sicrhau agwedd wirioneddol gorfforaethol ar y lefel uchaf ymysg swyddogion ac i sicrhau hefyd fod deiliaid cyllidebau yn cael cymorth priodol ac yn cael eu herio. Rhagwelwyd y byddai'r rhaglen hon yn cael ei rhannu gyda'r Pwyllgor Gwaith yn rheolaidd. Byddai'r cyllidebau risg uchel hyn yn cael eu monitro'n fisol.

Nodwyd gorwariant posib o hyd at £2.2m yn yr adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer y chwarter cyntaf. Gellid cywiro hyn yn rhannol trwy weithredoedd deiliaid cyllidebau, gyda chymorth yr Adran Gyllid a rheolaeth gadarn gan y TUA. Byddai'r Gwasanaeth Cyllid yn nodi opsiynau ar gyfer newidiadau i'r gyllideb ac yn adolygu rhagamcanion yn rheolaidd.

*Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Bwrdd Cynaliadwyedd, cymeradwywyd y camau a gymerwyd a'r cynlluniau ar gyfer rheoli'r rhaglen. Nodwyd hefyd y byddai'r TUA yn adrodd yn ôl yn rheolaidd ynghylch y gorwariant posib o £2.2m a nodwyd yn yr adroddiad monitro ar y chwarter cyntaf.*

**9  CYFARFODYDD I'R DYFODOL**

*Nodwyd y byddai'r cyfarfod nesaf am 11:00am ar ddydd Iau 29 Tachwedd, 2012.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1:00pm

**Y COMISIYNYDD MICK GIANNASI**
**CADEIRYDD**

# BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYEDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2012 (11:00am)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Comisiynydd Alex Aldridge (Cadeirydd)<br>Y Comisiynydd Byron Davies<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, K. P. Hughes, R. Ll. Hughes, Bryan Owen, Bob Parry OBE, G. O. Parry MBE, Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cymuned, Cyfarwyddwr Datblygiad Cynaliadwy, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Pennaeth Swyddogaeth Dros Dro (Adnoddau). |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. Steve Pomeroy (Llywodraeth Cymru); Mri. Andy Bruce a Huw Lloyd Jones (Swyddfa Archwilio Cymru) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Comisiynydd Mick Giannasi, y Cynghorwyr T. Ll. Hughes, O. Glyn Jones. |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim i'w ddatgan.

**2 YMDDIHEURIADAU**

Fel yr uchod.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Cynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2012.

**4 CYLCH GORCHWYL DRAFFT**

Dywedodd y Comisiynydd Byron Davies mai peirianwaith oedd y Cylch Gorchwyl drafft i ddod â phopeth yn ymwneud â llywodraethu corfforaethol yn Ynys Môn at ei gilydd mewn cyfarfodydd misol o'r Bwrdd. Roedd y Comisiynwyr yn cytuno y dylai'r Cyngor bellach fod yn adrodd yn ôl ar ei asesiad ei hun o faterion i'r Bwrdd ac mai rôl y Comisiynwyr wedyn fyddai mesur a gwerthuso'r cynnydd sy'n cael ei wneud. Roedd y Comisiynwyr yn dymuno i'r Prif Weithredwr weinyddu'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu ei fod bellach yn cael ei berchenogi gan yr Awdurdod fel rhywbeth i wella llywodraethu corfforaethol ac i adrodd ar gynaliadwyedd.

Byddai'r Comisiynwyr yn gwerthuso ac yn mesur tair agwedd o safbwynt cynaliadwyedd llywodraethu corfforaethol - cynnydd yn erbyn deg thema llywodraethu corfforaethol y Comisiynwyr, agwedd aeddfed tuag at ddatblygu sefydliadol, a chael gwared â chymaint â phosibl o'r pethau yr oedd angen sylw ac a allai fod yn rhwystr i adferiad llawn cyn diwedd Mai. Roedd y Comisiynwyr yn dymuno sefydlu trefniadau y byddai'r Pwyllgor Gwaith a'r TUA, Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru yn fodlon â hwy, mewn perthynas â rôl y Comisiynwyr o ran hwyluso ail gyfnod yr ymyriad.

Dywedodd y Cadeirydd bod y Comisiynwyr yn teimlo eu bod erbyn hyn wedi cyrraedd croesffordd allweddol o safbwynt lefel briodol a rôl eu hymyriad. Nid oedd yn gweld unrhyw werth ychwanegol pe bai Comisiynwyr yn mynychu cyfarfodydd ffurfiol o'r Cyngor gan ei fod yn fwy na hyderus yng ngallu'r grymoedd cyfunol o fewn y TUA newydd a'r Pwyllgor Gwaith i allu rheoli busnes dydd i ddydd yr Awdurdod. Byddai'n rhaid cael Cytundeb y Gweinidog ynglŷn â hyn oll. Gofynnodd y Cadeirydd am safbwyntiau'r Pwyllgor Gwaith ar TUA yn hyn o beth.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Cyngor wedi dod ymhell ar y siwrnai wella ar ddiwedd Cyfnod 1. Roedd yr ail gyfnod yn awr yn gyfle i'r Awdurdod brofi pa mor gadarn oedd ei gyflawniadau. Roedd hefyd yn gyfle iddo gael ei ddal yn atebol ac i brofi ei fod wedi aeddfedu digon fel corfforaeth i'w alluogi i symud ymlaen heb unrhyw ymyriad yn y dyfodol.

Un arwydd o gorfforaeth iach oedd ei fod yn gallu hunanasesu neu hunanwerthuso ei hun yn barhaus. Roedd angen herio hyn yn fewnol ac yn allanol. Y meini prawf allanol oedd disgwyliadau Swyddfa Archwilio Cymru. Hefyd, roedd yn rhaid i rywun dderbyn bod diddordeb uniongyrchol o du'r Gweinidog oherwydd iddo gymryd camau penodol ac unigryw mewn perthynas â'r Cyngor hwn ac nid oedd yn mynd i gamu'n ôl oni bai ei fod o'r farn bod y rhagolygon am lwyddiant yn rhai gwirioneddol dda yn ogystal â chynaliadwyedd tymor hir.

Erbyn mis Mai, roedd yn gobeithio y gallai'r Awdurdod ddod â'r disgwyliadau hyn at ei gilydd a sicrhau bod y gweithdrefnau yn ddigon cadarn ac y byddai hunanwerthuso perfformiad yn rhoi i'r Cyngor yr hyder i weithio ac i gyfarfod â'r disgwyliadau yr oedd yn rhaid eu cyflawni. Roedd yn rhaid derbyn bod yna rai pethau ar ôl o'r hen drefn oedd angen rhoi sylw iddynt ac roedd yn croesawu mewnbwn y Comisiynwyr i helpu gyda'r materion hynny. Roedd hefyd yn gwerthfawrogi'n fawr y ffordd yr oedd y Comisiynwyr wedi helpu'r Cyngor trwy drosglwyddo gwybodaeth yn ychwanegol at gyflawni rôl fonitro.

Roedd yn awr yn awyddus i weld nifer o raglenni gwella ar draws y gwasanaethau yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd i'r Bwrdd hwn. Roedd y TAU bellach yn barod i gael ei ddal yn atebol ac roeddent i gyd yn sylweddoli'r disgwyliadau a roddwyd arnynt. Roedd y cydweithredu rhwng y Pwyllgor Gwaith a'r TUA yn gryf a chadarn iawn erbyn hyn, ac roeddent yn ystyried eu hunain i fod yn un tîm, un endid, yn dechrau ar siwrnai wella gyda'i gilydd.

Ar ran y Comisiynwyr, rhoddodd y Cadeirydd argymhelliad gerbron y Bwrdd ynglŷn â'r hyn yr oedd y Comisiynwyr yn ei gredu fyddai'n lefel briodol o bresenoldeb ar eu rhan i'r dyfodol. Byddai argymhelliad yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog y dylai mewnbwn y Comisiynwyr fod fel a ganlyn o 1 Ionawr, 2013, :-

- Yr ail ddydd Iau yn y mis – Comisiynwyr i gyfarfod gyda'r TUA a'r Pwyllgor Gwaith i gyfnewid safbwyntiau ar unrhyw faterion strategol lefel uchel;

- Trydydd dydd Iau yn y mis - Comisiynwyr i gyfarfod yng Nghaerdydd gyda Swyddogion y Gweinidog (gofynnwyd i'r Prif Weithredwr ddarparu copi drafft o gofnodion y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd a materion eraill yn ymwneud â'r Cylch Gorchwyl i helpu'r trafodaethau yn y cyfarfod hwn).

- Y pedwerydd dydd Iau yn y mis – Comisiynwyr yn mynychu'r cyfarfod o'r Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd.

Roedd y Comisiynwyr yn teimlo bod hyn yn lefel briodol o bresenoldeb, ond byddai angen iddynt hefyd fynychu unrhyw gyfarfod ar gais Cyngor Sir Ynys Môn a byddent yn fwy na hapus yn gwneud hynny.

Roeddent yn ystyried bod yna TUA cryf yn awr yn ei le, gyda Phwyllgor Gwaith oedd wedi ymrwymo i sicrhau bod y datblygiad sefydliadol a'r trawsnewid o'r safon uchaf. Roedd y Comisiynwyr yn dymuno datgysylltu'n ara deg, ond i bwynt lle'r oedd y rheoleiddwyr a'r Gweinidog a'i swyddogion yn gyfforddus y gallai'r Cyngor ddangos rheolaeth lawn o'i fusnes dydd i ddydd. Gofynnodd y Cadeirydd i Aelodau'r Bwrdd a oeddent yn fodlon gyda'r hyn oedd yn cael ei gynnig?

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y TUA yn fodlon gyda'r hyn oedd yn cael ei gynnig. Crybwyllodd bod yna rai profion difrifol yn wynebu'r awdurdod, sef gosod y gyllideb ar gyfer 2013-14 a sicrhau bod yna ymgysylltu llawn wrth nesáu at etholiad mis Mai 2013.

Dywedodd y Comisiynydd Byron Davies y byddai o werth i wahodd y Bwrdd Adfer Addysg i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd ac i ystyried ac i werthuso unrhyw adroddiadau fyddai'n codi. Yn yr un modd, dylid rhoi gwahoddiad i Estyn ac i AGGCC fynychu er mwyn dangos y ffordd agored ac aeddfed yr oedd y Bwrdd yn dymuno mynd i'r afael â busnes gwella a chynaliadwyedd ym Môn. Gofynnodd i'r Prif Weithredwr ddiwygio'r Cylch Gorchwyl drafft i adlewyrchu'r drafodaeth a gafwyd heddiw ac i gynnwys gwahoddiad i'r mudiadau a grybwyllwyd uchod fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.

Y mater pwysig i'r Comisiynwyr oedd sut y byddent yn adrodd erbyn Ionawr 2013 a Mai 2013. Roedd yn eithaf clir mai'r Bwrdd bellach fyddai model hunanasesu'r Comisiynwyr mewn perthynas â'r siwrnai cynaliadwyedd llywodraethu corfforaethol yn y dyfodol ac y byddai'r Comisiynwyr yn asesu ac yn herio'r cynnydd oedd yn cael ei wneud yn y Bwrdd lle byddai angen hynny. Byddai Comisiynwyr yn cadarnhau adroddiadau misol y Bwrdd mewn adroddiad chwarterol gyda honno'n ddogfen bwysig fyddai'n caniatáu i'r Gweinidog a'i swyddogion, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru werthuso'r cynnydd cynaliadwyedd llywodraethu corfforaethol oedd yn cael ei wneud gan Ynys Môn yn ystod Cyfnod 2 yr ymyriad.

Byddai adroddiad Chwarter 6 ar gyfer mis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2012 yn cael ei adolygu yn dilyn ymweliad y Gweinidog â'r swyddfeydd hyn ar 13 Rhagfyr a byddai ei gynnwys ar gael i'r Bwrdd hwn yn Ionawr 2013. Roedd y Comisiynwyr yn dymuno rhoi syniad cynnar i'r Gweinidog bod yr Awdurdod yn mynd i'r cyfeiriad iawn yn ystod Ionawr 2013. Byddai'r adroddiad Chwarter 7 fyddai'n dilyn am y cyfnod Ionawr – Mawrth 2013 yn mynd â'r Cyngor yn agos iawn at etholiadau mis Mai 2013 a byddai'r Comisiynwyr yn dymuno rhoi i'r Gweinidog asesiad a gwerthusiad cadarn o gynaliadwyedd llywodraethu corfforaethol yn yr adroddiad hwn.

Cadarnhaodd y Comisiynwyr bod y cydweithredu o du Ynys Môn, Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hyd yn hyn wedi bod yn ardderchog ac roedd yn gobeithio y byddai hynny'n parhau. Y nod yn awr oedd i'r adroddiad Chwarter 7, lle byddai'r Comisiynwyr mewn sefyllfa i ddangos i'r Gweinidog bod Ynys Môn yn ddigon aeddfed fel sefydliad i symud ymlaen i weinyddiaeth newydd yn seiliedig ar y gwerthusiad cynaliadwyedd llywodraethu corfforaethol.

Dywedodd yr Arweinydd y bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da ers dechrau'r ymyriad. Roedd y cyngor a'r gefnogaeth a gafwyd gan y Comisiynwyr, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn ardderchog. Yn awr roedd yn amser i'r Aelodau a'r TUA gymryd perchenogaeth y Cyngor yn ôl. Roedd yn teimlo ei fod yn syniad da i gyfarfod â'r Comisiynwyr yn fisol. Roedd y Cyngor yn llawer cryfach gyda'r Tîm Uwch Arweinyddiaeth yn ei le i fynd â'r Cyngor yn ei flaen ac roedd yna hefyd berthynas weithio dda ac iach gyda'r Pwyllgor Gwaith. Roedd yn cydnabod fel yr oedd y Prif Weithredwr wedi crybwyll yn flaenorol, bod yna rai materion eithaf difrifol a fyddai angen sylw.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd ac i'r Pwyllgor Gwaith am eu cefnogaeth gyda sut y dylai'r Comisiynwyr barhau i weithio gyda'r Awdurdod. Roedd y Bwrdd yn cytuno hefyd y dylid estyn gwahoddiad i'r Bwrdd Adfer Addysg, Estyn ac AGGCC i fynychu cyfarfodydd o'r Bwrdd hwn pan fyddai angen hynny.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddogion o Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru oedd yn bresennol heddiw nodi'r sylwadau a wnaed gan y Comisiynwyr yng nghyswllt priodoldeb eu presenoldeb yn y dyfodol a cheisiodd gael eu cefnogaeth i sicrhau y gallai'r Gweinidog ar yr amser priodol ystyried caniatáu i'r Awdurdod ddod yn rhan integrol o deulu llywodraeth leol unwaith yn rhagor ac i redeg ei fusnes heb ymyrraeth trwy brofi ei gynaliadwyedd o ran llywodraethu corfforaethol.

*Penderfynodd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd ofyn i'r Prif Weithredwr ddiweddaru'r Cylch Gorchwyl arfaethedig i gymryd i ystyriaeth y drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod heddiw a'i gyflwyno yn ei ffurf derfynol i'r cyfarfod nesaf o'r Bwrdd ar 20 Rhagfyr 2012.*

**(b) Cynllun Trawsnewid Ynys Môn**

Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr - gyda chyfnod yr ymyriad yn dod i ben ac er mwyn cefnogi'r Cyngor i symud ymlaen mewn dull cynaliadwy, roedd trafodaeth wedi ei chynnal ac roedd y TUA wedi datblygu cynllun trawsnewid Ynys Môn.

Roedd y Map Ffordd i Ynys Môn newydd, sef adroddiad strategol lefel uchel wedi derbyn cytundeb a chymeradwyaeth y Cyngor ym mis Medi 2012 a hwn oedd y fframwaith i'r Cyngor allu gyrru'r rhaglen newid yn ei blaen. Un peth allweddol i'r cyfnod nesaf oedd nodi'r rhaglen waith oedd yn codi o'r cynllun ffordd, ei integreiddio gyda'r gwaith arall yr oedd y Cyngor yn ei wneud, a hynny wedi ei osod yn erbyn y cyd-destun ariannol heriol; trefnu'r rhaglen waith lawn mewn ffordd fyddai'n sicrhau bod gan yr Awdurdod hwn berchenogaeth ac atebolrwydd ar y lefel uchaf ar gyfer ei darparu, gyda hynny'n darparu ffocws ac yn blaenoriaethu gwaith, a bod y rhaglen hefyd yn un y gellid ei darparu gyda'r capasiti y gellid ei greu.

Roedd y Cynllun Trawsnewid yn gosod y rhaglen am weddill tymor y Cyngor hwn hyd fis Mai 2013 ac yna'r tair blynedd ganlynol hyd at 2016.

Er mwyn rhoi ffocws i'r gwaith rhwng y flwyddyn hon ac Ebrill 2012, roedd y Comisiynwyr yn dymuno canolbwyntio'r gweithgaredd gwella o fewn dau gylch 90 diwrnod. Roedd gwaith wedi ei wneud gan y TUA mewn cydweithrediad â Chomisiynwyr a Hay i fapio allan nifer o gydrannau allweddol er mwyn dechrau'r Strategaeth a'r Rhaglen Drawsnewid. Byddai cynnydd gyda sefydlu'r Strategaeth a'r Rhaglen Drawsnewid a'r ddau gylch 90 diwrnod yn cael ei adrodd yn fisol i'r Bwrdd Gwella a Chynaliadwyaeth hyd at Fai 2013. Ar ôl y dyddiad hwnnw, ac fel rhan o baratoi ar gyfer y Cyngor newydd yn 2013, byddai angen i'r Cyngor sicrhau bod dulliau adrodd ac atebolrwydd priodol yn eu lle i sicrhau nad oedd y momentwm yn cael ei golli.

Roedd y Cynllun Trawsnewid yn dal i gael ei gyfrif fel gwaith ar y gweill ond y bwriad oedd cyflwyno'r Cynllun yn ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ar 20 Rhagfyr 2012. Yn y cyfamser ,roedd angen sicrhau aliniad gyda'r 10 thema Llywodraethu Corfforaethol a chydag argymhellion cyfredol Swyddfa Archwilio Cymru.

Dywedodd y Comisiynydd Byron Davies ei fod dros y blynyddoedd wedi edrych ar nifer o ddogfennau ynglŷn â newid sefydliadol a thra roedd llawer yn methu oherwydd nad y rhai a oedd yn gweithredu'r newid yn cymryd perchenogaeth ohonynt, roedd yn hynod o falch yn yr hyn yr oedd TUA wedi gallu ei gyflawni a chymryd perchenogaeth ohono. Roedd yn derbyn, mae'n debyg, bopeth yr oedd y Comisiynwyr wedi ceisio ei gyflawni ym Môn ers dechrau'r ymyriad 18 mis yn ôl. Pe gallai'r Cyngor yn awr sicrhau perchnogaeth o'r Cynllun hwn a chreu system o hunanwerthuso, yna roedd yn hynod hyderus y gallai'r Cyngor greu dadl fyddai'n darbwyllo erbyn Mai 2013 fel y gallai'r Gweinidog ystyried y dylai Ynys Môn fod yn rhydd o unrhyw ymyriad. Roedd yn credu bod y TUA wedi paratoi dogfen oedd wedi ei strwythuro ac wedi ei hystyried yn dda ac y byddai'n datrys problemau'r gorffennol ac er y byddai'n cymryd 3 blynedd i gwblhau'r ddau gyfnod o 90 diwrnod, yr oedd wedi dod yn rhan allweddol holl haeddiannol o'r cynllun. Roedd yn edrych ymlaen yn fawr iawn at werthuso'r cynllun mewn cydweithrediad gyda'r Pwyllgor Gwaith dros y misoedd i ddod.

Mewn ymateb dywedodd y Prif Weithredwr bod angen cael cydberchnogaeth cyfan gwbl o'r cynllun ar draws yr holl sefydliad. Y cam nesaf fyddai cael y Penaethiaid Gwasanaeth, rheolwyr canol a rhai ar y meinciau ôl i gymryd rhan ac yn y pen draw newid ffordd o feddwl y Cyngor fel endid.

Diolchodd y Cadeirydd i'r TUA am y cynllun trawsnewid oedd, ynghyd â'r 10 thema llywodraethu corfforaethol ac unrhyw bethau a oedd yn parhau i fod angen sylw yn awr yn diffinio rôl y Comisiynwyr yn ystod y misoedd a oedd ganddynt ar ôl yn yr Awdurdod. Byddai'n rhoi'r hyder i'r Comisiynwyr gyfleu i'r Gweinidog ac i'r rheoleiddwyr bod yna bellach weledigaeth gydlynol a chlir o fewn yr Awdurdod ynglŷn â sut y byddai'n aeddfedu ac yn datblygu yn adferiad llywodraethu corfforaethol cynaliadwy llawn.

Ar ran Swyddfa Archwilio Cymru, dywedodd Huw Lloyd Jones bod yna gydnabyddiaeth gyffredin heddiw bod sgiliau arweinyddiaeth y Comisiynwyr wedi bod yn enfawr, ond roedd yn cytuno ei bod yn awr yn amser i'r Awdurdod gymryd ei gamau cyntaf tuag at adferiad. Y prawf allweddol gydag ail gam yr ymyriad oedd gweld a oedd yr Awdurdod yn barod i sefyll i fyny drosto'i hun mewn ffordd aeddfed ac ystyriol i brofi bod y blociau adeiladu a roddwyd yn eu lle yn ystod cyfnod cyntaf yr ymyrraeth wedi llwyddo. Byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud popeth oedd yn bosibl i gefnogi'r Awdurdod i symud y rhaglen newydd yn ei blaen.

Dywedodd y Cadeirydd y gallai'r Cynllun Trawsnewid fod yn ddangosydd allweddol i Swyddfa Archwilio Cymru yng nghyswllt problemau mewn llefydd eraill a chyda sicrhau na fyddai'r lefel hon o ymyriad yn digwydd eto. Byddai'r dystiolaeth anecdotaidd hon yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol, swyddfa'r Gweinidog a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill, gyda sicrhau na ddylid caniatáu i unrhyw gyngor gyrraedd sefyllfa debyg yn y dyfodol ac fe allai Ynys Môn fod yn enghraifft ardderchog o ran llywodraeth leol i Awdurdodau eraill.

Dywedodd Mr. Steve Pomeroy bod popeth yr oedd wedi ei glywed heddiw yn awgrymu iddo y dylai'r Cyngor yn awr sefyll ar ei ddwy droed ei hun. Byddai'n bwysig i'r Gweinidog yn awr weld y cynllun yn cael ei ddarparu go iawn.  Roedd bwriad y Comisiynwyr i dreulio dau ddiwrnod ym Môn ac un diwrnod yng Nghaerdydd bob mis i'w weld yn hollol dderbyniol iddo ef o fewn ysbryd yr hyn oedd yn ceisio cael ei gyflawni.

*Gofynnodd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd i'r Dirprwy Brif Weithredwr gyflwyno fersiwn derfynol y Cynllun Trawsnewid i gyfarfod nesaf y Bwrdd ar 20 Rhagfyr 2012.*

**5.  DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL**

Cytunodd y Bwrdd Cynaliadwyedd ar y dyddiadau canlynol a oedd wedi eu neilltuo ar gyfer cyfarfodydd o'r Bwrdd yn y dyfodol (y cyfan am 11:00am ac ar y dydd Iau olaf yn y mis) :-

20 Rhagfyr 2012
31 Ionawr 2013
28 Chwefror 2013
28 Mawrth 2013
25 Ebrill 2013
30 Mai, 2013.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:25 pm.

**Y COMISIYNYDD ALEX ALDRIDGE**
**(CADEIRYDD)**

**BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYEDD**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2012 (11:00am)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Comisiynydd Alex Aldridge (Cadeirydd)<br>Y Comisiynydd Mick Giannasi<br><br>Y Cynghorwyr W.J. Chorlton; K.P. Hughes; R.Ll. Hughes; T.Lloyd Hughes; Bryan Owen; Bob Parry,OBE; G.O. Parry,MBE;<br>Y Prif Weithredwr; Dirprwy Brif Weithredwr; Cyfarwyddwr Cymuned; Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy; Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr.Steve Pomeroy (Llywodraeth Cymru); Y Mri Andy Bruce a Huw Lloyd Jones (Swyddfa Archwilio Cymru); Mrs.Tanis Cunnick (Rheolwr Prosiect Bwrdd Adfer Addysg Ynys Môn) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Comisiynydd Byron Davies; Y Cynghorydd O.Glyn Jones. |

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim

**2. YMDDIHEURIADAU**

Fel yr uchod

**3. COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Cynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2012 fel rhai cywir.

**4. CYLCH GORCHWYL DRAFFT**

Cyflwynwyd – Fersiwn ddrafft o'r Cylch Gorchwyl a'r Gweithdrefnau Gweithredu wedi'i diweddaru ar gyfer y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd a fydd yn rhoi mecanwaith ffurfiol i'r Comisiynwyr i gyflawni eu cyfrifoldeb i oruchwylio cam 'Gwella a Chynaliadwyedd' ymyrraeth Llywodraeth Cymru yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Byddai'r Bwrdd yn parhau i gwrdd drwy gydol Cam Gwella a Chynaliadwyedd ymyrraeth y Gweinidog sydd ar hyn o bryd yn debygol o barhau tan 31 Mai 2013.

Nododd y Prif Weithredwr ei fod wedi cymryd sylw o'r sylwadau a wnaethpwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd ac roedd wedi eu hymgorffori yn y Cylch Gorchwyl drafft diwygiedig.

Gofynnodd am eglurder ar ddau fater penodol yn y ddogfen, sef:-

1. Rôl a chyfraniad ochr graffu'r Cyngor o fewn y Cylch Gorchwyl arfaethedig, gan nad oes cyfle ar hyn o bryd i graffu ar berfformiad y Bwrdd.

2. Cafwyd awgrym cryf yn y ddogfen y dylai'r Bwrdd Adfer Addysg ac AGGCC gyflwyno eu canfyddiadau i'r Bwrdd fel y byddai'n cael trosolwg cyflawn o berfformiad yr Awdurdod a sut yr oedd wedi adweithio i'r risgiau llywodraethu corfforaethol. Roedd yn gryf o blaid dilyn y trywydd hwn. Gallai'r adroddiadau hynny wedyn fynd gerbron y Gweinidog a'r Bwrdd hwn fel y byddai'r ddwy ochr yn ymwybodol o'r cynnydd sy'n cael ei wneud. Pe bai'r Clych Gorchwyl yn cael ei dderbyn roedd o'r farn y dylid gofyn i Gadeiryddion y Bwrdd Adfer Addysg ac AGGCC a fyddent yn fodlon derbyn dilyn y trywydd hwn.

Awgrymodd y Cadeirydd efallai y gallai'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol graffu ar y materion hyn, cyn gynted ag yr oedd pob cylch 90 diwrnod wedi'i gwblhau ac y gellid gwahodd y Prif Weithredwr neu'r Dirprwy Brif Weithredwr i'r cyfarfod hwnnw.

Roedd gan Mr.Huw Lloyd Jones, Swyddfa Archwilio Cymru, rywfaint o amheuon oherwydd pe bai'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol am holi ynghylch trafodaethau'r Bwrdd hwn, mae'n bosibl y byddai'n rhy hwyr erbyn diwedd y cylch 90 diwrnod. Gofynnodd a allai cofnodion y cyfarfod hwn fynd i gyfarfod nesaf y pwyllgor Craffu fel cyfaddawd? Gallai ymateb y pwyllgor Craffu wedyn ddod yn ôl i gyfarfod cynharaf posibl y Bwrdd hwn.

Roedd y Cadeirydd yn cytuno â'r cynnig i gymryd cam o'r fath ac awgrymodd y gellid galw cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol pe bai angen. Gofynnodd i'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr lunio fformwla a fyddai'n galluogi craffu ar y cofnodion hyn ac adrodd y canlyniad yn ôl i'r Bwrdd hwn.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn hapus i gymryd cam o'r fath. Gofynnodd pwy fyddai'n bresennol yn y cyfarfod hwn o'r Bwrdd ar ôl etholiad 2013.

Wrth ymateb dywedodd y Prif Weithredwr mai diben y Bwrdd ar hyn o bryd oedd mynd â'r Cyngor i ddiwedd cyfnod yr ymyrraeth. Ar ôl hynny, byddai angen i'r Cyngor asesu cyfraniad y math hwn o gyfarfod tuag at redeg y Cyngor newydd yn y dyfodol.

Cytunodd y Cadeirydd â'r Prif Weithredwr y gobeithid y byddai gwaith y Bwrdd yn cael ei gyfuno â phrosesau gweithio arferol Gweithrediaeth a SLT cwbl weithredol erbyn diwedd Mai 2013.

Aeth y Prif Weithredwr ymlaen i ddweud bod angen i hyn gael ei weld fel rhan o strwythur cyffredinol y Cyngor ar gyfer y dyfodol. Elfen bwysig iawn o'r cyfarfod hwn oedd monitro ac asesu perfformiad a dwyn swyddogion i gyfrif. Roedd cyfarfodydd anffurfiol yn awr yn cael eu cynnal yn rheolaidd rhwng y Weithrediaeth a'r SLT, a'r rhesymeg wrth wraidd hynny oedd y gellid cael sgwrs a chyfnewid safbwyntiau ynghylch datblygu strategaethau a pholisïau. Roedd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal hefyd ag Arweinwyr Grwpiau gyda gwybodaeth yn cael ei rhannu ag aelodau'r meinciau cefn hefyd.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai Comisiynwyr yn cwrdd â'r Arweinydd a'r SLT ar ail ddydd Iau'r mis. Fel rhan o'r ddeialog honno, gofynnodd i'r Prif Weithredwr edrych ar fanylion yn y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd fel y bydd pawb yn gwbl ymwybodol o'r datblygiadau. Heblaw am faterion o ddydd i ddydd, byddai rhan sylweddol o'r ddeialog yn ymwneud â gwaith y Bwrdd hwn. Gofynnodd hefyd i swyddogion ystyried priodoldeb cynnwys Craffu ac adborth gan AGGCC a Bwrdd Adfer Estyn. Roedd yn bwysig bod y Bwrdd hwn yn edrych ar faterion a oedd yn weithredol a chyfredol.

Cyfeiriodd y <u>Comisiynydd Mick Giannasi</u> at yr integreiddio rhwng gwaith y Bwrdd hwn ac AGGCC a Bwrdd Adfer Estyn. Roedd y Cylch Gorchwyl hwn yn seiliedig ar sylwadau penodol a wnaethpwyd gan Weinidogion ar yr adeg pan roddwyd ymyrraeth AGGCC ac Estyn ar waith. Roedd yn teimlo bod angen integreiddio gwaith y cyrff hyn yn nhrafodaethau'r Bwrdd hwn. Roedd perygl y gallai'r Awdurdod ddiweddu gyda dwy agenda wahanol phe na bai integreiddio o'r fath yn digwydd.

Dywedodd y <u>Prif Weithredwr</u> bod y swyddog proffesiynol sy'n cynorthwyo'r Bwrdd Adfer Addysg wedi ei wahodd i'r cyfarfod hwn heddiw fel arsylwr gyda'r bwriad o adrodd yn ôl i'r Bwrdd Adfer.

<u>Tynnodd y Cynghorydd R. Ll. Hughes</u> sylw at Baragraff 5 y Cylch Gorchwyl, sef *"cael adroddiadau cynnydd ac asesiadau gan y Bwrdd Adfer Addysg ac AGGCC a fydd yn galluogi'r Comisiynwyr i ystyried pa mor effeithiol yw'r Cyngor wrth ymateb i argymhellion gan reoleiddwyr ac archwilwyr statudol."* Awgrymodd y dylai'r geiriau *'a gweithrediaeth"* gael eu hychwanegu ar ôl y gair *'Comisiynwyr'* yn y paragraff hwn.

Cydsyniodd y <u>Cadeirydd</u> i'r cais ac y dylai'r SLT gael ei ychwanegu hefyd.

Dywedodd y <u>Comisiynydd Mick Giannasi</u> fod Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, o dan Gam 1 yr Ymyrraeth, yn aelodau o'r Bwrdd mewn gwirionedd. Y rheswm pam nad oeddent wedi'u cynnwys o dan Gam 2 yr Ymyrraeth oedd am fod hwn yn fwrdd tymor penodol gyda dibenion penodol iawn h.y. monitro, asesu ac adrodd i'r Gweinidog ar gynnydd o ran cyflawni'r ddau gylch gwaith 90 diwrnod yn erbyn y rhaglen newid trawsnewidiol.

Oherwydd hynny, roedd y Comisiynwyr wedi cadw'r aelodaeth a'r cylch gwaith yn seiliedig ar faterion o'r fath. Ar ôl 31 Mai 2013, mae'n debyg, byddai angen rhywbeth tebyg iawn ar yr Awdurdod hwn i sicrhau cynaliadwyedd. Roedd dod â'r Cadeiryddion Craffu yn opsiwn posibl ar ôl y dyddiad hwn, roedd bwydo cofnodion y Bwrdd i'r Pwyllgorau Craffu yn opsiwn arall neu alinio'r cylch gwaith fel y byddai proses y Bwrdd wedi'i chysylltu â Chraffu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R.Ll.Hughes at Baragraff 8 y Trefniadau Gweithredu, *"ble byddai'r holl wybodaeth perfformiad yn cyrraedd y Comisiynwyr a'r Prif Weithredwr ddeng niwrnod cyn dyddiad cyfarfod y Bwrdd."* Gofynnodd a fyddai pob aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn cael yr un wybodaeth.

Cadarnhaodd y <u>Prif Weithredwr</u> y byddai hynny'n digwydd.

Gadawodd y <u>Cadeirydd</u> y pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod hwn i'r Dirprwy Brif Weithredwr i gael eu datblygu yn y cyfarfod rhwng y Comisiynwyr, y Weithrediaeth a'r SLT ar 10 Ionawr 2013.

Cyfeiriodd y <u>Comisiynydd Mick Giannasi</u> at Baragraff 2 y Trefniadau Gweithredu. Byddai angen newid y geiriad ynddynt gan y byddai'r Comisiynwyr yn cwrdd â'r Gweinidog yng Nghaerdydd ar y dydd Iau hwnnw. Felly, roedd angen ad-drefnu'r cyn gyfarfod anffurfiol hwnnw â'r Prif Weithredwr a'r Rheolwr Rhaglen i drafod y cyfarfod arfaethedig o'r Bwrdd ac i gytuno ar yr agenda, y cynnwys a'r fformat.

Yr oedd cyfeiriad hefyd yn yr adroddiad at ofynion penodol o ran amserlenni ac adrodd. Pe bai'r cylch gorchwyl hwn yn cael ei dderbyn heddiw, byddai'n golygu y byddai angen i'r Awdurdod gael ei adroddiad cyntaf ar y prif bwyntiau, yr adroddiadau ar y prif bwyntiau gan AGGCC a Bwrdd Adfer Estyn a'u hunan asesiad cyntaf erbyn 31 Ionawr. Pe bai hynny'n digwydd, byddai'r Comisiynwyr yn adrodd i'r Gweinidog o fewn 10 niwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

*Penderfynodd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd dderbyn y Cylch Gorchwyl yn amodol ar y gwelliannau a godwyd yn y cyfarfod hwn.*

## 5. CYNLLUN TRAWSNEWID YNYS MÔN

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weithredwr fersiwn ddrafft ddiwygiedig o'r Cynllun Trawsnewid a oedd wedi'i ddiweddaru ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd ar 29 Tachwedd 2012.

Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr – Ers y cyfarfod diwethaf hwnnw, roedd gweithdy wedi'i gynnal gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth i drafod y Cynllun Trawsnewid. Yn wreiddiol, roedd 9 thema allweddol yn ategu'r ffordd y byddai'r Cyngor yn gweithio. Yn dilyn trafodaeth â'r Penaethiaid Gwasanaeth, cafodd y nifer ei ostwng i 6 thema er mwyn bod yn fwy hylaw a hefyd i leihau'r elfen o ddyblygu a oedd yn arfer bodoli. Y rhain oedd y 6 thema yr oedd angen i aelodau, rheolwyr a staff feddwl amdanynt wrth ymgymryd â'u gwaith o ddydd i ddydd a hefyd wrth lunio eu cynlluniau strategol a gweithredol.

Hefyd, roedd y SLT wedi bod drwy'r agenda 90 diwrnod gyntaf a hefyd wedi adolygu rhai o'r meysydd eraill yn yr adroddiad. Gofynnodd y Dirprwy Brif Weithredwr am arweiniad ynghylch ble ddylai'r ddogfen fynd yn awr ar gyfer perchnogaeth yr aelodau, y Weithrediaeth ynteu'r Cyngor, ynteu'r ddau?

O ran y Byrddau Rhaglen a ragwelid, roedd yn rhagweld y byddai aelodau'r Weithrediaeth, Craffu a'r SLT yn cael eu cynrychioli ar y Byrddau hyn er mwyn goruchwylio cynnydd ac yna'n adrodd yn ôl i gyfarfod o'r Bwrdd hwn er mwyn iddo gael trosolwg o waith y byrddau rhaglen hynny.

Yn y Flwyddyn Newydd roedd bwriad i drefnu sesiynau cyfathrebu ar gyfer staff ble byddai aelodau'r SLT a Phenaethiaid Gwasanaeth yn cymryd rhan i egluro'r Cynllun Trawsnewid i'r gweithlu. Roedd bwriad hefyd i egluro'r cynllun a'r agenda effeithlonrwydd â rheolwyr canol gan y byddant hwy'n allweddol i sicrhau bod y diwylliant newydd yn cael ei fabwysiadu.

Roedd nifer o gynlluniau wedi'u mabwysiadu a oedd eisoes yn amlinellu amcanion, gwerthoedd a themâu allweddol y Cyngor. Roedd ethol Cyngor newydd ym Mai 2013 am gyfnod o 4 blynedd yn gyfle i'r Awdurdod egluro ac alinio cynlluniau ac i ystyried blaenoriaethau'r Cyngor newydd. Roedd datblygu cynllun corfforaethol felly'n weithgarwch allweddol i'w gyflawni erbyn mis Hydref 2013, o fewn 6 mis ar ôl yr etholiad.

Er mwyn canolbwyntio ar y gwaith rhwng hyn ac Ebrill 2013, hoffai'r Comisiynwyr weld pwyslais y gwaith gwella ar ddau gylch 90 diwrnod. Mae gwaith wedi'i wneud eisoes gan SLT ar y cyd â'r Comisiynwyr a Hay i fapio nifer o gydrannau allweddol i ddechrau ar y Trawsnewid. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1, ac roedd Atodiad 2 yn amlinellu'r ddau gylch gwaith 90 diwrnod a amlinellwyd gan y SLT ac y cytunwyd arnynt.

Byddai cynnydd ar sefydlu'r gwaith Trawsnewid a'r ddau gylch 90 diwrnod yn cael ei adrodd yn fisol i gyfarfodydd o'r Bwrdd hwn hyd fis Mai 2013. Ar ôl y dyddiad hwn ac fel rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer y Cyngor newydd, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod mecanweithiau adrodd ac atebolrwydd priodol ar waith i sicrhau nad yw'r momentwm yn cael ei golli.

Tynnodd y Dirprwy Brif Weithredwr sylw'r Bwrdd at faterion penodol o bwys yn yr adroddiad er mwyn bwrw ymlaen â'r Cynllun.

Roedd y Comisiynydd Mick Giannasi o'r farn bod swyddogion erbyn hyn wedi llwyddo i drosi'r agenda newid trawsnewidiol generig lefel uchel a gynhyrchwyd gan Hay i fod yn rhywbeth a oedd yn awr yn berthnasol, ymarferol, ystyrlon ac, yn bwysicaf oll, yn eiddo i'r Cyngor. Roedd Comisiynwyr yn hapus gyda'r cynllun fel sail i'r daith Drawsnewidiol ac roeddent yn barod i ddweud hynny wrth y Gweinidog pan fyddent yn adrodd iddo nesaf ar 31 Ionawr. Byddai'r Cynllun yn cael ei gynnwys fel atodiad i'w hadroddiad i'r Gweinidog ac roedd yn ddogfen y gallai'r Comisiynwyr fod yn atebol amdani i gyflawni'r ddau gylch cyflenwi 90 diwrnod.

Byddai angen adroddiad ar y prif bwyntiau ar y Comisiynwyr wedyn wedi'i ategu gan dystiolaeth yn erbyn y ddau gylch 90 diwrnod. Roedd angen iddynt wybod beth oedd wedi neu heb ei gyflawni, yr hyn a fwriadwyd ar gyfer y cyfnod nesaf, pa risgiau oedd angen i'r Comisiynwyr fod yn ymwybodol ohonynt a pha rwystrau a phroblemau fyddai angen sylw. Roedd angen i'r Comisiynwyr gael digon o wybodaeth i ddarbwyllo'r Gweinidog fod y daith i adfer y sefyllfa yn dilyn y trywydd cywir. Pe bai'r Comisiynwyr yn gallu cytuno o fewn y 14 diwrnod nesaf sut un fyddai'r adroddiad ar y prif bwyntiau, byddai hynny'n gam mawr ymlaen. Yna byddai angen i'r Comisiynwyr gytuno ar sut un fyddai'r broses hunan asesu chwarterol.

Roedd yr aelodau'n teimlo os oedd y Cynllun Trawsnewid am weithio bod yn rhaid iddo raeadru i lawr drwy'r holl aelodau a staff ac roedd rhai'n amau a oedd gan yr Awdurdod ddigon o adnoddau a gallu i ateb yr her?

Wrth ateb dywedodd y Cadeirydd y byddai'n awr yn ymdrech ar lefel tîm i weithredu agenda anodd dros ben. Pwysleisiodd nad oedd yn rhaid cwblhau popeth erbyn 31 Mai 2013. Roedd hon yn rhaglen a oedd yn mynd y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw ac ymlaen hyd at 2016.

Dywedodd y Comisiynydd Mick Giannasi fod y ddau gylch 90 diwrnod cyntaf yn elfennau hanfodol yr oedd yn rhaid iddynt fod yn eu lle i alluogi'r newid i ddigwydd. Roedd yr holl faterion yr oedd aelodau wedi cyfeirio atynt ar waith eisoes wedi'u hymgorffori yn y cylchoedd hynny. Fodd bynnag, roedd un o'r egwyddorion allweddol nad oedd o bosibl wedi'i drosi'n benodol yn ymwneud ag edrych ar y prosesau a ble'r oedd y costau ac yna mynd ati'n systematig i ddileu gwastraff. Gofynnodd i'r Cyngor ystyried a ddylai gael adolygiad systematig fel un o'i egwyddorion a oedd yn gofyn *'beth yw diben y Cyngor hwn, beth mae'n ymdrechu i'w gyflawni, beth yw ei brosesau allweddol, a ydynt mor effeithiol ag y gallent fod, faint yw'r gost, i ble mae'n harian yn mynd a sut mae dechrau lleihau'r costau hynny'* gan fod y Cyngor yn wynebu sefyllfa anodd wrth geisio darparu gwasanaethau gwell a gwell, ateb galw cynyddol am ei wasanaethau a hynny ar gyllideb lai. Pwysodd ar y Cyngor i ystyried cymryd cam o'r fath.

Gofynnodd y Cynghorydd W.J.Chorlton a oedd angen i'r Cynllun fynd gerbron y Weithrediaeth neu'r Cyngor.

Atebodd y Cadeirydd drwy ddweud y dylai'r mater fynd gerbron y Weithrediaeth fel penderfyniad polisi. Byddai'r Comisiynwyr yn cynnig proses erbyn Ionawr i gael ei chynnwys gyda Chraffu. Gofynnodd i'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr i weithio â'r aelodau i ystyried rôl Craffu, Estyn a'r AGGCC yn y mecanwaith adrodd.

*Nododd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd gynnwys yr adroddiad fel sail i fwrw ymlaen â'r Cynllun Trawsnewid yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12:40 p.m.

**Y COMISIYNYDD ALEX ALDRIDGE**
**(CADEIRYDD)**

**BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYEDD**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr, 2013 (11:30 am)

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Comisiynydd Alex Aldridge (Cadeirydd)<br>Y Comisiynydd Mick Giannasi<br>Y Comisiynydd Byron Davies<br>Prif Weithredwr<br><br>Pwyllgor Gwaith : Y Cynghorwyr K.P.Hughes; R.Ll.Hughes; G.O.Parry,MBE.<br><br>Cadeiryddion Sgriwtini : Y Cynghorwyr Keith Evans; Selwyn Williams.<br>Dirprwy Brif Weithredwr; Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy; Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes; Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau); Rheolydd Rhaglen Gwella'r Gwasanaethau Plant (JD) |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr.Steve Pomeroy a Ms Lisa Hughes (Llywodraeth Cymru)<br>Mr.Mark Roberts (Arolygydd Awdurdodau Lleol, AGGCC); Y Mri. Andy Bruce a Huw Lloyd Jones (Swyddfa Archwilio Cymru); Ms.Tanis Cannick (Rheolydd Prosiect ar gyfer Bwrdd Adfer Addysg Ynys Môn). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr W.J.Chorlton, Bryan Owen, R.G.Parry,OBE;<br>Y Cyfarwyddwr Cymuned. |

O ystyried y baich gwaith a'r absenoldebau staff yn yr Adain Gyfieithu, cytunodd y Bwrdd nad oedd angen Cyfieithydd ar gyfer y cyfarfod.

Esboniodd y Prif Weithredwr mai'r bwriad, yn dilyn cyfarfod diwethaf y Bwrdd, oedd cynnal y cyfarfod hwn mewn lleoliad llai ffurfiol. Fodd bynnag, yn dilyn adolygu'r cylch gorchwyl, gwelwyd bod dros 28 o bobl yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod hwn ac am y rheswm hwnnw, ac i bwrpas cyfieithu a recordio'r cyfarfod, roedd angen ei gynnal yn Siambr y Cyngor.

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Fel yr uchod.

**3. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2012 ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir.

## 4. STRATEGAETH DRAWSNEWID – GWERTHUSIAD Y TÎM UWCH ARWEINYDDIAETH O'R ADRODDIAD GWAITH

Dywedodd y Prif Weithredwr – bod Map Ffordd ar gyfer Yr Ynys Môn Newydd wedi ei gytuno a'i gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Medi 2012 a'r Pwyllgor Gwaith ar 14 Ionawr, 2013. Hwn oedd y fframwaith i'r Cyngor yrru'r rhaglen drawsnewid yn ei blaen.

Er mwyn canolbwyntio ar waith rhwng nawr a Mai 2013, roedd Comisiynwyr Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni ganolbwyntio ar weithgareddau gwella mewn dau gylch 90 diwrnod. Roedd y TUA wedi bod yn gweithio gyda'r Comisiynwyr a Hay i amlinellu nifer o gydrannau allweddol i ddechrau'r broses drawsnewid, ac fe'u hamlinellwyd fel dau gylch 90 diwrnod o waith yr oedd y TUA wedi ei lunio a'i gytuno.

Yn gyffredinol, roedd cynnydd da yn cael ei wneud ym mhob maes. Cafwyd ymateb da i swydd y Rheolydd Rhaglen ac roedd y TUA yn hyderus y gellid penodi i'r swydd gyda hyn. Roedd cynlluniau wedi eu sefydlu i gychwyn cyfathrebu'r Cynllun i'r staff ac, yn y cyswllt hwnnw, byddai holl aelodau'r TUA a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn rhan o'r broses honno. Y bwriad oedd i'r Cyngor newydd gymeradwyo'r holl gynlluniau a strategaethau allweddol yn Hydref 2013.

Rhoddwyd cyfle i'r Dirprwy Brif Weithredwr roi crynodeb o bob un o'r 16 o feysydd thema yr oedd angen rhoi sylw iddynt fel rhan o'r ddau gylch gwaith 90 diwrnod. Ar gyfer pob un o'r 16 o feysydd gwaith, roedd crynodeb a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma a rhai o'r meysydd y byddid yn gweithio arnynt nesaf.

Dywedodd y Cynghorydd R.Ll.Hughes ei fod wedi bod mewn cyfarfod cyngor cymuned neithiwr ac mai un o'r cwestiynau a ofynnwyd iddo oedd a oedd angen swydd Rheolydd Rhaglen ar gyfer y rhaglen drawsnewid. Roedd yn credu ei bod yn bwysig codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r hyn y mae'r Awdurdod yn ceisio ei wneud yn y cyswllt hwn.

Yn ei ymateb dywedodd Y Prif Weithredwr y byddai o fantais i roi gwybod i staff y Cyngor am fwriadau'r Cynllun gan y byddent yn cael dylanwad ar ganfyddiad cymunedau lleol. Os byddai'r Awdurdod yn rheoli'r rhaglen gorfforaethol yn gadarn ac yn effeithiol, byddai hynny'n arwain at arbedion effeithlonrwydd yn y pen draw a gwell gwerth am arian o ran y gwasanaethau a ddarperir i drethdalwyr Ynys Môn.

Gofynnodd Y Cadeirydd i'r Comisiynydd Mick Giannasi gydgysylltu gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr o ran rhoi gwybod am resymeg gadarn y Comisiynwyr dros hyrwyddo buddsoddiad mewnol.

Dywedodd Mr.Steve Pomeroy fod Llywodraeth Cymru yn gobeithio medru paratoi erthygl yn enw'r Gweinidog ar gyfer y papurau newydd lleol erbyn canol mis Chwefror yn esbonio (ymysg pethau eraill), pam bod angen gwariant o'r fath.

Dywedodd Y Cadeirydd y byddai aelodau'r Bwrdd yn gwerthfawrogi'r ymdrech honno gan y Gweinidog.

Dywedodd Y Prif Weithredwr bod angen sicrhau bod Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod a'i gynllun ariannol ar gyfer y tymor canol yn mynd law yn llaw â'i gilydd. Yn y gorffennol aethpwyd atynt o wahanol bersbectif. Bellach mae angen iddynt fod yn llawer mwy integredig.

Roedd Mr.Huw Lloyd Jones yn croesawu sylwadau'r Prif Weithredwr ond roedd ganddo amheuon bychain, yn yr ystyr mai un o'u dyletswyddau nhw dan y ddeddfwriaeth fel Archwilwyr yw gwneud sylw ar gynnydd gyda'r amcanion gwella. Roedd perygl bod dwy ffrwd

yn rhedeg yn gyfochrog, sef Cynllun Corfforaethol a luniwyd gan yr Awdurdod fis Mai diwethaf a'r Cynllun Trawsnewid. Byddai dod â'r ddwy elfen ynghyd yn rhoi sylw i'r pryderon hynny. Byddai SAC yn adrodd ar Flaengynllun Gwaith yr Awdurdod ym mis Mehefin ond, erbyn mis Hydref nesaf, byddai'r Awdurdod yn cynhyrchu hunanasesiad o sut mae'n perfformio yn erbyn ei amcanion gwella a bennwyd fis Mai diwethaf. Dyna lle gallai'r diffyg cysylltiad ddod i'r wyneb pe na bai'n cael sylw.

Dywedodd y Comisiynydd Byron Davies fod hunanasesiad yn ymarfer mawr ac roedd y Comisiynwyr yn trafod sut y gellid pwysleisio mwy ar hynny. Byddai'n gwerthfawrogi'r SAC yn trafod methodoleg gyda'r Prif Weithredwr fel bod y ddau barti yn ymwybodol o ofynion y naill a'r llall.

Aeth y Prif Weithredwr ymlaen i ddweud bod y TUA yn awyddus iawn i ymgysylltu gyda'r rheoleiddwyr a phartneriaid allweddol eraill mewn ffordd anffurfiol ac ar sail reolaidd. Gyda gobaith, byddai modd cael cyfarfodydd misol / pob chwe wythnos gyda chydweithwyr SAC i dracio cynnydd. Roedd y swyddogion yn cymryd sylw o'r cyngor a'r arweiniad a ddarperir yn y cyfarfodydd anffurfiol hyn i sicrhau na fyddai'r Awdurdod yn darganfod ei hun mewn trafferthion difrifol wrth wyro oddi ar y llwybr.

Cyfeiriodd y Comisiynydd Byron Davies at y Thema Strategaeth Pobl yn y Cynllun ac at y broses o Arfarnu Swyddi yn benodol. Roedd cynnydd ardderchog yn cael ei wneud ond rhybuddiodd swyddogion i beidio â bod yn rhy galed arnynt eu hunain yn hyn o beth oherwydd bod y rhan fwyaf o Awdurdodau wedi cael trafferthion gyda'r broses. Roedd yn ystyried bod yr Awdurdod wedi ymgysylltu'n dda a gwneud cynnydd ac y byddai cwblhau'r broses arfarnu swyddi yn gwneud gwahaniaeth anferth.

Gofynnodd Y Cadeirydd i'r rhai oedd yn bresennol heddiw i nodi bod arwydd clir a diamwys gan y weinyddiaeth i symud ymlaen o ran cydweithio.

Cyfeiriodd y Comisiynydd Byron Davies at gyllideb y Cyngor ar gyfer 2013-14 a dywedodd ei fod yn gweld yr hyn sy'n cael ei wneud gyda'r broses gyllidebol a'i bod, mewn gwirionedd, cystal ag yn unman arall. Roedd y broses ymgysylltu wedi bod yn ardderchog a rhaid diolch i SAC am y gwaith yr oeddent wedi ei wneud i gynorthwyo gyda'r broses honno. Yn yr un modd, roedd Strategaeth Asedau Ynys Môn yn arloesol iawn a phe bai modd rhoi sylw i'r mater eiddo dros ben ar yr Ynys, roedd yn sicr y byddai'r Bwrdd Adfer yn falch. Byddai'r Awdurdod hefyd yn bellach ymlaen yn y cyswllt hwn na'r rhan fwyaf o awdurdodau eraill yn y DU.

O dan y Thema Cydweithio, soniodd Y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod hwn yn cymryd rhan mewn llu o drefniadau cydweithredol anstrwythuredig ar lefel isel. Roedd angen rhoi blaenoriaeth i'r rhain oherwydd eu bod yn cymryd llawer o amser y swyddogion a gellid cwestiynu rhai ohonynt o ran eu gwerth am arian i'r Awdurdod. Byddai'n fwy cynhyrchiol canolbwyntio ar y prosiectau mwy.

Daeth y Comisiynydd Mick Giannasi â'r sgwrs i ben trwy ddweud y bu'n bwysig heddiw i'r Dirprwy Brif Weithredwr fynd trwy'r adroddiad yn fanwl. Yn y cyfarfod diwethaf roedd y Comisiynwyr wedi gofyn am fanylion a thystiolaeth ynghylch cyflawni'r Cynllun. Roedd yr adroddiad a oedd gerbron y Bwrdd heddiw yn dangos dealltwriaeth o sgôp, graddfa a chymhlethdod y Cynllun y cychwynnir arno. Hwn oedd y rhan 180 diwrnod cyntaf o gynllun datblygu 3 blynedd gan y TUA a'r Pwyllgor Gwaith. Dros y 3-4 cyfarfod nesaf byddai'r Comisiynwyr yn ceisio sicrhau bod hon yn broses y gellid ei rheoli.

Ar ôl gweld y darlun mawr, byddai'r Comisiynwyr yn awr yn symud at broses adrodd ar sail eithriadau. Erbyn y cyfarfod nesaf roeddynt wedi gofyn am grynodeb dwy dudalen o'r hyn a gyflawnwyd yn y mis blaenorol yn erbyn y Cynllun, beth oedd wedi llithro, a pham, sut oedd yn cael sylw, ffactorau risg a chamau lliniaru. Ar ôl y ddau gyfarfod nesaf byddai

hunanasesiad hollbwysig o ran sefyllfa'r Cyngor mewn perthynas â'i gynaliadwyedd i'r dyfodol. Byddai angen i'r TUA ddangos i'r Comisiynwyr a'r Rheoleiddwyr y cynnydd a wnaed a dangos y sefyllfa gyfredol. Wedi hynny ceid adroddiad terfynol gan y Comisiynwyr yn gwneud sylwadau ar hunanasesiad yr Awdurdod.

*Roedd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd yn cymeradwyo'r cynnydd a wnaed o ran datblygu'r Rhaglen Drawsnewid ac yn cefnogi'r cyfeiriad teithio a amlinellir yn yr adroddiad gwaith a oedd ynghlwm.*

**5. (a) DIWEDDARIAD AR DDATBLYGIAD BWRDD ADFER ADDYSG YNYS MÔN**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan Reolydd Prosiect Bwrdd Adfer Addysg Ynys Môn yn rhoi diweddariad ar y datblygiadau mewn perthynas â'r rhaglen gwella ysgolion ers y cyfarfod cyntaf o'r Bwrdd ar 7 Tachwedd 2012.

Nododd Y Rheolwr Prosiect y byddai Mr.Mel Ainscow a Mr.Steve Vincent o'r Bwrdd Adfer yn croesawu'r cyfle i ddod i'r cyfarfod nesaf o'r Bwrdd hwn ar 28 Chwefror 2013 i ateb cwestiynau ar unrhyw faterion yr oedd angen eglurhad arnynt. Dywedodd fod y Bwrdd Adfer yn credu bod gan Ynys Môn botensial i fod yn Awdurdod Addysg ardderchog.

Diolchodd Y Cadeirydd i'r Rheolydd Prosiect am y diweddariad ac estynnodd groeso i'r Mri Ainscow a Vincent i ddod i'r cyfarfod nesaf.

Soniodd y Comisiynydd Mick Giannasi fod cynnydd cyflym wedi ei wneud ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd hwn, yn yr ystyr bod Comisiynwyr wedi bod mewn trafodaethau gyda Mr.Mel Ainscow ac roedd cyfarfod pellach wedi ei drefnu ar gyfer 20 Chwefror i'w friffio ar y materion ehangach o gwmpas y cynllun trawsnewid. Roeddent hefyd wedi trafod gydag ef sut y byddai modd ymgorffori adroddiad manylach ar gynnydd yn adroddiad y Comisiynwyr ac fel rhan o'r cyhoeddiad cyffredinol ar gyfer y Gweinidog. Roedd Mr.Mel Ainscow yn cydnabod yn benodol bwysigrwydd cydweithio yn arbennig gyda materion fel rheoli asedau a stadau, TG a ffocws ar gymunedau a chwsmeriaid.

Roedd y Comisiynydd Byron Davies yn gobeithio y byddai'r Rheolydd Prosiect yn cyfleu sylwadau'r Bwrdd hwn i'w gydweithwyr ar y Bwrdd Adfer Addysg.

*Nododd y Bwrdd Gwella a Chynaladwyedd gynnwys yr adroddiad.*

**(b)DIWEDDARIAD AR GYNNYDD YN Y GWASANAETHAU PLANT**

Cyflwynwyd – Adroddiad gwaith gan y Cyfarwyddwr Cymuned yn erbyn y Cynllun Darparu Gwasanaeth. Roedd y Cynllun wedi ei gytuno, ei fonitro a'i herio gan y Bwrdd Gwella Gwasanaeth bob mis, gydag adroddiadau hefyd yn mynd i'r Pwyllgor Sgriwtini, Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd Atodiad 1 yr adroddiad yn cynnwys materion rhaglen ar gyfer 2013 ac roedd Atodiad 2 yn cynnwys dangosyddion perfformio allweddol am y cyfnod Ebrill – Rhagfyr 2012.

Gwnaed cynnydd sylweddol hyd yma, o fewn cyd-destun o gynnydd sylweddol yn nifer y cyfeiriadau, nifer y plant y gofelir amdanynt a'r niferoedd ar y Gofrestr Diogelu Plant. Adroddwyd ar y cynnydd hwn yn y Llythyr Adolygu Blynyddol gan AGGCC ac yn yr Adroddiad Terfynol gan y Tîm Cefnogaeth Annibynnol.

Un o'r newidiadau mwyaf sylweddol oedd yn y maes staffio a fu'n bryder mawr i AGGCC. Ers yr Hydref, roedd 12 o staff newydd wedi eu recriwtio a gwelwyd gostyngiad o 55% yn nifer y staff asiantaeth dros y flwyddyn ac roedd bwriad i sicrhau gostyngiad pellach hefyd yn ystod 2013-14 i 0% pe bai materion ynghylch gallu i recriwtio i swyddi uwch reolwyr yn cael eu datrys.

Cyfeiriwyd at y meysydd pryder a oedd yn weddill ym Mharagraff 3.1 yr adroddiad ynghyd â'r camau cywiro.

I gloi, gwnaed cynnydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf i wella'r gwasanaeth. Yn wir, mewn sawl maes, roedd yr Awdurdod yn gallu dangos y canlyniadau gorau yng Nghymru ac roedd ei berfformiad cystal neu'n well na'r cyfartaledd drwy Gymru - roedd honno'n dipyn o gamp o gofio ei fod wedi dechrau o fod ymysg y perfformwyr salaf yng Nghymru dim ond blwyddyn yn ôl. Roedd y rhaglen wella wedi symud o adfer a sefydlogi i gynnal a gwreiddio'r gwelliannau. Yr her i'r Gwasanaethau Plant oedd parhau i wella ar draws pob maes a sicrhau bod honno'n broses barhaus a hir dymor.

Dywedodd Y Cynghorydd K.P.Hughes, yr Aelod Portffolio, ei fod yn gredwr mawr mewn systemau a phrosesau a fedrai ddwyn sylw'n gyflym at unrhyw bryderon neu lithriad. Roedd yn weddol fodlon bod y fath systemau bellach wedi eu sefydlu ac roedd wedi cael sicrwydd bod staff unigol yn gwybod beth yn union oedd eu swyddogaeth, beth a ddisgwylid ohonynt a beth fyddai eu cyfraniad i'r tîm cyfan. Nid da lle gellir gwell fodd bynnag, ac roedd yn awyddus i sicrhau bod pethau'n parhau i wella.

Dywedodd Mr.Mark Roberts, o AGGCC eu bod wedi gweld gwelliant mewn perfformiad ac yn y dangosyddion perfformio. Roedd adroddiad y Tîm Cefnogaeth Annibynnol ar ddiwedd mis Hydref yn dwyn sylw at gynnydd ac roedd y cynlluniau corfforaethol a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod heddiw yn rhoi sylw i lawer o'r materion a nodwyd eisoes. Pery heriau i'r Gwasanaeth ac roedd cyfarfodydd ymgysylltu wedi eu trefnu ar gyfer yr ychydig fisoedd nesaf i drafod unrhyw feysydd sy'n parhau i fod yn bryder.

*Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Bwrdd Gwella a Chynaladwyedd.*

**6. AMSERLEN YMYRRAETH Y GWEINIDOG - CYNGOR SIR YNYS MÔN (31 IONAWR – 31 MAI, 2013)**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – gohebiaeth a gafwyd gan Adran Cyllid Llywodraeth Leol a Pherfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

Adroddwyd - Fod y cyfarwyddyd newydd a gyhoeddwyd ar gyfer y Cyngor hwn ym mis Hydref 2012 yn dod â'r ymyrraeth gyfredol i ben a bod hynny wedi arwain at y pwerau a oedd gan Gomisiynwyr y Gweinidog yn dychwelyd i'r Cyngor ar unwaith. Fodd bynnag, mae'r Comisiynwyr yn cadw'r grym i gadarnhau neu i wrthdroi unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cyngor sy'n tynnu'n groes i gyngor swyddogion statudol.

Roedd y cyfarwyddyd cyfredol yn rhedeg tan ddiwedd Mai 2013 a chadarnhaodd y Gweinidog ei fwriad i ddod â'r ymyrraeth i ben yn gyfan gwbl pe bai'r Cyngor yn parhau i wella. Fodd bynnag, roedd angen darbwyllo'r Gweinidog bod achos cryf dros wneud hynny. Er na fyddai unrhyw benderfyniad i ddod â'r ymyrraeth i ben yn un di-droi'n-ôl, byddai'n rhaid iddo fod yn seiliedig ar y dystiolaeth gliriaf posibl bod y Cyngor wedi goresgyn ei broblemau a'i fod yn gallu cynnal ei hun. O'r herwydd, byddai Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd yn arbennig o agos yn y misoedd nesaf, gan gynnwys y broses o osod cyllideb y Cyngor ar gyfer 2013-14.

Roedd yr adroddiad yn nodi'n amodol nifer o gamau/cyfnodau allweddol rhwng Ionawr a Mai 2013 y dylai'r Cyngor eu cyflawni/arddangos er mwyn dod â'r ymyrraeth i ben. Dylai'r Comisiynwyr werthuso a monitro'r meysydd yr oedd y Cyngor yn gyfrifol amdanynt.???. Yn yr amserlen, roedd nifer o adroddiadau i'w cyhoeddi yn ystod y cyfnod hwn a fyddai'n cynorthwyo'r Gweinidog i wneud ei benderfyniad.

Manteisiodd Y Prif Weithredwr ar y cyfle i sôn y byddai Gweinidog Tai Llywodraeth Cymru, Huw Lewis, yn dod i Ynys Môn yfory i longyfarch yr Awdurdod am fod yr awdurdod lleol cyntaf yng Ngogledd Cymru a dim ond yr ail yng Nghymru gyfan i gyflawni Rhaglen Safonau Ansawdd Tai Cymru yn llwyddiannus.

Dywedodd Mr.Steve Pomeroy fod hynny'n gamp eithriadol ar ran yr Awdurdod.

Ar ran y Comisiynwyr, estynnodd Y Cadeirydd longyfarchiadau i'r Awdurdod am wella'r stoc dai o 4,000 o eiddo yn Ynys Môn i lefel dderbyniol erbyn Rhagfyr 2012.

*Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Bwrdd Gwella a Chynaladwyedd.*

**7. ADRODDIAD DIWEDDARU AR GYNNYDD GYDA'R 10 THEMA A BENNWYD GAN GOMISIYNWYR LLYWODRAETH CYMRU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – Yn unol â Fframwaith Cynllunio Corfforaethol a Rheoli Perfformiad y Cyngor, roedd yr Adroddiad Chwarter 3 hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed ym mherfformiad y Cyngor yn erbyn y trefniadau a gynlluniwyd ar draws meysydd cyflawni allweddol fel yr amlinellir yng Nghynllun Busnes Corfforaethol 2012-15.

Cyflwynwyd y manylion yn yr adroddiad yn unol â'r graddfeydd CAG y cytunwyd arnynt er mwyn rhoi arwydd clir o'r perfformiad cyfredol.

*Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1:20 p.m.

**Y COMISIYNYDD ALEX ALDRIDGE**
**(CADEIRYDD)**

# CYNIGION CYLLIDEBOL TERFYNOL Y PWYLLGOR GWAITH 2013-14

Mae cynigion cyllidebol terfynol y Pwyllgor Gwaith yn ymddangos yn:

Tabl A - Strategaeth Cyllideb Refeniw y Tymor Canol;
Tabl B - Cyllideb Refeniw 2013-14 a'r newid o 2012-13;
Tabl C - Cyllideb Cyfalaf 2013-14;
Tabl Ch - Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys.

Mae'r manylion isod yn dilyn gofynion Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb:-

(i) **os ydyw'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth gyllidebol ac ydyw'r gyllideb flynyddol arfaethedig yn cydymffurfio gyda'r strategaeth honno, a manylion am unrhyw wahaniaethau**

Ffurfiwyd y gyllideb arfaethedig o fewn Datganiad a Strategaeth Cyllideb y Pwyllgor Gwaith a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith 3 Rhagfyr 2012. Fe'i diweddarir yn awr ar gyfer y Strategaeth Cyllideb Refeniw y Tymor Canol sy'n ymddangos yn Nhabl A.

(ii) **y Dreth Gyngor arfaethedig am y flwyddyn**

Mae'r Dreth Gyngor arfaethedig yn ffigwr o £939.15 yn ôl Band D, cynnydd o 5% ar 2012-13. Yn ei braesept mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi cytuno ar gynnydd 4.0%. O ganlyniad i braesept y Cynghorau Tref neu Gymuned bydd y cyfanswm sy'n daladwy gan drethdalwyr yn codi 4.8%.

(iii) **trosglwyddiadau arfaethedig i'r arian wrth gefn ac ohonynt**

Trosglwyddir £500k i'r balansau cyffredinol i sicrhau fod y balansau'n parhau ar lefel digonol, yn dilyn gostyngiad rhagamcanedig ym malansau cyffredinol o ganlyniad i orwariant yn 2012-13.

(iv) **crynodeb o'r gwariant arfaethedig fesul gwasanaeth**

Cyflwynir manylion yn Nhabl B ar gyfer y gyllideb refeniw a gwelir manylion y gyllideb gyfalaf yn Nhabl C.

(v) **manylion am newidiadau sylweddol i gyflenwi gwasanaeth oherwydd y gyllideb**

Disgwylir newidiadau sylweddol yn 2013-14. Gosodwyd y gyllideb yn unol â'r Cynllun Corfforaethol a'r Blaenoriaethau Gwella. Yn ogystal, gosodwyd arian o'r neilltu ar gyfer buddsoddi yn Ynys Ynni i gynorthwyo i ddarparu am y newidiadau.

O ystyried graddfa'r arbedion sydd ei angen, bydd disgwyliad ar draws nifer o wasanaethau fydd y ffordd y'u cyflawni'r yn cael ei newid.

Amddiffynnwyd adnoddau i ysgolion yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, blaenoriaethwyd capasiti ychwanegol ar gyfer gwasanaethau plant a fydd yn galluogi'r swyddogaeth i ymateb yn unol â chyfrifoldebau statudol a'r pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth.

Er mwyn cyflawni arbedion effeithlonrwydd, yn ystod 2013-14 bydd Addysg, Gofal Cymdeithasol Oedolion, Hamdden a Llyfrgelloedd yn cael eu hailgynllunio a'i ail-gyflunio, gyda'r canlyniad fydd newidiadau yn y ffordd cyflawnir gwasanaethau. O bosib, bydd hyn yn cael effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth cyfredol a rhai newydd.

Sicrhaodd cynyddu capasiti'r canol corfforaethol yn 2013-14 fod cefnogaeth berthnasol a digonol yn cael ei roi i'r sefydliad i gynorthwyo'r ddarpariaeth o wasanaethau sy'n rhoi gwerth am arian. Drwy hyn creuwyd strwythur mwy hyblyg fydd yn gallu darparu cyngor amserol ac arweiniad i'r meysydd gwasanaeth i'w cynorthwyo i gyflawni eu hamcanion. Fodd bynnag, dylai cyflwyno systemau newydd a defnyddio gwell technoleg ac asedau, gyflawni arbedion effeithlonrwydd yn y maes yma yn ystod 2013-14.

**(vi)** **<u>i ba raddau y mae'r cynigion yn gwneud lwfans ar gyfer adroddiadau Pwyllgorau</u>**

Lluniwyd y cynigion terfynol ar ôl ymgynghori gyda'r Pwyllgorau Sgriwtini a chymeryd ystyriaeth o'u hymateb. Maent hefyd yn cymryd ystyriaeth o benderfyniadau'r Panel Apwyntiadau a Tâl a Graddfeydd.

**(vii)** **<u>i ba raddau mae'r cynigion yn gwneud lwfans am waith ymgynghori a wnaed</u>**

Daw'r cynigion yn dilyn ymgynghori ar y cynigion cyllideb fel a ganlyn:-

- Comisiynwyr, Pwyllgor Gwaith cysgodol a'r Pwyllgor Gwaith drwy gydol y broses cyllideb;
- Aelodau etholedig a'r Comisiynwyr, drwy dri gweithdy ar wahân yn Awst a Rhagfyr 2012 ac Ionawr 2013;
- Pwyllgorau Sgriwtini yn eu Cyfarfodydd Ionawr/Chwefror 2013;
- Fforwm Ysgolion ar 3 Rhagfyr 2012 a 4 Chwefror 2013;
- Pwyllgor Cydgysylltu'r Sector Gwirfoddol - 19 Ionawr 2013;
- Cynghorau Tref a Chymuned - 29 Ionawr 2013;
- Partneriaeth Adfywio Economaidd – 7 Chwefror 2013.

**(viii)** **<u>manylion am wahaniaethau sylweddol eraill rhwng y cynigion cychwynnol a'r rhai terfynol</u>**

Y prif wahaniaethau rhwng y cynigion cychwynnol a'r rhai terfynol yw:-

- mabwysiadu'r cynigion arbedion o £2.860m oddi wrth y cyfanswm £3.977m;
- mabwysiadu'r cynigion twf o £384k oddi wrth y cyfanswm £863k.

| | |
|---|---|
| 1 | Mae Arian Wrth Gefn Proses o £500k wedi ei ddyrannu i ymdrin â'r canlynol:<br><br>**a)** gostyngiad o £250k mewn arbedion a gafodd eu rhaglennu'n flaenorol yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy ar gyfer 2013-14, mewn perthynas â ffioedd cartrefi gofal preswyl, a<br>**b)** chynnydd o £250k yn y swm a ganiateir ar gyfer y pwysau a ragwelir yn achos Plant sy'n Derbyn Gofal, o £600k i 850k. |
| 2 | Yn dilyn y newidiadau hwyr a wnaed i weithredu Diwygio Lles, amcangyfrifir bod y swm sydd ei angen i dalu cost y galw cynyddol am wasanaeth a fydd yn deillio o'r newidiadau mewn Gofal Cymdeithasol a Thai wedi gostwng o £150k. |
| 3 | Mae un o'r cronfeydd wrth gefn gwasanaeth penodol wedi cael ei leihau o £50k. |
| 4 | Mae newid bach i'r llinell Ardollau, sydd wedi gostwng o £3k. |
| 5 | Hefyd, o ganlyniad i'r newidiadau hwyr i weithredu Diwygio Lles, amcangyfrifir y bydd y Cyngor yn elwa o gynnydd net yn swm y Dreth Gyngor gasgladwy o £156k. |
| 6 | Mae'r Arian Wrth Gefn Gwella yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwariant ar y Bwrdd Gwella Addysg a gwariant arall sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gwella gwasanaethau, ac mae'r disgrifiad a ddangosir wedi ei ddiwygio i egluro hyn. |
| 7 | Gostyngiad o £125k yn yr arbedion a gafodd eu rhaglennu yn flaenorol yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy mewn perthynas â lwfansau car i staff. |
| 8 | Addasiadau mewn Costau Corfforaethol a Democrataidd, gan leihau'r cyfanswm o £135k. |

**(ix)** **<u>cynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn</u>**

Manylir yn ffurfiol ar y rhain yn y penderfyniad cyllidebol arfaethedig.

**(x)** **<u>cynigion ar gyfer benthyca</u>**

Mae'r cynigion ar gyfer benthyca a buddsoddi yn ymddangos mewn adroddiad ar wahân gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Dangosyddion Pwyllog fel yn Nhabl Ch.

**(xi)** **<u>unrhyw faterion statudol eraill i'w penderfynu gan y Cyngor llawn</u>**

Gweler adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau).

**TABL A**

## STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW TYMOR CANOLIG ARFAETHEDIG

| | 2013-14 £m | 2014-15 £m | 2015-16 £m |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Blwyddyn Blaenorol | 125.6 | 128.2 | 130.4 |
| | | | |
| Chwyddiant Ysgolion ac Amddiffyniad | 0.8 | 0.5 | 0.5 |
| Cynyddiadau costau | 1.5 | 2.6 | 2.6 |
| Newidiadau demograffeg | 0.6 | 0.5 | 0.5 |
| Cyllido cyfalaf a Llog | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| Cyllido benthyca digefnogaeth | 0.0 | 0.2 | 0.4 |
| Adolygiad Tâl a Graddfeydd | -0.4 | 1.3 | 0.7 |
| Buddsoddi yn newid | 1.5 | -0.1 | -0.3 |
| Cyfraniad i falansau | 0.5 | -0.5 | 0.0 |
| Pwysau a nodwyd | 1.0 | - | - |
| Blaenoriaethau newydd | 0.4 | 0.7 | 1.0 |
| Arbedion | -2.9 | - | - |
| Bwlch Cyllido | - | -3.1 | -4.0 |
| **Cyfanswm** | **128.2** | **130.4** | **131.9** |
| | | | |
| Cyllidwyd gan cyllideb LIC | 100.2 | 101.0 | 101.0 |
| Dreth Gyngor | 28.0 | 29.4 | 30.9 |
| | **128.2** | **130.4** | **131.9** |

TABL B

CYNGOR SIR YNYS MON

CYLLIDEB REFENIW 2013/14

CYNIGION TERFYNOL Y PWYLLGOR GWAITH

| ADRAN | CYLLIDEB ARFAETHEDIG TERFYNOL 2013/14 £'000 |
|---|---|
| **Addysg Gydol Oes** | **47,678** |
| Gwasanaeth Addysg | 47,060 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 618 |
| **Cymuned** | **31,804** |
| Gwasanaethau Cymdeithasol (yn cynnwys Gwasanaethau Gofal Môn) | 27,976 |
| Gwasanaeth Tai | 924 |
| Gwasanaethau Hamdden a Diwylliant | 2,904 |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | **8,106** |
| Uwch Reolwyr | 925 |
| Gwasanaeth Cyllid | 2,425 |
| Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 1,685 |
| Gwasanaeth Archwilio | 230 |
| Gwasanaeth Polisi | 622 |
| Gwasanaeth Adnoddau Dynol | 705 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Pwyllgorau | 1,514 |
| **Datblygu Cynaliadwy** | **21,366** |
| Gwasanaeth Datblygu Economaidd | 1,555 |
| Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,519 |
| Gwasanaeth Eiddo | 1,840 |
| Gwasanaeth Priffyrdd a Chludiant | 8,030 |
| Gwasanaeth Gwastraff | 7,422 |
| **CYFANSWM YR ADRANNAU** | **108,954** |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | **2,034** |
| **Cynllun Cefnogi'r Dreth Gyngor** | **5,283** |
| **Ardollau** | **3,220** |
| **Cyllido Cyfalaf a Llog** | **7,185** |
| **Cyfraniadau o Gyllidebau Allanol** | **-358** |
| **Cytundeb Deilliannau** | **-355** |
| Grant Cytundeb Deilliannau | -545 |
| Arian wrth gefn Gwella a Bwrdd Adfer Addysg | 190 |
| **Cyllido Clustnodedig** | **2,550** |
| Buddsoddi mewn Cost Newid | 500 |
| Adolygiad Cyflog a Graddio | 450 |
| Arian wrth gefn Trefniadau Rheoli Uwch | 0 |
| Arian wrth gefn Diswyddiadau | 1,000 |
| Arian wrth gefn Penodol | 600 |
| **Arian wrth gefn heb ei ddyranu** | **-521** |
| Arian wrth gefn heb ei ddyranu | 0 |
| Targedau incwm uwch | -166 |
| Arbedion heb eu dyrannu | -355 |
| **Cyfraniadai i / (o) falansau ac arian wrth gefn** | **500** |
| Balansau cyffredinol | 500 |
| Arian wrth gefn | 0 |
| **ANGEN CYLLIDEB** | **128,492** |
| **Cymorth treth dewisol** | **50** |
| **CYFANSWM** | **128,542** |
| **ARIANNU TRWY** | |
| Grant Cynnal Refeniw | 78,203 |
| National Non Domestic Rate Pool | 22,024 |
| Grant Arbennig | 458 |
| Y Dreth Gyngor | 27,857 |
| **Cyfanswm** | **128,542** |

**Tabl C**
**Cyllideb Cyfalaf 2013/14 gydag ymrwymiadau hyd at 2015/16**
**Cynigion Terfynol y Pwyllgor Gwaith**

**Table C**
**Capital Budget 2013/14 with Commitments to 2015/16**
**Executive's Final Proposals**

***Mae'r cynlluniau sy'n ymddangos mewn print italig ar sail dros dro ac yn amodol ar gadarnhad***

***Projects shown in italics are included on a provisional basis and are subject to confirmation***

| | | Llithro Slippage 2012/13 £'000 | Cyllideb Budget 2013/14 £'000 | Ymrwymiadau Commitments 2014/15 £'000 | Ymrwymiadau Commitments 2015/16 £'000 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **GWASANAETH** | | | | | | | **SERVICE** |
| **Addysg** | | | | | | | **Education** |
| Ysgolion - Adnewyddu | | | **700** | 400 | | | Schools - Refurbishment |
| Ysgol Gynradd Newydd - Caergybi | llg | | ***545*** | *4,500* | *2,500* | wg | New Primary School - Holyhead |
| Ysgol y Bont - adleoli | llg | 1,900 | **4,500** | | | wg | Relocation of School - Ysgol Y Bont |
| Dechrau'n Deg Ehangu Rhaglen Gyfalaf | llg | | **550** | *750* | | wg | Flying Start Capital Expansion Programme |
| **Is-gyfanswm** | | | **6,295** | **5,650** | **2,500** | | **Sub-Total** |
| **Cynllunio** | | | | | | | **Planning** |
| Grant PEG | llg | | **455** | | | wg | PEG standalone grant |
| **Is-gyfanswm** | | | **455** | **0** | **0** | | **Sub-Total** |
| **Gwastraff** | | | | | | | **Waste** |
| Safle Ailgylchu Gwastraff Domestig (Arall) | | | **500** | 500 | | | Household Waste Recycling Centre (Other) |
| **Is-gyfanswm** | | | **500** | **500** | **0** | | **Sub-Total** |
| **Datblygu Economaidd** | | | | | | | **Economic Development** |
| Astudiaethau Dichonolrwydd Cyfalaf | | 200 | | | | | Capital Feasibility Studies |
| Cyllido Partneriaeth | | 200 | **70** | | | | Partnership Funding |
| Cydgyllido cynllun Cyfenter | | 170 | **70** | | | | Matchfunding Cyfenter Scheme |
| Isadeiledd Strategol ar Ynys Môn - Safleoedd ac Adeiladau | scec | | **300** | 1,700 | | wefo | Strategic Infrastructure on Anglesey - Sites and Premises |
| **Is-gyfanswm** | | | **440** | **1,700** | **0** | | **Sub-Total** |
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | **Highways and Transportation** |
| Ffyrdd (gan gynnwys grant) | | | **200** | | | | Roads (including grant) |
| Priffyrdd -arall | | | **300** | | | | Highways - other |
| Menter Benthyca Llywodraeth Leol | llg | | **1,800** | 1,800 | | wg | Local Government Borrowing Initiative |
| Cerbydau | | 100 | **150** | | | | Vehicles |
| **Is-gyfanswm** | | | **2,450** | **1,800** | **0** | | **Sub-Total** |

**Tabl C**
**Cyllideb Cyfalaf 2013/14 gydag ymrwymiadau hyd at 2015/16**
**Cynigion Terfynol y Pwyllgor Gwaith**

**Table C**
**Capital Budget 2013/14 with Commitments to 2015/16**
**Executive's Final Proposals**

***Mae'r cynlluniau sy'n ymddangos mewn print italig ar sail dros dro ac yn amodol ar gadarnhad***

***Projects shown in italics are included on a provisional basis and are subject to confirmation***

| | Llithro Slippage 2012/13 £'000 | Cyllideb Budget 2013/14 £'000 | Ymrwymiadau Commitments 2014/15 £'000 | Ymrwymiadau Commitments 2015/16 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Eiddo** | | | | | **Property** |
| Mynediad i'r Anabl i Adeiladau Cyhoeddus | 100 | **200** | 200 | | Disabled Access to Public Buildings |
| Rheoli Risg Adeiladau a Chynnal Strwythurol | 100 | **450** | | | Buildings Risk Management & Structural Maintenance |
| Mânddaliadau (rhaglen wedi ei hamgau) *dc* | | **250** | | | *cr* *Smallholdings (Ringfenced programme)* |
| **Is-gyfanswm** | | **900** | **200** | **0** | **Sub-Total** |
| **Corfforaethol** | | | | | **Corporate** |
| Offer / TGCh | | **150** | | | Equipment / ICT |
| **Is-gyfanswm** | | **150** | **0** | **0** | **Sub-Total** |
| **I'w Ddyrannu** | | | | | **To be allocated** |
| Cyllid Cyfatebol/Adfywio | 735 | | | | Match funding/ Regeneration |
| Cronfa wrth gefn – Gwelliannau Hamdden | 195 | | | | Leisure Improvements Reserve |
| Offer / TGCh heb ei ddyrannu | 100 | | | | Unallocated Equipment / ICT |
| Astudiaethau Dichonolrwydd - Cyffredinol | 466 | | | | Feasibility Studies - General |
| Rhaglen Rhesymoli Asedau | 1,270 | **850** | | | Asset Rationalisation Programme |
| Heb ei ddyrannu | 1,000 | | | | Unallocated |
| Darpariaeth benthyca digefnogaeth | | **1,000** | | | Unsupported borrowing contingency |
| Adfywio Ffisegol (Cydgyfeiriant) | | **2,000** | 900 | | Physical Regeneration (Convergence) |
| **Is-gyfanswm** | | **3,850** | **900** | **0** | **Sub-Total** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm - Cyffredinol** | | **15,040** | **10,750** | **2,500** | **Total - General** |
| **Adnoddau Cyffedinol** | | | | | **General Resources** |
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol | | **2,540** | 1,005 | | General Capital Funding |
| Benthyca digefnogaeth | | **1,000** | | | Unsupported Borrowing |
| Benthyca digefnogaeth (derbyniadau cyfalaf gohiriedig) - Ysgol y Bont | | **1,300** | | | Unsupported Borrowing (delayed capital receipts) Ysgol y Bont |
| Benthyca digefnogaeth (derbyniadau cyfalaf gohiriedig) - Ysgol newydd Caergybi | | **248** | 2,250 | | Unsupported Borrowing (delayed capital receipts) New School Holyhead |
| Menter Benthyca Llywodraeth Leol | | **1,800** | 1,800 | | Local Government Borrowing Initiative |
| Grantiau Ewrop | | **2,000** | 2,195 | | European Grants |
| Grantiau/Cyfraniadau Eraill | | **4,802** | 3,000 | 1,250 | Other Grants / Contributions |
| Derbyniadau Cyfalaf | | **850** | | 1,250 | Capital Receipts |
| Refeniw/Cronfeydd wrth Gefn | | **500** | 500 | | Revenue / Reserves |
| **Cyfanswm Adnoddau Cyffredinol** | | **15,040** | **10,750** | **2,500** | **Total General Resources** |

**Tabl C**
**Cyllideb Cyfalaf 2013/14 gydag ymrwymiadau hyd at 2015/16**
**Cynigion Terfynol y Pwyllgor Gwaith**

**Table C**
**Capital Budget 2013/14 with Commitments to 2015/16**
**Executive's Final Proposals**

| ***Mae'r cynlluniau sy'n ymddangos mewn print italig ar sail dros dro ac yn amodol ar gadarnhad*** | **Llithro Slippage 2012/13 £'000** | **Cyllideb Budget 2013/14 £'000** | **Ymrwymiadau Commitments 2014/15 £'000** | **Ymrwymiadau Commitments 2015/16 £'000** | ***Projects shown in italics are included on a provisional basis and are subject to confirmation*** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tai** | | | | | **Housing** |
| Tai Sector Gyhoeddus : | | | | | Public Sector Housing : |
| Rhaglen Gyfalaf y Gronfa Refeniw Tai | | **4,948** | 500 | | Housing Revenue Account Capital Programme |
| Cynlluniau Tai Sector Preifat: | | | | | Private Sector Housing Schemes : |
| Grantiau Tai Sector Preifat a Chynlluniau Benthyca | | **900** | 400 | | Private Sector Housing Grants and Loans Schemes |
| Cynlluniau Tai Fforddiadwy | | | | | Affordable Housing Schemes |
| **Cyfanswm Tai** | | **5,848** | **900** | **0** | **Total Housing** |
| **Adnoddau Tai** | | | | | **Housing Resources** |
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol | | **900** | 400 | | General Capital Funding |
| Lwfans Trwsio Sylweddol | | **2,600** | 500 | | Major Repairs Allowance |
| Derbyniadau Cyfalaf | | **575** | | | Capital Receipts |
| Refeniw/Balansau | | **1,773** | | | Revenue / Balances |
| **Cyfanswm Adnoddau Tai** | | **5,848** | **900** | **0** | **Total Housing Resources** |
| | | | | | |
| **CYFANSWM CYLLIDEB** | | **20,888** | **11,650** | **2,500** | **TOTAL BUDGET** |

*Cymryd yn ganiataol bydd yr holl gyllidebau derbyniadau cyfalaf 2012/13 ar gael*

*Assume all 2012/13 budgeted capital receipts become available*

**PRUDENTIAL & TREASURY INDICATORS**
**BUDGET SETTING 2013/14 - THE EXECUTIVE'S FINAL PROPOSALS - FEBRUARY 2013** **Table Ch**

| No. | Indicator | 2011/12 out-turn | 2012/13 estimate | 2013/14 proposal | 2014/15 proposal | 2015/16 proposal |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Affordability** | | | | | |
| 1,2 | Estimates of [or actual] ratio of financing costs to net revenue stream: | | | | | |
| | Council Fund | 5.16% | 5.98% | 5.19% | 5.48% | 5.51% |
| | Housing Revenue Account | 14.28% | 17.42% | 17.68% | 16.31% | 14.79% |
| | Total | 5.90% | 7.08% | 6.32% | 6.49% | 6.41% |
| 3 | Estimates of incremental impact of capital investment decisions on the Council Tax | | | £6.01 | £31.24 | £51.26 |
| | *for the Band D Council Tax* | | | | | |
| 4 | Estimates of incremental impact of capital investment decisions on housing rents | | | £8.98 | £7.83 | £8.25 |
| | *on average weekly rents* | | | | | |
| **Prudence** | | | | | | |
| 5 | Net debt and the Capital Financing Requirement (CFR) | YES | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | *Is the gross external debt < the CFR for the preceding year plus the estimates of any additional CFR for the current and the next two financial years?* | | | | | |
| **Capital Expenditure** | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 6,7 | Estimates of [or actual] capital expenditure | | | | | |
| | Council Fund | 12,382 | 17,609 | 19,000 | 23,000 | 11,900 |
| | Housing Revenue Account | 9,237 | 8,000 | 4,900 | 4,200 | 4,300 |
| | Total | 21,619 | 25,609 | 23,900 | 27,200 | 16,200 |
| 8,9 | Estimates of [or actual] Capital Financing Requirement | | | | | |
| | Council Fund | 78,855 | 80,810 | 88,500 | 93,900 | 98,000 |
| | Housing Revenue Account | 21,811 | 24,954 | 23,700 | 22,500 | 21,300 |
| | Total | 100,666 | 105,764 | 112,200 | 116,400 | 119,300 |
| **External Debt** | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 10 | Authorised Limit : Borrowing | 115,000 | 123,000 | 122,000 | 126,000 | 129,000 |
| | : Other long term liabilities | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 |
| | : Total | 117,000 | 125,000 | 124,000 | 128,000 | 131,000 |
| 11 | Operational Boundary : Borrowing | 110,000 | 118,000 | 117,000 | 121,000 | 124,000 |
| | : Other long term liabilities | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 |
| | : Total | 112,000 | 120,000 | 119,000 | 123,000 | 126,000 |
| 12 | Actual External Debt | 96,103 | | | | |

**PRUDENTIAL & TREASURY INDICATORS**
**BUDGET SETTING 2013/14 - THE EXECUTIVE'S FINAL PROPOSALS - FEBRUARY 2013** **Table Ch**

| No. | Indicator<br>Treasury Management | 2011/12<br>out-turn | 2012/13<br>estimate | 2013/14<br>proposal | 2014/15<br>proposal | 2015/16<br>proposal |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | The Local Authority has adopted the CIPFA Code of Practice for Treasury Management in the Public Services | YES | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 14 | The upper limit on fixed rate exposures: | 105,000 | 105,000 | 110,000 | 110,000 | 115,000 |
| | *( net principal outstanding)* | | | | | |
| 15 | The upper limit on variable rate exposures: | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 |
| | *( net principal outstanding)* | | | | | |
| 17 | The limit for total principal sums invested for periods longer than 364 days | | | | | |
| | • to 2014/15 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 |
| | • to 2016/17 within above limit | 8,000 | 8,000 | 8,000 | 8,000 | 8,000 |
| | | | 2013/14<br>upper limit | | 2013/14<br>lower limit | |
| 16 | The upper and lower limits for the maturity structure of fixed rate borrowing | | | | | |
| | • under 12 months | | 20% | | 0% | |
| | • 12 months and within 24 months | | 20% | | 0% | |
| | • 24 months and within 5 years | | 50% | | 0% | |
| | • 5 years and within 10 years | | 75% | | 0% | |
| | • 10 years and above | | 100% | | 0% | |
| | | | no change | | no change | |

**DANGOSYDDION PWYLLOG A THRYSORLYS**

**GOSOD Y GYLLIDEB 2012/13 – CYNIGION TERFYNOL Y PWYLLGOR GWAITH - CHWEFROR 2013** **Tabl Ch**

| Rhif | Dangosydd | 2011/12 Alldro | 2012/13 Amcangyfrif | 2013/14 Cynnig | 2014/15 Cynnig | 2015/16 Cynnig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ffordddiadwyaeth** | | | | | | |
| 1,2 | Amcangyfrif o [neu wir] gymhareb costau dyled i ffrwd refeniw net: | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 5.16% | 5.98% | 5.19% | 5.48% | 5.51% |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 14.28% | 17.42% | 17.68% | 16.31% | 14.79% |
| | Cyfanswm | 5.90% | 7.08% | 6.32% | 6.49% | 6.41% |
| 3 | Amcangyfrifon o effaith ymylol penderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar y Dreth Gyngor | | | £6.01 | £31.24 | £51.26 |
| | *y Dreth Gyngor ar fand D* | | | | | |
| 4 | Amcangyfrifon o effaith ymylol penderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar Renti Tai | | | £8.98 | £7.83 | £8.25 |
| | *ar gyfartaledd rhent wythnosol* | | | | | |
| **Pwyll** | | | | | | |
| 5 | Dyled gros a'r Angen Cyllido Cyfalaf (CFR) | YDY | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | *Ydy dyled allanol gros yn llai na'r CFR am y flwyddyn blaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw gynnydd am y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd dilynol?* | | | | | |
| **Gwariant Cyfalaf** | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 6,7 | Amcangyfrif o [neu wir] Wariant Cyfalaf | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 12,382 | 17,609 | 19,000 | 23,000 | 11,900 |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 9,237 | 8,000 | 4,900 | 4,200 | 4,300 |
| | Cyfanswm | 21,619 | 25,609 | 23,900 | 27,200 | 16,200 |
| 8,9 | Amcangyfrif o [neu wir] Angen Cyllido Cyfalaf | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 78,855 | 80,810 | 88,500 | 93,900 | 98,000 |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 21,811 | 24,954 | 23,700 | 22,500 | 21,300 |
| | Cyfanswm | 100,666 | 105,764 | 112,200 | 116,400 | 119,300 |
| Dyled Allanol | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 10 | Terfyn Awdurdodedig : Benthyca | 115,000 | 123,000 | 122,000 | 126,000 | 129,000 |
| | : Ymrwymiadau tymor hir eraill | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 |
| | : Cyfanswm | 117,000 | 125,000 | 124,000 | 128,000 | 131,000 |
| 11 | Ffin Ymarferol : Benthyca | 110,000 | 118,000 | 117,000 | 121,000 | 124,000 |
| | : Ymrwymiadau tymor hir eraill | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 |
| | : Cyfanswm | 112,000 | 120,000 | 119,000 | 123,000 | 126,000 |
| 12 | Gwir Ddyled Allanol | 96,103 | | | | |

**DANGOSYDDION PWYLLOG A THRYSORLYS**

**GOSOD Y GYLLIDEB 2012/13 – CYNIGION TERFYNOL Y PWYLLGOR GWAITH - CHWEFROR 2013** **Tabl Ch**

| Rhif | Dangosydd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli'r Trysorlys** | | 2011/12 Alldro | 2012/13 Amcangyfrif | 2013/14 Cynnig | 2014/15 Cynnig | 2015/16 Cynnig |
| 13 | Fod yr Awdurdod Lleol wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Cipfa ar Reoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus. | YDY | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 14 | Y terfyn uchaf ar raddfeydd sefydlog : | 105,000 | 105,000 | 110,000 | 110,000 | 115,000 |
| | *(prif-swm net neilltuol)* | | | | | |
| 15 | Y terfyn uchaf ar raddfeydd amrywiol: | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 |
| | *(prif-swm net neilltuol)* | | | | | |
| 17 | Terfyn cyfanswm y prif-symiau a fuddsoddir am gyfnodau dros 364 diwrnod: | | | | | |
| | • at 2014/15 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 |
| | • at 2016/17 o fewn y terfyn uchod | 8,000 | 8,000 | 8,000 | 8,000 | 8,000 |
| | | | 2013/14 terfyn uchaf | | 2013/14 terfyn isaf | |
| 16 | Terfyn uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedu y benthyca graddfa sefydlog | | | | | |
| | • dan 12 mis | | 20% | | 0% | |
| | • 12 mis ac o fewn 24 mis | | 20% | | 0% | |
| | • 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | | 50% | | 0% | |
| | • 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | | 75% | | 0% | |
| | • 10 mlynedd a throsodd | | 100% | | 0% | |
| | | | dim newid | | dim newid | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR | CYNGOR SIR |
| DYDDIAD | 5 MAWRTH 2013 |
| TEITL YR ADRODDIAD | CYLLIDEB 2013-14 |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | DELIO GYDA MATERION STATUDOL |
| ADRODDIAD GAN | PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) |
| GWEITHREDU | MABWYSIADU'R PENDERFYNIAD |

## 1. RHAGARWEINIAD

Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi llunio eu cynigion i'r Cyngor mewn perthynas â chyllideb 2013-14 a'r strategaeth tymor canol ac amlinellir y rheini mewn adroddiad ar wahân yn enw'r Pwyllgor Gwaith.

I bwrpas mabwysiadu ei gyllideb am 2013-14 a phennu lefel y Dreth Gyngor am y flwyddyn, bydd raid i'r Cyngor Sir fabwysiadu penderfyniad ffurfiol sy'n delio'n fanwl gyda'r holl faterion cysylltiedig.

Yr adroddiad hwn yw fy nghyngor ffurfiol i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd ynghylch y gyllideb. Mae'n delio gyda materion statudol a materion eraill y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt i gwblhau'r cyngor ar y gyllideb. Bwriedir y bydd y penderfyniad ar y gyllideb ddrafft yn gweithredu cynigion y Pwyllgor Gwaith ac yn cymryd y cyngor hwn i ystyriaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gynigion cyllidebol terfynol y Pwyllgor Gwaith ar y rhagdybiaeth y bydd y rheini yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor. Os bydd unrhyw newidiadau i'r cynigion hyn, efallai y bydd raid i mi ailystyried yr adroddiad hwn. Fel cymorth i mi gyflawni hyn, dywed Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb yng Nghyfansoddiad y Cyngor 4.3.2.2.6 bod rhaid cyflwyno rhybudd tri diwrnod gwaith o unrhyw newid.

## 2. CADERNID YR AMCANGYFRIFON

Dan adran 25 (1)(a) y Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 mae'n rhaid i mi gyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar gadernid yr amcangyfrifon a baratowyd wrth lunio'r gyllideb. Mae'r sefyllfa eleni'n fwy heriol i awdurdodau lleol ac atgoffwyd Prif Swyddogion Cyllid gan Brif Weithredwr CIPFA eto eleni o'u dyletswyddau yn hyn o beth. Mae'r asesiad hwn yn crynhoi fy adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith lle rwy'n cyfeirio at y risgiau isod a all gael effaith ar gadernid yr amcangyfrifon:-

Risg chwyddiant;
Risg cyfraddau llog;
Risg grantiau;
Risg incwm;
Risg optimistiaeth;
Risg bod yn orofalus;
Risg Tâl a Graddfeydd;
Risg llithro ar gyflawni'r arbedion;
Risgiau sylweddol penodol yn erbyn eitemau nodwyd o incwm a gwariant.

Casglais mai'r risg optimistiaeth a'r risg tâl a graddfeydd oedd y risgiau mwyaf. Wrth edrych ar y sefyllfa ariannol a amcangyfrifir ar gyfer canlyniad 2012-13 a chyfraniad o beidio cyflawni arbedion at hyn, mae risg sylweddol bellach o lithrant yng nghyflawni rhaglen arbedion.

Tynnais sylw hefyd at y risg y bydd angen i'r Cyngor, oherwydd nad yw wedi cwblhau ei adolygiad o gyflogau a graddfeydd a'r ffaith bod ganddo eisoes nifer o hawliadau cyflog cyfartal yn y Tribiwnlys Cyflogaeth, dalu iawndal i staff oherwydd annhegwch honedig ei drefniadau talu. Disgwylir i'r cynigion diwygiedig a weithredwyd yn 2012-13 leihau'r costau staff ond efallai y bydd risg o fwy o hawliadau er bod y risgiau i'r Awdurdod ym mhob senario wedi cael eu hasesu'n ofalus gan y Panel Tâl a Graddfeydd. Mae'r Panel wedi cwrdd yn rheolaidd drwy gydol 2012-13 ac mae wedi argymell dylai ystyriaethau Arfarnu Swyddi a Thâl Cyfartal gael eu delio gyda'i gilydd. Bellach cytunwyd ar amserlen ar gyfer gweithredu Arfarnu Swyddi a fydd yn cwblhau materion yn Ebrill 2014. Mae Arfarnu Swyddi yn risg hirymaros sydd bellach yn dwyn ffrwyth ac mae'n herio cadernid y gyllideb fel yn y gorffennol. I liniaru hyn, erys cyllideb wrth gefn blynyddol (gostyngwyd i £450k yn 2013-14) tuag at gost y strwythur tâl newydd a chronfa wrth gefn cronedig a fydd, fe ragamcenir, erbyn Mawrth 2013 yn bron i £2.5m. Diwygiwyd y Cynllun Cyllideb Refeniw Tymor Canolig i gwrdd â'r costau rhagamcanedig o weithredu.

Wrth edrych i'r tymor canol, mae risg i'r Awdurdod oherwydd amgylchiadau economaidd cenedlaethol. Gall chwyddiant sy'n cael effaith ar dâl a phrisiau effeithio ar yr hyn y gellir ei fforddio o fewn y cyfansymiau cyllid arwyddol a gyhoeddwyd gan LIC. Gall dirywiad pellach yn yr economi fygwth y cyfansymiau gwario hynny. Mae risg hefyd y gall newidiadau demograffig anffafriol, neu gynnydd sy'n is na'r cyfartaledd o gymharu â gweddill Cymru, ostwng cyfran yr Awdurdod hwn o'r cyfanswm cenedlaethol. Mewn sefyllfa lle nad yw'r bwlch cyllidebol wedi ei bontio ar gyfer 2014-15 a 2015-16, mae rhagolygon o ddirywiad yn golygu bod angen gorgynllunio a gorgyflawni arbedion.

## 3. DIGONOLRWYDD Y CRONFEYDD ARIANNOL WRTH GEFN

Dan adran 25 (1)(b) Deddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n rhaid i mi gyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar ddigonolrwydd yr arian wrth gefn. Yn ffurfiol mae hyn yn ymwneud ag arian wrth gefn ar gychwyn ac ar ddiwedd flwyddyn ariannol yn y gyllideb. Unwaith eto, mae Prif Weithredwr CIPFA wedi ein hatgoffa o hyn, ac wedi gwneud sylwadau penodol am yr angen y dylai lefel y balansau fod yn seiliedig ar benderfyniadau lleol.

Sefydlwyd arian wrth gefn clustnodedig i ddelio gydag ymrwymiadau, cynlluniau a risgiau hysbys. Wrth asesu lefel yr arian wrth gefn, rydwyf wedi rhagdybio y bydd yr ymrwymiadau yn cael eu hanrhydeddu, ac y bydd gweithredu ar y cynlluniau os ydynt yn dal i fod gennym ac rwyf wedi rhagdybio hefyd y bydd y ddarpariaeth ar gyfer risg yn rhesymol o ystyried y maint a'r tebygolrwydd. Wrth asesu'r balansau cyffredinol, rhoddwyd sylw i risgiau ac i ansicrwydd nad oes darpariaeth ar eu cyfer yn yr arian wrth gefn clustnodedig nac yn y gyllideb wrth gefn.

Mae lefel yr arian wrth gefn yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Mae'r asesiad hwn yn dibynnu ar wybodaeth yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr 2012 ac a ddiweddarwyd yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror a gymerodd i ystyriaeth adroddiadau monitro cyllidebol y 3ydd Chwarter o 2012-13.

Yn yr adroddiadau hyn, cyfeiriwyd at:

- Ragamcan y byddai lefel y balansau'n £4.4m erbyn diwedd y flwyddyn - £0.5m yn is na'r swm a gynlluniwyd;
- Bod cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn briodol at ei gilydd, er ei fod yn isel o'i gymharu â chynghorau arall, gan nodi nad oes angen mwyach am swm o £0.1m y dywedwyd y byddai ei angen;
- Cronfeydd wrth gefn yr ysgolion yn dod yn fwy amrywiol gyda nifer uwch mewn diffyg.

Mae'r sefyllfa ariannol a ragamcanwyd ar gyfer 2012-13 yn golygu bod y balansau cyffredinol yn is na'r lefel y byddwn yn ei hystyried fel "digonol" o ystyried y sefyllfa economaidd bresennol a'r risgiau ar gyfer blynyddoedd y dyfodol. Mae £500k wedi cael ei neilltuo yn 2013-14 ar gyfer 'cost newid' a fydd yn galluogi rhai o'r prif wasanaethau i drawsnewid sut mae'r gwasanaethau yna'n cael eu darparu. Yn anochel, gyda'r lefel o ostyngiadau a ystyrir fod eu hangen, yn seiliedig ar y rhagamcanion yn y strategaeth tair blynedd, efallai bydd angen newid neu ostwng lefelau staffio. O ganlyniad, rwy'n argymell neilltuo £1m yn y gyllideb i gyllido costau diswyddo a chostau unwaith ac am byth eraill cysylltiedig.

Mae'r lefel ragamcanedig o falansau cyffredinol o £4.4m yn rhy isel yng nghyd-destun y pwysau economaidd sy'n parhau ac, o ganlyniad, rwy'n argymell defnyddio £500k i ail-lenwi'r balansau cyffredinol yn 2013-14. Mae'n hanfodol bod system yn ei lle i fonitro cyflawni arbedion eleni a dod â rhaglen o doriadau ychwanegol ymlaen ar gyfer 2014-15 a'r blynyddoedd wedi hynny. Caiff cyflawni'r arbedion yma eu monitro'n agos gan y rheolaeth rhaglen drwy'r Cynllun Trawsnewid. Mae llithrant yn parhau a'r diffyg cyflawni rhaglenni arbedion y flwyddyn flaenorol yn parhau i fod yn heriol, ac mae'n angenrheidiol i roi sylw i'r rhain, yn ogystal â sicrhau cyflawni'r cynigion diweddaraf mewn pryd, er mwyn gynnal cadernid sefyllfa ariannol y Cyngor.

## 4. SICRHAU'R GYLLIDEB

Unwaith y cytunir ar gyllideb 2013-14 bydd rhaglen effeithlonrwydd ychwanegol i ddatblygu effeithlonrwydd gwasanaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf. Yn ogystal, mae rhannau o'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy i'w harchwilio. Bydd hynny'n gyfle i adolygu'r rhaglen arbedion cyfan ac i sicrhau fod trefniadau cadarn mewn lle i gefnogi'r rhain fel bod modd cyflawni cyllideb y flwyddyn nesaf a blynyddoedd y dyfodol. Yr allwedd i gyflawni'r holl gyllidebau fydd dod â'r cyllidebau sydd mewn diffyg dan reolaeth, gan gynnwys cyllidebau ysgolion. Yn ogystal â chanolbwyntio ar effeithlonrwydd, mae risg amlwg o ran ffynonellau cyllido ac incwm cyffredinol. Cwblhawyd gwaith yn 2012-13 ar nifer o feysydd a ddylai fod wedi eu nodi i gefnogi cyllid ac incwm:

- Prosiect i sicrhau bod cymaint o ddisgyblion â phosib wedi eu cofrestru ar gyfer prydau ysgol;
- Monitro grantiau penodol yn agosach;
- Rhaglen i adolygu disgowntiau Treth Gyngor ac eithriadau;
- Monitro ffioedd a thaliadau yn agosach.

Fel yn 2012-13 mae rhaglen 2013-14 o arbedion ac effeithlonrwydd yn fwy sylweddol nac ym mlynyddoedd y gorffennol ac yn dod â risgiau ychwanegol gyda hi. Mae'n amlwg y bydd angen rheoli'r rhaglenni arbedion hyn fel rhan sylfaenol o'r trefniadau ar gyfer monitro'r gyllideb gorfforaethol a bydd raid asesu'r risgiau. Bydd angen trefniadau rheoli prosiect cryf a chymorth ariannol ar gyfer y meysydd allweddol a nodwyd fel rhai sy'n risg i'r Cyngor o ran cyflawni'r rhaglen arbedion a'r gyllideb sail, a hynny er mwyn medru cyflawni'r gyllideb gyffredinol. Caiff hyn ei wneud drwy'r trefniadau rheolaeth cynllun a osodir allan yn y Cynllun Trawsnewid newydd. Caiff y rhain eu sefydlu yn o fuan i sicrhau'r defnydd mwyaf posib o adnoddau a sgiliau rheoli prosiect ac ariannol er mwyn rheoli cyllideb y Cyngor.

## 5. Y CÔD PWYLLOG A RHEOLI TRYSORLYS

Mae'r fframwaith deddfwriaethol a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn gorfodi'r Cyngor i ystyried y Côd Pwyllog yng nghyswllt Cyllid Cyfalaf i Awdurdodau Lleol. Mae'r Pwyllgor Gwaith eisoes wedi rhoddi cadarnhad i hyn. Gofynion pennaf y Côd Pwyllog yw bod awdurdodau yn ystyriol o fforddiadwyaeth a phwyll.

***Fforddiadwyaeth***

Mae cynigion cyllidebol y Pwyllgor Gwaith yn rhoddi sylw llawn i fforddiadwyaeth. Yn ddieithriad, mae'r gyllideb gyfalaf wedi ei chyllido gan gyfuniad o grantiau allanol, derbyniadau cyfalaf, cronfeydd refeniw a benthyca. Mae cyswllt hanfodol rhwng yr arian a ddisgwylir o grantiau ar y naill law a'r hyn sydd wedi ei gymeradwyo neu'n debygol o fewn rheswm ar y llaw arall; bydd rhai cynigion gwario yn cael eu cynnwys yn y gyllideb gyfalaf ond yn amodol ar dderbyn cadarnhad i'r grantiau: oni cheir cadarnhad i'r grantiau, yna bydd y cynlluniau yn methu. Mae derbyniadau cyfalaf yn seiliedig ar werthiannau a wnaed neu sy'n cael eu gwneud neu sydd wedi eu cynnwys yn y Cytundebau Canlyniadau y cytunwyd arnynt gyda LIC; diystyriwyd symiau a ddisgwylir ond sydd heb eu cadarnhau eto fel rhai pendant, ac unrhyw warged neu ddiffyg yn cael ei gario drosodd i gyllidebau blynyddoedd y dyfodol. Mae cyllid refeniw yn ei le yn gyson gyda'r gyllideb refeniw.

***Benthyca Digefnogaeth***

Mae’r adroddiad Rheoli Trysorlys yn ymdrin â’r defnydd o fenthyca digefnogaeth. Eleni mae’r defnydd amodol o fenthyca digefnogaeth gan Gronfa’r Cyngor i gefnogi cynlluniau gwario i arbed yn parhau, ond gohiriwyd cynlluniau mwy.

Mae’r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn cynnwys cyllid o Fenter Benthyca Llywodraeth Leol am y tair blynedd o 2012-13. Mae rhagamcanion o ran benthyca wedi cynyddu oherwydd amcangyfrifir y bydd yr Awdurdod yn cael cyfran o’r £170m a neilltuwyd i Gymru (hyd at £5.25m). Er derbyniwyd grant refeniw penodol i gwrdd â’r gost a fodelwyd ar gyfer ad-dalu dyledion yn 2012-13, bellach daw hyn yn rhan o Grant Cefnogi Refeniw.

Roedd y strategaeth refeniw tymor canol wedi caniatáu costau cyllido cyfalaf o hyd at £5 miliwn y flwyddyn o fenthyca digefnogaeth ychwanegol er mwyn gwneud iawn am golli cyfalaf LIC ac o gymorth i gyllido’r rhaglen rhesymoli asedau. Mae hwn yn gymorth i ddangos bod benthyca o’r fath yn fforddiadwy. Mae hyn wedi cael ei ohirio i 2014-15. Fodd bynnag, nid yw’r cynllun cyfalaf interim a’r Polisi Rheoli Trysorlys arfaethedig yn rhagdybio y bydd benthyca, ac nid oes gofyn i’r Cyngor ar hyn o bryd awdurdodi’r benthyciad ychwanegol hwn. Dim ond pan fydd cynlluniau penodol ar gyfer gwariant cyfalaf sydd angen y benthyciad hwn fydd gofyn i’r Cyngor awdurdodi hwn.

***Cynllun Morgais Awdurdod Lleol***

Mae’r Gwasanaeth Tai yn gweithio ar gynnig i gymryd rhan mewn menter genedlaethol i gefnogi darparu morgeisi drwy’r sector bancio i brynwyr tro cyntaf. I bob pwrpas, mae’r Awdurdod yn defnyddio sefyllfa ei fantolen i warantu’r benthyciadau. Eto, nid yw’r Polisi Rheoli Trysorlys arfaethedig yn cymryd yn ganiataol y bydd y fenter hon yn cael ei mabwysiadu’n lleol ac nid oes gofyn i’r Cyngor ar hyn o bryd awdurdodi ei gweithredu. Dim ond pan fydd cynigion pendant yn eu lle fydd y Cyngor yn derbyn cais i’w hawdurdodi.

**Strategaeth Rheoli Trysorlys**

Mae’r polisïau Rheoli Trysorlys eleni wedi eu cynnwys fel atodiad i’r adroddiad hwn. Argymhellaf eu mabwysiadu.

## 6. PENDERFYNIAD Y CYNGOR

Mae penderfyniad drafft y Cyngor yn cynnwys yr holl faterion y mae'n rhaid cael penderfyniad arnynt ac yn codi o gynigion y Pwyllgor Gwaith a'r adroddiad hwn.

Mae’r gofynion o ran cyllideb ddrafft y Cyngor yn cynnwys ardollau ffurfiol y cyrff canlynol:

| £ | 2013-14 | Cymhariaeth gyda 2012-13 |
|---|---|---|
| Awdurdod Tân Gogledd Cymru | 3,219,270 | 3,236,550 |
| Bwrdd Draenio Mewnol Cors Malltraeth | 1,870 | 1,870 |
| Bwrdd Gwarchodwyr Tywyn Trewan | 1,500 | 1,500 |

ac mae'r penderfyniad drafft yn cynnwys praeseptau Comisiynwr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r 40 o gynghorau cymuned fel eitemau ar wahân yn 6dd a 7.

## 7. Y SEFYLLFA GYFFREDINOL

O ystyried y Strategaeth ar gyfer y Gyllideb, y rhagamcanion economaidd a'r sefyllfa yr adroddwyd arni o ran cadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd yr arian wrth gefn, fy argymhelliad i yw na ddylai'r cynnydd yn y dreth gyngor fod yn is na 5% ac na ddylai'r lefel darged ar gyfer y balansau cyffredinol fod yn is na £5m.

**CLARE WILLIAMS** **21 CHWEFROR 2013**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)**

**DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS**

**DATGANIAD AR Y STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, Y STRATEGAETH DARPARIAETH REFENIW ISAF (DRI) A STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2013/14**

## 1. Rhagarweiniad

### 1.1 Cefndir

Rhaid i'r Cyngor weithredu cyllideb gytbwys sy'n golygu bod rhaid i gyfanswm y refeniw sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn ariannol fod yn ddigonol i gwrdd â gwariant a hefyd, rhaid i'r arian gwirioneddol a ddaw i mewn bod yn ddigonol i gydbwyso'r arian a fydd yn mynd allan. Rhan allweddol o'r gweithgareddau rheoli trysorlys yw sicrhau bod y llif arian hwn wedi ei gynllunio'n ddigonol a bod arian ar gael pan mae ei angen. Caiff arian sydd dros ben ei fuddsoddi mewn gwrthbartïon neu offerynnau risg isel sy'n cyd-fynd â dull risg isel y Cyngor gan sicrhau hylifedd digonol cyn ystyried y dychweliad ar fuddsoddiadau.

Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn darparu canllawiau ar gyfer anghenion benthyca'r Cyngor, sef cynllunio llif arian ar gyfer y tymor hwy mewn gwirionedd er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau o ran gwariant cyfalaf. Gall rheoli'r arian tymor hwy olygu trefnu benthyciadau ar gyfer y tymor hir neu'r tymor byr neu ddefnyddio gwargedion llif arian am dymor hwy. O bryd i'w gilydd, gellir ailstrwythuro dyledion i gwrdd â risgiau neu amcanion cost y Cyngor.

Yn benodol, rhaid i awdurdod lleol glandro ei ofynion cyllidebol ar gyfer pob blwyddyn ariannol i gynnwys y costau refeniw sy'n llifo o benderfyniadau ynghylch cyllido cyfalaf. Mae hyn yn golygu bod rhaid cyfyngu:-

- cynnydd mewn costau refeniw yn sgil ffioedd llog uwch, oherwydd benthyca ychwanegol i gyllido gwariant cyfalaf, ac
- unrhyw gynnydd mewn costau rhedeg prosiectau cyfalaf newydd, i lefel sy'n fforddiadwy o ran incwm rhagamcanedig y Cyngor.

Mae Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys yn diffinio'r polisïau ag amcanion y gweithgareddau rheoli trysorlys. Gweler Atodiad 9.

### 1.2 Gofynion o ran cyflwyno adroddiadau

Rhaid i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo o leiaf dri phrif adroddiad bob blwyddyn sy'n ymgorffori amrediad o bolisïau, amcangyfrifon a ffigyrau gwirioneddol. Rhaid i'r adroddiadau hyn gael eu sgriwtinieddio'n ddigonol gan bwyllgor cyn cael eu hargymell i'r Cyngor. Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am gyflawni'r swyddogaeth hon.

**Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys a'r Strategaeth Trysorlys** - Mae'r adroddiad cyntaf a'r un pwysicaf yn cynnwys:-

- y Strategaeth Rheoli Trysorlys (sut bydd y buddsoddiadau a'r benthyciadau'n cael eu trefnu) gan gynnwys dangosyddion trysorlys;
- strategaeth fuddsoddi (canllawiau ynghylch sut y dylid rheoli buddsoddiadau);
- Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (sut mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei drosglwyddo i refeniw dros gyfnod o amser); a
- Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys (diffiniad o'r polisïau ag amcanion y swyddogaeth rheoli trysorlys).

Yn ogystal, mae angen adrodd ar y cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion pwyllog a trysorlys cysylltiedig).

**Adroddiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn** - Bydd hwn yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ynghylch cynnydd o ran y sefyllfa gyfalaf, gan ddiwygio'r dangosyddion pwyllog yn ôl yr angen gan nodi a yw'r strategaeth trysorlys yn cwrdd â'i amcanion ynteu a oes angen adolygu unrhyw bolisïau. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n chwarterol, sef yn amlach na'r gofyniad isaf (gyda chwarteri un a tri ond yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio).

**Adroddiad Trysorlys Blynyddol** – Yn hwn, ceir manylion ynghylch detholiad o ddangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol a gweithgareddau trysorlys gwirioneddol o gymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth.

### 1.3 Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2013/14

Mae'r strategaeth a awgrymir ar gyfer 2013/14 mewn perthynas â'r agweddau canlynol o'r swyddogaeth rheoli trysorlys yn seiliedig ar sylwadau'r swyddogion trysorlys ar gyfraddau llog ac ategir at y rhain gan ragolygon o'r farchnad a ddarperir gan ymgynghorydd trysorlys y Cyngor, Sector Treasury Services.

Mae'r strategaeth ar gyfer 2013/14 yn ymwneud â dau brif faes:-

**Materion Cyfalaf**

- y cynlluniau cyfalaf a'r dangosyddion pwyllog;
- y strategaeth DRI.

**Materion rheoli trysorlys**

- y sefyllfa gyfredol o ran y trysorlys;
- dangosyddion trysorlys a fydd yn cyfyngu ar risg a gweithgareddau trysorlys y Cyngor;
- y rhagolygon o ran cyfraddau llog;
- y strategaeth fenthyca;
- polisi ar fenthyca o flaen yr angen;
- ail-raglennu dyledion;
- y strategaeth fuddsoddi;
- polisi teilyngdod credyd; a
- polisi ar ddefnyddio darparwyr gwasanaeth allanol.

Mae'r elfennau hyn yn cwrdd â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003, Côd Pwyllog CIPFA, Canllawiau DRI LIC, Côd Rheoli Trysorlys CIPFA a Chanllawiau Buddsoddi LIC.

### 1.4 Hyfforddiant

Dan Côd CIPFA mae'n ofynnol fod y swyddog cyfrifol yn sicrhau bod Aelodau â chyfrifoldeb am reoli trysorlys yn derbyn hyfforddiant digonol yn rheoli trysorlys. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau sy'n gyfrifol am sgriwtini. Yn Hydref 2012, ymgymerwyd â hyfforddiant Aelodau ar faterion rheoli trysorlys, er mwyn cefnogi rôl sgriwtineiddio Aelodau'r Pwyllgor Archwilio. Trefnir hyfforddiant pellach pan fo'r angen.

O bryd i'w gilydd, fe adolygir anghenion hyfforddi swyddogion rheoli trysorlys.

### 1.5 Mabwysiadu'r Côd

Rhaid i'r Cyngor nodi a yw wedi mabwysiadu Côd Ymddygiad CIPFA ar Reoli Trysorlys. Mabwysiadwyd Côd gwreiddiol 2001 ar 5 Mawrth 2002 gan y Cyngor llawn, mabwysiadwyd y Côd diwygiedig ar 4 Mawrth 2010 a nawr mae angen mabwysiadu'r Côd cyfredol 2011.

## 2. Ystyriaethau Cyfalaf

Mae rhagolygon gwariant cyfalaf cyfredol y Cyngor ar gyfer 2013/14 wedi'u nodi isod. O ran y blynyddoedd ar ôl 2013/14 cyfyngir y symiau a ddangosir i ymrwymiadau cyfredol sy'n gysylltiedig â chynlluniau sy'n parhau. Yn ogystal, mae'n ystyried am y rhagdybiaeth bydd 'cyllidebau blynyddol' yn parhau, ar eu lefel 2013-14, y defnyddir yn llawn ym mhob blwyddyn yr arian wrth gefn benthyca digefnogaeth, y gwarir pob blwyddyn £5m yn 2014-15 a 2015-16 ar resymoli asedau, a bod gwariant y CRT yn dilyn y cynllun 30 mlynedd gyfredol.

Y pwyntiau allweddol i'w nodi yw :-

- bydd y rhaglenni'n gyffredinol yn cael eu cyfyngu i'r hyn sy'n fforddiadwy, o ran y gwariant cyfalaf gwirioneddol ac o ran y goblygiadau refeniw (gweler 1.1 uchod);
- bydd y rhaglenni ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol yn cael eu gostwng yn sylweddol o gymharu â'r lefelau cyfredol, yn rhannol oherwydd cwblhawyd Rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru y CRT yn 2012.

| £m | 2011/12 Gwirioneddol £m | 2012/13 Rhagamcanedig £m | 2013/14 Amcangyfrif £m | 2014/15 Amcangyfrif £m | 2015/16 Amcangyfrif £m |
|---|---|---|---|---|---|
| CYFANSWM | 21.6 | 25.6 | 23.9 | 27.2 | 16.2 |

## 3. Benthyca

Bydd y cynlluniau gwariant cyfalaf sydd yn cael eu gosod allan yn adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor Gwaith yn darparu manylion gweithgaredd gwasanaeth y Cyngor. Mae'r swyddogaeth rheoli trysorlys yn sicrhau bod arian parod y Cyngor wedi ei drefnu yn unol â'r codau proffesiynol perthnasol, i sicrhau fod arian parod digonol ar gael i gwrdd â'r gweithgaredd gwasanaeth yma. Bydd hyn yn cynnwys trefnu'r llif arian parod a, lle mae'r cynlluniau cyfalaf ei angen, trefnu'r cyfleusterau benthyca priodol. Mae'r strategaeth yn rhoi sylw i'r dangosyddion trysorlys / pwyllog perthnasol, y sefyllfa dyled gyfredol ac a ragwelir, a'r strategaeth buddsoddi flynyddol.

### 3.1 Sefyllfa Portffolio ar hyn o bryd

Roedd sefyllfa'r Cyngor o ran y portffolio trysorlys ar 16 Ionawr 2013 fel a ganlyn:-

| | | Prifswm (£m) | Cyfraddau Cyfartalog (%) |
|---|---|---|---|
| Cyllid Cyfradd Sefydlog | BBGC | 96.1 | 5.53 |
| Cyllid Cyfradd Amrywiol | d/b | 0.0 | d/b |
| **Cyfanswm y Dyledion** | | **96.1** | **5.53** |

BBGC: Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus

Ceir eglurhad manylach ynghylch dyledion allanol yn Atodiad 1.

### 3.2 Dangosyddion Trysorlys: Cyfyngiadau o ran Benthyca

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor dan Ran 3 y Ddeddf a rheoliadau cefnogol i benderfynu a pharhau i adolygu faint y gall fforddio ei fenthyca. Yr enw ar y swm y penderfynir arno yw "Trothwy Benthyca Fforddiadwy". Yn y Côd Pwyllog, cyfeirir at hyn fel y Trothwy a Ganiateir.

Rhaid i'r Cyngor gymryd y Côd Pwyllog i ystyriaeth wrth bennu'r Trothwy a Ganiateir ac, yn ei hanfod, mae hyn yn golygu bod rhaid iddo sicrhau bod cyfanswm y buddsoddiadau cyfalaf yn cadw o fewn trothwyon cynaliadwy ac, yn benodol, bod yr effaith ar lefel ei dreth gyngor a'i renti cyngor yn y dyfodol yn 'dderbyniol'.

Er mai'r term yw "Trothwy Benthyca Fforddiadwy'", mae'r cynlluniau cyfalaf sydd i'w hystyried ar gyfer eu cynnwys yn ymgorffori cyllid o fenthyciadau allanol a mathau eraill o rwymedigaeth, megis trefniadau credyd. Bydd y trothwy a ganiateir yn cael ei bennu, ar sail dreigl, am y flwyddyn ariannol sydd i ddod a'r ddwy flwyddyn ariannol wedi hynny.

### 3.3 Rhagolygon o ran Cyfraddau Llog

Mae'r Cyngor wedi penodi Sector fel ei ymgynghorydd trysorlys a rhan o'r gwasanaeth yw cynorthwyo'r Cyngor i lunio barn ar gyfraddau llog. Yn Atodiad 3, dygir ynghyd nifer o ragolygon cyfredol y ddinas ar gyfer cyfraddau llog tymor byr (Cyfradd y Banciau) a chyfraddau sefydlog tymor hwy. Yn y tabl isod, ceir barn Sector.

| Cyfartaledd Blynyddol (%) | Cyfraddau Banc (%) | Cyfraddau Benthyca BBGC (yn cynnwys addasiad graddfa sicrwydd) | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 5 mlynedd | 25 blwyddyn | 50 blwyddyn |
| Rhagfyr 2012 | 0.50 | 1.50 | 3.70 | 3.90 |
| Mawrth 2013 | 0.50 | 1.50 | 3.80 | 4.00 |
| Mehefin 2013 | 0.50 | 1.50 | 3.80 | 4.00 |
| Medi 2013 | 0.50 | 1.60 | 3.80 | 4.00 |
| Rhagfyr 2013 | 0.50 | 1.60 | 3.80 | 4.00 |
| Mawrth 2014 | 0.50 | 1.70 | 3.90 | 4.10 |
| Mehefin 2014 | 0.50 | 1.70 | 3.90 | 4.10 |
| Medi 2014 | 0.50 | 1.80 | 4.00 | 4.20 |
| Rhagfyr 2014 | 0.50 | 2.00 | 4.10 | 4.30 |
| Mawrth 2015 | 0.75 | 2.20 | 4.30 | 4.50 |
| Mehefin 2015 | 1.00 | 2.30 | 4.40 | 4.60 |
| Medi 2015 | 1.25 | 2.50 | 4.60 | 4.80 |
| Rhagfyr 2015 | 1.50 | 2.70 | 4.80 | 5.00 |
| Mawrth 2016 | 1.75 | 2.90 | 5.00 | 5.20 |

Mae adferiad yr economi yn y DU ers 2008 wedi bod yr adferiad gwaethaf a'r un mwyaf araf yn hanes diweddar, er i'r economi ddychwelyd i dyfiant positif yn nhrydydd chwarter 2012. Gwan yw'r rhagolygon tyfiant ac mae gwariant defnyddwyr, yr hyn sy'n gyrru adferiad fel arfer, yn debygol o barhau dan bwysau o ganlyniad i ddefnyddwyr yn canolbwyntio ar ad-dalu dyled bersonol, chwyddiant yn erydu incwm sydd ar gael i'w wario, anhwylder cyffredinol ynglŷn â'r economi ac ofnau cyflogaeth.

Bydd prif yrwyr economi'r DU yn debygol o barhau'n rhai allanol. Mae 40% o allforion y DU yn mynd i'r Parth Ewro, felly mae'r anawsterau yn yr ardal yma yn debygol o barhau i rwystro tyfiant y DU. Mae'r UD, prif economi'r byd, yn wynebu problemau dyled debyg i'r DU, ond maent angen datrys ar frys y clogwyn ariannol nawr mae'r etholiadau Arlywyddol allan o'r ffordd. Bydd y tynhau cyllidol canlyniadol yn yr UD a'r problemau sy'n parhau ym Mharth Ewro yn gwasgu tyfiant y DU ac mae'n debygol gwelwn lithrant yng nghynlluniau i leihau diffyg y DU.

Mae gan y rhagolygon economaidd heriol ac ansicr hyn nifer o oblygiadau o ran rheoli trysorlys:-

- Mae'r problemau o ran dyledion sofren Parth yr Ewro, yn arwydd clir o risg uwch o lawer o wrth bartïon. Mae hyn yn parhau i awgrymu y dylid defnyddio gwrth bartïon ansawdd uwch am gyfnodau byrrach o amser;
- Mae dychweliadau ar fuddsoddiadau yn debygol o aros yn weddol isel yn ystod 2013/14 a thu draw;
- Mae cyfraddau llog ar fenthyciadau yn ddeniadol ar hyn o bryd ond maent yn debygol o barhau i fod yn isel am beth amser. Bydd angen monitro'n ofalus amseru unrhyw fenthyciadau;
- Erys cost cyfalaf - bydd unrhyw fenthyciadau a gymerir sy'n arwain at gynnydd mewn buddsoddiadau yn arwain at golled refeniw rhwng y costau benthyca a'r dychweliadau ar y buddsoddiadau.

Mae adolygiad manwl o'r cefndir economaidd cyfredol ynghlwm yn Atodiad 4 yr adroddiad hwn.

## 3.4 Gofynion Benthyca

Y symudiadau a ragwelir yng ngofyniad cyllido cyfalaf (GCC) y Cyngor yw :-

| **SYMUDIADAU AMCANGYFRIFIR YNG NGOFYNIAD CYLLIDO CYFALAF A BENTHYCA NEWYDD 2012/13 I 2015/16** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2012/13 Rhagamcanedig £'000** | **2013/14 Amcangyfrif £'000** | **2014/15 Amcangyfrif £'000** | **2015/16 Amcangyfrif £'000** |
| **Symudiad yn y GCC** | | | | |
| **Benthyciadau Newydd i gefnogi Gwariant Cyfalaf** | | | | |
| *Benthyca gyda Chefnogaeth* | *3,758* | *4,820* | *2,140* | *2,140* |
| *Benthyca digefnogaeth* | *5,720* | *6,308* | *6,850* | *6,000* |
| **Cyfanswm** | **9,478** | **11,128** | **8,990** | **8,140** |
| *Lleihau gan : Isafswm Darpariaeth Refeniw a derbyniadau Cyfalaf wedi eu neilltuo* | (4,380) | (4,618) | (5,120) | (5,167) |
| *Symudiad net yn y GCC* | **5,098** | **6,510** | **3,870** | **2,973** |
| | | | | |
| **Symudiadau posib yn y benthyca gwirioneddol** | | | | |
| Symudiad yn y GCC (uchod) | 5,098 | 6,510 | 3,870 | 2,973 |
| Allanoli benthyca mewnol cyn 2012/13 | 4,564 | - | - | - |
| Benthyca newydd | 6 | 6,507 | 7 | 8 |
| **Cyfanswm benthyca newydd posib** | **9,668** | **13,017** | **3,877** | **2,981** |

Mae hyn yn ymgorffori effaith llawn y Rhaglen Cyfalaf drafft am 2013/14. Ar gyfer y blynyddoedd ariannol dilynol, cyfyngir benthyciadau newydd i'r dyraniadau datganwyd (dangosol) ar gyfer benthyca gyda chefnogaeth, plws swm blynyddol o £1m o fenthyca digefnogaeth ychwanegol ynghyd a chyfar am dderbyniadau cyfalaf gohiriedig ynghyd ag effaith Menter Benthyca Llywodraeth Leol. Yn ogystal, mae'n rhagdybio bydd y derbyniad cyfalaf o werthu safle Ysgol y Bont gyfredol, fel y cyllidebwyd a bydd o fewn 2014/15, gan ostwng yr angen am fenthyca digefnogaeth yn y flwyddyn yna.

Y tebygolrwydd yw ni fydd y cyfan o'r angen yma'n cael ei ddiwallu gan fenthyca allanol (gweler 3.4.1 isod).

## 3.5 Y Strategaeth Fenthyca

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor mewn sefyllfa o dan-fenthyca. Mae hyn yn golygu bod yr angen am fenthyciadau cyfalaf (sef y Gofyniad Cyllido Cyfalaf), heb ei ariannu'n llawn ac mae dyledion benthyca wedi cael eu defnyddio fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae'r driniaeth hon yn un bwyllog oherwydd bod dychweliadau ar fuddsoddiadau yn isel a risg o ran wrth bartïon yn uchel a bwriedir glynu wrthi lle'n briodol (gweler 3.5.1 isod am ystyriaeth fwy manwl o fenthyca mewnol ac allanol).

Yn erbyn y cefndir hwn ar risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull pwyllog o ran gweithgareddau trysorlys 2013/14. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig at amgylchiadau sy'n newid:-

- Os roedd teimlad bod risg sylweddol o GWYMP sydyn yn y cyfraddau tymor byr a thymor hir, e.e. oherwydd mwy o risg o ddisgyn yn ôl i ddirwasgiad neu risgiau datchwyddiant, yna bydd benthyciadau tymor hir yn cael eu gohirio ac ystyrir newid o gyllido cyfradd sefydlog i fenthyca tymor byr.

- Os roedd teimlad bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer mwy yn y cyfraddau tymor hir a thymor byr na'r rhagolygon cyfredol, efallai oherwydd cynnydd mwy na'r disgwyl mewn gweithgareddau economaidd byd-eang neu gynnydd sydyn mewn risgiau chwyddiant, yna byddai sefyllfa'r portffolio yn cael ei hailasesu gyda'r tebygolrwydd o gyllido tymor sefydlog tra byddai cyfraddau llog yn parhau i fod yn weddol isel.

Adroddir ar unrhyw benderfyniadau i'r corff gwneud penderfyniadau priodol pan ddaw'r cyfle nesaf.

Yn wyneb yr uchod, bydd strategaeth fenthyca'r Cyngor yn seiliedig ar y ffynonellau isod yn darparu gwerth:-

- Benthyca dros dro gan y marchnadoedd arian neu awdurdodau lleol eraill;
- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiol gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) am hyd at 10 mlynedd;
- Benthyca am gyfnodau byr o ffynonellau y tu allan i'r BBGC;
- Bydd triniaeth hyblyg i'r cymysgedd o fenthyca mewnol ac allanol (gweler 3.5.1 isod);
- Benthyciadau marchnad cyfradd sefydlog tymor hir, lle mae'r cyfraddau yn llawer is na chyfraddau'r BBGC ar gyfer y cyfnod aeddfedu cyfatebol, a chynnal balans priodol rhwng dyled BBGC a dyled marchnad yn y portffolio dyledion;
- Benthyca gan y BBGC am gyfnodau sy'n llai na 10 mlynedd lle disgwylir i gyfraddau fod yn sylweddol is na'r cyfraddau ar gyfer cyfnodau hwy. Mae hyn yn cynnig amrediad o opsiynau ar gyfer benthyca newydd a fydd yn symud i ffwrdd o ganolbwyntio ar ddyledion tymhorau hwy.

Bydd y Swyddog Adran 151 hefyd yn adolygu cyfleoedd posib i gymryd bondiau neu i fynd ar drywydd trefniadau benthyca cydweithredol arall.

### 3.5.1 Benthyca mewnol yn erbyn benthyca allanol

Mae'r gymhariaeth rhwng sefyllfaoedd dyled gros a net ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn (mae hyn ar sail cael ei gyllido'n llawn):-

| BENTHYCA NET 2011/12 HYD AT 2015/16 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2011/12 Gwirioneddol £m | 2012/13 Rhagamcanedig £m | 2013/14 Amcangyfrif £m | 2014/15 Amcangyfrif £m | 2015/16 Amcangyfrif £m |
| Cyfanswm benthyca | 96,103 | 105,764 | 112,274 | 116,347 | 119,367 |
| Cyfanswm buddsoddi | 16,151 | 20,967 | 20,000 | 20,000 | 20,000 |
| **Benthyca Net** | **79,952** | **84,797** | **92,274** | **96,347** | **99,367** |

Mae'r amodau cyfredol yn nodi bod angen agwedd hyblyg o ran y dewis rhwng benthyca mewnol ac allanol. Mae llawer o'r ffactorau a oedd wrth wraidd y polisi blaenorol i allanoli'r holl fenthyca yn parhau i fod yn ddilys, e.e.

- I warchod y rheini sy'n talu'r dreth gyngor rhag colledion a achoswyd gan y dull o gyfrifo'r Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai yn y system gyfredol;
- Lleddfu unrhyw faterion hylifedd a achoswyd gan weithredu darpariaethau penodol yn y dyfodol i gyfyngu benthyca digefnogaeth;
- Gan fod y Gyfradd Banc yn parhau i fod yn anarferol o isel yn hanesyddol, erys cyfle unigryw i awdurdodau lleol reoli eu strategaeth o gymryd benthyciadau allanol newydd.

Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau yn parhau mewn perthynas â'r dull hwn o weithredu, fel y dywedwyd eisoes, e.e.:-

- Gall y polisi olygu bod yn agored i risg credyd, felly bydd raid rheoli'r elfen hon yn ofalus iawn;
- Rhaid parhau i roi sylw manwl i'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau benthyca a'r cyfraddau buddsoddi i sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y mae lefel briodol o reolaeth risg wedi ei chyrraedd i sicrhau diogelwch buddsoddiadau.

O blaid mewnoli, dros y tair blynedd nesaf disgwylir y bydd cyfraddau buddsoddi yn is na'r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hynny'n golygu bod ystyriaethau gwerth am arian yn awgrymu y gellid cael gwerth gorau trwy osgoi benthyca allanol newydd a thrwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyled allanol sy'n aeddfedu (cyfeirir at hyn fel benthyca mewnol). Byddai hynny'n sicrhau'r arbedion tymor byr mwyaf posib.

Fodd bynnag, rhaid pwyso a mesur arbedion tymor byr a geid trwy osgoi benthyca allanol tymor hir yn 2013/14 yn erbyn y posibilrwydd o gael costau tymor hir ychwanegol, trwy ohirio cymryd benthyciadau allanol newydd nad oes modd eu hosgoi tan yn hwyrach ymlaen pan ragwelir y bydd cyfraddau tymor hir y BBGC yn sylweddol uwch.

Bydd newidiadau posib i Gymhorthdal Tai hefyd yn cael dylanwad ar y balans rhwng allanoli/mewnoli, ond disgwylir am ragor o wybodaeth ar y mater hwn gan LlC.

Mae'r Cyngor wedi edrych ar y posibilrwydd o ad-dalu rhai dyledion allanol i'r BBGC yn gynnar er mwyn gostwng y gwahaniaeth rhwng ei sefyllfaoedd debyd gros a net. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod y BBGC wedi cyflwyno cyfraddau ad-dalu sy'n llawer is na'r cyfraddau benthyca newydd ym mis Tachwedd 2007, ynghyd â'r ffaith bod y gwahaniaeth rhwng y cyfraddau benthyca newydd ac ad-dalu yn Hydref 2010 yn parhau i ledu, yn golygu o bosib y byddai gweithredu yn y fath modd yn golygu premiymau mawr; mae'n annhebygol y gellid cyfiawnhau lefelau premiwm mor fawr ar sail gwerth am arian. Caiff y sefyllfa hon ei monitro rhag ofn y bod y BBGC yn lleihau'r gwahaniaethau hyn rhyw dro yn y dyfodol.

Yn erbyn y cefndir hwn, byddir yn wyliadwrus gyda gweithgareddau trysorlys 2013/14. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro'r farchnad cyfraddau llog ac yn cymryd agwedd ymarferol tuag at amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi gwybod am unrhyw benderfyniadau i'r corff gwneud penderfyniadau priodol pan ddaw'r cyfle nesaf ar gael.

### 3.6 Y polisi ynghylch benthyca ymlaen llaw i gwrdd ag anghenion

Ni fydd y Cyngor yn benthyca mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, dim ond er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca ymlaen llaw o fewn amcangyfrifon gofynion cyllido cyfalaf a gymeradwywyd ymlaen llaw a bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod modd dangos gwerth am arian a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch arian o'r fath.

Wrth benderfynu a fydd y Cyngor yn benthyca cyn bod angen gwneud hynny bydd y Cyngor yn:-

- sicrhau bod cyswllt clir rhwng y rhaglen gyfalaf a phroffil aeddfedrwydd y portffolio dyled gyfredol sy'n cefnogi'r angen i fenthyca cyn i'r angen godi;
- sicrhau bod cyfrifoldebau refeniw parhaus sy'n cael eu creu, a'r goblygiadau ar gyfer cynlluniau a chyllidebau'r dyfodol wedi eu hystyried;
- pwyso a mesur y ffactorau economaidd a marchnad a allai gael dylanwad ar ddull ac amseriad unrhyw benderfyniad i fenthyca;
- ystyried manteision ac anfanteision dulliau cyllido eraill;

- ystyried y cyfraddau llog eraill sydd ar gael, y cyfnodau mwyaf priodol i gyllido a'r proffiliau ad-dalu i'w defnyddio;
- ystyried effaith benthyca ymlaen llaw ar falansau arian buddsoddi sy'n cynyddu dros dro (hyd nes y bydd angen cyllido gwariant cyfalaf) a'r ffaith y byddir yn fwy agored yn sgil hynny i risg gwrth barti, a risgiau eraill, a lefel risgiau o'r fath o gofio'r trefniadau sydd wedi eu sefydlu i'w cyfyngu i'r eithaf.

Bydd y risgiau'n gysylltiedig ag unrhyw weithgaredd benthyca o flaen y galw yn amodol ar werthusiad o flaen llaw ac adroddiadau dilynol drwy'r mecanwaith adrodd canol-blwyddyn neu flynyddol.

### 3.7 Ad-drefnu Dyled

Yn sgil BBGC yn cyflwyno gwahaniaeth yn 2007 rhwng y cyfraddau ar gyfer benthyca newydd a'r cyfraddau ar gyfer ad-dalu dyledion, ynghyd â'r ffaith bod y gwahaniaeth wedi tyfu rhwng cyfraddau benthyca newydd ac ad-dalu ar 20 Hydref 2010, mae ailstrwythuro dyledion trwy fenthyca gan BBGC yn llawer llai deniadol nag yr oedd cyn y digwyddiadau hyn. Yn arbennig, byddai'n rhaid rhoi sylw i'r premiymau mawr a fyddai'n digwydd yn sgil ad-dalu benthyciadau gan BBGC yn gynnar, ac mae'n annhebygol iawn y gellid cyfiawnhau'r rhain ar sail gwerth am arian os byddid yn defnyddio cyllid gan BBCG yn eu lle. Fodd bynnag, efallai y byddai modd gwneud rhai arbedion llog trwy ddefnyddio benthyciadau LOBO (Lenders Option Borrowers Option), a benthyciadau marchnad eraill, mewn ymarferion ad-drefnu yn hytrach na defnyddio benthyciadau BBGC fel ffynhonnell gyllido.

Gan y bydd cyfraddau benthyca tymor byr yn sylweddol rhatach na chyfraddau llog tymor sefydlog hwy, efallai y bydd cyfleoedd i wneud arbedion trwy symud o ddyledion tymor hir i ddyled tymor byr. Fodd bynnag, bydd angen ystyried yr arbedion hyn yn wyneb sefyllfa gyfredol y trysorlys a maint a chost ad-dalu dyledion (h.y. y premiymau a godir).

Bydd y rhesymau dros ad-drefnu yn cynnwys:-

- Cynhyrchu arbedion arian parod ac/neu arbedion llif arian gyda disgownt;
- Cynorthwyo i gwrdd â'r strategaeth trysorlys;
- Gwella balans y portffolio (diwygio'r proffil aeddfedu ac/neu falans yr anwadalrwydd ariannol).

Rhoddir ystyriaeth hefyd i nodi a oes posibilrwydd ar ôl i wneud arbedion trwy adael i falansau buddsoddi gostwng trwy ad-dalu dyled yn gynnar oherwydd bod cyfraddau tymor byr ar fuddsoddiadau yn debygol o fod yn is na chyfraddau a delir ar ddyledion cyfredol.

Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am yr holl weithgareddau ad-drefnu dyled yn y cyfarfod nesaf ar ôl cymryd y camau.

## 4. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

### 4.1 Sefyllfa Gyfredol y Portffolio

Roedd sefyllfa portffolio trysorlys y Cyngor ar 16 Ionawr 2013 yn cynnwys :-

| | Prifswm (£m) | Graddfa Cyfartalog (%) |
|---|---|---|
| Adneuon – ar alw i 30 diwrnod | 14.4 | 0.74 |
| Adneuon – tymor sefydlog < 1 blwyddyn | 10.0 | 1.63 |
| Adneuon – tymor sefydlog 1 blwyddyn + | - | - |
| **Cyfanswm adneuon** | **24.4** | **1.11** |

## 4.2 Polisi Buddsoddi

Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Canllawiau") a Chôd Ymarfer Diwygiedig CIPFA 2011 ar gyfer Awdurdodau Lleol ynghylch Rheolaeth Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Nodiadau Canllawiau i'r Sectorau eraill. Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor fydd diogelwch yn gyntaf, hylifedd yn ail ac wedyn elw.

Yn unol â'r uchod, ac er mwyn gostwng risgiau i fuddsoddiadau i'r eithaf, mae'r Cyngor wedi nodi'n glir yr ansawdd credyd isaf sy'n dderbyniol yn achos gwrthbartïon i'w cynnwys ar y rhestr fenthyca (gweler Atodiad 5). Mae'r fethodoleg o ran teilyngdod credyd a ddefnyddir i greu'r rhestr gwrthbartïon yn cymryd ystyriaeth lawn o raddfeydd a rhagolygon a gyhoeddwyd gan y tair asiantaeth graddio ynghyd â dealltwriaeth glir o'r hyn y mae'r rhain yn ei adlewyrchu ym marn pob asiantaeth. Gan ddefnyddio cyfraddau Sector, mae graddfeydd y banciau yn cael eu monitro ar sail amser gwirioneddol gyda manylion am unrhyw newidiadau yn cael eu cyfleu'n electronig wrth i'r asiantaethau roi gwybod am newidiadau.

Ymhellach, mae swyddogion y Cyngor yn cydnabod nad y graddfeydd hyn ddylai fod yr unig beth sy'n penderfynu ar ansawdd sefydliad a'i fod yn bwysig asesu a monitro'r sector ariannol yn barhaus ar sail micro a macro ac mewn perthynas â'r amgylcheddau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau yn gweithredu y tu mewn iddynt. Bydd yr asesiad hefyd yn cymryd i ystyriaeth wybodaeth sydd yn adlewyrchu barn y marchnadoedd. I'r perwyl hwn, bydd y Cyngor yn ymgysylltu gyda'i ymgynghorwyr i fonitro prisiau marchnad fel "Trosglwyddo Risgiau Credyd" ac yn troshaenu'r wybodaeth honno am ben y graddfeydd credyd. Mae hyn wedi ei integreiddio'n llawn i'r fethodoleg credyd a ddarparwyd gan ymgynghorwyr y Cyngor, Sector, wrth gynhyrchu ei godau lliw sy'n dangos gwahanol lefelau teilyngdod credyd.

Bydd ffynonellau gwybodaeth eraill a ddefnyddir yn cynnwys y wasg ariannol, prisiau cyfraddau a gwybodaeth arall mewn perthynas â'r sector bancio er mwyn sefydlu proses sgriwtini gadarn ynghylch addasrwydd gwrthbartïon buddsoddi posib.

Nod y strategaeth yw cynhyrchu rhestr o wrthbartïon gyda theilyngdod credyd cryf a fydd hefyd yn sicrhau y bydd modd arallgyfeirio ac osgoi canoli risg mewn un lle.

Bwriad y strategaeth yw sicrhau diogelwch buddsoddiadau a gostwng risgiau i'r eithaf.

Mae offerynnau buddsoddi a nodwyd i'w defnyddio yn y flwyddyn ariannol wedi eu rhestru yn Atodiad 5 dan y categorïau Buddsoddiadau 'Penodedig' a 'Amhenodedig'.

**O bryd i'w gilydd, bydd y Cyngor hefyd yn gwneud benthyciadau, adneuon a buddsoddiadau i bwrpas darparu ei wasanaethau. Bydd y trafodion yma angen awdurdod y Cyngor Sir ar gyfer symiau dros £100k. Bydd yr holl drafodion yn amodol ar ansawdd credyd digonol a chymeradwyaeth y Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio Cyllid.**

## 4.3 Polisi Teilyngdod Credyd

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cynnal rhestr gwrthbartïon yn unol â'r meini prawf a osodir allan yn Atodiad 5 ac adolygir y meini prawf a'u cyflwyno i'r Cyngor eu cymeradwyo pan fo'r angen.

Mae'r meini prawf isafswm graddfa yn defnyddio'r dull cyfenwadur lleiaf o ddewis gwrthbartïon a'r terfynau gweithredol. Golyga hyn fod defnyddio isafswm meini prawf y Cyngor yn berthnasol i'r raddfa isaf sydd ar gael ar gyfer unrhyw sefydliad. Er enghraifft, petai sefydliad yn cael ei raddio gan ddwy asiantaeth, mae un ohonynt yn cwrdd â meini prawf y Cyngor ond nid yw'r llall, ar sail graddfa credyd, fydd y sefydliad yn disgyn tu allan i'r meini prawf benthyca. Darparir gwybodaeth meini prawf credyd gan Sector, ein hymgynghorwyr trysorlys, ar yr holl wrthbartïon gweithredol sy'n cydymffurfio â'r meini prawf isod. Gellir gadael allan o'r rhestr gwrthbartïon unrhyw wrthbarti sy'n methu cwrdd â'r meini prawf. Rhoddir gwybod i swyddogion bron ar unwaith ar ôl unrhyw newidiadau, megis newidiadau graddio, gwylio graddio (hysbysiad o newid tebygol), rhagolygon graddio (hysbysiad o newid tymor hwy posib), ac ystyrir y wybodaeth cyn gweithredu.

Fel haen ychwanegol i'r meini prawf isafswm graddfa credyd a ddisgrifir uchod, mae'r Cyngor hwn hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth teilyngdod credyd a ddarperir gan Sector. Mae'r gwasanaeth hwn yn defnyddio dull modelu soffistigedig gan ddefnyddio graddfeydd credyd gan y tair prif asiantaeth graddfeydd credyd - Fitch, Moody's a Standard and Poor's. Yn ychwanegol at hynny, cymerir y camau isod i asesu graddfeydd credyd gwrth bartïon:

- ystyrir rhagolygon credyd a gweithgareddau monitro credyd gan asiantaethau graddfeydd credyd;
- Trosglwyddo Risgiau Credyd i roi rhybudd buan am newidiadau tebygol mewn graddfeydd credyd;
- graddfeydd sofran i ddewis gwrthbartïon o'r gwledydd sydd fwyaf teilwng i gredyd yn unig.

Mae'r dull modelu hwn yn cyfuno graddfeydd credyd, gweithgareddau monitro credyd a rhagolygon credyd mewn system sgorio sydd wedi ei phwysoli ac sydd wedi ei chyfuno wedyn gyda throshaen o TRC a fydd, yn y pen draw, yn cynhyrchu cyfres o godau lliw i nodi pa mor deilwng o gredyd yw gwrthbartïon. Mae'r codau lliw hyn yn cael eu defnyddio gan y Cyngor i gynorthwyo i benderfynu cyfnod amser y buddsoddiadau. Bydd y Cyngor, felly, fel arfer yn defnyddio gwrthbartïon o fewn y cyfnodau canlynol:

- Melyn 5 mlynedd
- Piws 2 flynedd
- Glas 1 flwyddyn (ond yn berthnasol i Fanciau DU a wladolwyd neu a led wladolwyd)
- Oren 1 flwyddyn
- Coch 6 mis
- Gwyrdd 3 mis
- Dim Lliw Dim i'w ddefnyddio heb ganiatâd penodol y Swyddog Adran 151

Mae gwasanaeth teilyngdod credyd y Sector yn defnyddio amrediad ehangach o wybodaeth na dim ond graddau sylfaenol a thrwy ddefnyddio'r system sgorio yn ôl risg, nid yw'n rhoi sylw gormodol i raddfeydd un asiantaeth yn unig.

Bydd yr holl raddfeydd credyd yn cael eu monitro'n wythnosol. Caiff y Cyngor wybod am newidiadau i raddfeydd y tair asiantaeth trwy ei ddefnydd o wasanaeth teilyngdod credyd y Sector.

- os bydd graddio i lawr yn golygu na fydd cynllun y gwrthbarti/cynllun buddsoddi pellach yn cyfarfod â meini prawf sylfaenol graddfa credyd y Cyngor, bydd ei ddefnyddio ymhellach ar gyfer buddsoddi newydd yn dod i ben ar unwaith, heblaw ei fod wedi ei gymeradwyo; a
- yn ychwanegol at ddefnyddio graddfeydd credyd, bydd y Cyngor yn derbyn gwybodaeth am symudiadau mewn TRC yn erbyn y meincnod iTraxx a data arall am y farchnad yn wythnosol. Fe all symudiadau eithafol yn y farchnad olygu israddio sefydliad neu ei ddileu oddi ar restr fenthyca'r Cyngor.

Cyfeirir hefyd at ddata a gwybodaeth y farchnad, gwybodaeth am gefnogaeth y llywodraeth i fanciau a graddfeydd credyd y gefnogaeth honno.

**4.4 Cyfyngiadau Gwlad**

Mae'r Cyngor wedi penderfynu na fydd ond yn defnyddio gwrthbartïon cymeradwy o wledydd gyda graddfa credyd sofran o AA- yn ôl Graddfeydd Fitch (neu asiantaethau cyfatebol eraill os na fydd Fitch yn ei ddarparu). Fe welir rhestr o'r gwledydd sy'n gymwys trwy ddefnyddio'r meini prawf credyd hyn ar ddyddiad yr adroddiad yn Atodiad 6. Bydd swyddogion yn ychwanegu neu'n tynnu oddi ar y rhestr pe bai'r graddfeydd yn newid yn unol â'r polisi hwn.

**4.5 Strategaeth Fuddsoddi**

**Graddfeydd mewnol:** Yn seiliedig ar ragamcan o'r llif ariannol, mae'r Swyddog Adran 151 rhagweld y bydd y balansau ariannol fydd ar gael yn 2013/14 hyd at £30m ar gyfartaledd ac y byddant rhywle rhwng £15m a £35m. Mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar y balansau ariannol o £30m sydd ar gael ar gyfartaledd y flwyddyn hon hyd yma (gydag ystod o £16m i £34m). Mae yna falans craidd o hyd at £15m ar gael ar gyfer buddsoddi dros gyfnod o 2-3 blynedd. Bydd buddsoddiadau'n cael eu gwneud gan gyfeirio at y balans craidd a'r gofynion llif ariannol a'r rhagolygon o ran cyfraddau llog tymor byr (h.y. graddfeydd buddsoddi hyd at 12 mis).

Ar ddyddiad yr adroddiad yma, nid oedd y Cyngor yn dal unrhyw fuddsoddiadau gyda chyfnod aeddfedrwydd o fwy na blwyddyn.

**Disgwyliadau o ddychweliadau ar fuddsoddiadau:** Mae Graddfa Llog y Banciau wedi parhau ar 0.50% ers Mawrth 2009. Rhagwelir y bydd Llog y Banciau'n dechrau codi yn chwarter 4, 2014. Mae'r rhagolygon am raddfa'r Banc am y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ym Mawrth fel a ganlyn:-

- **2012/ 2013** 0.50%
- **2013/ 2014** 0.50%
- **2014/ 2015** 0.75%
- **2015/ 2016** 1.75%

Mae yna risgiau at i lawr i'r rhagamcanion hyn (h.y. oedi pellach gyda'r cynnydd yng ngraddfa Llog y Banc) pe bai twf economaidd yn parhau'n wan am gyfnod hirach na'r disgwyl. Fodd bynnag, pe bai twf yn pigo i fyny yn gynt na'r disgwyl fe allai fod yna risg at i fyny, yn arbennig pe bai rhagolygon chwyddiant Banc Lloegr am y ddwy flynedd nesaf yn uwch na graddfa darged Banc Lloegr o 2%.

Bydd y Cyngor yn osgoi cloi arian i fyny mewn cytundebau tymor hirach tra bo graddfeydd buddsoddi i lawr i lefelau hanesyddol isel iawn oni bai bod graddfeydd deniadol eithriadol ar gael sy'n gwneud buddsoddi tymor hirach yn werth chweil.

Mae graddfeydd yr enillion a'r arian a fuddsoddwyd am gyfnodau hyd at 3 mis yn ystod bob blwyddyn ariannol am y 4 mlynedd nesaf fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 2012/13 | 0.50% |
| 2013/14 | 0.50% |
| 2014/15 | 0.60% |
| 2015/16 | 1.50% |

Ar gyfer ei falansau sy'n cael eu cynhyrchu gan lif arian, bydd y Cyngor yn ceisio defnyddio ei gyfrifon busnes mynediad ar unwaith ac wrth gefn, ac adneuon cyfnod byr (tros nos i dri mis) er mwyn elwa o log cyfansawdd.

**4.6 Adroddiad buddsoddi diwedd blwyddyn**

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, bydd y Cyngor yn adrodd yn ôl ar ei weithgareddau buddsoddi fel rhan o'i Adroddiad Trysorlys Blynyddol.

**4.7 Rheolwyr Cronfeydd Allanol**

Nid yw'r Cyngor wedi penodi rheolwyr cronfeydd allanol. Byddir yn cadw'r angen i wneud hyn dan sylw a bydd adroddiad yn cael ei roi gerbron y Pwyllgor Gwaith cyn y gwneir unrhyw benodiad o'r fath.

**4.8 Polisi ar ddefnyddio darparwyr gwasanaeth allanol**

Er mwyn gallu prynu sgiliau ac adnoddau arbenigol, mae'r Cyngor yn defnyddio Sector Treasury Services fel ei ymgynghorwyr allanol ar reoli'r trysorlys. Mae telerau eu penodiad a'r dulliau a ddefnyddir i asesu eu gwerth wedi'u cytuno a'u cofnodi'n gywir ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r cyfrifoldeb terfynol am benderfyniadau rheoli'r trysorlys yn parhau gyda'r Cyngor.

**4.9 Dirprwyo**

Fe welir cynllun dirprwyo Rheoli'r Trysorlys a rôl y Swyddog Adran 151 yn Atodiad 8.

**ATODIADAU**

1. Proffil aeddfedu benthyciadau.
2. Datganiad Polisi DRI.
3. Rhagolygon cyfraddau llog.
4. Cefndir economaidd.
5. Buddsoddiadau penodedig ac amhenodedig/Rhestr Benthyca Cymeradwyedig.
6. Gwledydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddiadau.
7. Cynllun dirprwyo rheoli'r trysorlys a rôl y swyddog cyllid 151.
8. Egwyddorion Allweddol Rheoli Trysorlys.
9. Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys.
10. Dangosyddion Pwyllog A Thrysorlys – **I'W GADARNHAU GAN Y CYNGOR**

| DADANSODDIAD BENTHYCIADAU YN AEDDFEDU 2012/13 YMLAEN/ LOANS MATURITY ANALYSIS 2012/13 ONWARDS | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **PWLB Aeddefedu/ PWLB Maturity £'000** | **PWLB EIP/ Annuity/ PWLB EIP/ Annuity £'000** | **Benthyciadau Marchnad/ Market Loans £'000** | **PWLB Amrywiol/ PWLB Variable £'000** | **Cyfanswm yn Aeddfedu/ Total Maturing £'000** | **%YN Aeddfedu o'r Cyfran yn sefyll/ Maturing of Total Outstanding %** |
| 2012/13 | 0 | 6 | 0 | 0 | 6 | 0.0 |
| 2013/14 | 6,500 | 7 | 0 | 0 | 6,507 | 6.8 |
| 2014/15 | 0 | 7 | 0 | 0 | 7 | 0.0 |
| 2015/16 | 0 | 8 | 0 | 0 | 8 | 0.0 |
| 2016/17 | 0 | 9 | 0 | 0 | 9 | 0.0 |
| 2017/18 | 5,500 | 9 | 0 | 0 | 5,509 | 5.7 |
| 2018/19 | 5,000 | 10 | 0 | 0 | 5,010 | 5.2 |
| 2019/20 | 5,000 | 11 | 0 | 0 | 5,011 | 5.2 |
| 2020/21 | 4,500 | 12 | 0 | 0 | 4,512 | 4.7 |
| 2021/22 | 0 | 14 | 0 | 0 | 14 | 0.0 |
| 2022/23 | 2,285 | 15 | 0 | 0 | 2,300 | 2.4 |
| 2023/24 | 1,854 | 16 | 0 | 0 | 1,870 | 1.9 |
| 2024/25 | 0 | 18 | 0 | 0 | 18 | 0.0 |
| 2025/26 | 0 | 20 | 0 | 0 | 20 | 0.0 |
| 2026/27 | 854 | 22 | 0 | 0 | 876 | 0.9 |
| 2027/28 | 1,675 | 24 | 0 | 0 | 1,698 | 1.8 |
| 2028/29 | 0 | 26 | 0 | 0 | 26 | 0.0 |
| 2029/30 | 854 | 21 | 0 | 0 | 875 | 0.9 |
| 2030/31 | 0 | 15 | 0 | 0 | 15 | 0.0 |
| 2031/32 | 1,281 | 9 | 0 | 0 | 1,290 | 1.3 |
| 2032/33 | 0 | 8 | 0 | 0 | 8 | 0.0 |
| 2033/34 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 |
| 2034/35 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 |
| 2035/36 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 |
| 2037/38 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 |
| 2039/40 | 5, 000 | 0 | 0 | 0 | 5,000 | 5.2 |
| 2040/41 | 3,500 | 0 | 0 | 0 | 3,500 | 3.6 |
| 2045/46 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 |
| 2047/48 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 |
| 2050/51 | 2,000 | 0 | 0 | 0 | 2,000 | 2.1 |
| 2052/53 | 28,238 | 0 | 0 | 0 | 28,238 | 29.4 |
| 2054/55 | 3,000 | 0 | 0 | 0 | 3,000 | 3.1 |
| 2055/56 | 3,500 | 0 | 0 | 0 | 3,500 | 3.6 |
| 2056/57 | 5,000 | 0 | 0 | 0 | 5,000 | 5.2 |
| 2057/58 | 8,513 | 0 | 0 | 0 | 8,513 | 8.9 |
| 2059/60 | 1,763 | 0 | 0 | 0 | 1,763 | 1.8 |
| | **95,816** | **287** | **0** | **0** | **96,102** | **100.0** |
| Cyfartaledd bywyd (blynyddoedd)/ Average life(years) | 25.64 | 11.84 | 0.00 | 0.00 | 25.60 | |
| Cyfartaledd graddfa (%)/ Average rate (%) | 5.52 | 9.41 | 0.00 | 0.00 | 5.53 | |

**ATODIAD 2**

**Datganiad Polisi Darpariaeth Refeniw Isafswm 2013/14**

Fe weithredodd y Cyngor y cyfarwyddyd Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) newydd yn 2008/09 a bydd yn asesu'r DRI yn 2013/14 gan roi sylw i'r prif argymhellion a geir yn y cyfarwyddyd a ryddhawyd gan Weinidogion Cymru dan adran 21(1A) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae hyn yn berthnasol i Gronfa'r Cyngor yn unig ac nid i'r CRT.

Bydd y rhan fwyaf o'r DRI am 2013/14 yn ymwneud â'r cyfrifoldeb dyled hanesyddol a fydd yn parhau ar raddfa o 4% o'r Angen Ariannu Cyfalaf (yn unol ag opsiwn 2 y cyfarwyddyd). Bydd peth gwariant, yn gyffredinol y gwariant a gyllidir o fenthyca digefnogaeth, ac a adlewyrchir o fewn y cyfrifoldeb dyled ar 31 Mawrth 2007, yn destun DRI (o dan opsiwn 3) yn unol â'r dull bywyd ased sydd wedi'i nodi isod.

Er bod y rheoliadau'n rhoi disgresiwn i godi DRI ar wariant newydd naill ai ar 4% fel cynt, neu yn ôl hyd fywyd amcangyfrifiedig yr ased, bydd y DRI fel arfer yn cael ei osod ar 4%. Fodd bynnag, bydd gwariant a ariannwyd trwy fenthyca digefnogaeth yn cael ei godi yn unol â'r dull bywyd ased. Bydd y gwahaniaeth hwn yn cael ei gadw mewn golwg.

O dan y dull Bywyd Ased, mae DRI yn cael ei godi dros gyfnod sydd yn cyfateb yn rhesymol gyda'r bywyd defnyddiol a ragamcenir sy'n berthnasol i natur y gwariant, gan ddefnyddio'r dull rhandaliad blynyddol cyfartal. Er enghraifft, bydd gwariant cyfalaf ar adeilad newydd, neu ar ailwampio neu wella adeilad yn gysylltiedig â'r amcangyfrif o fywyd yr adeilad hwnnw.

Y Swyddog Adran 151 fydd yn penderfynu ar gyfnodau bywyd a amcangyfrifir. I'r graddau nad yw gwariant yn golygu creu ased a'i fod o fath sy'n destun cyfnodau bywyd a amcangyfrifir y cyfeirir arnynt yn y cyfarwyddyd, bydd y cyfnodau hyn fel arfer yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i benderfynu ar gyfnodau bywyd defnyddiol a DRI pwyllog mewn amgylchiadau eithriadol lle na fyddai argymhellion y cyfarwyddyd yn briodol.

Bydd y Swyddog Adran 151 yn penderfynu beth yw'r defnydd priodol a phwyllog o'r eithriad ym mharagraff 13 i ohirio codi DRI tan y flwyddyn sy'n dilyn yr un y daeth yr ased yn weithredol.

Oherwydd nad yw rhai mathau o wariant cyfalaf a wneir gan y Cyngor yn rhai y gellir eu cysylltu ag ased unigol, bydd bywydau ased yn cael eu hasesu ar sail sydd yn adlewyrchu'n fwyaf rhesymol y cyfnodau o fudd y rhagwelir y byddant yn codi o'r gwariant. Hefyd, pa fath bynnag o wariant ydyw, bydd yn cael ei grwpio gyda'i gilydd mewn dull sy'n adlewyrchu natur prif elfen y gwariant ac ni fydd yn cael ei rannu ond mewn achosion lle ceir dwy neu fwy o brif elfennau gyda bywydau economaidd defnyddiol sy'n sylweddol wahanol.

Mae rhan y Cyfrif Refeniw Tai o'r Gofyniad o ran Ariannu Cyfalaf yn gyffredinol yn destun taliad 2% DRI; ond bydd benthyca digefnogaeth yn cael ei godi ar refeniw CRT dros gyfnod byrrach yn unol â'r cynllun busnes 30 blynedd a gymeradwywyd.

## Rhagolygon Graddfeydd Llog 2013-2016/ Interest Rate Forecasts 2013 – 2016

| Sector's Interest Rate View | Now | Mar-13 | Jun-13 | Sep-13 | Dec-13 | Mar-14 | Jun-14 | Sep-14 | Dec-14 | Mar-15 | Jun-15 | Sep-15 | Dec-15 | Mar-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector's Bank Rate View | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.75% | 1.00% | 1.25% | 1.50% | 1.75% |
| 3 Month LIBID | 0.39% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.60% | 0.60% | 0.70% | 0.80% | 1.10% | 1.40% | 1.70% |
| 6 Month LIBID | 0.54% | 0.70% | 0.70% | 0.70% | 0.70% | 0.70% | 0.70% | 0.80% | 0.90% | 1.00% | 1.10% | 1.30% | 1.60% | 1.90% |
| 12 Month LIBID | 0.88% | 1.00% | 1.00% | 1.00% | 1.00% | 1.00% | 1.10% | 1.10% | 1.20% | 1.30% | 1.30% | 1.50% | 1.80% | 2.10% |
| 5yr PWLB Rate | 1.85% | 1.50% | 1.50% | 1.60% | 1.60% | 1.70% | 1.70% | 1.80% | 2.00% | 2.20% | 2.30% | 2.50% | 2.70% | 2.90% |
| 10yr PWLB Rate | 2.87% | 2.50% | 2.50% | 2.60% | 2.60% | 2.70% | 2.70% | 2.80% | 3.00% | 3.20% | 3.30% | 3.50% | 3.70% | 3.90% |
| 25yr PWLB Rate | 4.02% | 3.80% | 3.80% | 3.80% | 3.80% | 3.90% | 3.90% | 4.00% | 4.10% | 4.30% | 4.40% | 4.60% | 4.80% | 5.00% |
| 50yr PWLB Rate | 4.15% | 4.00% | 4.00% | 4.00% | 4.00% | 4.10% | 4.10% | 4.20% | 4.30% | 4.50% | 4.60% | 4.80% | 5.00% | 5.20% |
| **Bank Rate** | | | | | | | | | | | | | | |
| Sector's View | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.75% | 1.00% | 1.25% | 1.50% | 1.75% |
| UBS | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | - | - | - | - | - |
| Capital Economics | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | - | - | - | - | - |
| **5yr PWLB Rate** | | | | | | | | | | | | | | |
| Sector's View | 1.85% | 1.50% | 1.50% | 1.60% | 1.60% | 1.70% | 1.70% | 1.80% | 2.00% | 2.20% | 2.30% | 2.50% | 2.70% | 2.90% |
| UBS | 1.85% | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Capital Economics | 1.85% | 1.55% | 1.30% | 1.30% | 1.30% | 1.30% | 1.30% | 1.50% | 1.60% | - | - | - | - | - |
| **10yr PWLB Rate** | | | | | | | | | | | | | | |
| Sector's View | 2.87% | 2.50% | 2.50% | 2.60% | 2.60% | 2.70% | 2.70% | 2.80% | 3.00% | 3.20% | 3.30% | 3.50% | 3.70% | 3.90% |
| UBS | 2.87% | 3.00% | 3.10% | 3.20% | 3.40% | 3.50% | 3.60% | 3.70% | 3.80% | - | - | - | - | - |
| Capital Economics | 2.87% | 2.55% | 2.30% | 2.30% | 2.30% | 2.30% | 2.30% | 2.30% | 2.30% | - | - | - | - | - |
| **25yr PWLB Rate** | | | | | | | | | | | | | | |
| Sector's View | 4.02% | 3.80% | 3.80% | 3.80% | 3.80% | 3.90% | 3.90% | 4.00% | 4.10% | 4.30% | 4.40% | 4.60% | 4.80% | 5.00% |
| UBS | 4.02% | 4.20% | 4.30% | 4.40% | 4.50% | 4.50% | 4.50% | 4.50% | 4.50% | - | - | - | - | - |
| Capital Economics | 4.02% | 3.70% | 3.50% | 3.50% | 3.50% | 3.50% | 3.50% | 3.50% | 3.50% | - | - | - | - | - |
| **50yr PWLB Rate** | | | | | | | | | | | | | | |
| Sector's View | 4.15% | 4.00% | 4.00% | 4.00% | 4.00% | 4.10% | 4.10% | 4.20% | 4.30% | 4.50% | 4.60% | 4.80% | 5.00% | 5.20% |
| UBS | 4.15% | 4.30% | 4.40% | 4.50% | 4.60% | 4.60% | 4.60% | 4.60% | 4.60% | - | - | - | - | - |
| Capital Economics | 4.15% | 4.00% | 3.80% | 3.80% | 3.80% | 3.80% | 3.80% | 3.80% | 3.80% | - | - | - | - | - |

*Rhan o gyngor dderbyniwyd gan SECTOR Cyf/*
*An extract from advice received from SECTOR Ltd*

**Economic Background**
**The Global economy**

The Eurozone debt crisis has continued to cast a pall over the world economy and has depressed growth in most countries. This has impacted the UK economy which is unlikely to have grown significantly in 2012 and is creating a major headwind for recovery in 2013. Quarter 2 of 2012 was the third quarter of contraction in the economy; this recession is the worst and slowest recovery of any of the five recessions since 1930. A return to growth @ 0.9% in quarter 3 is unlikely to prove anything more than a washing out of the dip in the previous quarter before a probable return to negative growth in quarter 4; this would leave overall growth in 2012 close to zero and could then lead into negative growth in quarter 1 of 2013, which would then mean that the UK was in its first triple dip recession since records began in 1955.

The **Eurozone sovereign debt crisis** abated following the ECB's commitment to a programme of Outright Monetary Transactions i.e. a pledge to buy unlimited amounts of bonds of countries which ask for a bailout. The immediate target for this statement was Spain which continues to prevaricate on making such a request, (for a national bailout), and so surrendering its national sovereignty to IMF supervision. However, the crisis in Greece has subsided, for the time being, as a result of the Eurozone agreement to provide a further €50bn financial support package in December. Many commentators, though, still view a Greek exit from the Euro as being likely in the longer term as successive rounds of austerity packages could make it more difficult to bring down the annual deficit and total debt as ratios of GDP due to the effect they have on shrinking the economy and reducing employment and tax revenues. However, another possible way out would be a major write down of total Greek debt; this has now been raised by the German Chancellor as a possible course of action, but not until 2014-15, and provided the Greek annual budget is in balance.

Sentiment in financial markets has improved considerably since this ECB action and additional financial support for Greece to ensure that the Eurozone remained intact during 2012. However, the foundations to this "solution" to the Eurozone debt crisis are still weak and do not address the huge obstacle of unemployment rates of over 25% in Greece and Spain. It is also possible that the situations in Portugal and Cyprus could deteriorate further in 2013 and, although they are minor economies, such developments could unnerve financial markets. There are also general elections coming up in Italy and Germany which could potentially produce some upsets on the political scene. It is, therefore, quite possible that sentiment in financial markets could turn during 2013 after the initial burst of optimism at the start of the year. While equity prices have enjoyed a strong start to 2013, the foundations for this stock market recovery are shallow given the economic fundamentals in western economies. In addition, QE has to come to an end at some point in time and there is a distinct increase in doubt in the central banks of the US and UK as to the effectiveness of any further QE in stimulating economic growth. An end to central purchases of bonds may lead to a fall in bond prices.

**The US economy** has only been able to manage weak growth in 2012 despite huge efforts by the Federal Reserve to stimulate the economy by liberal amounts of quantitative easing (QE) combined with a commitment to a continuation of ultra low interest rates into 2015. Unemployment levels have been slowly reducing but against a background of a fall in the numbers of those available for work. The fiscal cliff facing the President at the start of 2013 has been a major dampener discouraging business from spending on investment and increasing employment more significantly in case there is a sharp contraction in the economy in the pipeline. The fiscal cliffs, and raising the total debt ceiling, still await final resolution by the end of February. The housing market, though, does look as if it has, at long last, reached the bottom and house prices are now on the up.

Hopes for a broad based recovery have, therefore, focused on the **emerging markets**. Recent news from China appears to indicate that the economy has returned to a healthier rate of growth. However, there are still concerns around the unbalanced nature of the economy which is heavily dependent on new investment expenditure. The potential for the bubble in the property sector to burst, as it did in Japan in the 1990s, could have a material impact on the economy as a whole.

**The UK economy**

The Government's austerity measures, aimed at getting the public sector deficit into order, have now had to be extended, in the autumn statement, over a longer period than the original four years. Achieving this new extended timeframe will still be dependent on the UK economy returning to a reasonable pace of growth towards the end of this period.

Currently, the UK is enjoying a major financial benefit from some of the lowest sovereign borrowing costs in the world as the UK is seen as a safe haven from Eurozone debt. However, the subsiding of market concerns over the Eurozone has unwound some of the attractiveness of gilts as a safe haven and led to a significant rise in gilt yields. There is little evidence that UK consumer confidence levels are recovering, nor that the manufacturing sector is picking up. The dominant services sector disappointed in December with the PMI survey indicating the first fall in activity in two years. On the positive side, banks have made huge progress since 2008 in shrinking their balance sheets to more manageable levels and also in reducing their dependency on wholesale funding. However, availability of credit remains tight in the economy and the Funding for Lending scheme, which started in August 2012, has not yet had time to make a significant impact in respect of materially increasing overall borrowing in the economy. Finally, the housing market remains tepid and the outlook is for house prices to be little changed for a prolonged period.

**Economic Growth.** Economic growth has basically flat lined since the election of 2010 and, worryingly, the economic forecasts for 2012 and beyond were revised substantially lower in the Bank of England Inflation quarterly report for August 2012 and were then further lowered in the November Report. Quantitative Easing (QE) increased by £50bn in July 2012 to a total of £375bn. Many forecasters are expecting the MPC to vote for a further round of QE in early 2013 to try to stimulate economic activity. The announcement in November 2012 that £35bn will be transferred from the Bank of England's Asset Purchase Facility to the Treasury (representing coupon payments to the Bank by the Treasury on gilts held by the Bank) was also effectively a further addition of QE.

**Unemployment.** The Government's austerity strategy has resulted in a substantial reduction in employment in the public sector. Despite this, total employment has increased to the highest level for four years as over one million jobs have been created in the private sector in the last two years.
**Inflation and Bank Rate.** Inflation has fallen sharply during 2012 from a peak of 5.2% in September 2011 to 2.2% in September 2012. However, inflation increased back to 2.7% by the end of the year, though it is expected to fall back to reach the 2% target level within the two year horizon.

**AAA rating.** The UK continues to enjoy an AAA sovereign rating. However, the three main credit rating agencies have stated that they will be reviewing this rating in early 2013; they will, thereafter, also be carefully monitoring the rate of growth in the economy as a disappointing performance in that area could lead to a major derailment of the plans to contain the growth in the total amount of Government debt over the next few years.

**Sector's forward view**

Economic forecasting remains difficult with so many external influences weighing on the UK. There does, however, appear to be consensus among analysts that the economy remains relatively fragile and whilst there is still a broad range of views as to potential performance, expectations have all been downgraded during 2012. Key areas of uncertainty include:

- the potential for the Eurozone to withdraw support for Greece at some point if the Greek government was unable to eliminate the annual budget deficit and the costs of further support were to be viewed as being prohibitive, so causing a worsening of the Eurozone debt crisis and heightened risk of the breakdown of the bloc or even of the currency itself. The same considerations could also apply to Spain;
- inter government agreement on how to deal with the overall Eurozone debt crisis could fragment;
- the impact of the Eurozone crisis on financial markets and the banking sector;

- the impact of the Government's austerity plan on confidence and growth and the need to rebalance the economy from services to manufactured goods;
- the under-performance of the UK economy which could undermine the Government's policies that have been based upon levels of growth that are unlikely to be achieved;
- the risk of the UK's main trading partners, in particular the EU and US, falling into recession;
- stimulus packages failing to stimulate growth;
- elections due in Italy and Germany in 2013;
- potential for protectionism i.e. an escalation of the currency war/trade dispute between the US and China;
- the potential for action to curtail the Iranian nuclear programme;
- the situation in Syria deteriorating and impacting other countries in the Middle East.

The focus of so many consumers, corporates and banks on reducing their borrowings, rather than spending, will continue to act as a major headwind to a return to robust growth in western economies.

Given the weak outlook for economic growth, Sector sees the prospects for any changes in Bank Rate before 2015 as very limited. There is potential for the start of Bank Rate increases to be even further delayed if growth disappoints.

Sector believes that the longer run trend is for gilt yields and PWLB rates to rise due to the high volume of gilt issuance in the UK, and the high volume of debt issuance in other major western countries. The interest rate forecast in this report represents a balance of downside and upside risks. The downside risks have already been commented on. However, there are specific identifiable upside risks as follows to PWLB rates and gilt yields, and especially to longer term rates and yields:-

- UK inflation being significantly higher than in the wider EU and US causing an increase in the inflation premium in gilt yields;
- Reversal of QE; this could initially be allowing gilts held by the Bank to mature without reinvesting in new purchases, followed later by outright sale of gilts currently held;
- Reversal of Sterling's safe haven status on an improvement in financial stresses in the Eurozone;
- Investors reverse de-risking by moving money from government bonds into shares in anticipation of a return to worldwide economic growth;
- The possibility of a UK credit rating downgrade.

*Rhan o gyngor dderbyniwyd gan SECTOR Cyf/*
*An extract from advice received from SECTOR Ltd*

## Buddsoddiadau Penodedig ac Amhenodedig/Rhestr Benthyca Cymeradwyedig/ Specified and Non-Specified Investments/Approved Lending List

### Rheolau/Criteria

| | |
|---|---|
| **BUDDSODDIADAU PENODEDIG** | **SPECIFIED INVESTMENTS** |
| Adneuon y Trysorlys | Treasury Deposits |
| Adneuon gydag awdurdodau lleol y DU hyd at 364 diwrnod. | Deposits with UK local authorities for up to 364 days. |
| Adneuon gyda banciau a chymdeithasau adeiladu sydd wedi derbyn cyfradd credyd uchel, am gyfnodau o hyd at 364 diwrnod (gweler 4.1). | Deposits with banks and building societies which have been awarded a high credit rating, for up to 364 days (see 4.1). |
| **BUDDSODDIADAU AMHENODEDIG**<br>*Mwyafswm ar unrhyw bryd £30m.* | **NON-SPECIFIED INVESTMENTS**<br>*Overall limit at any time £30m.* |
| **Grŵp 1** *(wedi eu cymeradwyo)*<br>Adneuon gyda banciau am gyfnodau o hyd at 5 mlynedd (gweler 4.2). | **Group 1** *(approved for use)*<br>Deposits with banks for up to 5 years (see 4.2). |
| Mwyafswm ar unrhyw bryd £15m. | Overall limit at any time £15m. |
| Adneuon gyda banciau a chymdeithasau adeiladu nad ydynt wedi derbyn cyfradd credyd uchel, am gyfnodau o hyd at 364 diwrnod (gweler 4.2). | Deposits with banks and building societies which have not been awarded a high credit rating, for up to 364 days (see 4.2). |
| Mwyafswm ar unrhyw bryd £5m. | Overall limit at any time £5m. |
| Banciau'r DU sydd wedi eu gwladoli | Nationalised Banks in the UK |
| Banciau a ddaw dan Becyn Cefnogi System Bancio'r DU | Banks covered by UK Banking System Support Package |
| Giltiau | Gilts |
| Biliau'r Trysorlys | Treasury Bills |
| Cronfeydd Marchnad Arian a raddiwyd AAA | Triple A Rated Money Market Funds |
| Gwarant Ddiamwys y Llywodraeth ar faterion dyled penodol (e.e. tystysgrifau adneuon, bondiau, a.y.b.) gan fanciau sy'n cael diogelwch dan y pecyn cefnogi system bancio. | UK Government Explicit Guarantee on specific debt issues (e.g. certificates of deposits, bonds, etc.) by banks covered by the banking system support package. |
| **Grŵp 2** *(angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith)* | **Group 2** *(requires Executive approval)* |
| Dyroddiadau Euro-Sterling gan rai cyrff rhyngwladol a restrir ar Gyfnewidfeydd Stoc gwledydd cymwys yr AEE. | Euro-Sterling issues by certain Supranational bodies listed on the Stock Exchanges of qualifying EAA states. |
| Mwyafswm ar unrhyw bryd £10m. | Overall limit at any time £10m. |
| **Grŵp 3** *(angen cymeradwyaeth y Cyngor)* | **Group 3** *(requires the Council's approval)* |
| Pob math arall o fuddsoddiad i bwrpas Rheoli'r Trysorlys. | All other types of investment for Treasury Management purposes. |
| Dim ond gwrthbartïon a gymeradwywyd o wledydd sydd â chyfradd credyd isaf o AA- trwy Fitch Ratings (neu gyfatebol trwy asiantaethau eraill os nad yw Fitch yn eu darparu) fydd y Cyngor yn eu defnyddio. | The Council will only use approved counterparties from countries with a minimum sovereign credit rating of AA- from Fitch Ratings (or equivalent from other agencies if Fitch does not provide). |
| Bydd y Cyngor hefyd yn gwneud benthyciadau i bwrpas cyflwyno ei wasanaethau lle mae cyllideb benodol wedi ei gytuno i'r pwrpas e.e. tai fforddiadwy. **Bydd hefyd yn gwneud adneuon a buddsoddiadau yn sefydliadau ariannol i bwrpas darparu ei wasanaethau.** | The Council will also make loans for the purposes of the delivery of its services where there is an approved budget for that specific purpose e.g. affordable housing. **It will also make deposits and investments in financial institutions for the purposes of the delivery of its services.** |

**CYNGOR SIR YNYS MÔN – ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**
**CYRFF Y GELLIR RHOI ARIAN AR FENTHYG IDDYNT YN ÔL Y GYFRADD CREDYD - ADNEUON**
**Rheolau diwygiedig - Mawrth 2013**
**APPROVED LENDING LIST BY CREDIT RATING – DEPOSITS**
**Revised Criteria – March 2013**

| | | |
|---|---|---|
| **4.1** | **BUDDSODDIADAU PENODEDIG/SPECIFIED INVESTMENTS*** | **Rheolau/Criteria** |
| **Si) aiii** | Cymdeithasau Adeiladu; Banciau'r DU a thramor- £10m am 12 mis (364 diwrnod)<br>Building Societies; UK & Foreign Banks - £10m for 12 months (364 days) | AA- & A1 + /P1/F1+ |
| **Si) aiii** | Banciau'r DU sydd wedi eu gwladoli/eu gwladoli'n rhannol - £10m am 12 mis (364 diwrnod)<br>Nationalised/Semi Nationalised UK Banks - £10m for 12 months (364 days) | Pob un /All :<br>CC neu PGC/ HoF(R) or HoS(F) |
| **Si) c** | Cymdeithasau Adeiladu; Banciau'r DU a thramor - £5m am 3 mis<br>Building Societies; UK & Foreign Banks - £5m for 3 months | A & A1 + /P1/F1 |
| **Si)d** | Banciau'r DU a thramor - £10m am 1 mis<br>UK & Foreign Banks - £10m for 1 month | A & A1 + /P1/F1 |
| **Sv)** | Trysorlys y DU – dim mwyafswm<br>UK Treasury – no maximum | |
| **Svi)** | Awdurdodau Lleol y DU - £5m am 12 mis<br>UK Local Authorities - £5m for 12 months | Pob un /All :<br>CC neu PGC/HoF(R) or HoS(F) |
| **4.2** | **BUDDSODDIADAU AMHENODEDIG/NON-SPECIFIED INVESTMENTS*** | |
| **Ni) ai** | Banciau'r DU a thramor - £10m am 5 mlynedd<br>UK & Foreign Banks - £10m for 5 years | AA & A1 + /P1/F1 +<br>Cefnogaeth/Support ½<br>CC neu PGC/ HoF(R) or HoS(F) |
| **Ni) ai** | Banciau'r DU a thramor - £10m am 3 blynedd<br>UK & Foreign Banks - £10m for 3 years | AA & A1 + /P1/F1 +<br>Cefnogaeth/Support ½<br>CC neu PGC/ HoF(R) or HoS(F) |
| **N ii)** | Is-gwmnïau Prif Fanciau'r DU - £1m am 1 mis<br>Subsidiaries Major UK Banks - £1m for 1 month | Pob un /All :<br>CC neu PGC/ HoF(R) or HoS(F) |
| **N iii)** | Banciau Clirio Eraill y DU - £1m am 1 mis<br>Other UK Clearing Banks - £1m for 1 month | Pob un /All :<br>CC neu PGC/ HoF(R) or HoS(F) |
| **N iv) c** | Cymdeithasau Adeiladu'r DU - £2m am 2 fis<br>UK Building Societies - £2m for 2 months | Graddfa unigol/<br>Cefnogaeth dda<br>Good individual/<br>Support Ratings |
| **N iv) ch** | Cymdeithasau Adeiladu'r DU - £1m am 1 mis<br>UK Building Societies - £1m for 1 months | Pob un /All :<br>CC neu PGC/ HoF(R) or HoS(F) |
| | * Yn amodol ar uchafswm fesul gwrth barti a fesul grŵp.<br>* Subject to limits by counterparty and by group.<br>* Yn amodol hefyd ar raddfa credyd y wlad y mae'r banc yn perthyn iddo.<br>* Subject also to the sovereign credit rating of the country the bank is from. | |

**Gwledydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddi**

*Seiliedig ar y raddfa isaf ar gael*

**AAA**
- Awstralia
- Canada
- Denmarc
- Y Ffindir
- Yr Almaen
- Lwcsembrwg
- Yr Iseldiroedd
- Norwy
- Singapore
- Sweden
- Y Swistir

**AA+**
- Ffrainc
- Hong Kong
- U.D.A
- D.U.

**AA**
- Abu Dhabi
- Qatar
- Emiradau Arabaidd Unedig

**AA-**
- Gwlad Belg
- Japan
- Saudi Arabia

**Cynllun dirprwyo ar gyfer rheoli'r trysorlys**

**(i) Y Cyngor Sir**

- Derbyn ac adolygu adroddiadau ar bolisïau, arferion a gweithgareddau rheoli trysorlys; a
- Cymeradwyo strategaeth flynyddol.

**(ii) Y Cyngor Sir neu'r Pwyllgor Gwaith**

- Cymeradwyo/diwygio cymalau a fabwysiadwyd gan y sefydliad, y datganiad ar y polisi rheoli trysorlys a'r arferion rheoli trysorlys;
- Ystyried a chymeradwyo'r gyllideb;
- Cymeradwyo rhannu cyfrifoldebau; a
- Cymeradwyo'r dewis o ddarparwyr gwasanaeth allanol a chytuno telerau penodiad.

**(iii) Y Pwyllgor Archwilio**

- Adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau rheoli trysorlys a gwneud argymhellion i'r corff cyfrifol; a
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro rheolaidd a gweithredu ar argymhellion.

**Rôl rheoli trysorlys y Swyddog Adran 151**

**Mae rôl y Swyddog Adran 151(y swyddog cyfrifol) yn cynnwys:**

- Argymell cymalau, polisi/arferion rheoli trysorlys i'w cymeradwyo, adolygu'r rheini'n rheolaidd a monitro cydymffurfiaeth;
- Cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar y polisi rheoli trysorlys;
- Cyflwyno cyllidebau ac amrywiadau mewn cyllidebau;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau gwybodaeth reoli;
- Adolygu perfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys;
- Sicrhau digonolrwydd adnoddau a sgiliau rheoli trysorlys a rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol o fewn y swyddogaeth rheoli trysorlys
- Sicrhau digonolrwydd archwilio mewnol a chydgysylltu gydag archwilwyr allanol; a
- Argymell penodi darparwyr gwasanaeth allanol.

**Materion cyfalaf**

- Y cynlluniau cyfalaf a'r dangosyddion pwyllog; a
- Y strategaeth Darpariaeth Isafswm Refeniw.

**ATODIAD 8**

**Côd Ymarfer : Rheoli Trysorlys CIPFA yn y Gwasanaethau Cyhoeddus**

Mae'r Awdurdod hwn yn mabwysiadu'r egwyddorion allweddol CIPFA ***Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus : Côd Ymarfer (Cyfrol 2011),*** fel y disgrifir yn Adran 4 o'r Côd hwnnw fel a ganlyn :-

**Egwyddor Allweddol 1:**
Dylai sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus roi ar waith amcanion ffurfiol a chynhwysfawr, polisïau ac arferion, strategaethau a threfniadau adrodd ar gyfer rheolaeth effeithiol a rheoli eu gweithgareddau rheoli trysorlys.

**Egwyddor Allweddol 2:**
Dylai eu polisïau a'u harferion ei gwneud yn glir bod rheolaeth effeithiol a rheoli risgiau yn brif amcanion eu gweithgareddau rheoli trysorlys a bod cyfrifoldeb am y rhain yn gorwedd yn glir o fewn eu sefydliadau. Dylai eu harchwaeth am risg ffurfio rhan o'u strategaeth flynyddol, gan gynnwys unrhyw ddefnydd o offerynnau ariannol ar gyfer y rheolaeth bwyllog o'r risgiau hynny, a dylai sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd wrth fuddsoddi arian.

**Egwyddor Allweddol3:**
Dylent gydnabod bod mynd ar drywydd gwerth am arian ym maes rheolaeth trysorlys a'r defnydd o fesurau perfformiad addas yn arfau dilys ac yn bwysig i sefydliadau cyfrifol i gyflogi i gefnogi eu busnes ac amcanion y gwasanaeth; a bod, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol eu polisïau rheoli trysorlys a'i arferion yn adlewyrchu hyn.

Aiff y Côd ymlaen i ddweud bod :

"Wrth lunio'r argymhellion hyn mae CIPFA yn cydnabod yr anawsterau o ymdrechu i gael rheolaeth effeithiol ar risg, tra ar yr un pryd yn anelu at sicrhau gwerth am arian. Nid yw'r Côd yn ceisio bod yn rhagnodol ynghylch sut y dylai'r mater hwn gael ei drin, yn enwedig gan ei fod yn cynnwys amrywiaeth mor eang o sefydliadau. Fodd bynnag, lle bo hynny'n briodol, mae nodiadau cyfarwyddo sector benodol yn rhoi cyngor addas. Mae CIPFA yn cydnabod nad oes unrhyw ddau sefydliad yn y gwasanaethau cyhoeddus yn debygol o fynd i'r afael â'r mater hwn yn union yr un modd, ond mae llwyddiant yn y maes rheoli'r trysorlys yn debygol o gael ei weld, yn enwedig yn nhermau gwerth am arian fel dangosydd o swyddogaeth rheoli'r trysorlys sy'n perfformio'n gryf".

"Er ei fod yn dyddio'n ôl i 1991, mae CIPFA yn ystyried bod yr adroddiad gan y Trysorlys a Phwyllgor y Gwasanaeth Sifil o Dy'r Cyffredin ar gau'r BCCI yn dal yn berthnasol, ac yn yr adroddiad fe ddywedwyd :

*"Wrth gydbwyso'r risg yn erbyn dychweliad, dylai awdurdodau lleol fod yn fwy pryderus i osgoi risgiau nag i wneud yr elw mwyaf."*

"Yn wir, cefnogwyd y farn hon gan adroddiad y Pwyllgor Dethol Cymunedau a Llywodraeth Leol i fuddsoddiadau awdurdodau lleol yn 2009."

"Barn CIPFA yw trwy'r holl wasanaethau cyhoeddus y flaenoriaeth yw diogelu cyfalaf yn hytrach na gwneud yr elw mwyaf. Nid yw osgoi pob risg yn briodol nac yn bosibl. Fodd bynnag, mae'n rhaid cael cydbwysedd gyda chyfrifoldeb brwd am arian cyhoeddus."

Felly, bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r pedwar cymal canlynol fel rhan o'r rheolau sefydlog :

**1.** Bydd yr Awdurdod yn creu ac yn cynnal, fel conglfeini ar gyfer rheolaeth effeithiol o'r trysorlys :

- Datganiad polisi ar reoli'r trysorlys, sy'n datgan y polisïau, amcanion a'r dull o reoli risg ei weithgareddau rheoli trysorlys; a
- Arferion rheoli trysorlys addas (ARhT) yn nodi'r modd y bydd yr Awdurdod yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny, ac yn rhagnodi sut y bydd yn trin ac yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

Bydd cynnwys y Datganiad Polisi ac ARhT yn dilyn yr argymhellion a gynhwysir yn Adrannau 6 a 7 o'r Côd, yn amodol yn unig i newid lle bo angen adlewyrchu amgylchiadau penodol yr Awdurdod. NI fydd newidiadau o'r fath yn golygu y bydd yr Awdurdod yn gwyro'n sylweddol oddi wrth egwyddorion allweddol y Côd.

**2.** Bydd yr Awdurdod hefyd yn rhoi sylw i ganllawiau ar fuddsoddiadau Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn effeithiol o 1 Ebrill 2010.

**3.** Bydd y Cyngor llawn yn derbyn adroddiadau ar ei bolisïau rheoli'r trysorlys, ymarferion a gweithgareddau, yn benodol; strategaeth flynyddol a chynllun cyn y flwyddyn, adolygiad canol blwyddyn ac adroddiad blynyddol ar ôl ei chau, yn y ffurf a ragnodir yn yr ARhT. Yn ychwanegol at hyn, bydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau adolygu chwarterol ar gyfer y chwarteri cyntaf a'r trydydd.

**4.** Mae'r Awdurdod yn dirprwyo cyfrifoldeb am weithredu a monitro rheolaidd o'i bolisïau rheoli'r trysorlys a'i arferion i'r Pwyllgor Archwilio, ac am weithredu a gweinyddu penderfyniadau rheoli'r trysorlys i'r Swyddog Ariannol, a fydd yn gweithredu yn unol â datganiad polisi'r Awdurdod a'r Arht ac, os yw ef/hi yn aelod o'r CIPFA, safon ymarfer broffesiynol CIPFA ar Rheoli'r Trysorlys.

**5.** Mae'r Awdurdod yn enwebu'r Pwyllgor Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau y ceir craffu effeithiol ar y polisïau rheoli'r trysorlys, yr ymarferion a'r perfformiad.

**ATODIAD 9**

**Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys**

**1.** Mae'r Awdurdod yn diffinio ei weithgareddau rheoli'r trysorlys fel : "Rheoli buddsoddiadau'r Awdurdod a llif arian, ei fancio, trafodion marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny, a mynd ar drywydd y perfformiad gorau posibl sy'n gyson â'r risgiau hynny".

**2.** Mae'r sefydliad hwn o'r farn mai nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yw'r prif feini prawf ar gyfer mesur effeithlonrwydd ei weithgareddau rheoli'r trysorlys. Yn unol â hynny, bydd dadansoddi ac adrodd ar weithgareddau rheoli'r trysorlys yn canolbwyntio ar eu goblygiadau risg i'r sefydliad, ac unrhyw offerynnau ariannol a wnaed i reoli'r risgiau hyn.

**3.** Mae'r sefydliad hwn yn cydnabod y bydd rheolaeth effeithiol o'r trysorlys yn ei gefnogi wrth gyflawni ei amcanion busnes a gwasanaeth. Mae felly wedi ymrwymo i egwyddorion cyflawni gwerth am arian y maes rheoli'r trysorlys, a defnyddio technegau mesur perfformiad cynhwysfawr ac addas, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol."

**ATODIAD 10**

**Dangosyddion Pwyllog A Thrysorlys**

**I'W GADARNHAU GAN Y CYNGOR**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# PENDERFYNIAD DRAFFT
# AR OSOD
# Y DRETH GYNGOR
# 2013-14

- - - - - -

# DRAFT RESOLUTION
# ON SETTING
# THE COUNCIL TAX
# 2013-14

**PENDERFYNIAD DRAFFT Y DRETH GYNGOR SIR**

**1. PENDERFYNWYD**

**(a)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu'r Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canol yn Nhabl A, fel Strategaeth Cyllideb oddi mewn i ystyr a roddir yn y Cyfansoddiad, ac i gadarnhau y daw'n rhan o'r fframwaith cyllidebol gyda'r eithriad o'r ffigyrau a ddisgrifir fel rhai cyfredol.

**(b)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu cyllideb refeniw 2013/14 fel y gwelir honno yn Nhabl B.

**(c)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu cynllun a chyllideb cyfalaf fel y gwelir hwnnw yn Nhabl C.

**(ch)** Ddirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y pŵer i wneud addasiadau rhwng penawdau yn Nhabl B er mwyn rhoi effaith i benderfyniadau'r Cyngor ar ailstrwythuro a'r penderfyniadau ar ganoli cyllidebau TGCh a fflyd.

**(d)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, ym mlwyddyn ariannol 2013/14, y pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng penawdau fel a ganlyn:

- **(i)** pwerau dilyffethair i wario pob pennawd cyllidebol unigol yn Nhabl B yn erbyn pob gwasanaeth unigol, ar y gwasanaeth perthnasol;
- **(ii)** pwerau i ddyrannu symiau o'r arian wrth gefn heb ei ddyrannu ac arian wrth gefn cost newid yn Nhabl B;
- **(iii)** pwerau i drosglwyddo o'r arian wrth gefn diswyddo yn Nhabl B i'r graddau fod y trafodion yn adlewyrchu'r costau gwirioneddol o gyflawni arbedion staff;
- **(iv)** pwerau i drosglwyddo o'r arian wrth gefn ar gyfer Gwella a'r Bwrdd Adfer Addysg i bwrpas gwella perfformiad ac i roddi sylw i'r risgiau uchel a nodir yn y Cynllun Gwella ac i weithredu ar gytundebau canlyniad ac i ddarparu systemau fydd yn moderneiddio'r awdurdod ac yn hwyluso'r proses o reoli perfformiad ac i gyllido'r Bwrdd Adfer Addysg;
- **(v)** y pŵer i drosglwyddo o'r Arian Wrth Gefn Gwelliannau Hamdden i bwrpas cefnogi cynigion fydd yn cynnal neu wella'r asedion yn y gwasanaeth hamdden neu yn datblygu cyfleusterau chwaraeon strategol;
- **(vi)** pwerau i drosglwyddo o ffynonellau newydd neu gynyddol o incwm.

**(dd)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith yn 2013/14 ac ar gyngor y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y pŵer i ryddhau hyd at £300k o falansau cyffredinol i ddelio gyda blaenoriaethau yn codi yn ystod y flwyddyn.

**(e)** Am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2015, dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pwerau a ganlyn:

- **(i)** pwerau i wneud ymrwymiadau newydd o gyllidebau refeniw blynyddoedd y dyfodol hyd at y symiau a nodir ar gyfer blaenoriaethau newydd yn y Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canol;
- **(ii)** y pwerau a'r ddyletswydd i baratoi cynlluniau i gyflawni arbedion cyllidebol refeniw fel yr awgrymir yn y Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canol;
- **(iii)** pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng prosiectau cyfalaf yn Nhabl C ac ymrwymo adnoddau yn y blynyddoedd dilynol gan gydymffurfio gyda'r fframwaith cyllidebol.

**(f)** Pennu'r dangosyddion pwyllog sy'n amcangyfrifon am 2013/14 ymlaen fel sy'n ymddangos yn Nhabl Ch gan gadarnhau'r terfynau ar fenthyca a buddsoddi sydd wedi eu nodi yn eitemau 10,11 a 14 i 17 yn y tabl.

**(ff)** Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am y flwyddyn.

**(g)** Mabwysiadu fersiwn diwygiedig Côd Ymarfer CIPFA 2011 ar Reoli Trysorlys.

**(ng)** Cadarnhau y bydd eitemau 1 (b) i (ff) yn dod yn rhan o'r fframwaith cyllidebol.

2. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2013/14 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 1998, bod y Cyngor Sir yn pennu lefel y disgownt sy'n gymwys i'r Dosbarth penodedig A a Dosbarth penodedig B o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel a ganlyn:

Dosbarth Penodedig A   Dim Disgownt
Dosbarth Penodedig B   Dim Disgownt

3. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2013/14, benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2007 bod y Cyngor Sir yn pennu lefel disgownt sy'n briodol i Ddosbarth penodedig C o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004, fel a ganlyn:

Dosbarth Penodedig C   Dim Disgownt

4. Nodi fod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 1996 wedi penderfynu na fydd yn trin y costau'r â'r Cyngor iddynt yn rhan o'i ardal nac wrth gyfarfod unrhyw gais neu gais arbennig fel costau arbennig a bod y penderfyniadau i barhau mewn grym hyd oni fyddant yn cael ei diddymu'n benodol.

5. Y dylid nodi i'r Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod ar 19 Tachwedd 2012 bennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2013/14 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd da n Adran 33(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:

a) 29,662.00 yw'r swm a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol â rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995, yn sail y Dreth Gyngor am y flwyddyn.

b) **Rhan o Ardal y Cyngor**

| | |
|---|---|
| Amlwch | 1,429.69 |
| Biwmares | 1,051.62 |
| Caergybi | 3,707.82 |
| Llangefni | 1,864.25 |
| Porthaethwy | 1,381.95 |
| Llanddaniel-fab | 357.46 |
| Llanddona | 356.82 |
| Cwm Cadnant | 1,113.66 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,275.20 |
| Llanfihangel Esceifiog | 648.77 |
| Bodorgan | 424.02 |
| Llangoed | 609.56 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 579.09 |
| Llanidan | 400.16 |
| Rhosyr | 951.37 |
| Penmynydd | 226.13 |
| Pentraeth | 537.11 |
| Moelfre | 599.74 |
| Llanbadrig | 641.08 |
| Llanddyfnan | 479.47 |
| Llaneilian | 529.04 |
| Llannerch-y-medd | 489.92 |
| Llaneugrad | 170.72 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,705.03 |
| Cylch y Garn | 398.81 |
| Mechell | 526.49 |
| Rhos-y-bol | 455.72 |

| | |
|---|---|
| Aberffraw | 284.10 |
| Bodedern | 405.05 |
| Bodffordd | 408.51 |
| Trearddur | 1,191.96 |
| Tref Alaw | 247.95 |
| Llanfachraeth | 220.61 |
| Llanfaelog | 1,181.44 |
| Llanfaethlu | 268.50 |
| Llanfair-yn-neubwll | 558.16 |
| Y Fali | 952.34 |
| Bryngwran | 345.42 |
| Rhoscolyn | 333.93 |
| Trewalchmai | 353.33 |

sef y symiau a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol â rheoliad 6 y Rheoliadau, yn symiau sail y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

**6.** Bod y symiau a ganlyn bellach yn cael eu pennu gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2013/14 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:

**a)** £190,368,853 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2) (a) i (d) y Ddeddf.

**b)** £ 60,931,280 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3) (a) ac (c) y Ddeddf.

**c)** £129,437,573 sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 6(a) uchod a chyfanswm 6(b) uchod, a bennwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, yn gyllideb angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn.

**ch)** £100,634,828 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i gronfa'r cyngor gyda golwg ar drethi annomestig a ail-ddosberthir, grant cynnal refeniw a grant arbennig gan dynnu unrhyw swm a bennwyd yn unol ag Adran 33(3) y Ddeddf.

**d)** £ 971.03 sef y swm yn 6(c) uchod llai'r swm yn 6(ch) uchod, gan rannu'r cyfan â'r swm a nodir yn 5(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn.

**dd)** £ 945,678 sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf.

**e)** £ 939.15 sef y swm yn 6(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 6(dd) uchod â'r swm yn 5(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 34 (2) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'r ardal lle na fo unrhyw eitem arbennig yn berthnasol.

f) **Rhan o Ardal y Cyngor**

| | | D |
|---|---|---|
| Amlwch | £ | 993.51 |
| Biwmares | £ | 964.29 |
| Caergybi | £ | 1,014.14 |
| Llangefni | £ | 995.25 |
| Porthaethwy | £ | 986.18 |
| Llanddaniel-fab | £ | 955.94 |
| Llanddona | £ | 953.58 |
| Cwm Cadnant | £ | 964.74 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 966.60 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 961.58 |
| Bodorgan | £ | 956.60 |
| Llangoed | £ | 954.47 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 946.30 |
| Llanidan | £ | 959.02 |
| Rhosyr | £ | 959.65 |
| Penmynydd | £ | 952.42 |
| Pentraeth | £ | 963.35 |
| Moelfre | £ | 957.65 |
| Llanbadrig | £ | 964.11 |
| Llanddyfnan | £ | 953.50 |
| Llaneilian | £ | 956.16 |
| Llannerch-y-medd | £ | 951.16 |
| Llaneugrad | £ | 959.65 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 962.90 |
| Cylch y Garn | £ | 952.06 |
| Mechell | £ | 953.81 |
| Rhos-y-bol | £ | 952.32 |
| Aberffraw | £ | 963.79 |
| Bodedern | £ | 955.81 |
| Bodffordd | £ | 951.39 |
| Trearddur | £ | 961.51 |
| Tref Alaw | £ | 954.07 |
| Llanfachraeth | £ | 957.62 |
| Llanfaelog | £ | 956.08 |
| Llanfaethlu | £ | 960.57 |
| Llanfair-yn-neubwll | £ | 957.60 |
| Y Fali | £ | 961.94 |
| Bryngwran | £ | 962.89 |
| Rhoscolyn | £ | 951.13 |
| Trewalchmai | £ | 954.72 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm a geir yn 6(e) uchod symiau'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 5(b) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

ff)

| Rhan o Ardal y Cyngor | | Bandiau Prisiau | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| Amlwch | £ | 662.34 | 772.73 | 883.12 | 993.51 | 1,214.29 | 1,435.07 | 1,655.85 | 1,987.02 | 2,318.19 |
| Biwmares | £ | 642.86 | 750.01 | 857.15 | 964.29 | 1,178.58 | 1,392.87 | 1,607.16 | 1,928.59 | 2,250.02 |
| Caergybi | £ | 676.10 | 788.78 | 901.46 | 1,014.14 | 1,239.51 | 1,464.88 | 1,690.24 | 2,028.29 | 2,366.34 |
| Llangefni | £ | 663.50 | 774.08 | 884.67 | 995.25 | 1,216.42 | 1,437.58 | 1,658.75 | 1,990.50 | 2,322.25 |
| Porthaethwy | £ | 657.46 | 767.03 | 876.61 | 986.18 | 1,205.34 | 1,424.49 | 1,643.64 | 1,972.37 | 2,301.10 |
| Llanddaniel-fab | £ | 637.29 | 743.51 | 849.72 | 955.94 | 1,168.37 | 1,380.80 | 1,593.23 | 1,911.87 | 2,230.52 |
| Llanddona | £ | 635.72 | 741.68 | 847.63 | 953.58 | 1,165.49 | 1,377.40 | 1,589.31 | 1,907.17 | 2,225.03 |
| Cwm Cadnant | £ | 643.16 | 750.35 | 857.55 | 964.74 | 1,179.13 | 1,393.52 | 1,607.90 | 1,929.48 | 2,251.06 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 644.40 | 751.80 | 859.20 | 966.60 | 1,181.40 | 1,396.20 | 1,610.99 | 1,933.19 | 2,255.39 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 641.05 | 747.89 | 854.74 | 961.58 | 1,175.26 | 1,388.94 | 1,602.63 | 1,923.15 | 2,243.68 |
| Bodorgan | £ | 637.73 | 744.02 | 850.31 | 956.60 | 1,169.18 | 1,381.76 | 1,594.34 | 1,913.20 | 2,232.07 |
| Llangoed | £ | 636.31 | 742.36 | 848.42 | 954.47 | 1,166.57 | 1,378.67 | 1,590.78 | 1,908.93 | 2,227.09 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 630.87 | 736.01 | 841.15 | 946.30 | 1,156.59 | 1,366.88 | 1,577.17 | 1,892.60 | 2,208.03 |
| Llanidan | £ | 639.34 | 745.90 | 852.46 | 959.02 | 1,172.13 | 1,385.25 | 1,598.36 | 1,918.03 | 2,237.71 |
| Rhosyr | £ | 639.76 | 746.39 | 853.02 | 959.65 | 1,172.90 | 1,386.16 | 1,599.41 | 1,919.29 | 2,239.18 |
| Penmynydd | £ | 634.94 | 740.77 | 846.59 | 952.42 | 1,164.06 | 1,375.71 | 1,587.36 | 1,904.83 | 2,222.31 |
| Pentraeth | £ | 642.24 | 749.28 | 856.31 | 963.35 | 1,177.43 | 1,391.51 | 1,605.59 | 1,926.71 | 2,247.83 |
| Moelfre | £ | 638.43 | 744.84 | 851.24 | 957.65 | 1,170.46 | 1,383.27 | 1,596.08 | 1,915.30 | 2,234.52 |
| Llanbadrig | £ | 642.74 | 749.86 | 856.98 | 964.11 | 1,178.35 | 1,392.60 | 1,606.85 | 1,928.22 | 2,249.59 |
| Llanddyfnan | £ | 635.66 | 741.61 | 847.55 | 953.50 | 1,165.39 | 1,377.27 | 1,589.16 | 1,906.99 | 2,224.83 |
| Llaneilian | £ | 637.44 | 743.68 | 849.92 | 956.16 | 1,168.64 | 1,381.12 | 1,593.60 | 1,912.32 | 2,231.04 |
| Llannerch-y-medd | £ | 634.11 | 739.79 | 845.48 | 951.16 | 1,162.53 | 1,373.90 | 1,585.27 | 1,902.32 | 2,219.38 |
| Llaneugrad | £ | 639.77 | 746.40 | 853.02 | 959.65 | 1,172.91 | 1,386.16 | 1,599.42 | 1,919.30 | 2,239.19 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 641.93 | 748.92 | 855.91 | 962.90 | 1,176.87 | 1,390.85 | 1,604.83 | 1,925.79 | 2,246.76 |
| Cylch y Garn | £ | 634.71 | 740.49 | 846.28 | 952.06 | 1,163.63 | 1,375.20 | 1,586.77 | 1,904.13 | 2,221.48 |
| Mechell | £ | 635.87 | 741.85 | 847.83 | 953.81 | 1,165.77 | 1,377.72 | 1,589.68 | 1,907.62 | 2,225.55 |
| Rhos-y-bol | £ | 634.88 | 740.69 | 846.50 | 952.32 | 1,163.94 | 1,375.57 | 1,587.19 | 1,904.63 | 2,222.07 |
| Aberffraw | £ | 642.53 | 749.61 | 856.70 | 963.79 | 1,177.96 | 1,392.14 | 1,606.32 | 1,927.58 | 2,248.84 |
| Bodedern | £ | 637.21 | 743.41 | 849.61 | 955.81 | 1,168.22 | 1,380.62 | 1,593.02 | 1,911.63 | 2,230.23 |
| Bodffordd | £ | 634.26 | 739.97 | 845.68 | 951.39 | 1,162.81 | 1,374.23 | 1,585.65 | 1,902.78 | 2,219.91 |
| Trearddur | £ | 641.00 | 747.84 | 854.67 | 961.51 | 1,175.18 | 1,388.84 | 1,602.51 | 1,923.01 | 2,243.52 |
| Tref Alaw | £ | 636.05 | 742.06 | 848.06 | 954.07 | 1,166.09 | 1,378.10 | 1,590.12 | 1,908.14 | 2,226.17 |
| Llanfachraeth | £ | 638.41 | 744.81 | 851.22 | 957.62 | 1,170.42 | 1,383.22 | 1,596.03 | 1,915.23 | 2,234.44 |
| Llanfaelog | £ | 637.39 | 743.62 | 849.85 | 956.08 | 1,168.54 | 1,381.00 | 1,593.46 | 1,912.16 | 2,230.85 |
| Llanfaethlu | £ | 640.38 | 747.11 | 853.84 | 960.57 | 1,174.02 | 1,387.48 | 1,600.94 | 1,921.13 | 2,241.32 |
| Llanfair-yn-neubwll | £ | 638.40 | 744.80 | 851.20 | 957.60 | 1,170.40 | 1,383.21 | 1,596.01 | 1,915.21 | 2,234.41 |
| Y Fali | £ | 641.29 | 748.17 | 855.06 | 961.94 | 1,175.70 | 1,389.47 | 1,603.23 | 1,923.88 | 2,244.52 |
| Bryngwran | £ | 641.93 | 748.91 | 855.90 | 962.89 | 1,176.86 | 1,390.84 | 1,604.82 | 1,925.78 | 2,246.74 |
| Rhoscolyn | £ | 634.09 | 739.77 | 845.45 | 951.13 | 1,162.49 | 1,373.85 | 1,585.21 | 1,902.26 | 2,219.30 |
| Trewalchmai | £ | 636.48 | 742.56 | 848.64 | 954.72 | 1,166.88 | 1,379.03 | 1,591.19 | 1,909.43 | 2,227.67 |

sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 6(e) a 6(f) uchod a'r rhif sydd, yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisiau arbennig wedi'i rannu a'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisiau D, a bennir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisiau.

7. Y dylid nodi ar gyfer y flwyddyn 2013/14 fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:

| **Awdurdod Praeseptio** | **Bandiau Prisiau** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | 148.74 | 173.53 | 198.32 | 223.11 | 272.69 | 322.27 | 371.85 | 446.22 | 520.59 |

8. Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn 6(ff) a 7 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn, yn pennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y dreth gyngor yn y flwyddyn 2013/14 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir isod:

| **Rhan o Ardal y Cyngor** | | **Bandiau Prisiau** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Amlwch | £ | 811.08 | 946.26 | 1,081.44 | 1,216.62 | 1,486.98 | 1,757.34 | 2,027.70 | 2,433.24 | 2,838.78 |
| Biwmares | £ | 791.60 | 923.54 | 1,055.47 | 1,187.40 | 1,451.27 | 1,715.14 | 1,979.01 | 2,374.81 | 2,770.61 |
| Caergybi | £ | 824.84 | 962.31 | 1,099.78 | 1,237.25 | 1,512.20 | 1,787.15 | 2,062.09 | 2,474.51 | 2,886.93 |
| Llangefni | £ | 812.24 | 947.61 | 1,082.99 | 1,218.36 | 1,489.11 | 1,759.85 | 2,030.60 | 2,436.72 | 2,842.84 |
| Porthaethwy | £ | 806.20 | 940.56 | 1,074.93 | 1,209.29 | 1,478.03 | 1,746.76 | 2,015.49 | 2,418.59 | 2,821.69 |
| Llanddaniel-fab | £ | 786.03 | 917.04 | 1,048.04 | 1,179.05 | 1,441.06 | 1,703.07 | 1,965.08 | 2,358.09 | 2,751.11 |
| Llanddona | £ | 784.46 | 915.21 | 1,045.95 | 1,176.69 | 1,438.18 | 1,699.67 | 1,961.16 | 2,353.39 | 2,745.62 |
| Cwm Cadnant | £ | 791.90 | 923.88 | 1,055.87 | 1,187.85 | 1,451.82 | 1,715.79 | 1,979.75 | 2,375.70 | 2,771.65 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 793.14 | 925.33 | 1,057.52 | 1,189.71 | 1,454.09 | 1,718.47 | 1,982.84 | 2,379.41 | 2,775.98 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 789.79 | 921.42 | 1,053.06 | 1,184.69 | 1,447.95 | 1,711.21 | 1,974.48 | 2,369.37 | 2,764.27 |
| Bodorgan | £ | 786.47 | 917.55 | 1,048.63 | 1,179.71 | 1,441.87 | 1,704.03 | 1,966.19 | 2,359.42 | 2,752.66 |
| Llangoed | £ | 785.05 | 915.89 | 1,046.74 | 1,177.58 | 1,439.26 | 1,700.94 | 1,962.63 | 2,355.15 | 2,747.68 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 779.61 | 909.54 | 1,039.47 | 1,169.41 | 1,429.28 | 1,689.15 | 1,949.02 | 2,338.82 | 2,728.62 |
| Llanidan | £ | 788.08 | 919.43 | 1,050.78 | 1,182.13 | 1,444.82 | 1,707.52 | 1,970.21 | 2,364.25 | 2,758.30 |
| Rhosyr | £ | 788.50 | 919.92 | 1,051.34 | 1,182.76 | 1,445.59 | 1,708.43 | 1,971.26 | 2,365.51 | 2,759.77 |
| Penmynydd | £ | 783.68 | 914.30 | 1,044.91 | 1,175.53 | 1,436.75 | 1,697.98 | 1,959.21 | 2,351.05 | 2,742.90 |
| Pentraeth | £ | 790.98 | 922.81 | 1,054.63 | 1,186.46 | 1,450.12 | 1,713.78 | 1,977.44 | 2,372.93 | 2,768.42 |
| Moelfre | £ | 787.17 | 918.37 | 1,049.56 | 1,180.76 | 1,443.15 | 1,705.54 | 1,967.93 | 2,361.52 | 2,755.11 |
| Llanbadrig | £ | 791.48 | 923.39 | 1,055.30 | 1,187.22 | 1,451.04 | 1,714.87 | 1,978.70 | 2,374.44 | 2,770.18 |
| Llanddyfnan | £ | 784.40 | 915.14 | 1,045.87 | 1,176.61 | 1,438.08 | 1,699.54 | 1,961.01 | 2,353.21 | 2,745.42 |
| Llaneilian | £ | 786.18 | 917.21 | 1,048.24 | 1,179.27 | 1,441.33 | 1,703.39 | 1,965.45 | 2,358.54 | 2,751.63 |
| Llannerch-y-medd | £ | 782.85 | 913.32 | 1,043.80 | 1,174.27 | 1,435.22 | 1,696.17 | 1,957.12 | 2,348.54 | 2,739.97 |
| Llaneugrad | £ | 788.51 | 919.93 | 1,051.34 | 1,182.76 | 1,445.60 | 1,708.43 | 1,971.27 | 2,365.52 | 2,759.78 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 790.67 | 922.45 | 1,054.23 | 1,186.01 | 1,449.56 | 1,713.12 | 1,976.68 | 2,372.01 | 2,767.35 |
| Cylch y Garn | £ | 783.45 | 914.02 | 1,044.60 | 1,175.17 | 1,436.32 | 1,697.47 | 1,958.62 | 2,350.35 | 2,742.07 |
| Mechell | £ | 784.61 | 915.38 | 1,046.15 | 1,176.92 | 1,438.46 | 1,699.99 | 1,961.53 | 2,353.84 | 2,746.14 |
| Rhos-y-bol | £ | 783.62 | 914.22 | 1,044.82 | 1,175.43 | 1,436.63 | 1,697.84 | 1,959.04 | 2,350.85 | 2,742.66 |
| Aberffraw | £ | 791.27 | 923.14 | 1,055.02 | 1,186.90 | 1,450.65 | 1,714.41 | 1,978.17 | 2,373.80 | 2,769.43 |
| Bodedern | £ | 785.95 | 916.94 | 1,047.93 | 1,178.92 | 1,440.91 | 1,702.89 | 1,964.87 | 2,357.85 | 2,750.82 |
| Bodffordd | £ | 783.00 | 913.50 | 1,044.00 | 1,174.50 | 1,435.50 | 1,696.50 | 1,957.50 | 2,349.00 | 2,740.50 |
| Trearddur | £ | 789.74 | 921.37 | 1,052.99 | 1,184.62 | 1,447.87 | 1,711.11 | 1,974.36 | 2,369.23 | 2,764.11 |
| Tref Alaw | £ | 784.79 | 915.59 | 1,046.38 | 1,177.18 | 1,438.78 | 1,700.37 | 1,961.97 | 2,354.36 | 2,746.76 |
| Llanfachraeth | £ | 787.15 | 918.34 | 1,049.54 | 1,180.73 | 1,443.11 | 1,705.49 | 1,967.88 | 2,361.45 | 2,755.03 |
| Llanfaelog | £ | 786.13 | 917.15 | 1,048.17 | 1,179.19 | 1,441.23 | 1,703.27 | 1,965.31 | 2,358.38 | 2,751.44 |
| Llanfaethlu | £ | 789.12 | 920.64 | 1,052.16 | 1,183.68 | 1,446.71 | 1,709.75 | 1,972.79 | 2,367.35 | 2,761.91 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 787.14 | 918.33 | 1,049.52 | 1,180.71 | 1,443.09 | 1,705.48 | 1,967.86 | 2,361.43 | 2,755.00 |
| Y Fali | £ | 790.03 | 921.70 | 1,053.38 | 1,185.05 | 1,448.39 | 1,711.74 | 1,975.08 | 2,370.10 | 2,765.11 |
| Bryngwran | £ | 790.67 | 922.44 | 1,054.22 | 1,186.00 | 1,449.55 | 1,713.11 | 1,976.67 | 2,372.00 | 2,767.33 |
| Rhoscolyn | £ | 782.83 | 913.30 | 1,043.77 | 1,174.24 | 1,435.18 | 1,696.12 | 1,957.06 | 2,348.48 | 2,739.89 |
| Trewalchmai | £ | 785.22 | 916.09 | 1,046.96 | 1,177.83 | 1,439.57 | 1,701.30 | 1,963.04 | 2,355.65 | 2,748.26 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i:** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad:** | 5 Mawrth, 2013 |
| **Testun:** | Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn |
| **Swyddog Arweiniol:** | Pennaeth Gwasanaeth Polisi |
| **Swyddog Cyswllt:** | Carol Wyn Owen (est 2561) |
| **Gweithredu:** | I fabwysiadu'r Cynllun Integredig Sengl |

## 1. Cefndir

Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2010), mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir a'i bartneriaid allweddol gynhyrchu Cynllun Integredig Sengl erbyn 1 Ebrill, 2013 er mwyn symleiddio'r trefniadau lleol i leihau dyblygu a rhyddhau adnoddau. Bydd y cynlluniau a ganlyn yn cael eu cyfuno a'i disodli gan y Cynllun Integredig Sengl:

- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Strategaeth Gymunedol
- Cynllun Plant a Phobl Ifanc
- Cynllun Diogelwch Cymunedol

Ar 11 Chwefror, 2013 cyflwynwyd diweddariad i'r Pwyllgor Gwaith ar ganlyniadau'r ymarferiad ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd ar y Cynllun Integredig Sengl. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwaith hefyd ystyried sylwadau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ei gyfarfod ar 30 Ionawr, 2013 ac yna cyfeirio'r fersiwn derfynol o'r Cynllun i'r Cyngor Sir ar 5 Mawrth, 2013, i'w fabwysiadu.

## 2. Sylwadau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol

Gwnaethpwyd y sylwadau a ganlyn ar y Cynllun gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ei gyfarfod ar 30 Ionawr, 2013:

- Mae angen edrych ar hyd y Cynllun;
- Mae angen cynnwys y cynlluniau gweithredu mewn dogfen ar wahân
- Mae angen darparu Crynodeb Gweithredol

## 3. Diwygiadau i'r Cynllun

Mae diwygiadau wedi'u gwneud i'r Cynllun i adlewyrchu deilliannau'r broses ymgynghori ac mae'r newidiadau/ychwanegiadau wedi eu nodi mewn ffurf 'italics' trwm yn y ddogfen derfynol drafft.

## 4. Ystyriaethau Pellach

Adroddwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 11 Chwefror, 2013 fod Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd wedi'i greu gyda Chyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith ar resymoli partneriaethau. Bydd rhaglen waith y Bwrdd yn cael ei lywio gan y gwaith o uno Cynlluniau Integredig Sengl y ddwy Sir a'r meysydd blaenoriaeth a adnabuwyd ar gyfer gweithredu ar y cyd. Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd yn blaenoriaethu'r materion allweddol a gweithredu ar draws yr asiantaethau i wneud y gwaith sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Adolygir y rhaglenni gwaith yn flynyddol. Bydd y sylwadau a ganlyn a wnaethpwyd fel ymateb i'r ymgynghoriad yn derbyn ystyriaeth fel rhan o'r broses:

- Pwysigrwydd o greu cyfleon gwaith ac arwyddocad datblygiadau mewnfuddsodiad sylweddol megis Wylfa B.
- Pwysigrwydd o annog entrepreneuriaeth a chynyddu cyfleusterau hamdden.
- Y pwysigrwydd o ymateb i anghenion pobl ifanc a'u anghenion cyflogaeth.
- Cyfraniad mentrau cymdeithasol a gwirfoddoli i ffyniant cymunedol.
- Pwyslais ar ymyrraeth cynnar a'r agenda ataliol iechyd yn hanfodol bwysig.
- Dylid adlewyrchu yn y Cynllun maint yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r amcanion.
- Angen rhoi sylw i'r newidiadau o ran y maes Budd-dal (gan gynnwys meysydd penodol megis tlodi tanwydd) fel maes blaenoriaeth.
- Cwestiynwyd hyd a chost y cynllun ac nid oedd digon o bwyslais ar ei weithredu (cafodd cynlluniau gweithredu eu cyhoeddi gyda'r Cynllun).
- Y cynllun yn rhy ddyheadol mewn mannau e.e. mae tlodi yn broblem genedlaethol ac yn faes mawr i fynd i'r afael ag ef yn lleol.
- Cydnabod bod Ynys Môn, oherwydd arbedion maint, angen gweithio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon.
- Cydnabod bod angen cynnal cydbwysedd rhwng rhai o'r canlyniadau a fedr dynnu'n groes i'w gilydd e.e. gall manteisio ar ynni ac economi gynaliadwy wrthdaro gyda gwella'r amgylchedd a hyrwyddo twristiaeth.
- Roedd ymatebion yn canolbwyntio ar rai materion penodol e.e. tyrbinau gwynt.
- Cydnabod bod buddsoddi mewn pobl ifanc a darpariaeth addysgol dda yn hollbwysig.
- Mynegwyd diddordeb mewn cyfrannu at broses gwneud penderfyniadau ac awgrymwyd y dylid sefydlu Panel Dinasyddion.

## 5. Argymhelliad

Gofynnir i'r Cyngor Sir fabwysiadu'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn a nodi y bydd y gwaith o resymoli'r Cynllun gydag un Gwynedd yn cychwyn o 1 Ebrill, 2013.

# Ynys Môn

THE ISLE OF

# Anglesey

# CYNLLUN INTEGREDIG SENGL YNYS MÔN



# 2013 - 2025

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Coleg Menai

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru Environment Agency Wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

www.ynysmon.gov.uk

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| Croeso i'r Cynllun (llythyr oddi wrth Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaeth Lleol) | 3 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Ein Gweledigaeth | 5 |
| Y Prif Ystyriaethau | 6 |
| Cysylltu Popeth gyda'i Gilydd | 11 |
| Cynlluniau Gweithredu a mesur yr hyn yr ydym yn ei wneud | 12 |
| Y Prif Themâu | |
| Pobl | 13 |
| Lle | 23 |
| Swyddi | 32 |
| Ymgysylltu â chi | 38 |
| Atodiad 1 – Egwyddorion y Cynllun Integredig Sengl | |
| Atodiad 2 – Cwestiynau Cyffredin | |
| Atodiad 3 – Gwaith partneriaethol cyfredol – astudiaethau achos | |
| Geirfa | |

* Deilliannau Strategol – Cynlluniau Gweithredu

* Holiadur Ymateb


Darlun ar y clawr: Hawlfraint y Goron (2012) Croeso Cymru

DRAFFT

## CROESO I'R CYNLLUN INTEGREDIG SENGL
## EIN HYNYS – EIN DYFODOL



Fel Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaeth Lleol (BGLl), mae'n bleser gennyf eich cyflwyno i Gynllun Integredig Sengl Ynys Môn, **Ein Hynys – Ein Dyfodol.** Mae'r Cynllun hwn yn gosod allan ein gweledigaeth a'r gwaith sydd angen ei wneud ar gyfer dyfodol yr Ynys.


Yma ym Môn mae'r partneriaid allweddol yn cael eu cynrychioli ar y BGLl ac maent wedi ymrwymo i wella ansawdd bywyd ar yr Ynys. Mae'r broses o greu **Ein Hynys – Ein Dyfodol** wedi bod yn un ar y cyd gan integreiddio pedair cynllun allweddol (Cynllun Cymunedol, Strategaeth Iechyd a Lles a Gofal Cymdeithasol, Cynllun Plant a Phobl Ifanc a'r Cynllun Diogelwch Cymunedol). Bydd y dull newydd symlach hwn o weithio'n adnabod y canlyniadau rydym yn dymuno eu cyflawni ynghyd â chael dylanwad gadarnhaol ar fywydau pobl Môn.

Rydym rŵan yn dymuno cael gwybod beth rydych chi'n ei feddwl o **Ein Hynys - Ein Dyfodol** ac efallai y gallwch ystyried y cwestiynau a ganlyn:

- Ydych chi'n deall beth mae'r cynllun yn ceisio ei wneud?
- Ydych chi'n meddwl y bydd yn cael dylanwad gadarnhaol ar fywydau pobl lleol?
- A ydym wedi cael ein blaenoriaethau'n iawn?
- A ydym wedi adnabod y gweithredoedd fydd yn cael y dylanwad mwyaf ar bobl lleol?
- A fydd modd i chi fesur ein llwyddiant?
- Ydych chi wedi cael digon o gyfleon i fod yn rhan o'r broses?.

Gallwch ddarllen copi o **Ein Hynys – Ein Dyfodol** ar lein trwy ymweld â www.ynysmon.gov.uk. Gallwch rannu eich safbwyntiau gyda ni wrth gwblhau'r holiadur ar lein trwy e bostio cymuned@ynysmon.gov.uk neu wrth ysgrifennu at Freepost RRBH-LCAT-AXJS, **Ein Hynys – Ein Dyfodol**, Uned Bolisi, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW. Mae'r cyfnod ymgynghori yn cychwyn ar 26 Tachwedd, 2012 hyd at 18 Ionawr, 2013.

Gweledigaeth ar y cyd y BGLl gogyfer Ynys Môn yw 'gweithio gyda'n gilydd i greu swyddi, gwella iechyd a darparu lle diogel a chynaliadwy i bobl fyw ynddo'. Gyda'ch mewnbwn, bydd **Ein Hynys – Ein Dyfodol** yn ein galluogi i ddod â'r weledigaeth hon yn fyw.



**Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaeth Lleol**

Mawrth 5, 2013

DRAFT

# CYFLWYNIAD

Croeso i Gynllun Integredig Sengl Ynys Môn, sef **Ein Hynys, Ein Dyfodol.** Dyma weledigaeth a chynllun gwaith y Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar gyfer dyfodol yr Ynys.

Nod y Cynllun hwn yw gwella ansawdd bywyd pobl a chymunedau lleol trwy wella ein lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol dros y 12 mlynedd nesaf. Mae'r Cynllun yn gosod y weledigaeth am y 12 mlynedd ac yn sefydlu'r blaenoriaethau am y bedair blynedd nesaf er mwyn delio â'r heriau mawr sy'n ein hwynebu. Bydd y cynlluniau gweithredu a geir o dan bob un o'r deilliannau strategol yn cael eu mesur a'u hadolygu i wneud yn siŵr ein bod yn blaenoriaethu'r pethau iawn sy'n gwneud gwahaniaeth yn lleol.

Mae'r Cynllun hwn yn mynd i'r afael â phroblemau cymhleth na all yr un corff ddelio â hwy ar ei ben ei hun. Lluniwyd y Cynllun trwy weithredu mewn partneriaeth, gyda chyfraniad partneriaid, defnyddwyr gwasanaeth, cymunedau a thrigolion.

Ym mis Chwefror, 2012, comisiynodd y Cyngor Sir Arolwg Trigolion a wnaeth gyfraniad gwerthfawr i'r broses trwy ddweud beth, yn eich barn chi, yw'r ffactorau pwysicaf o ran gwneud Ynys Môn yn lle da i fyw. Y ffactorau hynny oedd:

- gwasanaethau iechyd
- lefelau isel o droseddu
- cyfleusterau addysg
- cynhaliaeth i bobl hŷn a
- swyddi a rhagolygon am swyddi


Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn i drigolion flaenoriaethu'r materion lle credent fod angen y gwelliant mwyaf. Y materion hynny oedd swyddi a'r rhagolygon am swyddi, tai fforddiadwy, trwsio ffyrdd, a chynhaliaeth i blant a phobl ifanc bregus.

Yr ydym yn cymryd sylw o'r hyn yr ydych wedi ei ddweud wrthym ac mae hynny wedi bod yn help i ni ganolbwyntio ar y tair prif thema a fydd yn ein helpu ni i wireddu ein gweledigaeth.

DRAFT

# EIN GWELEDIGAETH

Yn ystod 2011, datblygwyd y weledigaeth ar gyfer **Ein Hynys, Ein Dyfodol** gyda phartneriaid lleol a chafwyd adborth trwy ymgynghori â'r cyhoedd. Y weledigaeth hon yw sail y themâu allweddol a'r cyd-ddeilliannau yr ydym yn dymuno eu cyflawni.




DRAFT

**GWNEUD GWAHANIAETH**

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth ar gyfer Ynys Môn, i greu swyddi, gwella iechyd a darparu lle diogel a chynaliadwy i fyw, bydd y camau gweithredu yn canolbwyntio ar dair thema allweddol:

- Pobl
- Lle
- Swyddi

Mae rhai o'r camau gweithredu a fydd yn mynd i'r afael â'r tair thema allweddol, Pobl, Lleoedd a Swyddi, eisoes wedi cael eu cynnwys yn ffrydiau gwaith ein cyrff partneriaeth. Ond mae'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn cydnabod bod angen gweithredu o amgylch nifer o 'Brif Ystyriaethau' o dan bob thema er mwyn gwneud gwahaniaeth go iawn. Trwy ganolbwyntio ein hymdrechion ar y prif ystyriaethau sy'n effeithio ar ein cymunedau, ar sail angen a chyfleoedd, gellir sicrhau'r ffocws sydd ei angen i gyflawni'r amcanion a fydd yn gallu gwneud gwahaniaeth.

## ‘Y PRIF YSTYRIAETHAU’

Bydd y camau y bwriadwn eu cymryd dros y blynyddoedd nesaf yn canolbwyntio ar ddelio gyda llawer o’r problemau cymhleth a hirdymor sy’n bodoli:

- Gwella perfformiad economaidd a sgiliau i greu a chadw swyddi, gan ganolbwyntio ar gyfleoedd dysgu gydol oes
- Galluogi cymunedau ac unigolion i gadw a datblygu eu hannibyniaeth
- Sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc aros ar yr ynys i fyw a chael gwaith
- Diwallu anghenion unigolion a chymunedau gan ddefnyddio llai o arian cyhoeddus
- Lleihau tlodi a darparu gwasanaethau effeithiol sy’n cwrdd ag anghenion grwpiau bregus sy’n agored i niwed
- Hyrwyddo a chynnal ein hamgylchedd a’n diwylliant cyfoethog

**PAM Y MAE’R RHAIN YN CAEL EU HYSTYRIED YN ‘BRIF YSTYRIAETHAU’?**

**Perfformiad Economaidd a Sgiliau**

Un o’r prif ystyriaethau y mae angen i ni fynd i’r afael â nhw yw gwella economi Ynys Môn a chreu mwy o swyddi. Yn ddiweddar, dynodwyd Ynys Môn yn Barth Menter a bydd hynny’n helpu i gryfhau gallu’r Ynys i gystadlu yn economaidd. Mae’r Parth Menter yn cynnig cyfle i fanteisio ar bosibiliadau yn deillio o fuddsoddiad a chynnydd yn y sector ynni carbon isel ar Ynys Môn.

Hefyd, bydd y datblygiadau arfaethedig yn y prif seilwaith ynni yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at drawsnewid yr Ynys yn economaidd. Trwy liniaru’r effeithiau negyddol a hybu budd economaidd a chymunedol, byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni’r amcanion y bwriadwn eu trosglwyddo yn etifeddiaeth i’r dyfodol.

Mae twristiaeth yn parhau i wneud cyfraniad mawr at les economaidd yr Ynys ***ac mae mabwysiadu’r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn darparu fframwaith briodol i gydgordio hyrwyddo, amddiffyn a gwella darpariaeth twristiaeth yr Ynys.***

**Cyfleoedd**

- Cyfleoedd i fanteisio ar y trawsnewid a all ddod yn sgil datblygiadau mawr
- Cyfleoedd i ddatblygu’r diwydiant twristiaeth

- Manteisio ar ddynodi Ynys Môn yn Ardal Ddatblygu ac ar y datblygiadau Seilwaith Ynni pwysig a fwriedir ar gyfer yr Ynys, er mwyn darparu cyfleoedd niferus i gyfrannu'n gadarnhaol ar drawsnewid yr ynys yn economaidd

**Heriau**

- ***Un o'r GVA's isaf yn y Deyrnas Unedig sef 57.2%***
- Y gymhareb prisiau tai : enillion
- ***Lefelau uchel o segurdod economaidd***

**Unigolion a Chymunedau**

Bydd newidiadau yn ein patrwm poblogaeth yn y dyfodol yn golygu y bydd cynnydd yn nifer y bobl hŷn ar yr ynys a mwy o alw am rai gwasanaethau penodol. Oherwydd hyn bydd angen ymyriad cynharach ac angen targedu gwasanaethau yn well.

Er bod gennym boblogaeth sy'n heneiddio, y nod yw datblygu ffyrdd o ddiwallu anghenion gofal trwy ganolbwyntio ar gynnal annibyniaeth.

Mae diogelu plant ac oedolion bregus yn un o flaenoriaethau pob un o'r partneriaid. Mae angen i'r berthynas rhwng y Bwrdd Lleol Diogelu Plant *(LSCB)* a phartneriaethau eraill fod yn un gadarn, gyda ffiniau a chyfrifoldebau eglur.

Mae'r Cynllun hefyd yn cydnabod bod diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn gyfrifoldeb i bawb ac mae ymrwymiad ynddo i atal camdriniaeth ac i ymateb yn brydlon pan fo unrhyw amheuaeth o gamdriniaeth. Bydd gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant y swyddogaeth hollbwysig o sicrhau bod pob un ohonom yn gwneud ein rhan.

Yr her fydd i'r awdurdod lleol a phartneriaid statudol eraill weithio mewn cydweithrediad â'r drydedd sector a sectorau cymunedol i ddatblygu unrhyw wasanaethau ymyriad ac atal ar gyfer hybu iechyd a lles corfforol a meddyliol a chynhwysiant cymdeithasol er mwyn lleihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol mwy hirdymor ac ar ymyriadau statudol.

Ar yr un pryd, gyda llai o adnoddau cyhoeddus ar gael i bawb, bydd yn rhaid datblygu gwahanol fodelau o wasanaeth, er mwyn gwneud y defnydd gorau o gyllidebau. Mae hyn yn golygu bod angen archwilio gwahanol ffyrdd o wneud pethau fel bod unigolion a chymunedau yn gallu bod yn annibynnol ac yn gynaliadwy.

**Cyfleoedd**

- Darparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigolion a chymunedau
- Gweithredu strategaethau ymyriad cynnar er mwyn cynnal pobl

**Heriau**

- Rhagamcannir y bydd cynnydd o oddeutu 4% yn y boblogaeth erbyn 2031, gyda phobl yn byw'n hirach a phoblogaeth hŷn yn arwain at bwysau cynyddol ar wasanaethau a thai
- Natur gyfnewidiol cymunedau yn effeithio ar fynediad i wasanaethau mewn ardaloedd lleol
- Cyfradd uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o bobl yn mynd i'r ysbyty oherwydd problemau alcohol a chyffuriau a lefelau ysmygu ymhlith oedolion (24%)
- Yr effaith debygol ar y ddarpariaeth addysgol mewn ardaloedd gwledig
- Yr effaith debygol y bydd tueddiadau yn y boblogaeth yn eu cael ar yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant

**Pobl Ifanc**

Gan mai'n pobl ifanc yw'r dyfodol a'n hyfory, y mae'n bwysig ein bod yn creu'r cyfleoedd cywir iddynt, o ran dysgu gydol oes, sgiliau a chyflogaeth, tai a hamdden. Rydym yn cydnabod bod llawer o bobl ifanc yn symud allan o'r ardal ac mae angen i ni greu'r amodau cywir i'w cadw nhw yma ac i annog y rhai sydd wedi ymadael i ddod yn ôl.

**Cyfleoedd**

- Cynnydd potensial mewn cyfleoedd prentisiaeth
- Datblygiad Academi Alwedigaethol i ymateb i anghenion hyfforddiant yr Ynys Ynni

**Heriau**

- Argaeledd cyfleoedd gwaith

**Gweithio'n Wahanol gyda Llai o Arian**

Fel cyrff partneriaeth, byddwn yn wynebu gwasgfa ariannol barhaus dros y blynyddoedd nesaf. Mae hynny'n golygu y bydd yn rhaid i ni weithio mewn ffordd wahanol, gwneud y defnydd gorau o'n hasedau a moderneiddio gwasanaethau er mwyn cwrdd â gwahanol anghenion unigolion a chymunedau. Mae'r sefyllfa hon yn creu cyfle i gyrff a sefydliadau feddwl mewn ffordd wahanol ac achub y cyfle i weithio mewn ffyrdd gwahanol.

**Cyfleoedd**

- Cydweithredu agosach rhwng gwasanaethau, partneriaethau a siroedd i ddarparu gwasanaethau

**Heriau**

- Gostyngiad yng nghyllid y Sector Cyhoeddus
- Darparu mynediad digonol i ddinasyddion at wybodaeth a rhoi cyfleoedd iddynt fynegi eu barn, er mwyn bwydo eu sylwadau i mewn i'r broses o wneud penderfyniadau
- Y perygl y bydd yr hinsawdd economaidd bresennol a'i heffeithiau ar wasanaethau cyhoeddus yn arwain at gynnydd mewn troseddau ac anrhefn
- Yr effaith a gaiff prosiectau mawr y dyfodol ar gymunedau
- Yr angen i annog cydlyniad a chymathiad cymdeithasol

**Lleihau Tlodi**

Yr ydym hefyd wedi cydnabod pwysigrwydd targedu gweithredoedd, nid yn unig ar draws gwahanol garfannau oedran ond hefyd yn ôl anghenion carfannau yn y gymdeithas sy'n agored i niwed ac sydd angen cynhaliaeth. Mae hyn yn cwmpasu ystod eang o ystyriaethau, gan gynnwys mesurau i ddelio â thlodi a phobl sydd mewn perygl i bobl gymryd mantais arnynt, e.e. gan fasnachwyr ffug. ***Mae'r newidiadau presennol o ran diwygio'r gyfundrefn Lles yn cynnig sawl her i'r asiantaethau perthnasol.***

**Cyfleoedd**

- Mae 67% o boblogaeth Ynys Môn yn dweud eu bod mewn iechyd da, o gymharu â chyfartaledd o 65% trwy Gymru
- Gostyngiad o 8.5% mewn troseddau cyffredinol ers mis Ebrill 2009
- Yr angen i annog cydlyniad a chymathiad cymdeithasol

**Heriau**

- Effaith Diwygiadau Lles (Newidiadau i'r Gyfundrefn Budd-daliadau)
- Lefelau uchel o ysmygu ymhlith oedolion (24%)
- Lefelau uwch o fynediad i ysbytai
- Disgwyliad oes yn dechrau llithro yn is na'r cyfartaledd trwy Gymru
- Y perygl y bydd yr hinsawdd economaidd bresennol a'i heffeithiau ar wasanaethau cyhoeddus yn arwain at gynnydd mewn troseddau ac anrhefn

- Yr effaith a gaiff prosiectau mawr y dyfodol ar gymunedau

**Amgylchedd a Diwylliant**

Mae angen i sefydliadau partneriaeth ymateb i heriau Newid Hinsawdd ac mae gan bawb ohonom ei ran i'w chwarae mewn diogelu'r amgylchedd. Hefyd mae angen i ni gydnabod pwysigrwydd lleihau ein Hôl Troed Carbon.

Rydym yn cydnabod bod yr agenda newid hinsawdd a'r camau i leihau gollyngiadau carbon yn bwysig o bawb. Mae Tystysgrifau Perfformiad Ynni i gartrefi a labeli Ynni Tryloyw yn cyfrannu at yr agenda lliniaru.

Mae gan Ynys Môn gymeriad diwylliannol unigryw a neilltuol, ac mae hybu treftadaeth a hunaniaeth ddiwylliannol unigryw yr Ynys yn ganolog i'r broses o wella ansawdd bywyd ein trigolion. Rydym yn cydnabod bod yr iaith Gymraeg, ei diwylliant a'i threftadaeth yn rhan hanfodol o wead cymdeithasol cymunedau'r Ynys a'u bod yn ganolog i ymdeimlad o berthyn ac o hunaniaeth llawer o bobl.

**Cyfleoedd**


- Gwarchod yr amgylchedd naturiol mewn ffordd gynaliadwy – Targedau statudol ar gyfer ailgylchu neu gompostio 70% o'n gwastraff erbyn 2025
- Gwella addysg, ymwybyddiaeth ac ymddygiad, mewn perthynas â'r galw am ynni a defnyddio ynni
- Mae amgylchedd naturiol Ynys Môn wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) gyda 125 milltir o lwybr arfordirol
- Mae Ynys Môn wedi ei dynodi yn Geoparc Byd-eang gan Unesco

**Heriau**

- Peryglon tlodi ynni, gyda biliau yn debygol o godi rhwng 14% a 25% erbyn 2020
- Defnydd cynaliadwy o drafnidiaeth
- Sut y gellir dygymod ag ynni adnewyddadwy yn lleol
- Gwella ansawdd dylunio adeiladau

## CYSYLLTU'R CYFAN GYDA'I GILYDD

I ddelio gyda'r 'Prif Ystyriaethau a nodir yn y cynllun hwn, ein nod yw cyflawni nifer o ddeilliannau pwysig o dan dri phrif faes thematig, sef Pobl, Lle a Swyddi. Bydd cyflawni'r deilliannau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ein lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'r blaenoriaethau o dan bob thema yn cynnal ei gilydd ac yn dibynnu ar ei gilydd.



## Cynlluniau, a Mesur yr Hyn yr Ydym yn ei Wneud

Lluniwyd Cynlluniau Gweithredu cychwynnol er mwyn cefnogi'r gwaith a wneir dan themâu Pobl, Lleoedd a Swyddi. Bydd y Cynlluniau Gweithredu hyn yn cael eu mireinio ymhellach dros y misoedd nesaf ac yn gosod sail ar gyfer Rhaglen Waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

**Eich Cyfraniad Chi**

O dan bob deilliant ac wrth restru gwybodaeth gefnogol, rydym wedi amlinellu ffyrdd y gallwch chi ein helpu ni i gyflawni ein nodau a gwneud gwahaniaeth yn ein cymunedau.

**Cyfuno Cynlluniau a Phartneriaethau Allweddol**

Yn ystod y misoedd nesaf bydd y partneriaethau sydd yn awr yn bodoli yn cael eu llyfnhau a'u lleihau ac fel rhan o'r rhaglen ddiwygiadol hon bydd Byrddau Gwasanaeth Ynys Môn a Gwynedd yn cyfuno â'i gilydd. Bydd y Cynllun hwn yn cael ei gyfuno gyda Chynllun Gwynedd i ffurfio un Cynllun Integredig Sengl ar gyfer y ddwy ardal o 1 Ebrill 2013.

Wrth baratoi'r Cynllun hwn, rydym wedi mabwysiadu dull o weithredu sy'n seiliedig ar ddeilliannau. Y nod yw ymateb i'ch anghenion chi fel poblogaeth leol a sicrhau fod dinasyddion a chymunedau wrth wraidd a chalon cynllunio a darparu. Rydym wedi canfod beth yw'r anghenion hyn trwy gasglu sylfaen gadarn o dystiolaeth trwy ymgynghori gydag ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaeth a thrigolion.

DRAFT

# Y THEMÂU ALLWEDDOL

## POBL

Yn ystod oes y Cynllun hwn rydym yn cydnabod y bydd angen i ni ymateb i anghenion pobl ar draws pob ystod oedran ac y bydd yn rhaid diwallu'r anghenion hynny.

Dyma'r meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt er mwyn gwneud gwahaniaeth:

- **Mae pob plentyn a pherson ifanc ar Ynys Môn yn cyrraedd eu llawn botensial**
- **Mae pobl Ynys Môn yn iach ac egniol**
- **Mae Ynys Môn yn Ynys lle mae'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ffynnu**

**Yr hanes y tu ôl i'r waelodlin**

Pam y mae'r meysydd hyn yn bwysig?

- Rhagamcannir y bydd cynnydd o 4% ym mhoblogaeth Ynys Môn rhwng 2006 a 2031, sef oddeutu 120 o bobl y flwyddyn
- Yn 2009, dywedid bod 19.5% o blant yn byw mewn tlodi yn Ynys Môn
- Roedd 21.9% o holl boblogaeth Ynys Môn yn 65 oed neu fwy yn 2010, o gymharu â 18.6% yng Nghymru gyfan. Dyma'r gyfran uchaf ond dwy o bobl 65+ oed ar draws holl awdurdodau lleol Cymru
- Gyda phobl yn byw'n hirach, a nifer fwy o bobl yn ymddeol i'r ardal, mae'r boblogaeth 65+ wedi cynyddu 17.2% (+2,205) ers 2001
- Mae'r boblogaeth 85+ hefyd wedi cynyddu 20.6% (+318) ar yr Ynys
- ***Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 57.2% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg***
- Yn ôl Arolwg Poblogaeth Flynyddol 2009 (Llywodraeth Cymru) roedd 0.6% o'r boblogaeth o gefndir oedd ddim yn wyn

Mae'r newid ym mhatrwm y boblogaeth yn golygu bod mwy o bwysau a mwy o alwadau am ystod o wahanol wasanaethau, e.e. iechyd a gofal cymdeithasol, tai, lles a gwasanaethau eraill a ddefnyddir gan y boblogaeth. Mae angen gweithredu ar y cyd ar gyfer hyn, ac angen ymyriad cynnar i rymuso a chefnogi pobl.

Un o'r prif heriau sydd o'n blaenau yw dod o hyd i'r ffordd orau o ymdrin â thlodi a mynediad i wasanaethau cynhaliol. Mae heriau penodol yn ein hwynebu o ran delio â thlodi ar draws y gwahanol grwpiau oedran a mynediad i wasanaethau cynhaliol priodol.

Rydym yn llwyr gydnabod mai'r bobl ifanc yw'n dyfodol ni ar yr Ynys. Gan hynny y mae'n bryder arbennig deall bod nifer o blant yn byw mewn tlodi ar yr Ynys, gan fod

hynny'n gallu cael effaith negyddol ar gyflawniad addysgol a lles. Mae plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn ffrwd waith bwysig ar lefel partneriaeth.

**Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym?**

Yn gryno, mae'r wybodaeth waelodlin o dan y brif thema hon yn dweud wrthym:

- Bod angen i ni ymateb i anghenion poblogaeth sy'n heneiddio
- Bod tlodi, ar draws pob grŵp oedran, a mynediad at wasanaethau yn broblem. Gan fod bron i un o bob pump o blant a phobl ifanc yn byw mewn tlodi mae angen i ni barhau i ganolbwyntio ar roi gwell cychwyn iddynt yn eu bywydau
- Bod angen i ni hybu annibyniaeth unigolion a chymunedau.
- Bod angen i ni ymateb i anghenion ardal lle mae un o'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg. Mae gan yr Ynys hanes diwylliannol cyfoethog hefyd.

**Gwneud gwahaniaeth:**

**Mae'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn ymrwymedig i wneud gwahaniaeth yn y meysydd canlynol:**

- Gofalu bod plant a phobl ifanc yn cael dechrau da, eu bod yn ddiogel ac yn cael eu parchu ac nad ydynt dan anfantais oherwydd tlodi
- Hyrwyddo ymyriad cynnar ac annibyniaeth a gwella iechyd a lles pobl o bob oed
- Cynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg, hybu llythrennedd a hyrwyddo diddordeb mewn materion diwylliannol
- Diogelu plant a phobl ifanc ar Ynys Môn sy'n fregus, mewn angen neu'n agored i niwed
- Sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fynediad at ystod eang o gyfleoedd perthnasol dysgu a chyfleoedd gyrfaol
- Darparu'r amgylchedd dysgu gorau posibl i bob plentyn a pherson ifanc
- Sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fynediad at ddarpariaeth chwarae ddiogel o ansawdd uchel
- Gofalu bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, hamdden a diwylliant
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gyfranogwyr gweithredol yn eu cymunedau
- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau i sicrhau gwasanaeth cyd-gysylltiedig ar gyfer pob plentyn, person ifanc a theulu
- Sefydlu fforwm iaith ar gyfer y gymuned gyfan
- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol i gynyddu'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg.

## Mae pob plentyn a pherson ifanc ar Ynys Môn yn cyrraedd eu llawn botensial

### Y Prif Ffeithiau

Er bod cyflawniad addysgol yn cael ei ddefnyddio'n aml fel mesur o lwyddiant, y mae hefyd yn bwysig cydnabod y gall plant a phobl ifanc gyflawni eu potensial mewn nifer o wahanol ffyrdd. Mae cymryd rhan fywiog yn eu cymuned trwy hamdden, chwaraeon, diwylliant neu wirfoddoli yn gwella bywydau plant a phobl ifanc ac rydym yn anelu at sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael mynediad at y cyfleoedd hyn beth bynnag yw eu cefndir.

Bydd ymyriad cynnar hefyd yn ffocws i'n gwaith, gyda theuluoedd yn gallu cael cyngor a chefnogaeth yn gynnar, cyn i broblemau ac anawsterau ddechrau effeithio ar eu bywydau yn ddi-droi'n-ôl.

Trwy gydol ein gwaith byddwn yn ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc fel bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac fel eu bod yn gynwysedig ac yn cyfranogi'n llawn yn y penderfyniadau am eu dyfodol. Pan fydd penderfyniadau anodd yn cael eu gwneud am ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus ar Ynys Môn mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn gallu bod yn rhan o'r penderfyniadau hynny, a'u bod yn hyderus y bydd eu barn yn cael ei hystyried a'i pharchu.

- Roedd presenoldeb yn yr ysgolion cynradd ar gyfer 2011/2012 yn 93.5%
- Roedd presenoldeb yn yr ysgolion uwchradd ar gyfer 2011/2012 yn 92.2%
- Canran y plant 11 oed oedd yn cael Dangosyddion Pynciau Craidd oedd 78.6%
- Canran y bobl ifanc 15 oed oedd yn cyflawni trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a Mathemateg oedd 47.0%
- Llwyddodd 16% o bobl ifanc i ennill cymhwyster cydnabyddedig trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid
- Yn 2011, canran y bobl ifanc oedd yn gadael ysgol heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) oedd 2.68% (un o'r canlyniadau gorau yng Nghymru).
- 83% o ddysgwyr sy'n mynd i mewn i Addysg Bellach yng Ngholeg Menai yn llwyddo (2% tros y meincnod cenedlaethol)
- 87% o brentisiaid yng Ngholeg Menai yn cyflawni eu fframwaith llawn (6% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol)

DRAFT

**Mesur ein Llwyddiant**

**Cynyddu:**

1. Nifer o leoedd o safon uchel ar gyfer gofal plant
2. Perfformiad ar bob cyfnod allweddol
3. Presenoldeb plant o bob oedran mewn ysgolion
4. Sgiliau darllen plant
5. Cyfleoedd chwarae o ansawdd da
6. Presenoldeb mewn canolfannau hamdden
7. Dysgwyr sy'n llwyddo mewn Addysg Bellach
8. Prentisiaid sy'n cyflawni eu fframwaith yn llawn

**Gostwng:**

1. Plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi
2. Y nifer sy'n 'NEET'
3. Y nifer o waharddiadau parhaol a'r rhai am gyfnod penodedig
4. Ymddygiad gwrth-gymdeithasol ymysg yr ifanc
5. Nifer y plant sydd ar y gofrestr diogelu plant
6. Nifer y teuluoedd sy'n byw mewn llety dros dro

DRAFT

**Eich cyfraniad chi:**

- Darllenwch gyda'ch plentyn pan maent yn ifanc iawn. Siaradwch gyda'ch ymwelydd iechyd neu gydag athro eich plentyn i weld pa fath o lyfrau neu gylchgronau y gellwch eu darllen gyda'ch plentyn
- Gofalwch bod eich plentyn wedi cael ei frechu. Holwch eich ymwelydd iechyd neu Ymarferwr Cyffredinol am hyn.
- Gofalwch bod eich plentyn yn mynd i'r ysgol yn brydlon gyda'r llyfrau a'r cyfarpar angenrheidiol am y diwrnod
- Hawliwch Brydau Ysgol am Ddim os ydych yn gymwys
- Anogwch eich plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned
- Holwch am y nofio am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol ac ewch a'ch plentyn i un o'r sesiynau
- Anogwch eich plentyn i gymryd rhan yn y cyngor ysgol a'r fforymau ysgolion i ofalu bod eu llais yn cael ei glywed
- Cysylltwch gydag un o'r asiantaethau cynnal os ydych mewn trafferthion ac eisiau cymorth gyda'ch teulu
- Cerddwch neu fynd ar gefn beic gyda'ch plentyn i'r ysgol er mwyn eu hannog i wneud hynny eu hunain gyda'u ffrindiau

- Ymchwilio i brentisiaeth fel llwybr gyrfa

## Mae Pobl Ynys Môn yn Iach ag Egniol

### Y Prif Ffeithiau

Mae gan Ynys Môn boblogaeth sy'n heneiddio. Ar y cyfan mae disgwyliad oes ein poblogaeth yn cynyddu, er bod y disgwyliad oes ar gyfer dynion a merched ar yr Ynys ychydig yn is na'r cyfartaledd at gyfer Cymru. Mae anghydraddoldebau ac amrywiaeth mewn canlyniadau iechyd hefyd yn bodoli rhwng y cymunedau mwyaf amddifadus a'r lleiaf amddifadus. Mae'r galw am wasanaethau iechyd a gofal, a chost y gwasanaethau traddodiadol hynny, yn cynyddu'n sylweddol.
Mae'r themâu sy'n dod i'r amlwg, a'r pwysau sydd arnom, yn golygu na fydd y modelau a'r dulliau presennol o weithredu yn addas ar gyfer y dyfodol. Dinasyddion a theuluoedd fydd yn gyfrifol am ddewis a rheoli'r gefnogaeth a roddir i oedolion a phobl hŷn a'u gofalwyr. Gan hynny byddant yn gallu rheoli eu hiechyd eu hunain a datblygu atebion i ddiwallu eu hanghenion gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn eu galluogi, lle bo modd, i gynnal neu adennill eu hannibyniaeth. Er mwyn cyflawni hyn bydd yn rhaid i ni weithio mewn partneriaeth er mwyn hybu gwaith ataliol, ymyraeth gynnar a chyfleoedd cyfatal i bawb o ran iechyd da. Bydd yn rhaid i ni newid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod digon o gefnogaeth gyfoethog, amrywiol a theg ar gael.

**Dyma rai o'r prif ffeithiau am ein cymunedau:**

- Bydd o leiaf 20% o gynnydd yn nifer y bobl hŷn erbyn 2020 a bydd y gyfran yn parhau i gynyddu
- Bydd un o bob tri o bobl 75+ yn dioddef o gyflwr iechyd hirdymor (e.e. methiant y galon, diabetes) erbyn 2020
- Mae iechyd gwaelach yn fwy cyffredin mewn cymunedau amddifadus
- Ar Ynys Môn mae 21 o sefydliadau Gofal Preswyl cofrestredig yn darparu gwasanaethau ar gyfer hyd at 612 o breswylwyr. Mae llai o bobl yn dewis defnyddio gofal preswyl. Dyna'r tueddiad drwy'r wlad i gyd a bu hynny'n gyson am nifer o flynyddoedd. Yn Ynys Môn yn gyffredinol mae gorddibyniaeth ar welyau gofal preswyl ac mae angen datblygu mwy o wasanaethau yn y gymuned
- Mae'r nifer o blant sy'n derbyn gofal ar Ynys Môn wedi cynyddu i'w lefel uchaf. Yn 2011 roedd tros 2,800 o gyfeiriadau i'r gwasanaethau yn arwain at y niferoedd uchaf ar gyfer blant sy'n derbyn gofal (yn 92, sydd yn gynnydd o 29.5% ers 2009/10) a'r nifer ar y Gofrestr Warchod Plant (yn 77, sydd yn gynnydd o 156% ers 2009/10). Un testun pryder ydi y nifer o gyfeiriadau ble mae trais teuluol yn cael ei ddyfynu fel y brif ffactor gyfrannol, ac yn 2011 roedd 1377 o'r cyfanswm o gyfeiriadau, neu 47.5%, gan yr Heddlu

Mae prif gasgliadau 'Bywyd Môn' yn cynnwys y canlynol:

**Hybu Ffyrdd Iach o Fyw**

- Mae cynnydd yn nifer y dynion a'r merched sy'n yfed mwy o alcohol na'r canllawiau a argymhellir ac yn y nifer sy'n mynd ar sbri
- Mae Ynys Môn yn cofrestru nifer sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o fynediadau i ddynion i'r ysbyty oherwydd cyflyrau sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau
- Nid yw dau o bob tri o boblogaeth Ynys Môn yn ddigon actif yn gorfforol, ac ymhlith plant a phobl ifanc mae lefelau gweithgarwch corfforol yn llawer is ymhlith merched nac ymhlith bechgyn
- Mae chwarter oedolion Ynys Môn, ac un o bob tair merch feichiog, yn ysmygu

**Gofal yn y Cartref**

- Hybu gwytnwch trwy gefnogi pob plentyn a'u teuluoedd i gael mynediad i ffyrdd iach o fyw ac o chwarae
- Cynnal pobl hŷn a'u gofalwyr i fod yn annibynnol trwy ddarparu gwasanaethau amserol
- Cynyddu'r ddarpariaeth Heneiddio'n Dda sydd ar gael yn y Gymuned.

**Mesur ein Llwyddiant**

**Cynyddu:**

1. Pobl y gofalir amdanynt yn eu cartrefi eu hunain
2. Cyfraddau bwydo o'r fron
3. Cyfraddau imiwneiddio (gan gynnwys yn erbyn y ffliw)
4. Pobl sy'n gwneud ymarfer corff yn rheolaidd
5. Pobl sy'n bwyta pump neu fwy o ffrwythau a llysiau y diwrnod

**Gostwng:**

1. Cyfraddau gorbwysau a gordewdra
2. Cyfraddau ysmygu
3. Yfed mwy na'r hyn yr argymhellir
4. Beichiogrwydd ymysg yr arddegau
5. Plant gyda dannedd sy'n ddrwg, wedi'u tynnu neu eu llenwi

**Eich Cyfraniad Chi**

- Yfwch o fewn y terfynau a argymhellir, sef 21 uned yr wythnos i ddynion, 14 uned i ferched, dau ddiwrnod yr wythnos heb alcohol a dim mynd ar sbri
- Peidiwch ag ysmygu, a pheidiwch â gwneud i blant anadlu eich mwg, yn arbennig mewn ceir. Ewch at eich meddyg, eich fferyllydd neu Dim Smygu Cymru i gael help i roi'r gorau iddi
- Cymerwch y cyfrifoldeb am eich iechyd eich hun a iechyd eich teulu. Ymrwymwch i ymarfer yn rheolaidd ac i fwyta'n dda. Gofynnwch am becynnau gwybodaeth Newid Bywyd, sydd i'w cael am ddim
- Ymunwch â gweithgareddau yn eich cymuned leol, e.e. cysylltwch â'r gwasanaethau hamdden i weld beth sydd ar gael i chi yn lleol neu holwch am gyfleoedd chwarae yn eich ardal
- Bwydwch eich baban o'r fron ac anogwch eraill i fwydo o'r fron
- Gofalwch bod eich plant yn cael eu brechiadau
- Cofrestrwch gyda deintydd a mynd a'ch plant ato yn rheolaidd. Dysgwch nhw i lanhau a fflosio eu dannedd. Dylech osgoi neu yfed llai o ddiodydd siwgr

DRAFT

- Siaradwch efo'ch plant am dyfu i fyny, cydberthynas iach, a rhyw diogel
- Gofalwch eich bod yn derbyn gwahoddiadau sgrinio – gallai arbed eich bywyd. Cysylltwch â'ch Ymarferwr Cyffredinol i gael mwy o wybodaeth
- Ewch am frechiad rhag y ffliw os ydych yn tueddu i'w ddal neu os ydych yn ofalydd
- Cadwch lygad ar eich cymdogion oedrannus; cynigwch fynd i siopa iddynt, garddio, neu hyd yn oed alw i mewn am sgwrs. Helpwch nhw i gadw eu cartref yn ddiogel
- Gwirfoddolwch trwy Medrwn Môn

DRAFFT

## Mae Ynys Môn yn Ynys lle mae'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ffynnu

### Y Prif Ffeithiau

### Yr Iaith Gymraeg

- Mae'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg ymhlith y garfan 3 i 24 oed, sy'n tanlinellu dylanwad yr addysg ddwyieithog a ddarperir. Ochr arall y geiniog yw mai yn y garfan dros 50 oed y mae'r ganran isaf o siaradwyr Cymraeg oherwydd mewnlifiad pobl o fewn y grŵp oedran hwnnw
- Dros y 30 mlynedd ddiwethaf bu newid sylweddol yng nghyfansoddiad y boblogaeth ac o ganlyniad fe welwn fod 32% o'r boblogaeth wedi cael eu geni y tu allan i Gymru
- Mae nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn amrywio o gymuned i gymuned yn Ynys Môn. Mae'r ganran uchaf, hynny yw, dros 70%, wedi eu lleoli yng nghymunedau canol yr Ynys. Yn y cymunedau arfordirol dim ond 40% o'r boblogaeth sy'n siaradwyr Cymraeg
- Gallai'r Rhaglen Ynys Ynni effeithio ar yr Iaith Gymraeg yn y cymunedau. Gallai Asesiad Effaith Iaith ystyried yr effeithiau hyn ac awgrymu ffyrdd o'u lliniaru
- Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn Ganllawiau Cynllunio Ategol *(SPG)* ar 'Gynllunio a'r Iaith Gymraeg', sy'n cynnig arweiniad ynglŷn â'r ffordd y bydd y cyngor yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â datblygiadau arfaethedig, o ran yr iaith Gymraeg, yn y cyfnod cais cynllunio
- Dim ond un sir arall sydd â nifer uwch nag Ynys Môn o ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 sy'n derbyn eu hasesiad athro trwy gyfrwng y Gymraeg

### Diwylliant

- Mae ystod o wahanol gymunedau a grwpiau yn hybu defnudd o'r iaith Gymraeg, er enghraifft Clybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr a'r Urdd.
- Ymwelodd 271,995 o bobl â llyfrgelloedd yr Ynys yn 2012-13
- Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yr Ynys yn rhoi benthyg 300,000 o eitemau bob blwyddyn
- Mae nifer helaeth o nodwedion hanesyddol a phensaernïol Ynys Môn yn cael eu gwarchod trwy fod wedi cael eu dynodi'n arbennig.
- Mae Oriel Ynys Môn yn ganolfan celfyddydau a threftadaeth sy'n cartrefu casgliadau o bwys hanesyddol. Y mae'n cynnal rhaglen o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd o ansawdd uchel sy'n denu dros 100,000 o ymwelwyr yn flynyddol
- ***Mae cyfleuon i hybu diwylliant a'r iaith drwy gydweithio partneraethol i gynyddu mynediad i safleoedd hanesyddol, henebion a thirweddau***

DRAFT

- Mae Archifau Ynys Môn yn casgu a diogelu dogfennau hanesyddol yn ymwneud ag Ynys Môn ac yn sicrhau eu bod ar gael i unrhyw un sydd eisiau eu gweld

**Mesur ein Llwyddiant**

**Cynyddu:**
1. Nifer siaradwyr Cymraeg
2. Y defnydd o'r iaith Gymraeg
3 Ymweliadau â lleoedd sydd o ddiddordeb hanesyddol

**Eich cyfraniad chi**

- Gall y wefan Dysgu Cymraeg roi gwybodaeth i chi am ymuno â dosbarthiadau Cymraeg yn eich ardal – ffoniwch (01248 383928)
- Gall gwefan Croeso Cymru roi cymorth i chi gefnogi gweithgareddau diwylliannol yn eich ardal leol
- Bydd y wasg leol yn rhoi manylion i chi am ddigwyddiadau diwylliannol a dosbarthiadau nos yn eich ardal

DRAFT

# LLE

Dros gyfnod oes y cynllun hwn yr ydym yn cydnabod yr angen i gael effaith gadarnhaol ar warchod a gwella'r amgylchedd a galluogi cymunedau i ffynnu.

Dyma'r meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt er mwyn gwneud gwahaniaeth:

- **Mae pobl Ynys Môn yn mwynhau amgylchedd cynaliadwy, cyfoethog ac amrywiol**
- **Mae pobl Ynys Môn yn rhan o gymunedau cryf, llewyrchus, cynhwysol ac amrywiol**
- **Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel**

**Yr hanes tu ôl i'r waelodlin**

- Mae Ynys Môn yn ardal sy'n cwmpasu oddeutu 71,100 hectar
- Yn 2010, roedd y boblogaeth oddeutu 68,592. Mae hyn yn ostyngiad o 262 unigolyn ers 2009. Dau awdurdod lleol yng Nghymru sydd â llai o boblogaeth yn eu hardal, sef Merthyr Tudful a Blaenau Gwent
- Mae Yn Ynys Môn yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)
- Mae cyfartaledd prisiau tai fymryn o dan £139,000. Mae canolrif incwm teuluol yn £24,351 a chymhareb prisiau tai i incwm yn 6:1
- Bydd y 55% o'r holl wastraff trefol ar Ynys Môn a ailddefyddwyd, ailgylchwyd a/neu gompostiwyd yn 2011/12 y perfformiad pedwerdydd uchaf o awdurdodau lleol yng Nghymru, y targed statudol tymor hir yw i ailgylchu / compostio 70% o wastraff trefol erbyn 2024/25
- Mae Ynys Môn yn un o'r llefydd mwyaf diogel i fyw a gweithio yng Ngogledd Cymry, ac mae troseddu cyffredinol wedi parhau i ostwng er 2007

Mae'r dirwedd yn wledig yn bennaf ac mae'r 200km o arfordir yma, yn cynnwys amrywiaeth eang o draethau tywod a chilfachau creigiog sy'n denu nifer sylweddol o ymwelwyr yn ystod tymor yr haf. Mae'r A55 yn un o ddwy ffordd sy'n cysylltu'r ynys gyda'r tir mawr ac yn galluogi teithwyr a nwyddau i fynd yn ôl ac ymlaen i borthladd Caergybi. Mae gan yr Ynys gysylltiadau rheilffordd, a maes awyr gyda chysylltiadau uniongyrchol â Chaerdydd ac Ynys Manaw dros fisoedd yr haf. Mae pum prif dref ar yr ynys. Y fwyaf ohonynt, o lawer, yw Caergybi sydd â phoblogaeth oddeutu 13,500. Dynodwyd y dasg o adfywio economi'r Ynys a chanolbwyntio ar fuddsoddi mewn cyfleoedd ym maes ynni carbon isel yn brif flaenoriaeth i'r ardal. Mae'r Ynys wedi cael ei dynodi yn Barth Menter er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i adfywio.

Mae Ynys Môn yn iseldir yn bennaf, gyda llawer o'r coetiroedd a'r glwyptiroedd blaenorol yn cael eu defnyddio fel tir amaethyddol erbyn hyn. Mae sawl rhan o

200km o arfordir yr ynys wedi cael eu dynodi yn ardaloedd o werth cadwriaethol neu dirweddol, ac maent yn cynnwys rhai o'r ardaloedd twyni tywod gorau yng Nghymru yn ogystal â rhostiroedd a chlogwyni trawiadol. Mae llawer o'r arfordir wedi cael ei ddynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae ansawdd aer a dŵr yr Ynys yn dda.

Mae'r rhagamcanion tywydd ar gyfer Cymru yn awgrymu y bydd hafau yn sychach a gaeafau yn wlypach am y 25 mlynedd nesaf oherwydd newid hinsawdd, a rhwng popeth disgwylir y bydd mwy o law. Mae'r tymheredd hefyd yn debygol o godi. Gall newidiadau ym mhatrwm a lefel glawiad effeithio ar faint o ddŵr sydd ar gael ac ar y galw am ddŵr ar gyfer pobl a'r amgylchedd.

Gan fod Ynys Môn yn ardal wledig yn bennaf, sydd â llai o drwch o boblogaeth na'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraillyng Nghymru, y mae'n wynebu heriau o ran darparu mynediad i wasanaethau, yn enwedig ar adeg pan fo cyfyngiadau ar arian cyhoeddus.

**Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym?**

I grynhoi, mae'r wybodaeth waelodlin yn yr adran hon yn dweud wrthym:

- Bod diffyg tai fforddiadwy addas yn yr ardal a bod galw am dai cymdeithasol
- Bod angen i ni gynnal cydbwysedd rhwng datblygu'r economi ac amddiffyn yr amgylchedd
- Bod troseddu wedi lleihau yn yr ardal
- Ei bod yn bwysig delio a chynhwysiant ariannol

**Gwneud gwahaniaeth:**

Mae'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn ymrwymedig i wneud gwahaniaeth yn y meysydd canlynol:

- Gofalu am amgylchedd naturiol yr Ynys a defnyddio ein hadnoddau mewn ffordd gynaliadwy
- Gofalu bod gennym gymunedau cryfion, sicrhau mynediad i wasanaethau, a sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed
- Helpu unigolion a chymunedau i ddatblygu a chynnal annibyniaeth
- Sicrhau fod Ynys Môn yn le diogel
- Sicrhau bod pob plentyn a phobl ifanc yn iach ac yn byw mewn amgylchedd diogel
- Delio â materion Diogelwch Cymunedol, er enghraifft y niwed a achosir gan alcohol
- Hybu cynhwysiant cymdeithasol er mwyn hwyluso mynediad at gynnyrch a gwasanaethau fforddiadwy
- Darparu cyfleoedd i bobl deithio fel y maent yn ei ddymuno

## Mae pobl yn Ynys Môn yn mwynhau amgylchedd cynaliadwy, cyfoethog ac amrywiol

## Y Prif Ffeithiau:

Mae'r wiwer goch, y fadfall gribog a rhai tegeiriannau arbenigol yn fwy cyffredin ar Ynys Môn nag mewn llawer rhan o'r tir mawr. Mae 78% o arfordir Ynys Môn wedi cael ei ddynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae llwybr yr arfordir yn cysylltu â 36 o bentrefi arfordirol gan osod sail ar gyfer cylchdaith hir i'w cherdded o amgylch yr ynys. ***Rhai o brif nodweddion Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn yw'r:***

- ***clogwyni isel bob yn ail a thraethau cerrig***
- ***clogwyni calchfaen serth bob yn ail a thraethau tywodlyd gwych***
- ***twyni tywod gyda thraethau***

***Mae'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol hefyd yn gartref i oddeutu 7,000 o bobl sy'n byw mewn cymunedau creadigol a bywiog. Mae'r cymunedau hyn hefyd yn gyrchfannau gwyliau poblogaidd i'r rhai sy'n dymuno ymlacio ar yr ynys neu gymryd rhan yn yr ystod eang o weithgareddau awyr agored megis cerdded ar hyd 201km (125 milltir) llwybr yr arfordir.***

***Mae Ynys Môn hefyd gyda statws parc daeareg, 'GeoMôn', sy'n cydnabod cyfoeth daearegol yr Ynys.***

***Dynodir Castell Biwmaris yn ogystal fel Safle Treftadaeth y Byd.***

Mae ailgylchu yn helpu ein hamgylchedd yma yng Nghymru a thu hwnt – ond hefyd yn arbed arian ac ynni ac yn creu cyflogaeth yn lleol.

Ar lefel genedlaethol mae allyriadau nwyon tŷ gwydr, gyda Charbon Deuocsid yn brif gyfrannwr, wedi cynyddu'n raddol er 2002, ac mae allyriadau yn dal i fod yn broblem ac yn cyfrannu'n sylweddol at newid hinsawdd. Mae diwydiant, tai a thrafnidiaeth y ffyrdd yn brif gyfranwyr at ollyngiadau nwyon tŷ gwydr yn Ynys Môn. Y cyfranwyr mwyaf at allyriadau CO2 yn Ynys Môn yw diwydiant a gweithgareddau masnachol (54%). Tai (allyriadau tanwydd) yw'r elfen sy'n cyfrannu fwyaf at ôl troed ecolegol Cymru, sef cyfran o 22-27%.

Trwy'r cyfan o ardal Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, mae Ynys Môn yn bwriadu darparu, hyrwyddo a gwella dulliau trafnidiaeth cynaliadwy er mwyn lleihau effeithiau negyddol trafnidiaeth ar yr amgylchedd lleol a byd-eang. Mae hyn yn cynnwys gwella ansawdd a darpariaeth trafnidiaeth i deithwyr a darparu seilwaith megis parcio a theithio a chynlluniau rhannu car.

**Mesur ein Llwyddiant**

**Cynyddu:**

1. Y canran o blant cymwys sy’n cael hyfforddiant beicio
2. Y Nifer o leoliadau lle mae cyfleusterau safon uchel ar gael i barcio beiciau
3. Canran y cyfanswm o Hawliau Tramwy sy’n hawdd i’r cyhoedd eu defnyddio
4. Nifer y lleoedd parcio ceir a ddarperir ar safleoedd parcio a theithio / safleoedd a rennir
5. Canran yr oedolion 60 oed a throsodd syn ddeiliaid tocyn teithio rhatach ar y bws
6. Gwastraff trefol a ail-ddefnyddir, ailgylchir a/neu sy’n cael ei gompostio

**Gostwng:**

1. Llygredd swn
2. Ôl-troed carbon

**Eich cyfraniad chi**

- Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwirfoddoli gyda thîm yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol cysylltwch â : (01248) 751877 neu anfonwch ebost at: awlpl@ynysmon.gov.uk
- I gael mwy o wybodaeth am ailgylchu ffoniwch : (01248) 752860
- Ailgylchwch ar eich trothwy – cymerwch fantais o’r gwasanaeth ailgylchu wrth y cwrbyn a ddarparwyd i chwi. Gwnewch yn siwr eich bod yn annog pawb o fewn y tŷ i feddwl am yr eitemau gael eu ailddefnyddio neu ailgylchu cyn eu taflu
- Ailgylchu rheolaidd – ymwelwch â un o’r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig fel rhan o’ch arferiad. Mae’r canolfannau ym Mhenesgyn a Gwalchmai yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau er mwyn ailgylchu gwastraff domestig
- Osgoi gwastraff bwyd – cynllunio eich prydau bwyd, gall prynu dim ond beth ‘rydych angen a choginio y cyfanswm cywir o fwyd arbed arian i chwi ac yn ogystal lleihau’r cyfanswm o wastraff bwyd
- Siopa craff – ceisiwch brynu dim ond beth sydd angen arnoch. Gallwch leihau’r cyfanswm o fagiau plastig yn hawdd trwy eu ail-defnyddio neu ddefnyddio ‘bag am oes’
- Ymchwiliwch i opsiynau effeithlionrwydd ynni ar gyfer eich cartref
- Cerddwch neu fynd ar gefn beic i’r ysgol neu i’r gwaith / cyfleusterau
- Defnyddiwch drafnidiaeth gyhoeddus / rhannu car

DRAFT

## Mae pobl Ynys Môn yn rhan o gymunedau cryf, llewyrchus, cynhwysol ac amrywiol

### Y Prif Ffeithiau

Roedd Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2011 yn rhestru dwy ardal yn Ynys Môn ymhlith y rhai mwyaf amddifadus yng Nghymru.

- Yn 2008, barnwyd bod 34.9% o bob tŷ preifat yn dioddef o dlodi tanwydd
- Mae 2000 o deuluoedd ar y rhestr aros ar gyfer tai cymdeithasol (gan gynnwys teuluoedd sy'n dymuno trosglwyddo)
- Mae dros 700 o dai gweigion ar yr ynys wedi bod yn wag am fwy na 6 mis

Mae Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Môn yn cynnwys saith o Ardaloedd Gynnyrch Ehangach Haen Is *[LSOA],* sef Morawelon, Porthyfelin 1, Tref Caergybi, Maeshyfryd, London Road a Kingsland yng Nghaergybi yn ogystal â Tudur yn Llangefni. Mae pedair o'r Ardaloedd hyn wedi eu cynnwys ymhlith y 10% uchaf o wardiau mwyaf amddifadus mewn un neu fwy o barthau Mynegai Amlamddifadedd Cymru. Â chymryd y cyfan o'r parthau maent ymhlith y 10 i 20% uchaf ar y rhestr.

Oherwydd y cyfyngiadau ar arian cyhoeddus, a'r rhagolygon am fwy o hynny yn y dyfodol, mae ymgysylltu'n effeithlon gyda'n defnyddwyr gwasanaeth a'n cymunedau yn allweddol er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu yn effeithiol a'u cyfuno er mwyn osgoi gwastraff a dyblygu. Gall yr unigolyn gyfrannu at gryfhau ei gymuned trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu er mwyn dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau, cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol a sefydlu mentrau cymunedol ***a chymdeithasol. Gall mentrau o'r fath gyfrannu at gynaliadwyedd cymunedau a gwasanaethau.***

Gellir profi bod amodau byw pobl, o ran ansawdd, addasrwydd a fforddiadwyedd eu tai, eu hamgyffrediad o fro, a'u cydberthynas o fewn y fro honno, yn cael effaith sylweddol ar eu gallu i ddatblygu cymuned gref. Hefyd mae'n rhaid i gymuned gref fod â chysylltiadau trafnidiaeth effeithiol er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd gwaith, addysg, iechyd a gwasanaethau. Hefyd mae mynediad at gyfleusterau chwarae, hamdden a gweithgareddau ategol yn cyfrannu at les a gwell iechyd.

Mae cydlyniad cymunedol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod perthynas dda yn bodoli rhwng pobl o wahanol gefndiroedd, lle mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi ac unigolion yn rhannu ymdeimlad o berthyn ac yn gweithio gyda'i gilydd i wneud yr ardal yn well cymdogaeth. Gellir hyrwyddo hyn trwy hybu cysylltiadau rhwng gwahanol genedlaethau, sy'n gwella'r cysylltiad rhwng pobl o wahanol grwpiau oedran sydd, efallai, heb fod â llawer o gysylltiadau eraill. Trwy

rannu sgiliau, profiadau a syniadau gall y ddwy genhedlaeth feithrin gwell dealltwriaeth ohonynt ei gilydd a rhannu sgiliau, profiadau a syniadau.

Bydd y newidiadau arfaethedig i'r system fudd-daliadau yn cael effaith ar deuluoedd ac unigolion yn ein cymunedau.

**Mesur ein Llwyddiant**

**Cynyddu:**

1. Nifer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan actif yn eu cymunedau
2. Nifer sy'n mynychu digwyddiadau cymunedol / rhyng genedlaethol
3. Ansawdd a dewis tai

**Gostwng:**

1. Y Nifer sy'n teimlo'n unig (gwaelodlin i'w gymryd o arolwg o ardaloedd a dargedwyd)

2. Aelwydydd sy'n byw mewn tlodi ynni

DRAFT

**Eich cyfraniad chi**

Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n dod â phobl at ei gilydd.

Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn cynlluniau gwirfoddoli - cysylltwch â Medrwn Môn (01248 724944)

## Mae Pobl Ynys Môn yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

### Y Prif Ffeithiau

Mae Diogelwch Cymunedol yn cwmpasu mwy na throseddau ac anrhefn; mae'n cynnwys ystyriaethau ansawdd bywyd a'r angen i fynd i'r afael ag ofn troseddau.

Mae Ynys Môn yn un o'r llefydd mwyaf diogel yng Ngogledd Cymru i fyw a gweithio ac **ers 2007 mae troseddu cyffredinol wedi parhau i ddisgyn** – Ynys Môn yw'r unig sir yng Ngogled Cymru sydd wedi llwyddo i leihau troseddau flwyddyn ar ôl blwyddyn dros y pum mlynedd ddiwethaf (bu gostyngiad o 4% rhwng 2010 a 2011).

Oherwydd yr hinsawdd economaidd galed bresennol, mae'n rhaid i ni fod yn fwy gwydn nag erioed er mwyn sicrhau bod Diogelwch Cymunedol yn parhau i gael blaenoriaeth.

**Roedd canlyniadau Asesiad Strategol Cyntaf Gogledd Cymru yn amlygu chwe Maes Blaenoriaeth Allweddol.**

- **TROSEDDAU CAFFAEL DIFRIFOL (SAC)**
  Disgrifir Troseddau Caffael Difrifol fel troseddau Lladrad (eiddo personol ac eiddo busnes). Dangosodd Ynys Môn gynnydd mewn troseddau caffael difrifol yn 2011 ac roedd hyn yn cael ei ddangos fel cynnydd o 8.4% ers 2010

- **TRAIS YN ERBYN UNIGOLION**
  Mae lefel tebygolrwydd troseddau yn erbyn unigolion yn uwch, ac oherwydd natur y drosedd gall achosi cryn niwed. Er y bu gostyngiad yn nifer y troseddau yn y categori trais yn erbyn unigolion, dyma'r categori lle mae'r ganran uchaf o droseddau ar Ynys Môn, sef 29%. Mae hyn yn cael effaith fawr ar ofni troseddau

- **TRAIS CYSYLLTIEDIG AG ALCOHOL**
  O safbwynt y niwed y mae'n ei achosi, mae trais sy'n gysylltiedig ag alcohol yn cael effaith bellgyrhaeddol ar y gymuned. Mae digwyddiadau mewn mannau cyhoeddus yn cyfrannu at ofni troseddau ac mae alcohol hefyd yn ffactor mewn llawer o droseddau rhyw ac mewn un o bob tri o droseddau domestig treisiol. Er bod modd disgrifio'r categori hwn fel un 'sefydlog' o ran nifer y digwyddiadau, mae angen cadw'r categori hwn yn brif ardal flaenoriaeth

- **TRAIS YN Y CARTREF (Math troseddol ac anrhoseddol)**
  Mae trais yn y cartref bob amser yn creu'r posibilrwydd o niwed i unigolion a theuluoedd. Mae llawer o achosion o drais yn y cartref sydd byth yn dod i sylw'r awdurdodau ac mae proffil dioddefwyr a throseddwyr yn seiliedig ar yr achosion sydd wedi dod i sylw. Mae Trais yn y Cartref yn effeithio ar ysgolion, gwasanaethau iechyd ac amrywiaeth o asiantaethau eraill heblaw'r rhai sy'n ymateb ar unwaith i ddigwyddiadau



DRAFT

- **YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL**
  Mae Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn effeithio ar ofni troseddau ac ar Gydlyniad Cymunedol. Yn gyffredinol mae'r niwed posibl y gall ymddygiad o'r fath ei achosi yn isel, ond mewn achosion eithafol mae'r niwed posibl i unigolion yn uchel

- **LLEIHAU AILDROSEDDU AC ATAL TROSEDDU**
  Yn aml, troseddwyr sy'n aildroseddu yw'r troseddwyr mwyaf. Nhw sy'n achosi'r niwed mwyaf i'r gymuned ac mae'n cymryd mwy o adnoddau i gadw rheolaeth arnynt. Bydd lleihau troseddu yn cael effaith eang ym mhob categori o droseddau ac anrhefn. Mae aildroseddu yn creu risg uchel o niwed posibl ym mhob rhan o'r gymuned

Meysydd eraill fydd yn cael eu monitro'n barhaus yn ystod y cyfnod sydd o'n blaen yw troseddau rhyw, troseddau casineb, llosgi bwriadol, camddefnyddio sylweddau a lleihad mewn ofni troseddau.

**Mae'n bwysig nodi:-**
- Natur <u>drawsbynciol</u> yr ystyriaethau a restrir fel Prif Feysydd Blaenoriaeth
- Y dylwanwad <u>mawr</u> y mae <u>camddefnyddio sylweddau</u> yn ei gael, er enghraifft ar droseddau caffael.
- Roedd <u>problemau alcohol</u> yn aml yn rhan o'r problemau a restrir.

**Mesur ein Llwyddiant**

**Cynyddu:**
1. Y cyhoedd yn hyderus
2. Ymyrraethau effeithiol i fynd i'r afael a throsedd
3. Ymgysylltiad cyhoeddus effeithiol mewn digwyddiadau lleol
4. Cydlyniad Cymunedol
5. Canlyniadau effeithiol o ran trin camddefnydd sylweddau
6. Cydweithio mewn partneriaeth a rhyng sirol

**Gostwng:**
1. Cyfanswm cyfraddau troseddau
2. Troseddau caffael difrifol
3. Trais yn erbyn unigolyn
4. Trais cysylltiedig ag alcohol
5. Trais yn y cartref
6. Ymddygiad gwrthgymdeithasol
7. Ail-droseddu ac atal troseddu

DRAFT

**Eich cyfraniad chi**

- Cymryd rhan mewn cylluniau gwyliadwraeth, er enghraifft Gwarchod Cymdogol,  cynlluniau gwarchod siopau a chychod, Cynllun OWL Alert Heddlu Gogledd Cymru – ewch i wefan Heddlu Gogledd Cymru http://www.owl.co.uk/northwales/

- Cadw eich cartref yn ddiogel a than warchodaeth (ewch i wefan CSP) http://www.anglesey.gov.uk/community/community-safety/

- Dylanwadu ar waith yr heddlu yn eich ardal trwy gysylltu â'ch tîm heddlu cymdogaeth (gallwch gysylltu trwy eich Swyddog Gwasanaeth Cymdogaeth yr Heddlu) http://www.north-wales.police.uk/your_neighbourhood.aspx

- Mynnwch gael dweud eich dweud am flaenoriaethau'r heddlu trwy ymweld â gwefan Balance your Bobbies – gwefan Hedlu Gogledd Cymru https://balanceyourbobbies.com/

- Trefnwch i rywun ddod i wirio diogelwch rhag tân yn eich cartef – am ddim! Ffoniwch 0800 169 1234 neu cysylltwch â gwefan Tân ac Achub Gogledd Cymru http://www.nwales-fireservice.org.uk/

- Gyrrwch yn ofalus

- Cadwch lygad gofalgar dros eich cymdogion, yn enwedig rhai a all fod yn fregus heb lawer o hyder cyhoeddus

- Gwirfoddolwch i fod yn aelod o Banel Trosedd ac Atal, a Phwyllgor Trosedd ac Anrhefn yr ardal (Cysylltwch â nhw drwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol – 01248 752814)

DRAFT

## SWYDDI

Yn ystod cyfnod oes y cynllun hwn rydym yn cydnabod bod angen i ni gael effaith gadarnhaol ar yr economi er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yr Ynys.

Dyma'r meysydd y bydd angen i ni ganolbwyntio arnynt i wneud gwahaniaeth:

- **Mae pobl Ynys Môn yn rhan o economi cynaliadwy sy'n ffynnu**
- **Mae Ynys Môn yn manteisio'n llawn o'r holl gyfleuon i fuddsoddi mewn ynni strategol**
- **Mae gan Ynys Môn ddiwydiant twristiaeth llwyddiannus a chynaliadwy**

Yr hanes tu ôl i'r waelodlin:

- Mae gobaith y gall y Rhaglen Ynys Ynni gyfrannu bron i £2.5 biliwn i economi Ynys Môn a Gogledd Cymru dros y 15 mlynedd nesaf, gan ddod a buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i Ynys Môn
- Ym mis Mawrth 2012, roedd 71.6% o'r bobl oedd yn oed gweithio, mewn gwaith
- Ym mis Awst 2012, roedd 1,834 o bobl yn hawlio lwfans ceiswyr swyddi. Mae hynny yn 4.4% o'r boblogaeth oed gwaith
- Yn 2010 roedd 74.8% o'r swyddi yn seiledig ar y sector gwasanaeth a 25.4% mewn dosbarthu, gwestai a bwytai, sy'n dangos y ddibyniaeth sydd ar y sector cyhoeddus a thwristiaeth
- Ym mis Mawrth 2011, roedd 2,825 o fusnesau cofrestredig yn Ynys Môn. Roedd 74.4% o'r rhain yn fusnesau bach gyda llai na 5 o weithwyr
- Bydd ymfudiad pobl ifanc 16 i 24 oed allan o'r Ynys a mewnfudiad pobl 45 i 64 oed yn cael effaith sylweddol ar weithgarwch economaidd
- Ar sail tymhorol, mae twristiaeth eisoes yn chwistrellu arian y mae ei fawr angen i'r economi lleol (£250 miliwn yn 2011) ac yn cynnal dros 4,000 o swyddi ar yr Ynys
- Mae Ynys Môn yn denu oddeutu 1 miliwn o ymwelwyr i aros ac ychydig dros **0.5 miliwn** o ymweliadau undydd bob blwyddyn
- Mae 42% o ymwelwyr sy'n aros yma am egwyl fer, 31% ar wyliau hirach a 26% ar ail wyliau



DRAFT

**I grynhoi, mae'r waelodin wybodaeth yn yr adran hon yn dweud wrthym:**

- Bod mwy o gyfleoedd cyflogaeth yn hollbwysig er mwyn adfywio'r Ynys
- Bod angen symud oddi wrth ein gorddibyniaeth ar y sector cyhoeddus am swyddi
- Mor bwysig yw twristiaeth i gynhyrchu incwm i'r Ynys
- Pwysigrwydd y Rhaglen Ynys Ynni

**Gwneud gwahaniaeth:**

**Mae'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn ymrwymedig i wneud gwahaniaeth yn y meysydd canlynol:**

- Creu cyfleoedd gwaith
- Sicrhau fod y sgiliau cywir gan bobl
- Manteisio i'r eithaf ar botensial yr Ynys o ran twristiaeth
- Darparu cefnogaeth i'r rhaglen Ynys Ynni er mwyn ddarparu sylfaen ehangach a chynaliadwy ar gyfer economi'r Ynys yn yr 21ain ganrif
- Sicrhau cydlynu rhwg y Rhaglen Ynys Ynni, y Cynllun Rheoli Cyrchfan a mentrau Adfywio ***i ddarparu cyfleuon gwaith i bobl leol***
- Cefnogi ac annog amrywiaeth mewn busnesau a chyfleoedd i gynyddu cyflogaeth
- Manteisio ar bob cyfle i fuddsoddi mewn cynigion buddsoddi strategol mewn ynni ar Ynys Môn, er mwyn gwireddu ein dyheadau cyfunol
- Hybu delwedd Ynys Môn a'i chryfderau unigryw

DRAFT

## Mae pobl Ynys Môn yn rhan o economi cynaliadwy sy'n ffynnu

**Y Prif Ffeithiau**

Bu llawer o sôn am statws ecomomaidd bregus Ynys Môn, ac mae'r Ynys ar hyn o bryd yn wynebu nifer o heriau cymdeithasol ac economaidd mawr. Nid yw'r dirwasgiad ond wedi gwaethygu'r problemau hynny.

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng llewyrch ecomomaidd ardal a lles, iechyd, cyflawniad addysgol, cydlyniad cymunedol ac ansawdd bywyd yn gyffredinol. Mae hynny'n dangos yn amlwg mor hanfodol bwysig yw cynnal adfywiad economaidd parhaus.

Ond mae tueddiadau cymdeithasol, economaidd a demograffig pwysig ar droed, gan gynnwys yr angen i reoli poblogaeth sy'n heneiddio, anweithgarwch economaidd ac allfudiad pobl ifanc o'r Ynys. Rhaid rhoi sylw i'r materion hyn os ydym am weld effaith gadarnhaol ar economi'r Ynys.

**Mesur ein Llwyddiant**

**Cynyddu:**

1. 'GVA' absoliwt gan 10-13% dros lefelau 2008 a hynny erbyn 2025
2. Nifer yr ymwelwyr, gan 3% y flwyddyn
3. Gweithgaredd economaidd
4. Poblogaeth oedran gweithio i 61% o'r boblogaeth gyfan
5. Cyfleoedd cyflogaeth
6. Ffurfio busnesau newydd

**Gostwng:**

1. Cyfraddau disymudrwydd economaidd
2. Cyfraddau diweithdra
3. Diweithdra ymysg yr ifanc
4. Diweithdra tymor hir
5. Niferoedd sy'n hawlio lwfans ceisio am waith
6. ***Allfudo ymysg yr ifanc***

DRAFT

**Eich cyfraniad chi**

- Gwneud ymrwymiad i ddatblygu personol a datblygu gyrfa
- Cysylltu gydag Uned Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ynys Môn os ydych yn meddwl sefydlu eich busnes eich hun, i gael cyngor a chefnogaeth
- Dylai Mentrau Cymdeithasol a Chyrff Cydweithredol gysylltu â Chanolfan Gydweithredol Cymru i gael cymorth a chyngor busnes am ddim
- Cefnogi busnesau bach lleol, canolfannau trefol a digwydddiadau lleol
- Cefnoi pob gweithgaredd i gynnal diwylliant a phob amgylchedd Cymraeg ffyniannus
- Bod yn llysgennad i'r Ynys er mwyn adlewyrchu'r Ynys ar ei gorau

## Mae Ynys Môn yn manteisio'n llawn o'r holl gyfleuon i fuddsoddi mewn ynni strategol

Ni ellir gorbwysleisio maint, amrywiaeth a phwysigrwydd y Rhaglen Ynys Ynni i ddyfodol cymdeithasol ac economaidd Ynys Môn. Bu'r farchnad ynni yn bwysig i economi'r Ynys am amser maith, ac mae'n hollbwysig bod Ynys Môn yn parhau i fod yn rhan hanfodol o gynhyrchu ynni carbon isel y Deyrnas Unedig.

Mae'r Rhaglen Ynys Ynni yn gyfle unwaith mewn oes i fanteisio ar gynlluniau buddsoddi a photensial datblygu y sector ynni carbon isel ar Ynys Môn. Mae maint y buddsoddiad arfaethedig yn sylweddol iawn ac yn cynnig cyflogaeth sylweddol, cadwyn cyflenwi a chyfleoedd i wneud lles i gymunedau.

Bydd y Rhaglen Ynys Ynni hefyd yn ysgogi newid diwylliannol a newid mewn ymddygiad, gan sicrhau datblygu economaidd cynaliadwy, cydlyniad cymdeithasol, a gwelliant yn ansawdd bywyd preswylwyr yr Ynys.

### Mesur ein Llwyddiant

**Cynyddu:**

1. 'GVA' absoliwt gan 10-13% dros lefelau 2008 a hynny erbyn 2025
2. Cyfleoedd cyflogaeth yn y maes ynni carbon isel
3. Cyfartaledd cyflogau wythnosol
4. Lefelau sgiliau lleol
5. Cyfleoedd yn y gadwyn cyflenwi
6. Y gyfran o siaradwyr Cymraeg
7. Nifer y cyfleoedd o ran prentisiaeth

**Gostwng:**

1. Cyfraddau diweithdra
2. Cyfraddau disymudrwydd economaidd
3. Allfudo ymysg y oedran 16-24
4. Allyriadau carbon

DRAFT

### Eich cyfraniad chi

- Cyfrannu at y gweithgareddau ymgynghori / ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â phob cynnig mawr i fuddsoddi mewn ynni
- Fel cyflogwr ystyried cymryd prentisiaid ymlaen

## Mae gan Ynys Môn ddiwydiant twristiaeth llwyddiannus a chynaliadwy

### Y Prif Ffeithiau

Mae Twristiaeth yn weithgaredd pwysig ar Ynys Môn ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at lewyrch ariannol ac ansawdd bywyd yr Ynys. Ar hyn o bryd mae Twristiaeth yn cynhyrchu refeniw o £250 miliwn y flwyddyn i'r economi lleol ac yn darparu cyflogaeth i dros 4000 o bobl. Hanfod poblogrwydd Ynys Môn fel cyrchfan i ymwelwyr yw amgylchedd naturiol yr Ynys a'i harfordir atyniadol.

Mae'r Cyngor Sir yn ymrwymedig i Reoli Cyrchfan ac mae'n arwain partneriaeth ar y cyd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat i gyd-gysylltu agwedd strategol tuag at dwristiaeth ar yr Ynys. Mae Rheoli Cyrchfan yn broses o gydgysylltu pob agwedd sy'n cyfrannu at brofiadau cadarnhaol yr ymwelydd o'r gyrchfan, gan roi ystyriaeth i anghenion ymwelwyr, trigolion lleol, busnesau a'r amgylchedd.

Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Rheoli Cyrchfan sy'n ddatganiad o fwriad ar y cyd gyda rhanddeiliaid allanol. Mae'n egluro swyddogaethau gwahanol bartneriaid ac yn nodi camau penodol y byddant yn eu gweithredu, gan ddyrannu adnoddau a fydd ar gael trwy Gynllun Darparu cytunedig.

Mae Twristiaeth yn ddiwydiant cymhleth, sy'n cwmpasu'r sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector – yn ogystal â'r gymuned leol. Trwy weithio ar eu pen eu hun yn unig, ni all busnesau lleol reoli a chynnal twristiaeth ar draws cyrchfan gyfan. Yn yr un modd mae llawer o asiantaethau cyhoeddus yn cyfrannu mewn gwahanol ffyrdd at ddatblygu a rheoli twristiaeth.

DRAFT

## Mesur ein Llwyddiant

**Cynyddu:**

1. Niferoedd ymwelwyr, gan 3% y flwyddyn
2. Busnesau twristiaeth newydd
3. Gweithgaredd economaidd
4. Cyfleoedd cyflogaeth
5. Profiadau cadarnhaol o ran twristiaeth
6. Llety a bwytai o ansawdd da

**Gostwng:**

1. Busnesau twristiaeth yn cau
2. Cyfraddau diweithdra
3. Profiadau negyddol o ran twristiaeth
4. Llety o ansawdd gwael

DRAFT

## Eich cyfraniad chi

- Gall busnesau twristiaeth ar Ynys Môn gymryd rhan yn y Bartneriaeth Cyrchu Môn (mae 11 cynrychiolydd o'r sector fasnach wedi cael eu hethol yn ddiweddar);
- Helpu i wella delwedd Ynys Môn fel cyrchfan fodern sy'n dod yn fwy a mwy cystadleuol – y lle i'w ddewis!
- Cysylltu â'r Tîm Rheoli Cyrchfan i gael manylion pellach (01248 752450 neu dmp@anglesey.gov.uk).

**Ymgysylltu â chi**

Mae'r cynllun yn seiliedig ar yr angen i weithio gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth ac i sicrhau dyfodol bywiog a chynaliadwy i Ynys Môn a'i thrigolion.

I ofalu ein bod yn diwallu'r anghenion ac yn deall ym mhle i flaenoriaethu mae angen i ni glywed oddi wrthych chi ac i chwithau gymryd rhan.

Chi hefyd yw'r allwedd i wneud i hyn ddigwydd, a gallwch helpu pethau i newid er gwell trwy gymryd gofal o'ch cymdogion, defnyddio bag am oes a chymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu.

**Siaradwch efo ni**

Rydym eisiau gwybod beth ydych chi'n ei feddwl o'r cynllun a beth sy'n bwysig i chi.

**Sut i ymateb**

Bydd y broses hon yn rhoi cyfle i ni wrando ar farn y bobl sy'n byw ar Ynys Môn neu'n ymweld â'r Ynys, er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir i ddarparu'r canlyniadau gorau i bob un ohonom. Byddwch yn cael y newyddion diweddaraf yn rheolaidd i ddweud pa cynnydd a wnawn yn erbyn y blaenoriaethau a restrwyd.

**Os nad ydych yn dymuno i ni gyhoeddi eich enw neu gyfeiriad, gadewch i ni wybod yn ysgrifenedig pan yn anfon eich ymateb os gwelwch yn dda. Byddwn wedyn yn eu blancio hwy allan.**

**Angen ychwaneg o wybodaeth neu gopi o'r ddogfen mewn fformat arall?**

**Cysylltwch gyda'r Uned Bolisi trwy e-bost: cymuned@ynysmon.gov.uk neu drwy ffonio 01248 752561**

DRAFT

## Atodiad 1

### EGWYDDORION Y CYNLLUN INTEGREDIG SENGL

Nodir isod y prif egwyddorion a fydd yn sail i'r Cynllun Integredig Sengl:

### DATBLYGU CYNALIADWY

Mae hyn yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, a sicrhau gwell ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol. Gwneir hyn:

- Mewn ffyrdd sy'n hybu cyfiawnder cymdeithasol a chyfleoedd cyfartal
- Mewn ffyrdd sy'n hybu'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau – dan ddefnyddio dim mwy na'n cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein treftadaeth ddiwylliannol
- Mewn ffyrdd sy'n lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac yn addasu mewn ymateb iddo
- Mewn ffyrdd sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gymunedau lleol ac i'r amgylchedd yn sgil pob datblygiad mawr, trwy leihau eu drwg-effeithiau a sicrhau buddion economaidd a chymunedol

### CYDRADDOLDEB A HAWLIAU DYNOL

Mae hyn yn golygu chwarae teg i bawb ac yn canolbwyntio ar ddwyn unrhyw gamwahaniaethu i ben, hybu cyfleoedd cyfartal a meithrin cydberthynas dda rhwng gwahanol unigolion a chymunedau.

### CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN

Mae hyn yn ymwneud â gofalu bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu cydnabod, bod gwasanaethau priodol yn cael eu darparu iddynt, a bod eu llais yn cael ei glywed a'u hawliau'n cael eu parchu.

### YR IAITH GYMRAEG A'I DIWYLLIANT

Sef, sicrhau bod yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Dylai'r iaith Gymraeg a'i diwylliant gael ystyriaeth briodol fel rhan o asesiad anghenion strategol ar gyfer y Cynllun a dylai unrhyw ddeilliannau a nodir gael eu cynnwys yn y Cynllun.

### YMGYSYLLTU Â DINASYDDION

Sef gwrando ar lais dinasyddion a chymunedau fel ffordd rymus o ddeall ym mhle y mae cyfundrefnau yn methu ac ym mhle y mae diffyg cydgysylltu rhwng darparwyr gwasanaeth yn gwastraffu adnoddau, a sicrhau bod canlyniadau'n cael eu gwella yn sgil hynny.



DRAFT

**CYNGHORAU TREF A CHYMUNED**

Sef sicrhau bod Cynghorau Tref a Chymuned yn bartneriaid allweddol wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer yr Ynys.

**CYDWEITHIO YN EFFEITHIOL**

Sef sicrhau bod y prif bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael ac yn delio â'r ystyriaethau mawr sy'n wynebu'r Ynys.

DRAFFT

## Atodiad 2

### Cwestiynau Cyffredin?

### Beth yw'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol?


Mae'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, cynrychiolwyr yr Heddlu, Iechyd, Gwasanaethau Gwirfoddol, Y Gwasanaeth Tân ac Achub, y sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch ac 'Un Llais Cymru' sy'n cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned. Ei ddiben yw gweithredu fel tîm strategol a blaengar sy'n arwain yn lleol er mwyn cydweithio i wella canlyniadau a darpariaeth gwasanaeth i bobl Ynys Môn.

### Pam cynhyrchu Cynllun Integredig Lleol?

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynhyrchu Cynllun Sengl Integredig erbyn 1 Ebrill 2013 er mwyn symleiddio'r trefniadau lleol, gan leihau dyblygu a rhyddhau adnoddau. Ar hyn o bryd rydym yn cynhyrchu'r 4 cynllun statudol lleol canlynol:

- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Strategaeth Gymunedol
- Cynllun Plant a Phobl Ifanc
- Cynllun Diogelwch Cymunedol

Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cyfuno ac yn cael eu disodli gan un cynllun hirdymor llyfn:




DRAFT

## Beth yw'r cysylltiad rhwng y Cynllun Integredig Sengl a Chynllun Datblygu Lleol ar y cyd Ynys Môn a Gwynedd ?

Y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r Cynllun Integredig Sengl fydd y ddau brif gynllun strategol ar gyfer yr ardal. Bydd y Cynllun Integredig Sengl yn gosod y weledigaeth strategol gyffredinol ar gyfer yr Ynys ac yn nodi sut y bydd gwahanol gyrff a phartneriaethau yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r deilliannau strategol a ddynodir.

Ar sail gadarn o dystiolaeth ac ymgysylltiad gyda chymunedau lleol ac amrywiaeth o gyrff eraill sydd â diddordeb, bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn pennu polisïau a chynigion defnyddio tir Ynys Môn, Y cynlluniau hyn fydd yn rhoi arweiniad ar gyfer datblygu a defnyddio tir ac adeiladau ar yr Ynys rhwng 2012 a 2012. Bydd Y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn sefydlu un strategaeth ofodol a fydd yn cario awdurdod statudol, gan gyfarwyddo sut y bydd deilliannau gofodol y Cynllun Integredig Sengl yn cael eu gwireddu o ran defnyddio gofod.

Gan hynny mae'r ddau gynllun yn dibynnu ar ei gilydd.

### Sut fyddwn ni'n atebol am wireddu'r Cynllun?

Bydd partneriaid y Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn atebol am gyflawni'r Cynllun yn effeithiol. Gwneir hynny trwy bennu pa deilliannau, dangosyddion a mesurau perfformiad fydd yn cael eu defnyddio i fesur perfformiad. Bydd adroddiad cryno yn cael ei gynhyrchu yn flynyddol a bydd yn cynnwys adroddiad cytbwys am yr hyn a gyflawnwyd ac am effeithiolrwydd dros y flwyddyn flaenorol. Bydd cynnydd hefyd yn cael ei werthuso trwy drefniadau craffu lleol a gan Swyddfa Archwilio Cymru.

### Beth yw Gweithio ar y Cyd yn Rhanbarthol?

Er mwyn cyflawni disgwyliadau Llywodraeth Cymru bod Awdurdodau Lleol yn cydweithredu gyda'i gilydd fe wnaethpwyd rhywfaint o waith yn rhanbarthol ac yn isranbarthol i leihau nifer y partneriaethau. Yn ystod y misoedd nesaf bydd y partneriaethau presennol yn cael eu llyfnhau a'u lleihau, ac fel rhan o'r rhaglen ddiwygio hon bydd Byrddau Gwasanaeth Lleol Gwynedd a Môn yn uno. Bydd hyn hefyd yn golygu y bydd Cynllun Integredig Lleol yn cael ei gynhyrchu ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd yn ystod 2013/14.

DRAFT

# Atodiad 3

## Gwaith Partneriaeth – Astudiaethau Achos

Rydym wedi llunio cyfres o astudiaethau achos er mwyn dangos enghreifftiau i chi o'r ffordd yr ydym eisoes yn gwneud gwahaniaeth ar lefel partneriaeth. Fel partneriaid, byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd i wella ansawdd bywyd ein dinasyddion a'n cymunedau.

DRAFT


## SUT YR YDYM YN GWNEUD GWAHANIAETH

### 'Ynys Ynni'

Mae'r Rhaglen Ynys Ynni yn ymdrech ar y cyd rhwng nifer o randdeiliaid o fewn y sectorau cyhoeddus a phreifat sy'n gweithio mewn partneriaeth i roi Ynys Môn yn rheng flaen ymchwil a datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu ym maes Ynni. Gallai potensial economaidd hynny fod yn enfawr.

Rhagwelir y gallai'r rhaglen gyfrannu £2.5 biliwn at economi Ynys Môn a Gogledd Cymru dros y 15 mlynedd nesaf, Trwy harneisio cymysgedd cyfoethog o ffrydiau ynni, gan gynnwys ynni niwclear, ynni gwynt ar y môr, llanw, biomas, ac ynni haul (ynghyd â gwasanaethau cysylltiedig) mae hyn yn gyfle pwysig i hyrwyddo newid cadarnhaol yn lleol o safbwynt economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae'r Rhaglen Ynys Ynni yn cwmpasu llawer mwy na'r diwydiant Ynni ei hun, ac mae'n rhedeg drwy bob agwedd ar fywyd y cymunedau yn Ynys Môn a Gogledd Cymru, gan ddarparu cyfleoedd i wella'r seilwaith trafnidiaeth, tai, twristiaeth a chyfleusterau hamdden.





# Canolfan Ymwelwyr y Deyrnas Gopr

Mae Canolfan Ymwelwyr y Deyrnas Gopr yn fenter mewn cydweithrediad rhwng gwahanol randdeiliaid o’r sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector sy’n gweithio mewn partneriaeth i osod Amlwch yn gadarn ar y map fel lle y mae’n rhaid mynd i’w weld.
Lansiwyd y ganolfan ymwelwyr newydd hon yn swyddogol ar 5 Gorffennaf 2012 gan Huw Lewis AC. Mae’r ganolfan yn dweud yr hanes sut yr oedd yr Ynys ar un adeg yn brif gynhyrchydd copr y byd.

Mae Mynydd Parys, ger Amlwch wedi bod yn cael ei fwyngloddio am oddeutu pedair mil o flynyddoedd, yn ôl i’r Oes Efydd. Yn ystod y 18fed ganrif a’r unfed ganrif ar bymtheg hi oedd y gloddfa gopr fwyaf yn y byd a phan oedd yn ei bri roedd 2,000 o bobl yn gweithio ynddi.

Cloddiwyd o dan ddaear yno am y tro diwethaf ar ddechrau’r 20fed ganrif ac mae’r ganolfan newydd yn rhan o brosiect mawr i ddiogelu a hyrwyddo ei threftadaeth. Amcangyfrifir y bydd 15,000 o bobl yn ymweld â’r Deyrnas Gopr yn ei blwyddyn gyntaf.

Adeiladwyd y ganolfan ar safle’r hen Finiau Copr, lle storiwyd copr ar y cei cyn ei lwytho ar longau ym Mhorth Amlwch i’w allforio dros y byd i gyd. Mae arddangosfa ddehongliadol yn rhoi cip ar fwyngloddio copr yn Amlwch a’r ffordd y ffurfiwyd yr ardal gan y diwydiant.

Mae’r prosiect yn un o 24 arianwyd gan Brosiect Twristiaeth Treftadaeth Cadw, a gefnogir gan arian Ewropeaidd trwy Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chefnogaeth y Cyngor Sir a chronfa Môn a Menai, sy’n dod i gyfanswm o £554,000 o fuddsoddiad. Cefnogwyd y prosiect gan y gronfa Loteri Treftadaeth hefyd, gyda chymorthdal o £497,000.




DRAFT

## Byw'n Iach

Nod y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff yw hybu annibyniaeth trwy annog oedolion i reoli salwch a chyflyrau iechyd cronig, Mae'r cynlluniau hyn yn cael ei darparu'n llwyddiannus ar sail partneriaeth. Mae'r Rhaglen Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarferion Generig a'r Rhaglen Adferiad y Galon yn derbyn cleifion sy'n cael eu hatgyferio atynt oherwydd problemau neu gyflyrau tebyg i golli pwysau, diabetes, hyperdensiwn a thrawiadau ar y galon.

Mae'r Tîm Cenedlaethol Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff yn trefnu sesiynau mewn ystafelloedd ffitrwyddd yn ogystal â sesiynau grŵp eraill, er enghraifft Pilates, adferiad trwy nofio a chylchedau ymarfer. Yn ogystal a hybu adferiad mae'r rhaglen yn ceisio annog cleifion i ddeall eu cyflwr iechyd – ac yn rhoi anogaeth iddynt, gobeithio, i wneud dewis annibynnol i fabwysiadu ffordd iach o fyw ac ymarfer.



## Celfyddydau yn y Gymuned

Nod 'Cyffro Celf', a lansiwyd ar 11 Medi, 2012, yw galluogi pobl i ddysgu Cymraeg wrth ddysgu am Gelf.

Mae 'Cyffro Celf' yn darparu adnoddau ar gyfer dosbarthiadau llawn o unigolion sy'n dysgu Cymraeg neu'n siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno gloywi eu hiaith. Gellir defnyddio'r adnoddau hyn yn y dosbarth ac yn Oriel Ynys Môn.

Mae'r rhan fwyaf o'r paentiadau a ddefnyddir fel adnoddau ar gyfer 'Cyffro Celf' yn rhan o gasgliad Oriel Ynys Môn, ac yn enwog drwy'r byd, ond cafwyd caniatad i ddefnyddio enghreifftiau o gasgliadau eraill hefyd.

Mae celf yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru ac am flynyddoedd lawer bu artistiaid blaengar yng Nghymru yn ymgyrchu i godi proffil Celf yng Nghymru. Mae rhai o'r artistiaid hynny yn perthyn i 'Cyffro Celf' ac mae'r prosiect yn cyfrannu at y nod hwnnw.

Trwy ennill rhywfaint o ddealltwriaeth am gelf y mae'n bosibl gwerthfawrogi a mwynhau lluniau a cherfluniau am yr hyn ydynt, gan ddysgu am ein hiaith a'n diwylliant yr un pryd. (gyda chaniatad Catrin Williams)



## ‘Cynllun Tro Da Benllech a’r Cylch’

Mae Cynllun Tro Da Benllech a’r Cylch yn un o 5 Cynllun trafnidiaeth gan grwpiau gwirfoddol yn Ynys Môn a dyma’r cynllun mwyaf o’i fath yng Ngogledd Cymru. Y mae’n gysylltiol â’r Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol ac yn derbyn ei chefnogaeth.

Mae’r cynllun y enghraifft rhagorol o bartneriaeth a gweithgarwch cymunedol yn gweithio er budd pawb. Mae Cyngor Sir Ynys Môn  wedi darparu cefnogaeth barhaol i’r cynllun gan gynnwys arian diweddar am offer Technoleg Gwybodaeth. Sefydlwyd y grŵp yn y flwyddyn 2000 gyda chymorth gan Medrwn Môn, sef Cyngor Gwirfoddol y Sir, ac yn ddiweddar fe ddathlodd y grŵp 12 mlynedd o weithredu. Yn ystod y 12 mlynedd y bu’n gweithredu y mae gyrrwyr y grŵp wedi gyrru pellter cyfatebol i fynd o amgylch y ddaear dros 9 gwaith!

Mewn wythnos arferol bydd y Cynllun Tro Da yn derbyn dros 190 o geisiadau am gymorth, gan ysgogi 50 o wirfoddolwyr i gyfrannu oddeutu 200 o oriau a gyrru 2,000 o filltiroedd.

Nod cyffredinol y Cynllun Tro Da yw gwella “Lles ac Ansawdd Bywyd” yn y gymuned trwy ddarparu gwasanaethau nad yw asiantaethau eraill yn eu cynnig ar hyn o bryd. Yr amcanion yw hybu lles y gymdogaeth yn gyffredinol, ac yn arbennig budd yr henoed, pobl fregus neu bobl sy’n gaeth i’w cartrefi, a chynnig cysur i bobl sy’n dioddef o henaint, salwch neu anhwylder.

Mae gan y Cynllun Tro Da dîm o yrrwyr gwirfoddol sy’n darparu trafnidiaeth i bobl er mwyn iddynt allu defnyddio gwasanaethau hanfodol. Mae gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio o’r ardal leol ac mae’r cynllun yn cynnig cludiant i ddefnyddwyr gwasanaeth fynd i’r Ysbyty, y Feddygfa, at y Deintydd a’r Optegydd ac yn y blaen. Mae’’r cynllun yn cynnig rhai gwasanaethau eraill yn yr ardal hefyd, gan gynnwys mynd a chŵn am dro, ymweld â phobl, helpu gyda gwaith papur, siopa a gwasanaeth casglu.



DRAFT

## Gofalu am ein Hamgylchedd

Ar Ynys Môn mae'r Tocwyr Penwyn, aelodau gwirfoddol o Grŵp Cerddwyr Ynys Môn, wedi bod yn gweithio am bûm mlynedd i wella'r amgylchedd lleol ar gyfer cerdded ac i ddangos sut y gall cysylltiadau da rhwng gwirfoddolwyr lleol Cymdeithas y Cerddwyr a'r Awdurdod Lleol ddwyn ffrwyth i bob cerddwr yn ogystal â helpu'r Grŵp Cerddwyr i gyflawni ei nodau.

Mae'r llun yn dangos criw o weithwyr gwirfoddol yn gosod darn newydd o lwyfan cerdded ar hyd rhan gwlyb o lwybr cyhoeddus ger Nant y Sebon, Moelfre. Yn yr achos yma roedd y llwyfan a ddefnyddir yn rhan o'r rhodfa esgynedig a oedd gynt yng Ngwarchodfa Natur Leol Nant y Pandy yn Llangefni. Pan adferwyd rhan o'r rodfa esgynedig barnwyd bod rhai o'r byrddau yn addas i'w defnyddio, a gwnaethpwyd defnydd da ohonynt yn y lleoliad hwn.

Mae hon yn enghraifft ragorol o ymrwymiad a chydweithrediad rhwng Cymdeithas y Cerddwyr yn Ynys Môn a'r adrannau Hawliau Tramwy / Gwasanaethau Cefn Gwlad o fewn Cyngor Sir Ynys Môn.



# Cymunedau Mwy Diogel

Mae Bws Allgyrchu Symudol Ieuenctid y Groes Goch Brydeinig yn wasanaeth sydd wedi ei saernïo i ddiwallu anghenion lleol gan ddefnyddio asesiadau o anghenion er mwyn  ymateb i anghenion pob cymuned yn unigol.

Nod cyffredinol y gwasanaeth yw gweithio gyda phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed mewn ardaloedd anghysbell ar draws yr ynys, i hybu diwylliant diogel a chadarnhaol mewn cymunedau. Mae tîm o fudiadau a gwirfoddolwyr lleol yn cynnig cymorth, cefnogaeth, gwybodaeth a chanllawiau am ystod o wahanol bynciau. Mae'r prosiect yn gweithio gyda grwpiau o bobl ifanc a dargedir ac wedyn yn symud ymlaen i gymuned arall.

Er 2010, mae dros 100 o bobl ifanc wedi cael eu hachredu neu dderbyn tystysgrifau am y gwaith a ddarperir gan y gwasanaeth. Hyd at ddiwedd Mawrth 2012 roedd y prosiect wedi cyrraedd 8,194 o bobl ifanc yn Ynys Môn er 2004/2005 a chafodd hyn effaith sylweddol ar leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith yr ifanc.

Mae lle yn y bws ar gyfer hyd at 12 o bobl, gan gynnig system fodern o adloniant a chyfrifiaduron, gan gynnwys system sain technoleg uchel, mynediad i'r rhyngrwyd, teledu sgrin fflat a chegin fechan i gynnig diodydd.



## GEIRFA

| | |
|---|---|
| **AGAP** | Adran Gwaith a Phensiynau |
| **AGGC** | Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. |
| **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol - AHNE** | Tirweddau gwerthfawr gyda chymeriad nodedig a harddwch naturiol sydd mor eithriadol ei bod er budd i'r genedl eu diogelu yw Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). |
| **Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth** | Arolwg cyfunol ystadegol ar aelwydydd yw'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. |
| **Ardaloedd Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA)** | Dyluniwyd yr ardaloedd hyn gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol er mwyn cael cysondeb o ran niferoedd y boblogaeth a sefydlogrwydd daearyddol, a hynnny er mwyn gallu cymharu ardaloedd bychan dros amser. Fodd bynnag, mae niferoedd y boblogaeth rhwng Ardaloedd Lleol yn amrywio'n sylweddol. |
| **BIPBC** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. |
| **Bwrdd Lleol Diogelu Plant ('LSCB')** | Mae Byrddau Lleol Diogelu Plant yn rhoi cyfrifoldeb statudol ar bob ardal i gael y mecanwaith yma mewn lle. Bellach, y BLIDP yw'r brif system ymhob ardal yn y wlad i ddod a sefydliadau at ei gilydd i gytuno ar gydweithio er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant. Pwrpas y gwaith partneriaethol yma yw bod yn atebol i'w gilydd a sicrhau bod diogelu plant yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel ar draws y rhanbarth. |
| **Bywyd Môn** | Trosolwg yw Bywyd Môn o asesiad anghenion o'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar ansawdd bywyd unigolion a chymunedau ar Ynys Môn. |
| **CAB** | Cyngor ar Bopeth. |
| **Canllawiau Cynllunio Ategol (CCA)** | O bryd i'w gilydd mae'r Cyngor yn paratoi canllawiau cynllunio ategol (CCA) i roi cyngor a chanllawiau mwy manwl na'r hyn sydd yn y Cynllun Datblygu ei hun ar bynciau unigol. Gellir defnyddio CCA hefyd i wneud y brif ddogfen yn haws i'w defnyddio. |
| **CLILC** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. |

**CO2** Carbon Deuocsid.

**Cydlyniad Cymunedol** Cyfeirir at gydlyniad cymunedol fel “agosatrwydd” a chwlwm agosrwydd rhwng aelodau cymunedau, y “glud” sy’n dal cymuned gyda’i gilydd. Gall hyn olygu bod pawb yn cytuno o ran ystyr diwylliant.

**Cydweithio** Gweithio ar brosiect ar y cyd gydag un arall neu rai eraill yw cydweithio.

**CyMAL** Mae CyMAL yn helpu i hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth Cymru trwy gefnogi amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd.

**Cynlluniau Gweithredu** Amserlenni ar gyfer yr hyn yr ydych eisiau ei gyflawni dros gyfnodau penodol yw cynlluniau gweithredu.

**Cynllun Rheoli Cyrchfan** Partneriaeth twristiaeth ffurfiol sy’n cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn a phartneriaid eraill megis Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru a ‘Croeso Cymru’ Llywodraeth Cymru er mwyn creu partneriaeth ffurfiol ar gyfer gwella cyfathrebu a chydweithio.

**Dangosyddion Pynciau Craidd** Mae’r dangosydd pynciau craidd yn cynrychioli’r canran o ddisgyblion sy’n ennill lefel 2 neu uwch yn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), a chyfuniad o fathemateg a gwyddoniaeth.

**Draig Ffynci** Cynulliad i blant a phobl ifanc yng Nghymru yw’r Ddraig Ffynci. Mae’n galluogi plant a phobl ifanc yng Nghymru i gael gwrandawiad gan y Llywodraeth ac eraill sy’n gwneud penderfyniadau am bolisïau a gwasanaethau sy’n effeithio ar eu bywydau.

**Geoparciau Byd-eang** Mae geoparciau’n cael eu hadnabod a’u hyrwyddo gan UNESCO (Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig), a’r Rhwydwaith Geoparciau Ewropeaidd. Mae Ynys Môn yn cael ei chydnabod yn rhyngwladol fel Geoparc ac yn cynnwys rhyw 720 cilomedr sgwâr o dir ynghyd â 201 cilomedr o arfordir.

**Gwaelodlin** Gwaelodlin yw man cychwyn a ddiffinnir yn glir ac a ddefnyddir fel mesur neu gyfrif, neu leoliad a ddefnyddir fel sail i wneud cymhariaeth.

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Gwerth Crynswth Ychwanegol (GVA)** | Yn ôl Ystadegau Cenedlaethol – mae Gwerth Crynswth Ychwanegol (‘GVA’) yn mesur cyfraniad pob cynhyrchydd unigol i’r economi, diwydiant neu sector yn y DU. |
| **Menter Môn (yn cynnwys Menter Iaith Môn)** | Sefydlwyd Menter Môn yn 1995 i gyflawni rhaglenni datblygu gwledig yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n gwmni trydydd sector gyda bwrdd cyfarwyddwyr yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector preifat, gwirfoddol a chymunedol |
| **Mynegai Aml-Amddifadedd Cymru 2011** | Mynegai Aml-Amddifadedd Cymru yw’r mesur swyddogol o ran amddifadedd mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Mae’n fesur cymharol o grynhoad amddifadedd ar lefel ardaloedd bach. |
| **‘NEET’** | Term generig ar gyfer unigolion rhwng 16 a 18 oed sydd ddim mewn addysg, gyflogaeth na hyfforddiant. |
| **Newid Hinsawdd** | Newid mewn patrymau hinsawdd fyd-eang neu ranbarthol, o ganlyniad gan fwyaf i lefelau cynyddol o garbon deuocsid atmosfferig a gynhyrchir trwy ddefnyddio tanwydd ffosiledig. |
| **Ôl-troed Carbon** | Y carbon deuocsid a ledaenir o ganlyniad i ddefnyddio tanwydd ffosiledig. |
| **Parth Menter** | Mae Parthau Menter yn cynnig mentrau penodol i ddenu busnesau newydd i brif leoliadau. |
| **Rhwydwaith Dysgu 14-19** | Mae’r Rhwydwaith 14-19 rhanbarthol yn sicrhau bod holl anghenion addysgol, hyfforddiant, cyflogaeth a chefnogaeth pobl ifanc yn cael eu diwallu ac eu bod wedi’u paratoi’n addas ar gyfer anghenion cyflogaeth lleol. |
| **Sustrans** | Mae Sustrans Cymru yn gweithio gyda chymunedau, ysgolion gweithleoedd a’r rhai sy’n llunio polisïau er mwyn hyrwyddo cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus fel opsiynau eraill realistig yn hytrach na defnyddio car ar gyfer teithio dydd i ddydd. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Tlodi** | Yn ôl Strategaeth Tlodi Plant Cymru, tlodi yw cyfnod hir heb ddigon o adnoddau i allu fforddio bwyd, amodau byw neu gyfleusterau rhesymol neu allu cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael eu cymryd yn ganiataol gan eraill o fewn eu cymdeithas. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn diffinio tlodi fel aelwydydd sy'n derbyn llai na 60% o'r incwm canolfrifol yn y DU. |
| **Trydydd Sector** | Y sector gwirfoddol neu'r sector cymunedol (hefyd y sector dielw). |
| **TWF** | Mae TWF yn cynnig cyngor rhad ac am ddim i rieni ar fagu plant yn ddwyieithog o'r diwrnod cyntaf. |

DRAFFT

**Canlyniad Strategol – Mae bob plentyn a pherson ifanc ar Ynys Môn yn cyrraedd ei lawn botensial**

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***1*** | **Darparu pob plentyn ar Ynys Môn gyda dechrau teg mewn bywyd fel y gallant gyrraedd eu llawn botensial** | Nifer y lleoedd gofal plant o ansawdd uchel<br><br>Cyrhaeddiad addysgol yn 7 mlwydd oed<br><br>Nifer yr amgylcheddau cefnogol o dan y cynllun Croesawu Bwydo o'r Fron.<br><br>Nifer yr ymholiadau i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. | Nifer y plant dan 5 oed sydd â phydredd deintyddol | • Datblygu a gweithredu Strategaeth Cymorth Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant, gan gynnwys y rhai ag anableddau<br><br>• Datblygu darpariaeth gofal plant sydd o ansawdd uchel ac sy'n diwallu anghenion y plant a'r rhieni ac i ddatblygiad y Strategaeth Gofal Plant. ***Bydd pob lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg o ansawdd uchel.***<br>• ***Bydd pop plentyn mewn lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg fod yn rhan o'r Cynllun Strategaeth Gwên***<br><br>• ***Bydd pob plentyn mewn lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg fod yn rhan o'r Cynllun cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy***<br><br>• Gweithredu Strategaeth Cymorth i Deuluoedd sy'n darparu cymorth i deuluoedd mewn cymunedau lleol ar gyfer lles plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. ***Cymryd camau ataliol i wella canlyniadau i blant a theuluoedd***<br><br>• Gwella mynediad at y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | Dechrau'n Deg<br><br>BIPBC<br><br>AGGCC<br><br>Trydydd Sector | X<br><br>X<br><br>X<br><br>X | X<br><br><br><br>X<br><br>X | X<br><br><br><br>X<br><br>X | X<br><br><br><br>X<br><br>X |





DRAFT

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2** | **Sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai sydd fwyaf bregus, gyda'r sgiliau a'r hyder i'w paratoi ar gyfer oedolaeth a chyflogaeth ar Ynys Môn** | Perfformiad gwell ym mhob cyfnod allweddol.<br><br>% Heb for mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)<br><br>Presenoldeb yn yr ysgol<br><br>Nifer y bobl ifanc yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cael mynediad 25 awr o addysg,<br><br>hyfforddiant neu gyfleoedd gwaith Nifer y disgyblion 16 oed sy'n ennill cymwysterau medrau allweddol.<br><br>% Yn cyflawni L2 + yn CA4. | Nifer yr absenoldebau o ysgolion oedd heb eu hawdurdodi.<br><br>Nifer y gwahardd-iadau parhaol a'r rhai am chyfnod penodol | • Sicrhau bod y ddarpariaeth cwricwlwm yn diwallu anghenion pobl ifanc ac yn rhoi cyfle i'r holl bobl ifanc ennill achrediad yn y medrau allweddol.<br><br>• Hyrwyddo gweithio aml-asiantaethol ac aml-wasanaeth i sicrhau bod dysgwyr yn goresgyn rhwystrau i addysg.<br><br>• Sicrhau parhad yn natblygiad dwyieithog y disgybl ar draws pob cyfnod allweddol.<br><br>• Darparu cefnogaeth ddwys ar gyfer unigolion y nodwyd eu bod yn debygol o fod yn 'NEET' (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) | Coleg Menai<br><br>Prifysgol Bangor<br><br>Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br><br>BIPBC<br><br>Rhwydwaith Dysgu 14-19<br><br>Potensial<br><br>Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Gyrfa Cymru | X<br><br><br>X<br><br>X<br><br><br>X | X<br><br><br>X<br><br>X<br><br><br>X | X<br><br><br>X<br><br>X<br><br><br>X | X<br><br><br>X<br><br>X<br><br><br>X |

DRAFT

| Rydym am: | | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *3* | **Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc ar Ynys Môn yn iach ac yn teimlo'n ddiogel** | Nifer y bobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl.<br><br>Nifer y plant sy'n cael eu himiwneiddio'n llawn<br><br>Nifer o blant a phobl ifanc sy'n derbyn cefnogaeth o ran ymwybyddiaeth am gamddefnyddio alcohol a sylweddau<br><br>Nifer y bobl ifanc y nodwyd bod ganddynt broblemau pwysau | Nifer y cyfeiriadau mewn perthynas â bwlio mewn ysgolion<br><br>Nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau gofal y tu allan i'r Sir | • Parhau i ddatblygu'r rhaglen lles meddyliol ac emosiynol mewn ysgolion<br>• Gweithredu strategaeth lles sy'n mynd i'r afael ag ysmygu, camddefnyddio sylweddau, gordewdra ymhlith plant, iechyd rhywiol.<br>• Sicrhau bod pob plentyn a phobl ifanc mewn anhawster yn ymwybodol o ble i gael cymorth a chefnogaeth<br>• Lleihau nifer y plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o niwed sylweddol<br>• Gwella mynediad i wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc aydd ag anableddau.<br>• Datblygu darpariaeth i sicrhau bod pob person ifanc yn gallu cael mynediadat ac yn mwynhau chwarae, hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol o'u dewis er mwyn gwella eu lles corfforol ac emosiynol | Rhieni / Gofalwyr<br><br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>Cymunedau 'n Gyntaf<br><br>Heddlu Gogledd Cymru<br><br>BIPBC<br><br>Trydydd Sector | X<br>X<br>X<br>X<br>X<br>X | X<br>X<br>X<br>X<br>X<br>X | X<br>X<br>X<br>X<br>X<br>X | X<br>X<br>X<br>X<br>X<br>X |

DRAFT

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd:<br>*(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cynyddu +<br>(gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau -<br>(gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| ***4*** | **Yr holl blant a phobl ifanc yn cael cyfle i gymryd rhan ac yn cael eu parchu** | Nifer y staff sy'n mynychu Hyfforddiant Cyfranogiad<br><br>Cyfranogiad o fewn grŵpiau bregus | | • Sicrhau bod cyfranogi ac eiriolaeth yn rhan annatod o ddatblygu'r gweithlu<br><br>• Pob partner i adolygu eu gweithdrefnau llywodraethu i sicrhau cyfranogiad plant a phobl ifanc.<br><br>• Sicrhau bod Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn ystyriaeth annatod o waith y Cyngor a'i bartneriaid<br><br>• Gwella ystod ac ansawdd y wybodaeth sy'n addas ar gyfer plant a phobl ifanc | Trydydd Sector<br><br>Draig Ffynci | Cyllid yn ansicr | | | |
| | | | | | Comisiynydd Plant Cymru | Cyllid yn ansicr<br>X | X | X | X |
| | | | | | Cynghorau Cymuned | x | x | x | x |

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **5** | **Pob plentyn a pherson ifanc ar Ynys Môn yn cael eu cefnogi ac yn byw mewn cartref a chymuned diogel** | | Nifer y digwyddiadau Gwrthgym-deithasol gan bobl ifanc yn y gymuned<br><br>Nifer y damweiniau traffig ar y ffyrdd sy'n ymwneud â phobl ifanc.<br><br>Nifer y teuluoedd a phobl ifanc bregus sy'n byw mewn llety dros dro.<br><br>Nifer y mynediadau cyntaf i system Cyfiawnder Ieuenctid | • Parhau i wella cefnogaeth aml-asiantaethol a chefnogaeth ataliol ar gyfer grwpiau bregus<br>• Datblygu ymhellach y gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau cefnogi camddefnyddio sylweddau<br>• Parhau i gefnogi rhaglen Cyffuriau ac Alcohol mewn Ysgolion<br>• Hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd a mentrau diogelwch personol | Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Gwasanaeth Tan ac Achub<br>BIPBC<br>Gwasanaeth cyfiawnder Ieuenctid<br>LSCB<br>Rhieni / gofalwyr | X<br>X<br>X<br>X | X<br>X<br>X<br>X | X<br>X<br>X<br>X | X<br>X<br>X<br>X |





DRAFT

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***6*** | **Sicrhau nad yw plant a phobl ifanc dan anfantais gan dlodi** | Niferoedd sy'n defnyddio e-ffurflenni<br><br>Niferoedd sy'n manteisio ar eu hawl i gael prydau ysgol am ddim (PYD)<br><br>Cynnydd yn nifer y disgyblion PYDd ennill L1 a L2 + ar ddiwedd CA4 | Nifer y bobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ('NEET')<br><br>Nifer y disgyblion sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cymeradwy<br><br>Nifer y teuluoedd sy'n byw mewn llety dros dro | • Hyrwyddo ac annog yn llawn brydau ysgol am ddim | Gyrfa Cymru | X | X | X | X |
| | | | | • Nodi rhaglenni cefnogi teuluoedd tlotach i ennill cymwysterau | BGLL | X | | | |
| | | | | • Datblygu a gweithredu strategaeth gwrth-dlodi ar gyfer plant a phobl ifanc | Rhieni / Gofalwyr | X | | | |
| | | | | • Datblygu Strategaeth Llety Pobl Ifanc | Cymunedau'n Gyntaf | X | X | | |
| | | | | • Gwella mynediad i wybodaeth am wasanaethau ar draws Ynys Môn | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | X | X | X | X |
| | | | | | Trydydd sector | | | | |
| | | | | | BIPBC | | | | |
| | | | | | Cymdeithasau Tai | | | | |

DRAFT

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| *7* | **Mae plant a phobl ifanc yn derbyn profiadau dysgu o safon uchel yn y math cywir o raglenni addysgol** | Gwell perfformiad ar ddiwedd CA2 | Gostyngiad yn y gost fesul pen ar draws y gwasanaeth | Datblygu rhaglen moderneiddio ysgolion sy'n darparu'r amgylchfyd dysgu gorau posibl i'r holl ddisgyblion a'r staff. | | X | X | X | X |
| *8* | **Datblygu cwricwlwm alwedigaeth perthnasol** | Nifer y dysgwyr yn cymryd rhan mewn cwricwlwm sy'n gysylltiedig ag ynni | | Datblygu academi galwedigaethol er mwyn ymateb i anghenion hyfforddiant yr Ynnys Ynni | Coleg Menai<br><br>Horizon | X | | | |
| *9* | **Cynyddu nifer y prentisiaethau** | % o ddysgwyr yn mynd i brentisiaethau | | Codi proffil prentisiaethau fel llwybr at gyflogaeth broffesiynol | Coleg Menai<br><br>CSYM<br><br>Gyrfa Cymru | X | X | X | X |





DRAFT

**Canlyniad Strategol – Mae pobl yn Ynys Môn yn iach ac yn egnïol** – rhan un: gwella iechyd (i gael ei addasu gan y Grŵp Model Môn) *IG (dyddiadau cynllun gweithredu I'w gadarnhau)

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| **1** | **Gwella iechyd a lles: Bod pobl o bob oed sy'n byw ar Ynys Môn yn iachach** | | Nifer y Babanod sy'n cael eu geni dan bwysau<br><br>Nifer y babanod sy'n marw ar enedigaeth | • Cefnogi gostwng tlodi mewn teuluoedd<br>  ◦ Rheoli dyledion / gallu i drin arian<br>  ◦ Sicrhau bod mwy o bobl yn cael y budd-daliadau y mae ganddynt yr hawl iddynt<br>  ◦ Hyrwyddo mynediad i addysg, hyfforddiant a gwaith<br>• Darparu gofal plant hwylus a fforddiadwy<br>• Canolbwyntio gwasanaethau ac ymgysylltu â'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Ngogledd Cymru, h.y., gyfrannol i'r angen<br>• Darparu ymyrraeth systematig byr ar gyfer rhoi'r gorau i ysmygu (menywod a'u partneriaid / teuluoedd)<br>• Cefnogi'r ymgyrch i leihau i ba raddau y mae babanod yn agored i fwg ail-law drwy sicrhau bod cartrefi, ceir, lleoedd chwarae ac ardaloedd cyhoeddus eraill yn ddi-fwg<br>• Cyflwyno dulliau systematig i leihau beichiogrwydd heb ei gynllunio, gan gynnwys beichiogrwydd yn yr arddegau<br>• Gwasanaethau wedi'u targedu ar gyfer pobl ifanc sy'n agored I niwed (e.e., plant sy'n derbyn gofal;rhieni sy'n camddefnyddio cyffuriau / alcohol) | | *IG | *IG | *IG | *IG |

DRAFT

| Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| | | | • Datblygu a gweithredu dull systematig o ran gofal cyn beichiogi gan gynnwys:<br>○ Maeth (gan gynnwys asid ffolig)<br>○ Rheoli pwysau iach a diogel<br>○ Cyngor a chefnogaeth i roi'r gorau i ysmygu<br>○ Ymyrraeth fer mewn perthynas ag alcohol<br>○ Cyngor ynghylch cyffuriau (rhai anghyfreithlon a phresgripsiwn)<br>○ Imiwneiddiad (rwbela, ffliw tymhorol)<br>○ Atal niwed i blant gan bobl ifanc sy'n cael mynediad i nwyddau â chyfyngiadau oedran<br>○ Gweithio gyda busnesau a'r cyhoedd er mwyn sicrhau safon glendid uchel a diogelwch cyflenwi dŵr yfed preifat ermwyn atal a rheoli clefydau hysbysadwy a trosglwyddadwy<br>• Darparu gofal cyn geni o ansawdd uchel i bob menyw<br>○ Maeth drwy gydol y beichiogrwydd<br>○ Rhoi'r gorau i ysmygu (ymyriadau byr ac atgyfeirio)<br>○ Ymyrraeth Byr Alcohol<br>○ Rheoli pwysau iach a diogel<br>○ Pryder / iselder / rheoli straen | | *IG | *IG | *IG | *IG |

DRAFT

| **Rydym am:** | **Sut y byddwn yn mesur cynnydd:** *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | **Camau i sicrhau gweithredu:** | **Prif bartner(iaid)** | **2013 - 2014** | **2014 - 2015** | **2015 - 2016** | **2016 - 2017** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| | % y mamau sy'n bwydo o'r fron pan mae'r babi yn 1, 3 a 6 mis<br><br>Cyfraddau imiwneiddio | Nifer y plant sy'n marw dan 5 oed | • Darparu gwasanaethau ymwelwyr iechyd sy'n cynnig ymyraethau i gefnogi:<br>• Bwydo o'r fron<br>• Bwydo babanod<br>• Maeth i'r teulu cyfan<br>• Imiwneiddio<br>• Lleihau ysmygu ymysg rhieni a theuluoedd cyfan<br>• Atal anafiadau<br>• Lleihad yn y camddefnydd o gyffuriau ac alcohol ymysg rhieni<br>• Adnabod arwyddion iselder ar ôl geni yn fuan a thrin y cyflwr<br>• Cefnogi rhieni / teidiau a neiniau / teuluoedd estynedig i ddylanwadu'n gadarnhaol o ran ysmygu, maeth a chamddefnyddio alcohol<br>• Gweithredu rhaglenni imiwneiddio i gwrdd â thargedau cenedlaethol<br>• Dull partneriaeth systematig a chydlynol o wella cyfraddau bwydo o'r fron ac ennill achrediad UKBFI ar gyfer gwasanaethau dwys a chymunedol<br>• Sefydlu grwpiau cefnogaeth cymheiriaid ar gyfer bwydo o'r fron<br>• Recriwtio adeiladau megis caffis i fod yn rhan o'r cynllun Croesawu Bwydo o'r Fron a rhoddi cyhoeddusrwydd i'r cynllun | **BIBC**<br>CSYM<br>Sector Gwirfoddol | *IG | *IG | *IG | *IG |

DRAFT

| Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| | | Y nifer ar gyfartaledd o ddannedd drwg neu ddannedd â llenwad ymysg plant 5 oed | • Darparu rhaglenni iechyd y geg ar gyfer yr holl blant oed cyn ysgol<br>• Sicrhau bod gwasanaethau deintyddol hwylus ar gael | | *IG | *IG | *IG | *IG |
| | % yr oedolion sy'n cwrdd â'r canllawiau o ran gweithgaredd (5x30)<br><br>% o oedolion sy'n bwyta mwy o ffrwythau a llysiau (5 y diwrnod) | Y nifer o blant ac oedolion sydd dros eu pwysau / yn ordew | • Gweithredu dulliau ysgol gyfan sy'n cefnogi lles corfforol gan gynnwys:<br>• Bwyta'n iach a sgiliau coginio, a<br>• gweithgaredd corfforol<br>• Darparu cyfleoedd i bob plentyn gael profiad o chwarae datblygiadol<br>• Darparu rhaglenni aml-agweddog sy'n seiliedig yn y gymuned a theuluoedd i reoli pwysau a gordewdra<br>• Darparu mynediad I wasanaethau ar gyfer cynyddu lefelau gweithgaredd corfforol<br>• Cefnogi gweithredu Cynllun Gordewdra Gogledd Cymru<br>• Darparu mynediad i wasanaethau ar gyfer rheoli pwysau<br>• Darparu mynediad i wasanaethau ar gyfer cynyddu lefelau gweithgaredd corfforol | | *IG | *IG | *IG | *IG |





DRAFT

| Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Annog mwy o bobl i fod yn fwy heini drwy weithredu Creu Cymru Egnïol<br>• Gweithredu rhaglenni i gefnogi maeth da mewn pobl hŷn ac atal diffyg maeth | | | | | |
| | Cynnydd yn y crynodeb o'r sgôr cydran meddwl SF-36 (mae sgôr uwch yn nodi gwell iechyd meddwl) | | • Gweithredu dulliau ysgol gyfan sy'n cefnogi lles meddyliol gan gynnwys<br>○ Hunan hyder a gwydnwch emosiynol<br>○ Rhaglenni gwrth-fwlio<br>• Datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar deuluoedd er mwyn galluogi adnabyddiaeth ac ymyrraeth gynnar<br>• Cefnogi 'llythrennedd iechyd' ymysg plant, pobl ifanc ac oedolion | | *IG | *IG | *IG | *IG |

DRAFT

| Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| | | Cyfraddau o ran pobl ifanc o dan 18 oed sy'n cael eu cludo i'r ysbyty oherwydd anafiadau | • Nodi meysydd risg uchel a sicrhau creu parthau traffig 20mya<br>• Darparu gwasanaethau diogelu plant effeithiol a pharhau i sefydlu mesurau diogelu plant yn gadarn yn yr holl wasanaethau<br>• Gweithredu gwasanaethau cydlynol aml-asiantaethol gwell ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc sy'n agored I niwed, gan gynnwys:<br>  • Plant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol<br>  • Plant sy'n derbyn gofal / sy'n gadael gofal<br>  • Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant<br>  • Troseddwyr ifanc<br>  • Gofalwyr ifanc<br>  • Plant a phobl ifanc sydd ag anabledd<br>• Darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar leihau'r niwed o ymddygiadau y mae risg ynghlwm â nhw:<br>  • Camddefnydd o alcohol ac yfed yn drwm mewn pyliau<br>  • Camddefnyddio sylweddau | | *IG | *IG | *IG | *IG |
| | | | • Cynnig Ymyraethau Alcohol Byr i rieni / neiniau a theidiau / aelodau estynedig o'r teulu i gefnogi ymddygiad sy'n gosod esiampl | | *IG | *IG | *IG | *IG |





DRAFT

| Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| | | Beichiogrwydd ymysg merched ifanc yn eu harddegau ac o dan 18 oed | • Rhoi addysg ynghylch rhyw a pherthnasau ym mhob ysgol<br>• Sicrhau mynediad cyfartal i wasanaethau iechyd rhywiol ac atal cenhedlu gan gynnwys cynlluniau cardiau C a gwasanaethau yn seiliedig yn yr ysgolion | | *IG | *IG | *IG | *IG |
| | | Cyfraddau marwolaethau (Cyflyrau Cronig)<br><br>Nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i ysmygu<br><br>Cyfradd ysmygu ymysg oedolion | • Gweithredu Cynllun Gweithredu Tybaco i Gymru<br>• Darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar leihau'r niwed i plant a phobl ifanc o ymddygiadau y mae risg ynghlwm â nhw:<br>○ Ysmygu<br>○ Camddefnyddio alcohol ac yfed yn drwm mewn pyliau<br>○ Camddefnyddio sylweddau<br>• Cynnig ymyraethau byr mewn gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd o ran alcohol<br>• Darparu hyfforddiant Ymyrraeth Fer o ran Tybaco ar gyfer staff GIG rheng flaen a staff yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys staff sy'n gweithio gyda phobl hŷn<br>• Darparu mynediad i wasanaethau ar gyfer rhoi'r gorau i ysmygu<br>• Cynnig cefnogaeth rhoi'r gorau i ysmygu i bawb sy'n cael eu cyfeirio i'r ysbyty a'u rhestru ar gyfer llawdriniaeth ddewisol | | *IG<br><br>*IG | *IG<br><br>*IG | *IG<br><br>*IG | *IG<br><br>*IG |

| Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| | | Nifer marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol | • Gweithredu rhaglenni asesu risg fasgwlaidd sy'n seiliedig ar dystiolaeth gofal sylfaenol<br>• Gweithredu rhaglenni i gefnogi rhoi'r gorau i ysmygu, gan gynnwys pobl hŷn | | | | | |
| | | Nifer marwolaethau (Marwolaethau tymhorol) | • Darparu rhaglenni Imiwneiddio Rhag y Ffliw i sicrhau bod cymaint o bobl ag sy'n bosibl yn cael eu brechu ar gyfer ffliw tymhorol pneumococcal | | *IG | *IG | *IG | *IG |
| | | Nifer y bobl sy'n cael eu cludo i'r ysbyty oherwydd torri clun | • Dynodi pobl hŷn sydd mewn perygl o syrthio<br>• Darparu gwasanaethau wedi eu teilwrio drwy'r Cynllun Cyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer a rhaglenni eraill i hyrwyddo gweithgaredd corfforol mewn pobl hyn sy'n seiliedig ar gryfhau iechyd yr esgyrn a'r cyhyrau a gwella eu hosgo<br>• Darparu tai wedi eu teilwrio i gwrdd ag anghenion penodol pobl hŷn a sicrhau bod annibyniaeth yn cael ei gynnal | | *IG | *IG | *IG | *IG |

DRAFT

| Rydym am: | | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | **Rheoli cyflyrau cronig yn effeithiol** | | Cyfraddau Marwolaethau (dan 75) | Gweithredu systemau ar gyfer canfod ac ymyrryd yn fuan o ran Cyflyrau Cronig | | *IG | *IG | *IG | *IG |
| | | | | • Darparu rhaglenni sgrinio cenedlaethol a sicrhau bod cymaint o bobl ag sy'n bosibl yn manteisio arnynt (Y Frest, Serfigol, Bowel ac AAA)<br>• Gweithredu rhaglenni i gefnogi maeth da mewn pobl hyn ac atal diffyg maeth<br>• Gweithredu llwybrau rheolaeth glinigol ar gyfer gordewdra, pwysau gwaed uchel, clefyd siwgr a cholesterol uchel<br>• Datblygu rhaglenni wedi eu targedu i fynd i'r afael ag effaith diweithdra ar iechyd<br>• Cefnogi cynlluniau dychwelyd i'r gwaith i bobl gyda chyflyrau iechyd cronig<br>• Prif lifo dealltwriaeth lles meddyliol drwy gefnogi cymunedau i wella lles meddyliol, a hyrwyddo dulliau sefydliadol o ran lles meddyliol yn y gweithle<br>• Prif lifo dealltwriaeth lles meddyliol drwy gefnogi datblygiad rhwydweithiau cymdeithasol a chymunedol sy'n sicrhau sefydlogrwydd ariannol a diogelwch cymunedol, a hyrwyddo dysgu gydol oes | | *IG<br>*IG | *IG<br>*IG | *IG<br>*IG | *IG<br>*IG |

| Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| | | | • Cefnogi datblygiad rhwydweithiau cymdeithasol a chymuned sy'n cefnogi sefydlogrwydd ariannol a diogelwch cymunedol, a hyrwyddo dysgu gydol oes<br>• Darparu cefnogaeth briodol I ofalwyr | | | | | |

DRAFT

## Canlyniad Strategol – Mae Ynys Môn yn ynys lle mae'r iaith Gymraeg, y diwylliant a’r  dreftadaeth yn ffynnu

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)*<br>Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | <br>Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *1* | **Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg trwy ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Iaith Gymraeg** | Gwell cyfeiriad strategol i faterion yr Iaith Canfod y gwaelodlin cyfredol o ran y nifer o siaradwyr Cymraeg ar yr Ynys | Gostyngiad disgwyliedig yn nifer y siaradwyr Cymraeg | • Sefydlu Fforwm Iaith ar draws y sir<br>• Dehongli goblygiadau canlyniadau Swyddfa Ystadegau Gwladol 2011 ar gyfer yr Ynys<br>• Cynnal prosiect Asesiad effaith Iaith \r y rhaglen Ynys Ynni a’r prosiectau perthnasol sy’n rhan ohonno<br>• Datblygu polisïau cynllunio defnydd tir yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd sy'n cefnogi datblygiad newydd priodol sy'n cynnal neu'n gwella integredd yr Iaith Gymraeg<br>• Cynnal Asesiad Effaith Iaith ar adegau allweddol yn ystod y broses o baratoi’r Cynlun ar y Cyd er mwyn nodi effeithiau posibl ar yr Iaith Gymraeg a all ddeillio o ddatblygiadau. | Cyngor Sir / Menter Iaith Môn<br>Cyngor Sir / Menter Iaith Môn<br><br>Fforwm Iaith<br>Cyngor Sir<br>Polisi cynllunio ar y cyd/Fforwm Iaith | x<br>x | x<br>x | x<br>x | x |





DRAFT

| Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: (Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)<br>Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: (Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)<br>Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynnydd yn y nifer o blant sydd wedi ei dwyn i fyny mewn amgylchedd ddwyieithog<br><br>Cynnydd yn y nifer o blant 7 oed sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg<br><br>Cynyddu sgiliau dwyieithog y disgyblion sy'n newydd i'r Sir | | • Darparu'r rhaglen TWF i annog rhieni plant ifanc i'w dwyn i fyny mewn amgylchedd ddwyieithog<br>• Sicrhau bod pob disgybl yn cael ei asesu drwy gyfrwng y Gymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd CA1 a CA2<br>• Annog Cynghorau Ysgol i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg.<br>• Annog Llywodraethwyr Ysgolion i adnabod aelod i fod yn gyfrifol am hyrwyddo'r defnydd o'r Iaith Gymraeg yn yr ysgol.<br>• Sicrhau parhad canolfannau ar gyfer disgyblion oedran ysgol gynradd a system fonitro i fesur cynnydd yn yr ysgolion cynradd<br>• Sicrhau parhad yn y ddarpariaeth bresennol ar gyfer disgyblion oedran uwchradd a cheisio cynyddu'r ddarpariaeth, os oes arian ar gael, i gynnwys hwyrddyfodiaid ym mlynyddoedd cynnar yr ysgol uwchradd | TWF<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn | X<br>X<br>X<br>X<br>X<br>x | X<br>X<br>X<br>X<br>X<br>x | X<br>X<br>X<br>X<br>X<br>x | X<br>X<br>X<br>X<br>X<br>x |

| Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynyddu nifer y ddisgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg (iaith gyntaf) | | • Mae pob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel 3 + ar ddiwedd CA2 i barhau gyda'r Gymraeg fel iaith gyntaf ym Mlwyddyn 7 ac i dderbyn eu hasesiad Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA3 | Cyngor Sir Ynys Môn | x | x | x | x |
| | Cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg<br><br>Cynnydd yn nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg | | • Cynnydd yn y nifer o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg | Cyngor Sir Ynys Môn / Darparwyr addysg bellach | X | X | X | X |
| | | | • Cynnydd yn y nifer o ddisgyblion 16-19 oed yn astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg | | X | X | X | X |
| | | | • Cyflwyno'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ar yr Ynys ar y cyd â darparwyr annibynnol | Canolfan Cymraeg I Oedolion Gogledd Cymru | X | X | X | X |
| | | | • Darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol a chyd-destyn chwaraeon. | Cyngor Sir Ynys Môn / Menter Iaith Môn | X | X | X | X |
| | | | • Hyrwyddo Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg ymysg staff mewn gwaith ieuenctid a chanolfannau hamdden | | x | x | x | x |

DRAFT

| Rydym am: | | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| | | Cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau<br><br>Cynnydd yn y gweithgareddau yr Iaith Gymraeg<br><br>Nifer y sesiynau grŵp darllen a drefnwyd<br><br>Nifer y cyfranogwyr | | • Darparu cyfleoedd ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol i ymarfer eu Cymraeg y tu allan i amgylchedd yr ystafell ddosbarth<br><br>• Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau lleol i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg trwy weithgareddau hwyluso ee grwpiau darllen i ddysgwyr Cymraeg<br><br>• 'Cyfleoedd i gynnal prosiectau Cyffro Celf ' i hyrwyddo dysgu'r Iaith Gymraeg trwy gyfrwng gwerthfawrogi celf yn seiliedig ar gasgliadau celf hanesyddol Oriel Ynys Môn | Grwpiau cymunedol amrywiol<br><br>Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Bangor | x<br><br>x<br><br>x | X<br><br><br><br>x | X<br><br><br><br>x | X<br><br><br><br>x |
| ***2*** | **Gwarchod, cyflwyno a hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol a ffisegol unigryw Ynys Môn** | Nifer yr ymweliadau corfforol a rhithwir<br><br>Cynnydd mewn lefelau boddhad | | • Hyrwyddo Oriel Ynys Môn a safleoedd Treftadaeth fel atyniadau allweddol<br><br>• Cynnal ymgynghoriad ar lefel boddhad defnyddwyr o ran y gwasanaethau a ddarperir gan y safleoedd Amgueddfeydd/Treftadaeth | Cyngor Sir Ynys Môn | X<br><br>x | X<br><br>x | X<br><br>x | X<br><br>x |

DRAFT

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | ***Darparu drws agored i wybodaeth, darllen, llythrennedd, dysgu a diwylliant*** | Nifer y cyfranogwyr / sesiynau a drefnir | | • Darparu prosiect 'StwnchO', Clwb Celfyddydau ar gyfer plant | Cyngor Celfyddydau Cymru | X | X | X | X |
| | | Nifer y cyfranogwyr / sesiynau a drefnwyd | | • Darparu prosiect 'Criw Celf' ar gyfer unigolion artistig talentog (Partneriaeth Gogledd Cymru) | Cyngor Celfyddydau Cymru | X | X | X | X |
| | | Nifer y cyfranogwyr / sesiynau a drefnwyd | | • Datblygu ymhellach yr ystod o weithgareddau darllen a llythrennedd ar gyfer plant a phobl ifanc drwy lyfrgell ac ymweliadau awdur | CyMal | X | X | X | X |
| | | Data Defnydd: materion / ymwelwyr / gweithgaredd-au amrywiol / defnydd o gyfrifiaduron, ac ati | | • Darparu Gwasanaeth Llyfrgell effeithiol i bobl Ynys Môn – | CyMAL/ TalNet | X | X | X | X |
| | | | | • Bydd Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn yn ymestyn ei ddarpariaeth gwasanaeth llyfrgell i'r rhai nad ydynt yn gallu defnyddio'r gwasanaeth oherwydd eu bod yn gaeth i'r tŷ | Cyngor Sir Ynys Môn | X | X | X | X |
| | | | | • 'Prosiect Cyrraedd y Nod ', mewn partneriaeth ag Engage Cymru. Prosiect yn anelu at bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. | Engage Cymru | X | X | X | X |

DRAFT

| Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynnydd mewn defnydd<br>Nifer y cyfranogwyr / sesiynau a drefnir<br><br>Nifer y cyfranogwyr / sesiynau a drefnwyd<br><br>Nifer y cyfranogwyr / sesiynau a drefnwyd | | • Unigolion yn cael eu dewis a'u paru gydag 'artist' priodol ar gyfer pecyn pwrpasol dwys | | x | x | x | x |
| | | | • Parhau i weithio mewn partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Dechrau Da ac Ymwelwyr Iechyd lleol wrth gyflwyno'r fenter Dechrau Da | Ymddiried-olaeth Dechrau Da | X | X | X | X |
| | | | • Rhedeg 'Arts B' – Menter y Celfyddydau Mewn Iechyd [celfyddydau ar bresgripsiwn - atgyfeiriadau meddygon teulu | Awdurdod Iechyd | X | X | X | X |
| | | | • Gweithio mewn partneriaeth / ar y cyd | Cyngor Celfyddydau Cymru | X | X | X | X |
| | | | • Ymgysylltu'n gadarnhaol ag awdurdodau llyfrgell Gogledd Cymru i nodi cyfleoedd ar gyfer modelau darparu gwasanaeth mwy effeithlon a chost-effeithiol | CyMAL<br>6 llyfrgell<br>Awdurdod Gogledd Cymru | x | x | x | x |

DRAFT

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| *4* | **Casglu a chadw cofnodion o arwyddocâd hanesyddol** | Nifer y cyfranogwyr / sesiynau a drefnwyd | | • Cynnal 'Rhaglen Gwirfoddoli' yn Archifdy Ynys Môn ac mewn Amgueddfeydd | Cyngor Sir Ynys Môn | x | x | x | X |
| | | | | • Cynnal ymgynghoriad ar y lefel boddhad defnyddwyr â'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Archifdy. [Cynnal arolwg 'PSQG' blynyddol 'TNA'.] Canlyniadau'r arolwg i lywio gwelliannau gwasanaeth yn y dyfodol. | 'TNA' | x | x | x | x |
| *5* | **Darparu cyfleoedd hygyrch o ran dysgu gydol oes** | Nifer y cyfranogwyr / sesiynau a drefnwyd | | • Trefnu a darparu ystod o gyfleoedd addysgol gymunedol sy'n berthnasol ar gyfer oedolion o fewn cyd-destun partneriaeth Addysg Gymunedol Môn | Partneriaeth Addysg Gymunedol Ynys Môn | x | x | x | x |

**Canlyniad Strategol - Mae pobl yn Ynys Môn yn mwynhau amgylchedd cynaliadwy, cyfoethog ac amrywiol**
***IG (dyddiadau cynllun gweithredu I'w gadarnhau)**

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* — Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* — Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *1* | **Mynd i'r afael ag achosion a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd** | Cynyddu'r defnydd o fesurau ynni adnewyddad-wy/effeithlon-rwydd ynni | Lleihau'r ynni yn Adeiladau'r Cyngor | • Sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol gyda'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008<br>• Lleihau Allyriadau Carbon a gorfodi deddfwriaeth ar gyfer perfformiad ynni adeiladau<br>• Codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd - ymwybyddiaeth a dyletswyddau sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010<br>• Sicrhau bod cynnyrch gyda labeli ynni a monitro cymwysterau amgylcheddol cynhyrchion a gwasanaethau<br>• Defnyddio polisiau defnydd tir cynllunio CDLIC i sicrhau bod datblygiadau newydd yn lliniaru ac yn lleihau effeithiau newid hinsawdd, e.e., drwy wneud y gorau o ddatblygiadau adnewyddadwy a charbon isel, yn ogystal ag addasu i effeithiau rhagweledig newid yr hinsawdd, e.e. drwy osgoi datblygiadau amhriodol mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. | Cyngor Sir Ynys Môn | *IG<br>*IG<br>*IG<br>*IG<br>*IG | *IG<br>*IG<br>*IG<br>*IG<br>*IG | *IG<br>*IG<br>*IG<br>*IG<br>*IG | *IG<br>*IG<br>*IG<br>*IG<br>*IG |

DRAFT

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *2* | **Gwarchod a gwella bywyd gwyllt ac ecosystemau** | ***Wybodaeth orau sydd ar gael ee gan sefydliadau perthnasol (Cyngor Cefn Gwlad ac ati) ac unrhyw adnoddau sydd yn caniatau monitro*** | ***Wybodaeth orau sydd ar gael ee gan sefydliadau perthnasol (Cyngor Cefn Gwlad ac ati) ac unrhyw adnoddau sydd yn caniatau monitro*** | • Arwain Fforwm Bywyd Gwyllt yn y system newydd - (System Adrodd ar weithredu o ran Bioamrywiaeth) yn seiliedig ar broses Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLI)<br>• ***Aelodau perthnasol o'r Fforwm Bywyd Gwyllt i ystyried ac adnabod 2-3 (o leiaf) o brosiectau partneraethol lleol bywyd gwyllt wedi'u seilio ar fapiau sy'n blaenoraethu cynefin ac wedi'u cynhyrchu gan y Grwpiau Cyfundrefn Eco Cymru-gyfan (dan y Bartneriaeth Bioamrywiaeth). Prosiectau i fod yn realistig, gydag ymrwymiad cychwynnol iddynt ac yn barod gogyfer cyfleuon ariannu (megis Cronfa Gwrthsefyll y Gyfundrefn Eco, debygol o fod ar gael yn Ebrill 2013) Noder: rôl y Cyngor yw cadeirio'r broses o greu'r prosiect/hyrwyddo'r cais, edrych ar ei rôl fel arweinydd y CGBLI sy'n golygu peth mewnbwn o ran amser staff (ac efallai rhagor os yw tir y Cyngor mewn rhai ardaloedd prosiect)***<br>• Defnyddio polisiau cynllunio defnydd tir y CDLIC i ddiogelu, cynnal, gwella a gwarchod yr amrywiaeth a bywiogrwydd cynefinoedd a rhywogaethau er mwyn creu rhwydwaith ecolegol ymarferol ar yr ynys | Cyngor Sir Ynys Môn | *IG | *IG | *IG | *IG |
| *3* | **Hyrwyddo, diogelu a gwella amgylchedd ansawdd uchel naturiol** | Gwella'r % o Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n | | • Gwella mynediad i'n hamgylchedd lle bo'n briodol<br>• Diogelu'r dreftadaeth wledig drwy wella'r amgylchedd | Cyngor Sir Ynys Môn | *IG | *IG | *IG | *IG |

DRAFT

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **ac adeiledig yr ynys** | hawdd i'w defnyddio gan y cyhoedd | | ffisegol, gwarchod ecoleg a darparu cefnogaeth ar gyfer prosesau traddodiadol<br>• Sicrhau glendid o safon uchel strydoedd yr Ynys a bod cwsmeriaid yn fodlon â'r gwasanaeth glanhau strydoedd<br>• Monitro a gorfodi safonau ar gyfer gollyngiadau i'r aer, pridd a dŵr<br>• Defnyddio polisïau cynllunio defnydd tir CDLIC i gadw a gwella amrywiaeth a hynodrwydd trefi, pentrefi a thirweddau'r Ynys, gan gynnwys cadwraeth a rheoli adeiladau, safleoedd a mannau o ddiddordeb pensaernïol, pwysigrwydd hanesyddol neu archeolegol a'u lleoliad | | | | | |
| *4* | **Defnyddio adnoddau yn gynaliadwy** | | | • Gweithio ar lefel y Gymuned i leihau cynhyrchu gwastraff a chynyddu ailgylchu<br>• Gweithredu Prosiect trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru<br>• Cynyddu cyfradd ailgylchu gwastraff masnachol<br>• Defnyddio polisiau cynllunio defnydd tir y CDLIC i sicrhau defnydd effeithiol o dir ac adeiladau, ac yn ymgorffori egwyddorion adeiladu cynaliadwy er mwyn cyfrannu at effeithlonrwydd ynni, defnyddio | Cyngor Sir Ynys Môn | *IG | *IG | *IG | *IG |

DRAFT

| Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| | | | technolegau carbon adnewyddol neu isel, lleihau gwastraff / cynyddu ailgylchu, lleihau defnydd dŵr a gwastraff a'r defnydd o ddeunyddiau o ffynonellau cynaliadwy | | | | | |

DRAFT

## Canlyniad Strategol – Mae pobl yn Ynys Môn yn rhan o gymunedau cryf, llewyrchus, cynhwysol ac amrywiol

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Hyrwyddo Ymgysylltu Cymunedol** | Targedu'n well y defnydd o adnoddau | | • Datblygu Fframwaith Ymgysylltu aml-asiantaethol er mwyn defnyddio adnoddau'n effaithiol ac osgoi dyblygu | Partneriaid y Bwrdd Gwasanaeth Lleol | X | X | X | X |
| | | Cynyddu cyfranogiad cymunedol mewn cynllunio gwasanaethau | | • Drwy gyfrwng y Siarter, parhau i ddatblygu a chryfhau'r berthynas gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned | Cyngor Sir Ynys Môn /Cyngorau Tref a Chymuned | X | X | X | X |
| | | Gwella cyfathrebu a deialog | | • Parhau i weithredu'Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog gyda sefydliadau sy'n bartneriaid | Cyngor Sir Ynys Môn a sefydliadau partneriaethol | X | X | X | x |
| | | Gwella cyfathrebu a deialog | | • Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned Cymunedau'n Gyntaf | Cymunedau'n Gyntaf | X | X | X | |
| | | Cynyddu gyfranogiad cymunedol | | • Hyrwyddo gwirfoddoli yn y gymuned | Medrwn Môn | x | x | x | |





DRAFT

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | **Ailgynllunio Gwasanaethau / Menter Gymunedol** | Targedu'n well y defnydd o adnoddau / cynnydd mewn cyfranogiad cymunedol o ran cynllunio gwasanaethau | | Datblygu ystod o opsiynau ar sail aml-asiantaeth i gefnogi trawsnewid y gwasanaeth | Partneriaid BGLL | x | x | x | x |
| 3 | **Adnabod a gwneud y gorau o'r cyfleoedd i fynd i'r afael â'r effaith Diwygio Budd-daliadau Lles** | Gwell hyfywedd ariannol i gartrefi ac unigolion<br>Cynyddu incwm ar gyfer Tenantiaid a Landlordiaid | Anghydraddol-debau incwm | • Hyrwyddo Cynhwysiant Ariannol i hwyluso mynediad i gynhyrchion ariannol a gwasanaethau fforddiadwy<br>• Mynd i'r afael â thlodi | Cymunedau'n Gyntaf<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>CAB<br>Cymdeithasau Tai<br>Adran gwaith a Phensiynau | X<br>x | X<br>x | X<br>x | X<br>x |

DRAFT

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *4* | **Darparu mynediad at chwarae, hamdden a gweithgareddau chwaraeon** | Nifer y cyfranogwyr mewn gweithgareddau awyr agored (gwaelodlin = 2,000)<br><br>Nifer y cyfranogwyr sy'n mynychu Cynllun Camu Allan (gwaelodlin = 2,300)<br><br>Nifer y grwpiau cerdded yn y gymuned (gwaelodlin = 35) | | • Mewn cydweithrediad gyda'r sector breifat ac Addysgol / safleoedd Antur dysgu - darparu rhaglenni gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc ac oedolion mewn amrywiaeth o weithgareddau<br><br>• Hyrwyddo cerdded yn yr amgylchedd naturiol ar gyfer oedolion a hyrwyddo teithiau cerdded ar gyfer grwpiau bregus / dan anfantais (ee 'NEET', oedolion ag anawsterau dysgu, rhieni sengl, atgyfeiriadau Meddygon Teulu)<br><br>• Darparu cyfleoedd ar gyfer teithio: Cynlluniau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau / Cynlluniau Teithio Cynaliadwy / Cynlluniau Diogelwch ar y Ffyrdd Peirianneg Traffig / Cynnal a Chadw Isadeiledd<br><br>• Cwblhau asesiad dichonolrwydd chwarae a chynllun gweithredu'n flynyddol | Canolfan Conway Canolfan Rhosneigr<br><br>Partneriaeth Awyr Agored Gogledd Cymru/ Canolfan 'Indefatigable'/<br><br>Canolfan Byron/Cynghor-au tref a chymuned/ Can-olfannau Heneiddio'n Dda/ Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br><br>Cyngor Sir ynys Môn/ | X<br><br>X<br><br>X | | | |

| Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer o deithiau cerdded i grwpiau dan anfantais (gwaelodlin = 7)<br><br>Canolfannau Hamdden gyda chyfleusterau parcio beic o ansawdd da<br><br>Canran y plant cymwys sy'n ymgymryd hyfforddiant beicio | | Diogelwch ar y Ffyrdd - Hyfforddiant Beicio / Prosiect 'BIKE IT' Sustrans | Llywod-raeth Cymru/ Sustrans | X | | | |

DRAFT

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| **5** | **Hyrwyddo mynediad trwy gwrdd ag anghenion cludiant** | Nifer dros 60 sy'n cymryd tocyn bws consesiynol rhad ac am ddim | | • Darparu rhwydwaith Cludiant Cyhoeddus hygyrch a diogel o fewn y cyllidebau sydd ar gael<br>• Cludiant Cymunedol i gael eu cefnogi fel modd o ddarparu cludiant i bobl na allant ddefnyddio gwasanaethau bws confensiynol a / neu lle nad oes darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn bodoli | Cyngor Sir Ynys Môn/Llywodraeth Cymru/Cwmniau bysiau<br>Cyngor Sir Ynys Môn/Medrwn Môn/Y Groes Goch/'Age UK'/Cynlluniau ceir cymdeithasol (amrywiol)/ Llywodraeth Cymru | X<br>X | X<br>X | X<br>X | X<br>X |
| **6** | **Pobl yn Ynys Môn i fyw mewn tai diogel a phriodol** | Cynnal safonau SATC<br>Cynyddu cyflenwad ac ansawdd tai fforddiadwy<br>Cynyddu achrediad landlordiaid sector preifat | Lleihau nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd<br>Lleihau'r nifer o eiddo gwag<br>Gostwng yr amser a gymerir i weinyddu Grantiau | • Cynyddu'r ystod o ddewisiadau tai sydd ar gael i aelwydydd o ran fforddiadwyedd daliadaeth ac addasrwydd<br>• Mynd i'r afael â digartrefedd gyda ffocws cryf ar fentrau ataliol<br>• Dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, gan gynnwys nifer o unedau fforddiadwy yn unol â Strategaeth Cartrefi Gwag gan ddefnyddio offer megis cyngor, gwybodaeth a gorfodi lle bo angen | Cyngor Sir Ynys Môn<br>Llywodraeth Cymru<br>Fforwm Digartrefedd<br>Fforwm Tai Gwledig | X<br>X<br>x | X<br>X<br>x | X<br>X<br>x | X<br>X<br>x |





DRAFT

<table>
<tr><th colspan="2" rowspan="2">Rydym am:</th><th colspan="2">Sut y byddwn yn mesur cynnydd:<br>(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)</th><th rowspan="2">Camau i sicrhau gweithredu:</th><th rowspan="2">Prif bartner(iaid)</th><th rowspan="2">2013 - 2014</th><th rowspan="2">2014 - 2015</th><th rowspan="2">2015 - 2016</th><th rowspan="2">2016 - 2017</th></tr>
<tr><th>Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)</th><th>Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>Gynyddu gwaith i atal digartrefedd</td><td>Cyfleusterau i'r Anabl</td><td>• Parhau i wella safonau ansawdd tai ar draws pob daliadaeth<br>• Lleihau effaith tlodi tanwydd ar aelwydydd, gan dargedu aelwydydd ar incwm isel a chartrefi anodd eu trin (heb nwy)</td><td>Fforwm tai fforddiadwy<br>‘RSL’<br>Gwerthwyr tai<br>Mudiadau’r sector preifat</td><td>X<br>x</td><td>X<br>x</td><td>X<br>x</td><td>X<br>x</td></tr>
<tr><td>7</td><td>Hyrwyddo Cyfle Cyfartal</td><td>Gwella ymwybyddiaeth</td><td></td><td>Bwrdd Gwasanaethau Lleol i fabwysiadu Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</td><td>Partneriaid y Bwrdd Gwasanaeth Lleol</td><td>x</td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>8</td><td>Atal pobl rhag dioddef troseddau masnachol</td><td></td><td></td><td>Bydd Safonau Masnach yn gweithio gydag ystod o bartneriaid a fydd yn cymryd rhan mewn cyrchoedd aml-asiantaethol, er enghraifft, yr Heddlu, Cyllid a Thollau EM, yr Adran Drafnidiaeth</td><td>Cyngor Sir Ynys Môn</td><td>x</td><td>x</td><td>x</td><td>x</td></tr>
</table>

DRAFT

## Canlyniad Strategol - Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | **Camau i sicrhau gweithredu:** *Bydd yr ymyrraethau manwl ar gyfer holl feysydd blaenoriaeth allweddol Diogelwch Cymunedol yn cael eu cynnwys yn y cynllun partneriaeth statudol – rhan B – Cynlluniau Gweithredu a chynllun gweithredu'r Tim Atal Camddefnyddio Sylweddau.* | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Lleihau pob trosedd** | | Gostyngiad o lefelau 2011-2012 | Gweler Isod | Heddlu Gogledd Cymru<br><br>CSYM | x | | | |
| 2 | **Lleihau trosedd yn seiliedig ar ddioddefwyr** | | Gostyngiad o lefelau 2011-2012 | • Mynd i'r afael â Lladrad (o ran eiddo personol ac yn erbyn eiddo busnes), Byrgleriaeth yn y Cartref, gan gynnwys byrgleriaeth ddwys, Troseddau Cerbydau, dwyn cerbydau ac o gerbydau modur<br>• Lleihau Trais yn erbyn y person<br>• Lleihau nifer yr achosion mwyaf difrifol o drais sy'n cynnwys anafu neu gyflawni gweithred sy'n peryglu bywyd, a thrais llai difrifol sydd yn cynnwys ymosodiad heb anaf neu droseddau ar sail hil.<br>• Lleihau trais sy'n gysylltiedig ag alcohol (gyda chymorth partneriaid allweddol ee Safonau Masnach, Pubwatch ac ati). i fynd i'r afael â holl drais sy'n gysylltiedig ag alcohol yn nhrefn blaenoriaeth h.y., digwyddiadau sy'n ymwneud â gwir niwed corfforol, achosion achosi ofn, braw neu drallod i'r cyhoedd, anafu neu weithred i beryglu bywyd.<br>• Lleihau trais yn y cartref<br>• (Paratoi cynllun busnes gweithredol a deinamig a chynllun gweithredu cyflawni ymyriadau ar gyfer y Fforwm Trais yn y Cartref Ynys Môn i fynd i'r afael â meysydd thematig o Drais yn y Cartref yn unol ag isafbwynt Safonau Llywodraeth Cymru ar gyfer Trais yn y Cartref) | Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Heddlu Gogledd Cymru<br><br>CSYM<br><br>CSYM<br><br>Heddlu Gogledd Cymru | X<br><br>X<br><br>X<br><br>X<br><br>x | | | |

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | Camau i sicrhau gweithredu: *Bydd yr ymyrraethau manwl ar gyfer holl feysydd blaenoriaeth allweddol Diogelwch Cymunedol yn cael eu cynnwys yn y cynllun partneriaeth statudol – rhan B – Cynlluniau Gweithredu a chynllun gweithredu'r Tim Atal Camddefnyddio Sylweddau.* | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| **3** | **Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** | | Gostyngiad o lefelau 2011-2012 | • Cynnal cefnogaeth i denantiaid preifat a thenantiaid y cyngor sy'n dioddef o effeithiau ymddygiad gwrthgymdeithasol fel y gellir gweithredu'n effeithiol ac ymyriadau yn cael eu gweithredu i wella ansawdd bywyd ac effeithiau amgylcheddol, niwsans a phersonol ymddygiad anghymdeithasol | Heddlu Gogledd Cymru<br><br>CSYM | x | | | |
| ***4*** | **Lleihau Troseddu ac Atal Ail-droseddu** | | Gostyngiad o lefelau 2011-2012 | • Bydd y ffocws ar (1) cynllun 'PPO', (2) Datblygu sgiliau troseddwyr a chyfleoedd cyflogaeth, (3) Ymyriadau Cyfiawnder Ieuenctid (4) Ymchwilio Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM) - os yw adnoddau'n caniatáu. | Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Prawf Cymru | x | | | |

DRAFT

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | Camau i sicrhau gweithredu: *Bydd yr ymyrraethau manwl ar gyfer holl feysydd blaenoriaeth allweddol Diogelwch Cymunedol yn cael eu cynnwys yn y cynllun partneriaeth statudol – rhan B – Cynlluniau Gweithredu a chynllun gweithredu'r Tim Atal Camddefnyddio Sylweddau.* | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| 5 | ***Lleihau Camddefnyddio Sylweddau*** | | Gostyngiad o lefelau 2011-2012 | Bydd y ffocws ar (1) Cyflenwi Cyffuriau Dosbarth A a (2) Mesurau trin ac atal camddefnyddio sylweddau - gweler cynllun gweithredu'r Tim Atal Camddefnyddio Sylweddau am fanylion pellach | CSYM<br>Heddlu Gogledd Cymru | x | | | |

DRAFT

**Canlyniad Strategol - Mae pobl yn Ynys Môn yn rhan o economi cynaliadwy sy'n ffynnu**

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *1* | ***Gwneud defnydd llawn o gyfleoedd cyllido i adfywio'r Ynys*** | Angen adnabod prosiectau I gynyddu:<br><br>Gweithgarwch economaidd<br><br>Twf cyflogaeth<br><br>Datblygu Sgiliau / Datblygu'r gweithlu | Angen adnabod prosiectau i leihau:<br><br>Anweithgarwch economaidd<br><br>Diweithdra ymhlith pobl ifanc<br><br>Diweithdra tymor hir;<br><br>Hawlwyr JSA; | • Manteisio ar ymyriadau strategol sy'n gysylltiedig a statws Parth Menter<br>• Manteisio ar botensial adfywio a chyfleoedd I fuddsoddi<br>• Gwneud y mwyaf o effaith yr EU a chyfleoedd ariannu domestig yn yr ynys<br>• Cydweithio i ddylanwadu ar raglenni ariannu ar ôl 2013;<br>• Cydweithio i ddylanwadu ar bolisi domestig a datblygiadau ariannu i'r dyfodol | Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru;<br><br>CLLC<br><br>Llywodraeth Cymru | X<br>X<br>X<br>X<br>x | X<br>X<br>X<br>X<br>x | X<br>X<br>X<br>X<br>x | X<br>X<br>X<br>X<br>x |
| **2** | **Datblygu sgiliau gallu i gwrdd ag anghenion y farchnad lafur** | Angen adnabod prosiectau i gynyddu:<br><br>Gweithgarwch economaidd<br><br>Datblygu'r gweithlu | I'w gadarnhau<br>Angen adnabod prosiectau i leihau:<br><br>Anweithgarwch economaidd<br><br>Diweithdra ymhlith pobl | • Cyfrannu at fentrau sy'n datblygu sgiliau, cyflogaeth a brwydro yn erbyn anweithgarwch economaidd | Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Canolfan Gwaith | X | X | X | X |





DRAFT

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ifanc<br><br>Diweithdra tymor hir<br><br>Hawlwyr JSA | | | X | X | X | X |
| *3* | **Parhau i ddatblygu a hyrwyddo cyfleoedd twristiaeth** | I'w gadarnhau Angenl adnabod prosiectau gynyddu:<br><br>Cynnydd o 3% y flwyddyn mewn ymweliadau;<br><br>Gwerth twristiaeth;<br><br>Boddhad ymwelwyr;<br><br>Ymwelwyr newydd a rhai sy'n ail ymweld<br><br>Cyfleoedd gwaith; | I'w gadarnhau Angen adnabod prosiectau i leihau:<br><br>Anweithgarwch economaidd;<br><br>Diweithdra ymhlith pobl ifanc;<br><br>Diweithdra tymor hir;<br><br>Hawlwyr JSA; | • Hwyluso a datblygu gweithrediad cynllun rheoli cyrchfan effeithiol<br><br>• Hyrwyddo cryfderau unigryw yr Ynys a chynyddu dylanwad cyffredinol<br><br>• Gwella ansawdd y cynnyrch twristiaeth yr ynys | Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru<br><br>Partneriaeth Cynllun Rheoli Cyrchfan<br><br>Darparwyr twristiaeth lleol | X | X | X | X |

DRAFT

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| *4* | ***Cefnogi ac annog cyfleoedd busnes a thwf cyflogaeth amrywiol*** | I'w gadarnhau<br>Angen adnabod prosiectau i gynyddu:<br><br>Busnesau newydd;<br><br>Cyfleoedd gwaith;<br><br>Swyddi a ddiogelwyd; | I'w gadarnhau<br>AngenI adnabod prosiectau i leihau:<br><br>Anweithgarwch economaidd;<br><br>Diweithdra ymhlith pobl ifanc;<br><br>Diweithdra tymor hir;<br><br>Hawlwyr JSA; | • Darparu, monitro a gweinyddu pecynnau cymorth i fusnesau;<br><br>• Cydweithio i sicrhau dull cydgysylltiedig o wasanaethau cefnogi busnes;<br><br>• Annog rhwydweithio busnes a gwella cyfleoedd y gadwyn gyflenwi leol;<br><br>• Hyrwyddo a chefnogi entrepreneuriaeth a menter gymdeithasol; | Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Menter Môn | X<br>X<br>X<br>x | X<br>X<br>X<br>x | X<br>X<br>X<br>x | X<br>X<br>X<br>x |

**Canlyniad Strategol : Mae Ynys Môn yn manteisio'n llawn o'r holl gyfleoedd buddsoddi ynni strategol**

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | ***Datblygu, cefnogi a gweithredu'r cysyniad Ynys Ynni*** | 10-13% mewn 'GVA' absoliwt dros lefelau 2008 erbyn 2025<br><br>Twf cyflogeth o 33% yn y cyfnod hyd at 2025.<br><br>Pobl ifanc (16-24 oed) – twf o 10% i 12% o'r boblogaeth oedran gweithio<br><br>16-64 - cynyddu i 61-62% o'r boblogaeth erbyn 2015 | Anweithgarwch economaidd<br><br>Diweithdra ymhlith pobl ifanc<br><br>Diweithdra tymor hir;<br><br>Hawlwyr JSA; | • Manteisio ar brosiectau seilwaith ynni mawr i greu swyddi cynaliadwy;<br><br>• Gwella'r cyfleoedd datblygiad addysgol a sgiliau ar gyfer pobl ifanc;<br><br>• Gwella isadeiledd yr Ynys<br><br>• Lliniaru effeithiau, uchafu buddiannau a sicrhau canlyniadau priodol a chadrarnhaol o ran yr economi a'r gymuned | Prif datblygwyr Newydd Ynni<br><br>Grid Cenedlaethol;<br><br>Awdurdodau lleol Gogledd Cymru<br><br>Uned Polisi Cynllunio ar y cyd<br><br>Llywodraeth Cymru | X<br>X<br>X<br>x | X<br>X<br>X<br>x | X<br>X<br>X<br>x | X<br>X<br>X<br>x |
| 2 | ***Cynyddu nifer y gweithwyr sy'n cynnig prentisiaethau*** | % cynnydd yn y nifer y cyflogwyr sy'n cynnig prentisiaethau | | • I farchnata prentisiaethau I ystod ehangach o gyflogwyr ar Ynys Môn<br><br>• Cynyddu nifer y prentisiaethau drwy model 'Cwmni Prentis Menai' | Coleg Menai<br>CSYM<br>Horizon | X | X | X | X |

DRAFT

**Canlyniad Strategol - Mae gan Ynys Môn ddiwydiant twristiaeth lwyddiannus a chynaliadwy**

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 – 2014 | 2014 – 2015 | 2015 – 2016 | 2016 – 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| *1* | ***Hyrwyddo delwedd a chryfderau nodedig Ynys Môn*** | • Cynnydd o 3% y flwyddyn mewn ymweliadau;<br>• Gwerth twristiaeth;<br>• Boddhad ymwelwyr;<br>• Ymwelwyr newydd a rhai sy'n ail ymweld<br>• Cyfleoedd gwaith; | • Anweithgar-wch economaidd<br>• Diweithdra ymhlith pobl ifanc;<br>• Diweithdra tymor hir;<br>• Hawlwyr JSA; | • Datblygu portffolio ymchwilio'r farchnad (sy'n gysylltiedig â monitro)<br>• Diffinio marchnadoedd i'w targed<br>• Egluro brandio Ynys Môn;<br>• Datblygu strategaeth cysylltiadau gyda'r cyfryngau o ran twristiaeth;<br>• Datblygu strategaeth marchnata twristiaeth ar lein;<br>• Adolygu'r ystod o ddeunyddiau printiedig;<br>• Datblygu mentrau ar y cyd i hyrwyddo Ynys Môn fel cyrchfan | CSYM<br><br>Partneriaeth Cyrchfan Ynys Môn 'TPNW'<br><br>Sector Preifat<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Rheilffordd Cenedlaethol<br><br>Gyrfa Cymru<br><br>Coleg Menai | X | X | X | X |





DRAFT

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* | | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 – 2014 | 2014 – 2015 | 2015 – 2016 | 2016 – 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin)** | **Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin)** | | | | | | |
| **2** | ***Buddsoddi mewn cynnyrch rhagorol*** | • Cynnydd o 3% y flwyddyn mewn ymweliadau;<br>• Gwerth twristiaeth;<br>• Boddhad ymwelwyr;<br>• Ymwelwyr newydd a rhai sy'n ail ymweld<br>• Cyfleoedd cyflogaeth | • Anweithgar-wch economaidd<br>• Diweithdra ymhlith pobl ifanc;<br>• Diweithdra tymor hir;<br>• Hawlwyr JSA; | • Cefnogi uwchraddio, ymestyn a datblygiad y stoc llety lleol<br>• Cefnogi uwchraddio ac ymestyn atyniadau i ymwelwyr / gweithgareddau presennol a datblygu mentrau newydd<br>• Datblygu a gweithredu strategaeth cynnyrch lleol<br>• Datblygu a gweithredu strategaeth digwyddiadau | CSYM<br>Partneriaeth Cyrchfan Ynys Môn<br>'TPNW'<br>Sector Preifat<br>Llywodraeth Cymru<br>Rheilffordd Cenedlaethol Gyrfa Cymru<br>Coleg Menai | X<br>X<br>X<br>x | X<br>X<br>X<br>x | X<br>X<br>X<br>x | X<br>X<br>X<br>x |





DRAFT

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 – 2014 | 2014 – 2015 | 2015 – 2016 | 2016 – 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | ***Darparu profiadau rhagorol*** | • Cynnydd o 3% y flwyddyn mewn ymweliadau;<br>• Gwerth twristiaeth;<br>• Boddhad ymwelwyr;<br>• Ymwelwyr newydd a rhai sy'n ail ymweld<br>• Cyfleoedd cyflogaeth | • Anweithgar-wch economaidd<br>• Diweithdra ymhlith pobl ifanc;<br>• Diweithdra tymor hir;<br>• Hawlwyr JSA; | • Gwella a rheoli adnoddau arfordirol<br>• Gwella ansawdd yr amgylchedd lleol mewn aneddiadau lleol<br>• Gwella mynediad at gefn gwlad;<br>• Cefnogi datblygu'r isadeiledd drafnidiaeth ( (mewn cysylltiad â datblygiad isadeiledd Ynys Ynni);<br>• Cefnogi datblygu'r isadeiledd dwristiaeth leol;<br>• Gwella cyfleoedd adnoddau dynol o ran twristiaeth, ee hyfforddiant (mewn cysylltiad a datblygu hyfforddiant Ynys Ynni); | CSYM<br>Partneriaeth Cyrchfan Ynys Môn 'TPNW'<br>Sector Preifat<br>Llywodraeth Cymru<br>Rheilffordd Cenedlaethol<br><br>Gyrfa Cymru<br><br>Coleg Menai | X | X | X | X |





DRAFT

| | Rydym am: | Sut y byddwn yn mesur cynnydd: *(Dangosydd Pennawd a Gwaelodlin)* Cynyddu + (gan gynnwys gwaelodlin) | Lleihau - (gan gynnwys gwaelodlin) | Camau i sicrhau gweithredu: | Prif bartner(iaid) | 2013 – 2014 | 2014 – 2015 | 2015 – 2016 | 2016 – 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *4* | ***Gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth*** | • Cynnydd o 3% y flwyddyn mewn ymweliadau;<br>• Gwerth twristiaeth;<br>• Boddhad ymwelwyr;<br>• Ymwelwyr newydd a rhai sy'n ail ymweld<br>• Cyfleoedd cyflogaeth | • Anweithgar-wch economaidd<br>• Diweithdra ymhlith pobl ifanc;<br>• Diweithdra tymor hir;<br>• Hawlwyr JSA | • Sefydlu strwythur priodol ar gyfer rheoli cyrchfan;<br>• Sefydlu cyfres o ddangosyddion perfformiad; | CSYM<br>Partneriaeth Cyrchfan Ynys Môn 'TPNW'<br><br>Sector Preifat<br>Llywodraeth Cymru<br><br>Rheilffordd Cenedlaethol<br><br>Gyrfa Cymru<br><br>Coleg Menai | X | X | | |

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **PWYLLGOR GWAITH A'R CYNGOR SIR** |
| **Dyddiad** | **19 TACHWEDD 2012 A 5 MAWRTH 2013** |
| **Pwnc** | **Polisi Pryderon a Chwynion** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Y Cynghorydd John Chorlton** |
| **Swyddog Arweiniol** | **Lynn Ball – Pennaeth Adnoddau (Cyfreithiol a Gweinyddol – Swyddog Monitro)** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Beryl Jones, Swyddog Gofal Cwsmer<br>(Ffôn 01248 752588 )** |
| **Natur a rheswm am adrodd:**<br><br>Gofynnir i'r Cyngor Sir gymeradwyo'r argymhelliad gan y Pwyllgor Gwaith ar 19.11.12 bod y Polisi Pryderon a Chwynion a'r Polisi Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr yn cael eu mabwysiadu gyda'r dyddiad cychwyn o 1af Ebrill, 2013 | |

**A – Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw**

Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith 19.11.12 ( Wedi ei atodi)

Cyflwynwyd y Polisi newydd i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Tachwedd 2012 a bu i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu:-

" Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Sir:-

- Ei fod yn mabwysiadu'r Polisi Pryderon a Chwynion newydd ynghyd â'r Polisi Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr;

- Bod y dyddiad cychwyn sef 1 Ebrill 2013 yn cael ei gymeradwyo

Rheswm dros y Penderfyniad

Cydymffurfio gyda chynnig Llywodraeth Cymru i ddatblygu system gyffredin ar gyfer ymdrin â chwynion i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. "

| **B – Ystyriaethau** |
| --- |
| Gweler yr adroddiad atodol |

| **C – Goblygiadau ac Effeithiau** | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | Mae gweinyddiaeth gorfforaethol y Polisi wedi ei leoli o fewn yr Adain yma |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | Trafodaethau wedi cychwyn o ran rhaglen hyfforddiant ar gyfer swyddogion perthnasol |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo** | |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu(TGCh)** | Trafodaethau wedi cychwyn o ran system recordio gyffredin |
| 6 | **Cydraddoldeb** | Hyn wedi ei wneud gan Lywodraeth Cymru |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol** | |
| 8 | **Cyfathrebu** | Bydd cyhoeddusrwydd eang i'r polisi i gyd fynd a'r dyddiad cychwyn |
| 9 | **Ymgynghori** | Mae ymgynghoriad mewnol ar y ddau bolisi drafft wedi digwydd ac mae'r ymatebion a dderbyniwyd wedi eu hymgorffori yn y dogfennau atodol |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol** | |
| 12 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 13 | **Cytundeb Canlyniadau** | |

| **CH – Crynodeb** |
| --- |
| Mae Llywodraeth Cymru yn annog yn gryf i bob darparwr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fabwysiadu'r Polisi Pryderon a Chwynion er mwyn unioni profiad y cyhoedd o ddelio â chwynion |

| D – Argymhelliad |
| --- |
| Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu’r Polisi Pryderon a Chwynion, ynghyd a’r Polisi Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr, gyda dyddiad cychwyn o 1af Ebrill, 2013. |

**Enw awdur yr adroddiad: Beryl Jones**
**Swydd: Swyddog Gofal Cwsmer**
**Dyddiad: 11.02.13**

| Atodiadau: |
| --- |
| Atodiad 1 – Polisi Pryderon a Chwynion<br>Atodiad 2 - Polisi Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr. |

| Papurau cefndir |
| --- |
| Dim |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Y Pwyllgor Gwaith |
| **DYDDIAD:** | 19 Tachwedd 2012 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Polisi Pryderon a Chwynion |
| **ADRODDIAD GAN:** | Beryl Jones<br>Swyddog Cwynion Corfforaethol |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Cymeradwyo Polisi Cwynion Corfforaethol newydd |

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Yn 2009, fe sefydlodd Llywodraeth Cymru (LlC) Weithgor Cwynion Cymru yn cael ei gadeirio gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Gofynnwyd i'r Grŵp ddatblygu cynnig i sicrhau system gyffredin ar gyfer ymdrin â chwynion i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Derbyniwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru yn Awst 2010 yn dweud bod Polisi wedi cael ei lunio ac wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru a'i argymell i bob darparwr gwasanaeth cyhoeddus, ac a oedd yn eu hannog i ystyried ei ddefnyddio fel sail ar gyfer gweithdrefn gwynion: "yn agored ac ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth; wedi ei ddylunio i ddelio gyda chwynion yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon, ac yn defnyddio'r canlyniadau, a'r hyn a ddysgwyd, o ddatrys cwynion i roi gwybodaeth ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel yn seiliedig ar y dinesydd."

## 2. Y Polisi Newydd

2.1 Yng ngoleuni'r argymhelliad cryf hwn, gofynnir i'r Cyngor yn awr fabwysiadu Polisi newydd, yn seiliedig ar y model a awgrymir. Y prif wahaniaethau rhwng Polisi cyfredol y Cyngor a'r Polisi newydd arfaethedig yw :-

- Pwyslais ar ofal y cwsmer
- Cofnodi POB pryder yn systematig (ac nid ond cwynion yn unig)
- Datrysiad cynnar, yn cynnwys unioni (iawndal)
- Taflen Wybodaeth Safonol a Ffurflen Gwynion i'r cyhoedd
- Asesu a blaenoriaethu cwynion
- Gofynion ymchwilio newydd
- Adrodd ar lefel uchel i'r Pwyllgor Gwaith a'r TUA
- Yn dangos gwersi a ddysgwyd a gwelliannau a weithredwyd
- Dim proses apêl fewnol / dim rôl weithredol i Aelodau
- Yr angen i'r Cyngor fabwysiadu Polisi " Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr".

## 3. Ymgynghori Mewnol

3.1 Anfonwyd y Polisi drafft "Pryderon a Chwynion" a'r Polisi " Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr" i Gyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth ar gyfer ymgynghori ar 26.9.12 ac y mae'r ymatebion a dderbyniwyd wedi eu hymgorffori yn y dogfennau yn Atodiad 1 ac Atodiad 2 yr Adroddiad hwn.

## 4. Y Polisi Newydd

**4.1 Mae'r Polisi newydd mewn 2 ran :-**

- Bydd **Rhan 1** yn cael ei ddosbarthu i'r cyhoedd, ac fe ddylai fod yn safonol ar draws Cymru gyfan, ac eithrio ei fod yn adlewyrchu natur y darparwr gwasanaeth.

- Mae **Rhan 2** yn gyfarwyddyd ac fe all pob darparwr gwasanaeth cyhoeddus deilwra eu Polisi yn unol â maint a gofynion gweithredol y sefydliad ar yr amod na fydd hyn yn cael effaith ar brofiad y cyhoedd o

ddelio â chwynion - “fe ddylai elfennau fel y ffurflen, cyfnodau amser a nifer y cyfnodau fod yn gyson i bawb”.

## 4.2 Yr Agwedd Newydd

**Cam 1 – Datrysiad Anffurfiol**

- Mae’r cam hwn yn cynnig cyfle i gael ymgysylltiad anffurfiol yn y lle y mae’r gwasanaeth yn cael ei ddarparu er mwyn ceisio datrys cwynion, naill ai ar yr amser y mae’r pryder yn codi neu’n fuan iawn wedi hynny. Fe ddylai’r cam hwn fod yn rhan o ddarparu gwasanaeth ar y rheng flaen fel na fydd yn cael ei weld fel cam ar wahân. Bydd y cam hwn fel arfer ar ffurf eglurhad neu gymryd camau priodol eraill i ddatrys pethau, gan staff rheng flaen.

- Fe ddylai’r cam datrysiad anffurfiol gael ei wneud mor fuan ag sy’n bosibl ac yn sicr ni ddylai gymryd mwy na 10 niwrnod gwaith. Os nad yw’n bosibl datrys y pryder o fewn y cyfnod amser hwnnw, yna fe ddylid mynd â’r mater i’r cam ymchwiliad ffurfiol.

**Cam 2 – Ymchwiliad Mewnol Ffurfiol**

- “Ymchwiliwch unwaith, ymchwiliwch yn dda” yw’r egwyddor ar gyfer y cam hwn o’r broses. Rhoddir pwyslais ar un ymchwiliad i ddelio’n drwyadl gyda’r pryderon a godwyd, yn hytrach na nifer o ymchwiliadau ar wahanol lefelau yn y sefydliad, all olygu ymchwiliadau hir ac, weithiau, pen agored.

- Fodd bynnag, bwriadwyd yr elfen Cam 2 o’r broses i fod yn hyblyg ac i ymateb yn briodol i’r gwyn. Mae “Ymchwilio’n dda” hefyd yn golygu cynnal ymchwiliad mewn dull sy’n gymesur â natur a gradd difrifoldeb y gŵyn. Mae cymesur yn golygu – yn achos cwynion llai difrifol - na fydd angen efallai i’r ymchwiliad fod mor fanwl / gynhwysfawr.

## 5. Y Polisi Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr

Cyfeiriwyd y Polisi tuag at yr achwynwyr y mae eu hymddygiad yn annerbyniol. Nid oes gan y Cyngor unrhyw bolisi cyfatebol ar hyn o bryd.

Mae’r polisi newydd hwn yn diffinio’r mathau o ymddygiad y bernir eu bod yn annerbyniol ac mae’n rhoi cyngor a chyfarwyddyd ynglŷn â sut y byddir yn rheoli’r ymddygiadau hyn.

**6. Y Ffordd Ymlaen**

Fel y gall y Polisi newydd gael ei gyflwyno’n effeithiol, rhaid i’r camau gweithredu canlynol gael eu cwblhau gan yr holl Wasanaethau :-

1. Nodi staff rheng flaen fydd angen derbyn hyfforddiant ar y Polisi newydd
2. Nodi’r aelodau staff fydd yn cael eu hyfforddi i fod yn ymchwilwyr.
3. Cysylltu gyda’r Swyddog Hyfforddi a Datblygu i drefnu hyfforddiant.
4. Cysylltu gyda’r Gwasanaeth TGCh er mwyn sicrhau bod yna system ddigonol yn ei lle i fedru cofnodi’r holl bryderon.
5. Sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer arwyddbostio fel bod aelodau’n gwybod pwy i gysylltu â nhw er mwyn cael cymorth gydag ymholiadau gan etholwyr.
6. Rhoi cyhoeddusrwydd i’r Polisi newydd (yn gorfforaethol).

**7. Gweithredu**

Er mwyn caniatáu amser i gwblhau camau 1 i 6, awgrymir y dylid nodi 1 Ebrill 2013 fel y dyddiad gweithredu.

**Argymhellion :-**

1. Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell a bod y Cyngor yn mabwysiadu’r Polisi Pryderon a Chwynion a hefyd y Polisi Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr.
2. Bod y dyddiad cychwyn, sef 1 Ebrill 2013 yn cael ei gymeradwyo.

# Polisi Pryderon a Chwynion

| |
|---|
| **Datganiad Ymrwymiad:** Bydd pobl yn ei chael yn hawdd cwyno a chael pethau wedi'u cywiro pan nad yw'r gwasanaeth y maent yn ei gael yn ddigon da. |

DRAFFT

## Rhagair

Mae dwy elfen ar wahân i’r ddogfen hon:

### Rhan 1

Mae’r rhan gyntaf o’r polisi ar gyfer cwsmeriaid. Mae’n cynghori cwsmeriaid sut y bydd y Cyngor yn delio gydag unrhyw gwyn neu bryder sydd ganddynt. Mae Taflen Wybodaeth Pryderon a Chwynion ar wahân ar gael i'r cyhoedd.

### Rhan 2

Bwriedir ail ran y polisi ar gyfer swyddogion ac mae’n disgrifio sut mae delio gyda phryderon a chwynion yn fewnol yn amodol ar ganllawiau statudol e.e. cwynion addysg a gofal cymdeithasol.

Noder: O hyn ymlaen pan fydd son am “bryder” neu “chwyn” mae yn cyfeirio at bryder a chwyn.

DRAFFT

## Polisi Pryderon a Chwynion

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i ddelio'n effeithiol ag unrhyw bryderon neu gwynion sydd gennych am ein gwasanaeth. Ein nod yw egluro unrhyw faterion nad ydych yn sicr yn eu cylch, dysgu o'n camgymeriadau ac yn defnyddio'r wybodaeth a gawn i wella ein gwasanaethau.

### Pryd y dylid defnyddio'r polisi hwn

Pan fyddwch yn mynegi eich pryderon neu'ch cwyn wrthym, byddwn fel arfer yn ymateb yn y ffordd sy'n cael ei disgrifio isod. Fodd bynnag, weithiau efallai y bydd gennych hawl statudol i apelio e.e. yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio i chi neu'r penderfyniad i beidio â rhoi lle i'ch plentyn mewn ysgol benodol felly, yn hytrach nag ymchwilio i'ch pryder, byddwn yn egluro wrthych sut i apelio. Weithiau, efallai y byddwch yn pryderu am faterion nad ni sy'n penderfynu arnynt e.e. cwyn yn erbyn meddyg teulu,a byddwn yn rhoi gwybod i chi wedyn sut mae gwneud eich pryderon yn hysbys.

Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol os yw'r mater yn ymwneud â Rhyddid Gwybodaeth, Ddiogelu Data neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol . Dan yr amgylchiadau hyn, dylech gysylltu â'r Swyddog Gofal Cwsmer, Adain Gyfreithiol, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni, LL77 7TW neu gyrru e-bost at:

- cyfraithpolisi@ynysmon.gov.uk

### Ydych chi wedi gofyn i ni eto?

Os ydych yn cysylltu â ni am wasanaeth am y tro cyntaf e.e. yn rhoi gwybod am olau stryd diffygiol, casgliad bin wedi ei fethu neu gwasanaeth atgyweirio nid yw'r polisi hwn yn berthnasol. Dylech roi cyfle i ni yn gyntaf i ymateb i'ch cais. Os gwnewch chi gais am wasanaeth ac nad ydych wedyn yn hapus â'n hymateb, gallwch roi gwybod am eich pryder yn y ffordd sy'n cael ei disgrifio isod.



DRAFT

**Cam 1 - Datrys anffurfiol**

Os yw'n bosibl, credwn ei bod yn well delio â phethau ar unwaith yn hytrach na cheisio'u datrys yn ddiweddarach. Os oes gennych bryder, codwch ef gyda'r sawl yr ydych yn delio ag ef. Bydd yr aelod o staff yn ceisio datrys y mater i chi yn y fan a'r lle. Os oes gwersi i'w dysgu o roi sylw i'ch pryder, bydd yr aelod staff yn eu dwyn i'n sylw. Os na all yr aelod staff helpu, bydd yn egluro pam a gallwch chi wedyn ofyn am ymchwiliad ffurfiol.

Gallwch fynegi'ch cwyn mewn unrhyw un o'r ffyrdd isod.

- Gallwch ofyn i'r sawl yr ydych mewn cysylltiad ag ef yn barod am gopi o'n ffurflen gwyno.
- Gallwch gysylltu gyda'n Swyddog Gofal Cwsmer:

**e-bost:**

**Gwefan:**

**Ffon:**

**Ysgrifennu:** Cwynion, Adain Gyfreithiol, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW

Mae copïau o'r polisi ar gael ar gais yn Saesneg, ieithoedd eraill, print bras, ayyb.

**Delio â'ch pryder**

- Byddwn yn cydnabod eich pryder yn ffurfiol o fewn 5 diwrnod gwaith o'i dderbyn ac yn rhoi gwybod i chi sut y bwriadwn ymdrin ag ef.
- Byddwn yn gofyn i chi ddweud wrthym sut yr hoffech i ni gyfathrebu â chi, er enghriafft,. trwy e-bost neu ffon ac beth yw' eich dewis iaith ac yn gweld a oes gennych unrhyw ofynion penodol - er enghraifft, os oes gennych anabledd.
- Byddwn yn delio â'ch pryder mewn ffordd agored a gonest.
- Byddwn yn gwneud yn siŵr na fyddwch yn wynebu anfantais wrth ddelio â ni yn y dyfodol am eich bod wedi mynegi pryder neu wneud cwyn.



DRAFFT

Fel arfer, dim ond os dywedwch wrthym am eich pryderon o fewn 6 mis y byddwn yn gallu edrych arnynt. Y rheswm am hyn yw ei bod yn well ymchwilio i'ch pryderon tra mae'r materion yn dal yn fyw ym meddwl pawb.

O dan amgylchiadau eithriadol efallai y gallwn edrych ar bryderon sy'n cael eu dwyn i'n sylw yn ddiweddarach na hyn. Fodd bynnag, bydd rhaid i chi roi rhesymau cryf i ni pam nad ydych wedi gallu dwyn eich pryder i'n sylw yn gynharach a bydd angen i ni gael gwybodaeth ddigonol am y mater i'n galluogi i'w ystyried yn briodol. (Sut bynnag, waeth beth yw'r amgylchiadau, ni fyddwn yn ystyried unrhyw bryderon am faterion a ddigwyddodd dros dair blynedd yn ôl).

Os ydych yn mynegi pryder ar ran rhywun arall, bydd angen eu cytundeb nhw arnom i chi weithredu ar eu rhan gan y byddwn hwyrach yn rhannu  gwybodaeth sensitive bersonol gyda chi.

**Beth os oes a wnelo mwy nag un corff â'r mater?**

Os yw'ch cwyn yn cwmpasu mwy nag un corff e.e. Cymdeithas Tai a'r Cyngor  byddwn yn gweithio gyda nhw fel arfer i benderfynu pwy ddylai arwain wrth ddelio â'ch pryderon. Wedyn, rhoddir i chi enw'r sawl a fydd yn gyfrifol am gyfathrebu â chi tra ydym yn delio â'ch cwyn.

Os oes a wnelo'r gŵyn â chorff sy'n gweithio ar ein rhan e.e. contractwyr atgyweirio**,** efallai yr hoffech chi godi'r mater yn anffurfiol gyda nhw yn gyntaf. Fodd bynnag, os hoffech chi fynegi eich pryder neu'ch cwyn yn ffurfiol, byddwn yn ymchwilio i hyn ein hunain ac yn anfon ymateb atoch.

DRAFT

**Beth os nad wyf yn fododlon gyda'r ymateb yr wyf yn ei  dderbyn?**

**Cam 2 - Ymchwilio**

Os nad ydych yn fodlon gyda'r ymateb pan fyddwch yn cyflwyno cwyn , mae'n bosib i chi ofyn i'ch cwyn dderbyn ymchwiliad ffurfiol.

Byddwn yn dweud wrthych enw'r swyddog sydd yn edrych I mewn I'ch cwyn ac yn cyflwyno i chi ein dealltwriaeth ni o'ch pryderon ac yn gofyn i chi gadarnhau ein bod wedi deall yn iawn. Byddwn hefyd yn gofyn i chi ddweud wrthym pa ganlyniad yr ydych yn gobeithio'i gael.

Fel arfer bydd angen i'r sawl sy'n ystyried eich cwyn weld y ffeiliau sydd gennym sy'n berthnasol i'ch cwyn. Os nad ydych am i hyn ddigwydd, mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym.

Os oes ateb syml i'ch problem, efallai y byddwn yn gofyn i chi a ydych yn hapus i dderbyn hwnnw. Er enghraifft, lle'r ydych wedi gofyn am wasanaeth a'n bod yn gweld ar unwaith y dylech fod wedi'i gael, byddwn yn cynnig darparu'r gwasanaeth.

Byddwn yn ceisio datrys pryderon mor gyflym â phosibl a byddwn yn disgwyl delio â'r mwyafrif helaeth o gwynion Cam 2  o fewn 20 diwrnod gwaith.  Os yw'ch cwyn yn fwy cymhleth, byddwn yn:

- rhoi gwybod i chi o fewn 20 diwrnod gwaith  pam y credwn y gallai gymryd mwy o amser i ymchwilio
- dweud wrthych faint o amser yr ydym yn disgwyl iddo ei gymryd
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi yn rheolaidd, yn cynnwys dweud wrthych a fydd unrhyw ddatblygiadau yn debygol o newid ein hamcangyfrif gwreiddiol.

Bydd y sawl sy'n ymchwilio i'ch pryderon yn ceisio sefydlu'r ffeithiau yn gyntaf. Bydd hyd a lled yr ymchwiliad hwn yn dibynnu ar ba mor gymhleth a difrifol yw'r materion yr ydych wedi'u codi. Mewn rhai achosion, efallai y gofynnwn am gael cwrdd â chi i drafod

DRAFFT

eich pryderon. Weithiau, efallai y byddwn yn awgrymu cyfryngu neu ddull arall i geisio datrys anghydfod.

Byddwn yn edrych ar dystiolaeth berthnasol. Gallai hyn gynnwys ffeiliau, nodiadau o sgyrsiau, llythyron, negeseuon e-bost neu beth bynnag a fydd yn berthnasol i'ch pryder neilltuol chi. Os bydd rhaid, byddwn yn siarad â'r staff neu eraill sy'n gysylltiedig â'r mater ac yn edrych ar ein polisïau ac ar unrhyw hawl gyfreithiol a chanllawiau.

**Y canlyniad**

Byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yr ydym wedi'i ganfod drwy'r dull cyfathrebu yr ydych yn ei ffafrio. Gallai hyn fod drwy lythyr neu e-bost, er enghraifft. Os bydd rhaid, byddwn yn cynhyrchu adroddiad hwy. Byddwn yn egluro sut a pham y daethom i'n casgliadau.

Os canfyddwn mai ni oedd ar fai, byddwn yn dweud wrthych beth a ddigwyddodd a pham. Byddwn yn dangos sut yr effeithiodd y camgymeriad arnoch chi os yw'n bosib, byddwn yn cywiro'r camgymeriad.

Os canfyddwn fod diffyg yn ein systemau neu'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau, byddwn yn dweud wrthych beth yw'r diffyg hwnnw a sut y bwriadwn newid pethau i'w rwystro rhag digwydd eto.

Os oeddem ni ar fai, byddwn bob amser yn ymddiheuro.

**Gweithio i Wella**

Os nad ydym wedi darparu gwasanaeth y dylech fod wedi'i gael, byddwn yn ceisio'i ddarparu yn awr os yw hynny'n bosibl. Os ydym wedi methu â gwneud rhywbeth yn dda, byddwn yn ceisio cywiro hynny. Os ydych wedi bod ar eich colled oherwydd camgymeriad ar ein rhan ni, byddwn yn ceisio'ch rhoi yn ôl yn y sefyllfa y byddech wedi bod ynddi pe baem wedi gwneud pethau'n iawn.

Os bu rhaid i chi dalu am wasanaeth eich hun, pan ddylech fod wedi cael gwasanaeth gennym ni, neu bod gennych hawl i gyllid na dderbynioch mohono, byddwn fel arfer yn ceisio gwneud iawn am yr hyn yr ydych wedi'i golli.



DRAFT

**Cam 3**

**Yr Ombwdsmon**

Os na lwyddwn i ddatrys eich cwyn, gallwch gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar bob corff y llywodraeth a gall ymchwilio i'ch cwyn os ydych yn credu eich bod chi'n bersonol, neu'r sawl yr ydych yn cwyno ar ei ran:

- wedi cael eich trin/ei drin yn annheg neu wedi cael gwasanaeth gwael oherwydd rhyw ddiffyg ar ran y corff a oedd yn ei ddarparu
- wedi wynebu anfantais yn bersonol oherwydd methiant yn y gwasanaeth neu wedi cael eich trin/ei drin yn annheg.

Mae'r Ombwdsmon yn disgwyl i chi ddwyn eich pryderon i'n sylw ni yn gyntaf a rhoi'r cyfle i ni gywiro pethau. Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon fel hyn:

| | |
|---|---|
| **ffôn**: | 0845 601 0987 |
| **e-bost**: | ask@ombudsman-wales.org.uk |
| **y wefan**: | www.ombudsman-wales.org.uk |
| **ysgrifennu at:** | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ |

Ceir sefydliadau eraill hefyd sy'n rhoi sylw i gwynion. Er enghraifft, Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch gwasanaethau yn y Gymraeg. Gallwn eich cynghori am sefydliadau o'r fath.

DRAFT

**Dysgu gwersi**

| **Age Cymru Gwynedd & Môn** | **Cyngor ar Bopeth** |
|---|---|
| Ffôn 01286 677711 | Ffôn 08444 772020 |
| Ffacs 01407 769300 | Ffacs 01407 769300 |
| e-bost: info@acgm.co.uk | |
| www.ageuk.org.uk/cymru/gwyneddmon | www.ynysmoncab.org.uk |

DRAFFT

Rydym yn cymryd eich pryderon a'ch cwynion o ddifrif ac yn ceisio dysgu o unrhyw gamgymeriadau yr ydym wedi'u gwneud.

Lle mae angen newid, byddwn yn datblygu cynllun gweithredu sy'n nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud, pwy fydd yn ei wneud ac erbyn pryd y bwriadwn ei wneud. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd newidiadau a addawyd gennym wedi cael eu gwneud.

**Beth os oes angen help arnoch**

Bydd ein staff yn ceisio'ch helpu i wneud eich pryderon yn hysbys i ni. Os oes angen cymorth ychwanegol arnoch, byddwn yn ceisio eich rhoi mewn cysylltiad â rhywun a all helpu.

Efallai y byddwch am gysylltu â :

**Fforwm Anabledd Taran**
Ffôn 01407 72196
www.tarandisability.co.uk

**Carers Outreach(gwyned, Conwy & Môn)**
Ffôn 01248 370797
Ffacs 01248 371302
www.carersoutreach.co.uk

**National Youth Advocacy Service**
e-bostl: help@nyas.net
ffôn 0800 616101
www.nyas.net

**North Wales Deaf Association**
Ffôn 01492 542235
Minicom 01492 542236
ffacs 01492 542238
Ffôfideo 01492 549987
www.deafassociation.co.uk

DRAFFT

Gallwch hefyd ddefnyddio'r polisi pryderon a chwynion hwn os ydych chi dan 18 oed. Os bydd angen help arnoch, gallwch siarad â rhywun ar Linell Gymorth Meic – rhif ffon 080880 23456 ac mae manylion bellach ar gael ar ei gwefan www.meiccymru.org

Gallwch hefyd gysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru. Dyma'r manylion cyswllt: Rhif ffon 01492 523333 neu trwy e-bost post@childcomwales.org.uk ac mae manylion pellach ar gael ar ei gwefan www.complantcymru.org.uk

**Yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gennych chi**

Mewn cyfnodau o helbul neu drallod, gall rhai pobl ymddwyn mewn ffordd sy'n groes i'w natur. Efallai fod yr amgylchiadau a arweiniodd at bryder neu gŵyn wedi peri gofid neu loes i chi. Nid ydym yn ystyried bod ymddygiad yn annerbyniol am fod rhywun yn egnïol neu'n benderfynol.

Credwn fod gan bob achwynydd yr hawl i gael ei glywed, i gael ei ddeall ac i gael ei barchu. Fodd bynnag, rydym yn credu hefyd fod gan ein staff ni yr un hawliau. Rydym, felly, yn disgwyl i chi fod yn gwrtais a moesgar yn eich ymwneud â ni. Ni fyddwn yn goddef ymddygiad ymosodol na sarhaus, gofynion afresymol na dyfalbarhad afresymol.

**Mae gennym bolisi ar wahân i reoli sefyllfaoedd lle'r ydym yn canfod bod rhywun yn gweithredu mewn ffordd annerbyniol – gweler ein "Polisi Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynywyr**. "

DRAFFT

## Polisi Pryderon a Chwynion - Rhan 2

### 1 Rhagymadrodd

#### 1.1 Pwrpas y Polisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol

1.1.1 Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi cael ei chofnodi'n dda ac mae'n cydnabod bod systemau cwyno a gwneud iawn* yn gallu gwneud cyfraniad pwysig tuag at wella'r gwasanaethau hynny.

1.1.2 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisi enghreifftiol Llywodraeth Cymru ar gyfer delio â phryderon a chwynion yng Nghymru (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'y polisi') er mwyn sefydlu, ar draws yr holl ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus egwyddorion cyffredin er ymdrin yn effeithiol â phryderon a chwynion.

1.1.3 Wrth fabwysiadu'r polisi, mae'r Cyngor wedi dilyn canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru I sicrhau:

- gweithdrefnau casglu data cyffredin
- dulliau cyffredin er dysgu o bryderon a chwynion
- ffordd gyffredin o ddynodi a lledaenu arferion da.

1.1.5 Daeth y polisi hwn i rym ar…………

DRAFT

* Iawn: mae sawl ffordd o wneud iawn yn briodol, mae hynny yn cynnwys esboniad ac ymddiheuriad, camau unioni ar brydiau iawndal ariannol, neu gyfuniad o'r rhain. Dylai'r broses gwneud iawn geisio rhoi'r achwynydd yn ôl yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynddi pe na bai unrhyw beth wedi myd o'i le. Lle nad yw hyn yn bosib - a dyma fydd yn digwydd yn aml - dylai'r gwneud iawn adlewyrchu'r niwed y mae'r achwynydd wedi'i ddioddef.

## 2 Diffiniad ac Egwyddorion

### 2.1 Beth yw Cwyn?

2.1.1 Boed hi am y darparwr gwasanaethau cyhoeddus ei hun, rhywun sy'n gweithredu ar ei ran, neu bartneriaeth o ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus, cwyn yw:

- mynegiant o anfodlonrwydd neu bryder
- naill ar bapur neu ar lafar neu drwy unrhyw ffordd arall o gyfathrebu
- fe'i gwneir gan un neu ragor o aelodau o'r cyhoedd
- mae ynglŷn â'r ffordd y mae darparwr gwasanaethau cyhoeddus wedi gweithredu neu heb weithredu
- neu mae ynglŷn â safon y gwasanaeth a ddarparwyd

2.1.2 Nid cwyn yw:

- cais cychwynnol am wasanaeth, megis rhoi gwybod am olau stryd diffygiol
- apêl yn erbyn penderfyniad sydd 'wedi cael ei wneud yn briodol'
- ffordd o geisio newid deddfwriaeth neu benderfyniad polisi sydd 'wedi cael ei wneud yn briodol'
- ffordd i grwpiau/mudiadau lobïo geisio hyrwyddo achos.

### 2.2 Egwyddorion er mwyn delio â chwynion

2.2.1 Pan fydd rhywun yn cwyno, mae ganddo bob amser broblem ynglŷn â gwasanaeth sydd wedi cael ei ddarparu neu na chafodd ei ddarparu. Mae angen ymdrin â'r cwynion mewn ffordd sy'n golygu mai ar yr achwynydd y mae'r ffocws, nid ar y broses ei hun. Yn y cyd-destun hwn y dylid rhoi'r egwyddorion canlynol ar waith.

(i) **Hygyrch a Syml**

- Digon o gyhoeddusrwydd.
- Hawdd dod o hyd iddo, ei ddeall a'i ddefnyddio – i'r cyhoedd a'r staff.
- Cyfarwyddiadau syml a chlir i'r cyhoedd ar sut mae gwneud cwyn.


DRAFT

- Bod y polisi'n ddigon hyblyg i ateb anghenion gwahanol pobl wahanol, gan sicrhau nad yw'r rhai sy'n wynebu her o ran mynediad yn cael eu heithrio.
- Ei fod yn darparu gwybodaeth am wasanaethau eiriolaeth a chyngor.
- Bod cyn lleied â phosibl o gamau yn y broses delio â chwynion.

(ii) **Teg a Diduedd**

- Bod cwynion yn cael eu trin mewn ffordd ystyriol a diduedd.
- Bod sicrwydd yn cael ei roi i achwynwyr na fydd gwneud cwyn yn effeithio'n andwyol ar eu hymwneud a'u cyswllt â'r corff dan sylw yn y dyfodol.
- Mae'n sicrhau bod achwynwyr yn cael ymateb llawn a bod y penderfyniadau yn gymesur, yn briodol ac yn deg.
- Mae'r staff y gwneir cwyn amdanynt yn cael eu trin yr un mor deg â'r achwynwyr.

(iii) **Amserol, Effeithiol a Chyson**

- O fewn terfynau'r hyn sy'n briodol ac yn bosibl, dylai staff rheng flaen eu hunain geisio datrys cwynion
- 'Ymchwilio Unwaith, Ymchwilio'n Dda' – pan fydd angen ymchwilio'n ffurfiol i gŵyn, dylai hyn gael ei wneud yn drylwyr i sefydlu ffeithiau'r achos.
- Delio â chwyn mor gyflym â phosibl.
- Dylai fod yn gyson fel bod pobl mewn amgylchiadau tebyg yn cael eu trin mewn ffyrdd tebyg.
- Ymdrinnir â chwynion sy'n ymwneud â mwy nag un darparwr gwasanaethau cyhoeddus yn y fath fodd fel mai profiad o un system yn unig a gaiff yr achwynydd.

(iv) **Atebol**

- Mae'n darparu esboniadau gonest, wedi'u seilio ar dystiolaeth, ac yn rhoi rhesymau am benderfyniadau.
- Caiff gwybodaeth ei darparu mewn ffordd glir ac agored.



DRAFFT

- Pan ganfyddir bod cyfiawnhad i bryderon, fel sy’n briodol mae cyrff cyhoeddus:
  - yn cydnabod camgymeriadau
  - yn ymddiheuro mewn ffordd ystyrlon
  - yn cywiro pethau
  - yn darparu iawn yn ddiymdroi, yn briodol ac yn gymesur.
- Caiff hynt y broses ei dilyn i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau’n cael eu gweithredu’n gywir ac yn ddiymdroi.
- Lle mae hynny’n briodol, dywedir wrth yr achwynydd pa wersi a ddysgwyd a pha newidiadau a wnaed i’r gwasanaeth, i ganllawiau neu i bolisi.
- Mae’n sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i achwynwyr am eu hawl i gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (neu am lwybrau arall sy’n agored iddynt, er enghraifft, Bwrdd yr Iaith Gymraeg yng nghyswllt cwynion am gydymffurfio â Chynlluniau Iaith Gymraeg, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.).

(v) **Yn Sicrhau Gwelliant Parhaus**

- Mae’r gwersi a ddysgir o gwynion yn cael eu casglu a defnyddir adborth i wella’r ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a’u darparu.
- Mae system gyfrifiadurol addas wedi cael eu sefydlu i gofnodi, dadansoddi ac adrodd ar yr hyn sy’n cael ei ddysgu yn sgil pryderon.
- Mae arweinyddiaeth y corff cyhoeddus:

  - yn cymryd perchenogaeth dros y broses gwyno
  - yn adolygu a chraffu ar effeithiolrwydd y broses yn rheolaidd
  - yn cael adroddiadau monitro rheolaidd ar gwynion, ac
  - yn dangos beth mae’r sefydliad wedi’i wneud i wella’r ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflwyno o ganlyniad i gwynion.

DRAFT

## 3 Trefniadau Ymdrin â Chwynion

3.1.1 Y nod yw darparu ffordd gyffredin o ymdrin â chwynion sy'n syml, yn hyblyg ac yn rhoi pwyslais ar gael y canlyniad mwyaf priodol i unigolion a gwasanaethau. Mae'n ofynnol yn ôl y polisi i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus ddelio mewn ffordd lawer mwy rhagweithiol â phryderon drwy ganolbwyntio ar anghenion pobl.

3.1.2 Dylinwyd y polisi i symleiddio'r trefniadau cwynion ar draws y sector cyhoeddus ac yn ei gwneud yn haws delio â chwynion sy'n ymwneud â mwy nag un gwasanaeth.

### 3.2 Datganiad Ymrwymiad

3.2.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi egwyddor i wasanaethau cyhoeddus ar wneud iawn (Creu'r Cysylltiadau – Creu Gwell Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Mawrth 2007). Dyma'r maen prawf i'r polisi cwynion enghreifftiol ac, wrth fabwysiadu'r model, dylai pob darparwr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn ei dro gyhoeddi datganiad ymrwymiad fel a ganlyn:

"*Bydd pobl yn ei chael yn hawdd cwyno a chael pethau wedi'u cywiro pan nad yw'r gwasanaeth y maent yn ei gael yn ddigon da".*

3.2.2 Noder: Mae'r datganiad uchod yn gymwys hefyd o dan amgylchiadau lle methwyd darparu gwasanaeth y mae gan rywun hawl i'w dderbyn. Fodd bynnag, nid yw'n gymwys o dan amgylchiadau lle mae pobl yn gwneud cais am wasanaeth cychwynnol.

### 3.3 Pwy gaiff ddod â phryder gerbron

3.3.1 Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd, yn cynnwys plentyn, sydd wedi derbyn, neu a oedd â hawl i dderbyn, gwasanaeth oddi wrth y Cyngor wneud cwyn. Mae'r un

DRAFFT

peth yn wir os ydynt wedi dioddef oherwydd gweithredu amhriodol neu ddiffyg gweithredu gan y Cyngor

3.3.2 Pan fydd unigolyn ifanc neu blentyn yn mynegi pryder, rhaid i'r Cyngor roi iddynt y cymorth y gall fod eu hangen arnynt yn rhesymol er mwyn iddynt allu mynd â'u pryder i'r cam nesaf. Dylai hyn gynnwys gwneud unigolyn ifanc neu blentyn yn ymwybodol o'r cymorth y gellid ei ddarparu gan Gomisiynydd Plant Cymru.

3.3.3 Gall pryder gael ei gyflwyno hefyd gan rywun ar ran rhywun arall, fel a ganlyn:

(a) Rhywun sydd wedi marw;
(b) Plentyn;
(c) y rhai nad yw'r gallu ganddynt (yn unol â diffiniad Deddf Galluedd Meddyliol 2005(1);
(d) bod y sawl yr effeithiwyd arno wedi gofyn iddo wneud hynny.

3.3.4 Yn achos (b), (c) a (d), rhaid I ni ein hunain, cyn belled ag y mae amgylchiadau'r sawl yr effeithiwyd arno yn caniatáu hynny, fod y cynrychiolydd yn gweithredu gydag awdurdod y person ac, os yw'n bosibl, cael ei lofnod i gadarnhau hyn

3.3.5 Nid yw'r weithdrefn hon, fodd bynnag, yn gyfrwng i aelod staff godi materion cyflogaeth. Mae mecanweithiau mewnol eraill ar gyfer y math hwn o bryderon, er enghraifft, gweithdrefnau chwythu'r chwiban, bwlio neu gwyno.

## 3.4 Rolau

3.4.1 Mae'r Dirprwy Brif Weithredwraig yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi'n cael ei fabwysiadu a bod y canllawiau'n cael eu dilyn. { Dylai'r Cyngor benodi swyddog gyda chyfrifoldeb am sicrhau bod y polisi yn cael ei fabwysiadu}

3.4.2 Y Swyddog Gofal Cwsmer ( Swyddog Cwynion Canolog) sy'n gyfrifol am recordio cwynion ac mae angen sicrhau bod y swyddog yma yn ymwybodod o bod cwyn sy'n derbyn sylw o dan Cam 1



DRAFT

3.4.3 Mae angen sianelu pob cwyn ffurfiol trwy'r Swyddog Gofal Cwsmer

3.4.4 Staff y rhenf flaen – rol i'w ddiffinio

3.4.5 Swyddogion Cwynion Adrannol – rol i'w ddiffinio

3.4.6 Swyddogion Uwch o fewn yr Adrannau sy'n ymchwilio i mewn i'r cwynion

### 3.5 Adnoddau

3.5.1 Mi fydd y Cyngor yn sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol yn cael eu darparu fel bod modd gweithredu'r polisi. Mae hyn yn cynnwys:

• staffio

• hyfforddiant
• systemau ar gyfer ymdrin â chwynion e.e………...

### 3.6 Hygyrchedd y weithdrefn gwyno a rhoi cyhoeddusrwydd iddi

3.6.1 Mae'r polisi pryderon a chwynion yn hygyrch i bawb. Mae'r broses cwynion yn cael cyhoeddusrwydd eang drwy:-

- hyrwyddiad trwy'r wefan ac yn y cylchlyhtyr
- Daflen wybodaeth ddwyieithog ar gael mewn derbynfaoedd cyhoeddus ac mewn swyddfeydd lleol sefydliadau cynghori ac eiriolaeth perthnasol
- bod yr wybodaeth am y weithdrefn gwyno ar gael mewn fformatau amgen, megis ar CD, mewn print bras, Braille ac ati

DRAFFT

### 3.7 Y daflen wybodaeth am gwynion/y ffurflen gwyno

3.7.1 Mae geiriad y daflen wybodaeth am gwynion yn dilyn yr hyn sydd ym mholisi enghreifftion Llywodraeth Cymru.

3.7.2 Wrth godi pryder, dylai pobl <u>yn ddelfrydol</u> lenwi ffurflen gwyno naill ai'r fersiwn brintiedig neu’r ffurf ar y we. Fodd bynnag, mae’n bosib y byddai’n well gan bobl gyflwyno eu cwyn dros y ffôn, dros e-bost neu’n bersonol (neu drwy gyfrwng dull arall). Wrth wneud hynny dylai staff sy’n ymdrin â’r gŵyn sicrhau eu bod wedi casglu’r un wybodaeth â'r hyn a geisir ar y ffurflen gwyno a sicrhau ei bod wedi’i chofnodi’n ar y system ……………………

### 4.0 Y weithdrefn gwyno

#### 4.1.1 Cam 1

4.1.2 Mae’r tri cham i’r polisi (dwy gam mewnol ac un allanol) yma o ran delio gyda chwynion.

4.1.3 Mae Cam 1 yn cynnig y cyfle i ddatrys y gwyn yn anffurfiol gan y gwasanaeth unai ar adeg y digwyddiad neu mewn ychydig amser wedyn. Dylai’r cam yma fod yn rhan annatod o ddarparu gwasanaeth ar y rheng flaen ac ni ddylid ei weld fel rhywbeth ar wahân. Fel arfer, byddai’r cam yma yn cynnig eglurhad neu weithred adferol gan staff rheng flaen neu reolwr gwasanaeth. Mae grym wedi ei roddi i staff i ddelio gyda chwynion fel meant yn codi gyda’r bwriad o ddatrys y mater yn y fan ar lle. Fodd bynnag, mi fydd staff yn derbyn hyfforddiant ar gyfer adnabod difrifoldeb unrhyw gwyn a deall pan fydd yn briodol i gyfeirio’r gwyn i uwch swyddog.

4.1.4 Bydd cwyn yn cael ei nodi ar y system ………… ar adeg y cyswllt cyntaf a bydd rhif cyfeirnod unigryw yn cael ei roddi i’r gwyn ac mae angen nodi’r rhif yma ar bob darn o ohebiaeth

4.1.5 Y nod yng ngham 1 yw ymateb i'r gwyn o fewn 10 diwrnod gwaith. Os yw'n bosib ymateb i'r gwyn yn syth fydd dim rhaid gyrru cydnabyddiaeth. Os nad yw'n debygol bod y gwyn yn derbyn ymateb o few 5 diwrnod gwaith mi fydd angen gyrru cydnabyddiaeth. Bydd y gydnabyddiaeth yn nodi y bydd y mater yn derbyn sylw o fewn 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad derbyn ac yn cadarnhau enw a rhif ffôn y swyddog cyswllt. Os nad yw'r gwasanaeth yn gallu ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith mae angen gyrru llythyr new e-bost dal ar yr 8fed diwrnod neu trwy alwad ffôn.. Mae'n hynod bwysig cadw mewn cysylltiad â'r cwsmer i adael iddynt wybod beth sy'n digwydd a hefyd i ddiweddaru'r cofnod i ddangos bod y mater yn derbyn sylw.

4.1.6 Er y dylid gwneud pob ymdrech i gyfeirio'r achwynydd i'r maes gwasanaeth yn y lle cyntaf, bydd achlysuron yn codi lle mae'r achwynydd yn dewis cysylltu â swyddogion neu feysydd gwasanaeth eraill, fel y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, yr Adain Archwilio Mewnol, y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid, y Swyddog Iaith Gymraeg ac ati.

4.1.7 Yn y fath achosion bydd angen i'r sawl sy'n derbyn y gwyn benderfynu a fydd yn delio â hi ynteu'n ei throsglwyddo i faes gwasanaeth gwahanol. Pa benderfyniad bynnag a wneir, mae'n bwysig cofnodi'r manylion ar y system .................. a sicrhau bod y Swyddog Gofal Cwsmer yn ymwybodol o'r gwyn.

4.1.8 Gall gweithwyr dderbyn cwynion nad ydynt yn ymwneud â'u gwasanaethau eu hunain, ond gwasanaethau adran arall. Gall fod yn anodd gwybod i bwy y dylid cyfeirio'r achwynydd, ond ar y lleiaf, dylai'r holl weithwyr fedru cyfeirio'r achwynydd at y Swyddog Gofal Cwsmer a fydd wedyn yn rhoi'r cyngor priodol i'r achwynydd.

4.1.9 Yn yr un modd, gall gweithwyr dderbyn cwyn sydd yn ymwneud nid yn unig â'u gwasanaeth eu hunain ond gwasanaeth adain/adran arall hefyd. Yn yr achosion hyn - oherwydd ei bod hi'n annhebygol y bydd gan y gweithwyr hyn yr awdurdod



DRAFFT

angenrheidiol i ddatrys cwyn ar ran gwasanaeth arall - dylid cymryd manylion y gŵyn a'i chyfeirio wedyn i'r Swyddog Gofal Cwsmer.

4.1.10 Ar ôl i'r gŵyn gael sylw mae'n rhaid cofnodi hynny ar y system ................ Mae'n bwysig cofnodi'r camau a gymerwyd ac, os yw hynny'n briodol, dylid atodi copi o'r ohebiaeth (llythyrau ac e-byst) i'r cofnod. Os nad oes modd gwneud hynny, dylid danfon copi at y Swyddog Gofal Cwsmer wedi ei farcio'n glir gyda'r cyfeirnod unigryw. Y rheswm am hyn yw er mwyn cadw cofnod canolog rhag ofn na fydd yr achwynydd yn fodlon gyda'r ymateb neu os bydd yn gwneud cŵyn debyg eto yn y dyfodol.

4.1.11 Os yw gweithiwr/gweithwraig yn credu ei fod/bod wedi rhoi sylw llawn i'r mater ac nad oes modd ychwanegu dim, rhaid rhoi gwybod i'r achwynydd sut i fwrw ymlaen i Gam 2 os nad ydynt yn fodlon gyda chanlyniad y gŵyn ar ddiwedd cam 1. Dylid cynnwys yr isod yn yr ymateb Cam 1:

> "Os nad ydych yn fodlon gyda'r ymateb hwn cysylltwch os gwelwch yn dda gyda'r Swyddog Gofal Cwsmer trwy e-bost, post neu ar y ffôn – *manylion yma*. Gofynnir i chi egluro pam nad ydych yn fodlon gyda'r canlyniad a rhoddir cyfle i chi gyfeirio'r gŵyn i'w hystyried dan Gam 2 y polisi pryderon a chwynion."

4.1.12 Efallai y bydd achwynwyr yn dymuno rhoi'r gŵyn ar drywydd cyflym yn syth i Gam 2, yn arbennig os bu anghytuno gyda gweithwyr sy'n uniongyrchol gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth. Mae gan yr achwynydd hawl i fynd â'r gŵyn yn syth i Gam 2 y weithdrefn a dylai gweithwyr roi gwybod iddynt sut y gellir gwneud hynny.

4.1.13 Anogir gweithwyr i ddarparu gwybodaeth briodol ynghylch cyngor ac eiriolaeth yng Ngham 1. Fodd bynnag, cydnabyddir nad ydynt yn gwybod efallai am yr holl fathau o gymorth sydd ar gael (ac nad oes disgwyl iddynt wybod) yn arbennig



DRAFT

pan fônt yn gweithio mewn maes arbenigol eu hunain.  Serch hynny, dylai Swyddog Tai, er enghraifft, fod â digon o wybodaeth i roi cyngor i achwynydd gyda chwyn am fater tai am wasanaethau sefydliadau fel Shelter Cymru.

4.1.14 Mae'r Swyddog Gofal Cwsmer ar gael fel ffynhonnell o gymorth ar gyfer gweithwyr rheng flaen ar gyfer datrys cwynion yn lleol.

## 5.0 Cam 2 - Ymchwilio Mewnol Ffurfiol

5.1.1 'Ymchwilio unwaith, ymchwilio'n dda' yw egwyddor y cam hwn o'r broses. Mae'r pwyslais yn cael ei roi ar un ymchwiliad i ddelio'n drylwyr â'r pryderon a godwyd, yn hytrach nag ar amryw o ymchwiliadau ar wahanol lefelau yn y sefydliad sy'n gallu arwain at ymchwiliadau hir ac, weithiau, penagored. Fodd bynnag, mae elfen Cam 2 y broses gwyno wedi'i bwriadu i fod yn hyblyg i ymateb yn briodol i'r gŵyn. Mae 'ymchwilio'n dda' hefyd yn golygu cynnal ymchwiliad mewn ffordd sy'n gymesur â natur y gŵyn a pha mor ddifrifol yw. Mae cymesur yn golygu na fydd angen, efallai, i'r ymchwiliad i'r cwynion hynny nad ydynt mor ddifrifol eu natur fod mor fanwl.

5.1.2 Dylai cwynion Cam 2 gael eu hanfon gan yr achwynydd at y Swyddog Gofal Cwsmer a dylai'r sawl sy'n derbyn ffurflen gwyno ei hanfon ymlaen yn ddiymdroi.

5.1.3 Ar ôl derbyn cwyn yn ffurfiol ar Gam 2, dylai cydnabyddiaeth gael ei hanfon gan y Swyddog Gofal Cwsner cyn gynted a phosib ond o fewn 5 diwrnod gwaith fan bellaf

5.1.4 Os yw'r gŵyn 'allan o amser' – h.y. fod y mater y mae'r gŵyn amdano yn hŷn na 6 mis (o'r adeg y daeth yr achwynydd yn ymwybodol o'r broblem gyntaf), dylid ystyried a oes rhesymau da dros ei derbyn beth bynnag.



DRAFT

5.1.5 Mi fydd y Swyddog Gofal Cwsmer yn cynnig trafod y mater gyda'r achwynydd, yn cynnwys:

- helpu'r sawl sy'n cwyno I ddeall y broses
- cadarnhau gyda ef y dull cyfathrebu y mae'n ei ffafrio a'r hyn y mae am iddo ddigwydd o ganlyniad iddo wneud y gŵyn

5.1.6 Mi fydd y wybodaeth yn cael ei nodi ar y system …… gan y Swyddog Gofal Cwsmer

5.1.7 Yn dibynnu ar natur y gŵyn gall fod yn angenrheidiol cael caniatâd yr achwynydd i weld eu ffeil bersonol. Os bydd yr achwynydd yn gwrthod rhoi caniatâd, yna bydd angen esbonio iddynt y bydd hyn yn effeithio ar y gallu i gynnal ymchwiliad trwyadl.

5.1.8 Os yw'r achwynydd yn cwyno ar ran rhywun arall, bydd yn rhaid ystyried a oes angen caniatâd ysgrifenedig i ymchwilio i'r gŵyn.

5.1.9 Ar ôl bodloni ei hun ei fod wedi deall manylion y gŵyn yn ddigonol, dylai'r Swyddog Gofal Cwsmer:

- nodi swyddog yn y sefydliad sydd ar lefel ddigon uchel, â hygrededd ac sy'n ddigon annibynnol o ffynhonnell y gŵyn i gynnal yr ymchwiliad:
- yn dibynnu ar natur y gŵyn, gallai hwn fod yn rhywun o'r adran/ gwasanaethl, ond gallai fod gofyn cael rhywun sy'n annibynnol o'r adran/gwasanaeth, yn cynnwys o bosibl y Swyddog Gofal Cwsmer ei hun.
- wrth benderfynu ar swyddog cyswllt, dylai'r Swyddog Gofal Cwsmer ystyried a fydd angen i'r ymchwiliad rychwantu mwy nag un gwasanaeth, a lefel pa mor uchel sy'n ofynnol i ymchwilio ar draws yr holl feysydd hynny.



DRAFFT

5.1.10 Ar ôl cofnodi'r gŵyn ar y system ymdrin â chwynion wedi iddi ddod i law, dylai'r Swyddog Gofal Cwsmer gadw llygad ar hynt yr ymchwiliad (a'i gofnodi) a bod yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn mynd rhagddo'n esmwyth, ac y cedwir at y terfynau amser. Fel arfer dylai proses gwyno cam 2 gael ei chwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith. Lle nad yw hyn yn bosib, rhaid rhoi gwybod i achwynwyr am y rhesymau ac iddynt gytuno i unrhyw estyniad. Sut bynnag, dylai fod cyswllt rheolaidd â'r achwynydd, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt yr achos.

5.1.11 Gall achwynydd dynnu eu pryder yn ôl unrhyw bryd, ond, mae'n bosib y bydd y Cyngor dal i ymchwilio os yw'n teimlo ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny.

5.1.12 Os, yn dilyn derbyn ystyriaeth lawn ac wedi ymchwilio i mewn i'r gwyn os oedd angen, does dim byd pellach yn bosib, bydd angen dweud wrth yr achwynydd am yr hawl i fynd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 5.2 Ymchwiliadau i Gwynion

5.2.1 Dylai ymchwiliad i gŵyn fod yn ymarferiad canfod ffeithiau sy'n ddiduedd, yn agored, yn dryloyw ac yn gymesur â difrifoldeb y gŵyn. Gyda chwynion difrifol, mae angen llunio cynllun fel bod modd ymchwilio'n systematig i'r gŵyn.

5.2.2 Fodd bynnag, er bod y gŵyn wedi cyrraedd Cam 2, efallai fod potensial o hyd i ddatrys y pryder mewn modd sy'n bodloni'r achwynydd drwy 'ateb cyflym' a heb orfod ymgymryd ag ymchwiliad llawn a maith. Dylid ystyried a yw hyn yn bosibl. Dylid ystyried hefyd a fyddai cyfarfodydd wyneb yn wyneb a/neu gyfryngu yn ffordd o ddatrys y gŵyn efallai.

DRAFT

5.2.3 Gall casglu tystiolaeth gynnwys:

- gohebiaeth (llythyron a negeseuon e-bost)
- nodiadau o sgyrsiau dros y ffôn
- polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
- canllawiau ymarfer da
- cofnodion (yn cynnwys y rheini sy'n ymwneud yn benodol â'r gŵyn dan sylw a chofnodion hyfforddi'r staff y mae a wnelont â'r gŵyn)
- deddfwriaeth
- cyfweliadau (yn cynnwys cymryd nodiadau manwl)
- cynlluniau ac ymweliadau safle
- tystiolaeth ffotograffig
  recordiadau mewn gwahanol fformatau (e.e. ffôn, fideo, Teledu Cylch Cyfyng)
- cael cyngor proffesiynol/arbenigol
- cofnodion hyfforddi staff perthnasol.

5.2.4 Dylai argymhellion sy'n deillio o ymchwiliadau fod yn CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol). Ar ddiwedd ymchwiliad, dylai canlyniad ysgrifenedig, megis llythyr neu e-bost, gael ei gynhyrchu ac, mewn achosion mwy difrifol, adroddiad. Lle caiff adroddiad ei gynhyrchu dylai hwn gynnwys, lle mae'n briodol:

- cwmpas yr ymchwiliad:
- crynodeb o'r ymchwiliad:

  - manylion y materion allweddol, yn nodi cronoleg y digwyddiadau a arweiniodd at y gŵyn yn fyr
  - y rhai a gafodd eu cyfweld (yn cynnwys nodi i ba raddau y bu gan yr achwynydd ac, os yw'n briodol, unrhyw berthnasau yr effeithiwyd arnynt, eiriolwyr, ac ati, ran yn yr ymchwiliad)

- Y casgliad

  - os canfyddwyd bod cyfiawnhad i'r gŵyn/ wedi ei ei chadarnhau:
  - sut y digwyddodd – h.y. beth aeth o le

- pam y digwyddodd – h.y. achos sylfaenol y broblem (e.e. camgymeriad dynol, methiant systemig)
- pa effaith a gafodd ar yr achwynydd

- os oedd methiant systemig wedi cael ei ganfod, eglurhad o'r camau a gymerwyd i gywiro pethau, gyda golwg ar sicrhau nad yw'r un broblem yn digwydd eto;
    - os yw'n briodol, ymddiheuriad
    - os yw'n briodol, cynnig o iawn
    - os nad yw'r gŵyn wedi cael ei chadarnhau, dylid esbonio pam y daethpwyd i'r casgliad hwn, gan ddangos y daethpwyd iddo ar sail y dystiolaeth a gasglwyd

- Drwyddo draw dylai'r adroddiad ddangos bod y gŵyn wedi cael ei chymryd o ddifrif o'r dechrau i'r diwedd, fod yr ymchwiliad a gynhaliwyd wedi bod yn deg ac, yn unol â difrifoldeb y gŵyn, ei fod wedi bod yn drwyadl i raddau cymesur

- Hyd yn oed mewn achosion lle mae ymchwiliad yn cadarnhau'r gŵyn ac yn cynnig rhwymedi/iawn, efallai y bydd yr achwynydd yn dal yn anfodlon am ryw reswm. Felly, ym mhob achos, dylai'r adroddiad hysbysu'r achwynydd fod ganddo'r hawl, os yw'n dal yn anfodlon, i ofyn am i'w gŵyn gael ei hystyried yn allanol yn annibynnol. Dylai gwybodaeth am wneud cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac eraill priodol sy'n delio â chwynion gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg gael ei darparu.

DRAFT

### 5.3 Y camau terfynol

5.3.1 Cyfeiriwyd eisoes at y ffaith y bydd cwynion yn amrywio o ran eu difrifoldeb. Bydd adegau pan fyddai'n briodol i'r Swyddog Gofal Cwsmer lofnodi bod y gwyn ar ben (h.y. arwyddo unrhyw lythyr neu adroddiad), ar adegau eraill y Cyfarwyddwr neu Pennaeth Gwasanaeth ac ar adegau eraill y Prif Weithredwr. Fodd bynnag, bydd y Swyddog Gofal Cwsmer yn darparu adroddiadau chwarterol i'r Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth.

5.3.2 Mewn achosion lle mae cwyn wedi cael ei chadarnhau neu lle mae problem systemig amlwg, dylai'r Cyfarwyddwr neu'r Rheolwr priodol sicrhau bod cynllun gweithredu'n cael ei lunio, mewn cysylltiad â'r Swyddog Cwynion Adrannol, yn nodi sut y caiff yr argymhellion eu gweithredu ac yn enwi'r sawl a fydd yn gyfrifol am eu gweithredu. Dylai'r cynllun hefyd gynnwys trefniadau ar gyfer cadarnhau i'r achwynydd bod newidiadau wedi'u gweithredu a gwneud darpariaeth i fonitro a gwerthuso trefniadau newydd a gaiff eu cyflwyno er mwyn asesu eu heffaith.

5.3.3 Pan gaiff achos cwyno ei gau, dylai'r Swyddog Gofal Cwsmer (neu Uwch Swyddog) sicrhau bod y dogfennau gwaith a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymchwiliad yn cael eu cadw mewn ffordd drefnus a'u storio'n ddiogel. Os daw'r gŵyn yn destun ymchwiliad allanol pellach, megis gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, efallai y bydd angen y dogfennau gwaith hyn fel tystiolaeth y Cyngor. Dylid cadw cofnodion achosion cwyno am o leiaf dwy flynedd ar ôl cau'r achos ar ddiwedd Cam 2.

### 5.4 Cwynion sy'n Cynnwys Achosion Cyfreithiol neu Ddisgyblu Eraill

5.4.1 Weithiau, daw cwynion i law a fydd yn cynnwys achosion cyfreithiol neu ddisgyblu. O bryd i'w gilydd efallai y bydd rhaid oedi cyn ymchwilio i gŵyn nes bydd yr achosion hynny wedi dod i ben. Fodd bynnag, ni ddylid tybio'n awtomatig fod hyn yn angenrheidiol ym mhob achos. Dylid gwneud asesiad (gan geisio cyngor cyfreithiol, os yw hynny'n briodol) i ganfod a yw'n bosibl ymdrin â thestun y gŵyn heb effeithio'n annheg ar yr achosion eraill sydd ar y gweill. Mae'n

bwysig, os yw achwynydd o dan anfantais barhaus o ganlyniad yn ôl pob tebyg i gyflwyno gwasanaethau'n wael, fod pob cam yn cael ei gymryd i ddod â'r rhan hon o'r gŵyn i ben. Bydd hyn yn golygu, os caiff y gŵyn ei chadarnhau, y dangoswyd bod y sefydliad yn gwneud popeth a all i'w roi'n ôl mor gyflym â phosibl yn y sefyllfa y byddai wedi bod ynddi pe na bai'r methiant hwnnw wedi digwydd yn y lle cyntaf.

**5.5 Cwynion yn ymwneud â mwy nag un darparwr gwasanaethau**

5.5.1 Mae adegau pan fydd cwyn a ddaw i law yn ymwneud â mwy nag un sefydliad. Mewn achos felly bydd rôl y Swyddog Gofal Cwsmer ychydig yn wahanol. Ar ôl sefydlu elfennau'r gŵyn a pha sefydliadau yw'r rhai perthnasol, dylai gysylltu â'i swyddog(ion) cyfatebol yn y sefydliad(au) arall/eraill dan sylw. Dylai'r swyddogion cwynion wedyn benderfynu pa un ohonynt ddylai arwain y gwaith o gyd-drefnu'r ymateb i'r achwynydd. Byddai'n ymddangos yn synhwyrol mai'r sefydliad sydd â'r rhan fwyaf yn y gŵyn ddylai wneud hyn. Fodd bynnag, efallai y bydd yn briodol i'r sefydliad sydd â'r adnodd mwyaf i ddelio â chwynion ymgymryd â'r rôl hon.

5.5.2 Rôl y swyddog cwynion a neilltuir i'r gŵyn dan sylw yw cyd-drefnu'r ymchwiliadau ym mhob un o'r meysydd gwasanaeth dan sylw. Y nod yn y pen draw, felly, yw darparu un ymateb 'cyfun' cynhwysfawr i'r achwynydd ar ran yr holl sefydliadau dan sylw.

5.5.3 Ceir cwynion lle mae pob elfen yn ddigon amlwg ac ar wahân fel mai'r cyfan a fydd yn ofynnol yw nodi manylion a chanlyniad pob llinyn ymchwilio ac ychwanegu casgliad cyffredinol wedyn at yr ymateb.

5.5.4 Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd rhai achosion lle bydd gofyn am gytundeb gan bawb dan sylw er mwyn datrys ac unioni cwyn ac y gallai hyn arwain at densiynau ac anghytuno. Lle mae anghytuno o'r fath yn golygu na ellir parhau, gallai olygu y bydd rhaid cyfeirio'r broblem at uwch reolwyr ym mhob un o'r

sefydliadau hyn (at y Prif Weithredwyr o bosibl, yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r mater) i geisio datrys y sefyllfa.

5.5.5 Lle nad oes modd datrys yr anghytuno wedyn, efallai mai doeth fydd cyfeirio'r mater bryd hynny at y corff annibynnol allanol perthnasol i ddelio â chwynion ar Gam 3 (e.e. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru). Fodd bynnag, dylid dweud wrth yr achwynydd am y bwriad hwn, ynghyd â'r rheswm drosto, a dylid gofyn iddo gytuno i hynny cyn cyfeirio'r gŵyn fel hyn.

**5.6 Gwasanaethau Partneriaeth**

5.6.1 Er nad yw'n rhan o weithdrefn delio â chwynion y Cyngor, bydd angen i'r Cyngor roi sylw i'r isod wrth lunio partneriaethau â sefydliadau tebyg a sefydliadau o fathau eraill.

5.6.2 Mae'r sefyllfa yng nghyswllt cwynion am wasanaethau partneriaeth yn wahanol eto, yn enwedig o ystyried na fydd pob partner efallai yn ddarostyngedig i'r weithdrefn enghreifftiol hon. Serch hynny, mae'n arfer llywodraethu da i bob partneriaeth a sefydlir gael protocol o'r cychwyn i ddelio â chwynion. Dylai'r protocol hwnnw ei gwneud yn glir ble yn y bartneriaeth y mae'r atebolrwydd am unrhyw wasanaethau sy'n cael eu cyflwyno – h.y. a yw'r cyfrifoldeb yn nwylo'r bartneriaeth fel endid, ynteu a yw pob partner yn atebol am agweddau penodol ar gyflwyno gwasanaethau?

5.6.3 A chofio y bydd llawer o aelodau yn y rhan fwyaf o bartneriaethau o ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r weithdrefn enghreifftiol hon, argymhellir bod y darparwyr hynny'n ceisio cytuno ar brotocol gyda'u partneriaid i ddelio â chwynion mewn ffordd sy'n cyfateb i'r model hwn.



DRAFFT

5.6.4 Yn arbennig, argymhellir:

- bod partneriaethau'n sefydlu proses delio â chwynion i'r gwasanaethau y maen nhw fel partneriaeth yn eu cyflwyno
- eu bod yn nodi un man cyswllt i gwynion mewn perthynas â'u gweithgareddau/ gwasanaethau ac yn rhoi cyhoeddusrwydd iddo
- bod y person/tîm a nodir yn cyd-drefnu'r gwaith o ymchwilio i'r gŵyn ar ran y bartneriaeth.
- bod y bartneriaeth yn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o'r cwynion a ddaw i law a'i bod yn ystyried a oes unrhyw wersi a ddylai gael eu rhannu'n fwy eang.

**5.7 Cwynion ynglŷn â gwasanaethau sydd wedi cael eu gosod ar gytundeb allanol**

5.7.1 Er bod y Cyngor efallai yn gosod y gwaith o ddarparu gwasanaethau ar gytundeb allanol i sefydliadau preifat/gwirfoddol, nid yw hynny'n eu rhyddhau o'u cyfrifoldeb dros y swyddogaethau hynny. Dylai'r Uwch Swyddogion sy'n gyfrifol am ddrafftio contractau fod yn ymwybodol o'r angen i gynnwys darpariaeth i ddelio â chwynion fel mater o drefn. Dylai hyn gynnwys gofyniad bod sefydliad sydd dan gontract i ddarparu gwasanaethau yn cydymffurfio â threfniadau tebyg i ddelio â chwynion (h.y. y ddau gam), a bod copi o'r adroddiad/llythyr canlyniad yn cael ei roi i'r Cyngor. Dylai sefydliadau o'r fath hefyd roi gwybod i achwynwyr am y trydydd cam allanol a'u hawl i gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**6. Dysgu Gwersi**

**6.1 Dysgu o gwynion/gwella'n barhaus**

6.1.1 Mi fydd yn Cyngor yn defnyddio gwybodaeth am gwynion i wella'r ffordd y mae sefydliad yn cyflwyno gwasanaethau ac i wneud hynny'n fwy effeithiol. I'r perwyl hwn, mi fydd y Cyngor yn:

- Sicrhau bod y Swyddog Gofal Cwsmer, o bryd i'w gilydd, yn adolygu canlyniad pob cwyn a'r argymhellion i ganfod a oes unrhyw batrymau i'r cwynion/gwersi ehangach i'w dysgu nad ydynt efallai yn amlwg o

gwynion unigol yn unig. Wrth ystyried y gwersi y mae modd eu dysgu o gŵyn, dylid asesu:

- A yw'r rhain yn gyfyngedig i'r adran/gwasanaeth dan sylw
- A oes iddynt oblygiadau i'r sefydliad drwyddo draw
- Neu yn wir a ydynt yn wersi y dylid eu rhannu ar draws y sector yn y gwasanaeth cyhoeddus neu yn wir ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yn ei gyfanrwydd yng Nghymru.

- Sicrhau bod adroddiadau ar gwynion yn cael eu hystyried yn rheolaidd gan uwch reolwyr, gan gynnwys dadansoddiad o'r data a gasglwyd a gwybodaeth am yr argymhellion a wnaethpwyd i wella'r ffordd o gyflwyno gwasanaethau.

- Sicrhau bod yr wybodaeth a gafodd yr uwch reolwyr yn cael ei defnyddio i dargedu unrhyw feysydd sy'n achosi problemau ac ystyried a oes potensial i wella polisïau, gweithdrefnau ac, yn sgil hynny, wasanaethau.

- Sicrhau bod y Pwyllgor Gwaith yn cael adroddiadau sy'n rhoi trosolwg o'r cwynion a ddaeth i law, yn nodi pa newidiadau sydd wedi cael eu gwneud o ganlyniad i'r wybodaeth am gwynion ac, ar ôl monitro'r ffordd y cawsant eu gweithredu, pa ganlyniadau a gafwyd.

- Sicrhau bod adroddiad blynyddol ar gwynion yn cael ei gynhyrchu, yn crisialu'r gwersi a ddysgwyd dros y cyfnod hwn ac yn dangos sut y maent wedi cyfrannu at wella'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno.

DRAFT

## 7. Cofnodi a monitro cwynion

7.1.1 Mae ffyrdd effeithiol o reoli cwynion yn casglu data penodol ac yn nodi problemau sy'n digwydd dro ar ôl tro neu broblemau sy'n bodoli ar draws y system. Dylai'r holl adborth a chwynion a ddaw i law gael eu cofnodi i sicrhau bod modd gwneud gwerthusiad cynhwysfawr o'r data. I'r perwyl hwn, bydd y Cyngor yn:

- Defnyddio y system…………..i gasglu data am gwynion ar draws y sefydliad
- Defnyddio'r system i helpu i olrhain cwynion a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r amserlenni

7.1.2 Mi fydd y data a gofnodir yn golygu bod modd cipio'r niferoedd a'r mathau o gwynion, eu canlyniadau a thueddiadau, i hwyluso cymariaethau â chyfnodau blaenorol ac i ganfod cwynion sy'n digwydd dro ar ôl tro neu ar draws y system. Bydd y system………… hefyd yn cipio pwyntiau o'r gwersi a ddysgwyd

7.1.3 Fel bod modd adnabod tueddiadau o fewn ac ar draws sefydliadau yng Nghymru, wrth gategoreiddio cwynion, dylid mabwysiadu'r pynciau cwyno lefel uchaf canlynol yn ôl y mathau o ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus a restrir isod:

• Gwasanaethau Cymdeithasol oedolion
• Gweinyddu budd-daliadau (Treth Gyngor/Tai/Arall)
• Gwasanaethau Cymdeithasol Plant
• Cyfleusterau cymunedol, adloniant a hamdden
• Addysg
• Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd
• Cyllid a'r Dreth Gyngor
• Tai
• Cynllunio a rheoli adeiladu
• Ffyrdd a thrafnidiaeth (Priffyrdd a Hawliau Tramwy)
• Eraill amrywiol

## 8 Staff a Hyfforddiant

### 8.1 Staff

8.1.1 Er nad yw'n anghyffredin i bobl chwilio am rywun i'w feio pan fydd pethau'n mynd o chwith, dylai staff fod yn dawel eu meddwl nad dyna nod ymchwiliad. Dylid ei gwneud yn glir mai diben unrhyw gyfweliad a gaiff ei gynnal yw sefydlu ffeithiau fel rhan o ymchwiliad i gŵyn, ac nad yw'n rhan o unrhyw drefn ddisgyblu. (Fodd bynnag, gallai proses ddisgyblu ar wahân gael ei chynnal os yw hyn yn briodol.).

8.1.2 Wrth ofyn i staff ddod am gyfweliad, dylid dweud wrthynt beth yw pwrpas yr ymweliad, beth i'w ddisgwyl a pha baratoi y mae angen iddynt ei wneud. Dylid dweud wrthynt y cânt ddod â rhywun gyda nhw (cydweithiwr, er enghraifft) i'w cefnogi – er y dylid gwneud y sefyllfa o ran cyfrinachedd a'u rôl nhw yn glir. Dylid dweud wrthynt hefyd beth fydd yn digwydd ar ôl y cyfweliad.

8.1.3 Mae bod yn destun cwyn yn sefyllfa llawn straen beth bynnag ac, yn dibynnu ar amgylchiadau'r gŵyn a'r materion dan sylw, efallai y bydd yn ddoeth hysbysu'r sawl sy'n cael ei gyfweld am y cymorth/cwnsela i staff sydd ar gael.

8.1.4 Yn yr un modd ag y mae'n bwysig rhoi gwybod yn gyson i achwynwyr am hynt yr ymchwiliad a'i ganlyniad, mae'r un peth yn wir yng nghyswllt staff.

8.1.5 Yn ogystal â hysbysu staff o ganlyniadau cwynion ac unrhyw argymhellion sy'n codi, mi fydd ffordd hefyd (cylchlythyron staff, darparu'r adroddiad blynyddol ar MonItor) o ledaenu i'r staff sut y gall y ffordd y maen nhw'n delio â chwynion gyfrannu at well gwasanaethau cyhoeddus.

### 8.2 Hyfforddiant

8.2.1 Mi fydd adnoddau digonol ar gael i ddarparu'r swyddogaeth gwynion gan staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol.

8.2.2 Bydd y Swyddog Gofal Cwsmer yn gwneud asesiad o'r sgiliau a'r cymwyseddau sy'n ofynnol gan bawb sy'n ymwneud â'r broses gwyno a sicrhau bod strategaeth hyfforddi briodol wedi cael ei sefydlu

8.2.3 Bydd y Swyddog Gofal Cwsmer adolygu'n barhaus y nifer o swyddogion medrus a hyfforddedig sydd gan y sefydliad i gynnal ymchwiliadau a pharatoi adroddiadau arnynt. Bydd hyfforddiant cyffredinol yn cael ei gynnwys ar raglen anwytho'r Cyngor.

## 9. Gweithredu Annerbyniol gan achwynwyr

9.1.1 Mae'r polisi yn cydnabod y gall rhai pobl ymddwyn mewn ffordd sy'n groes i'w natur mewn cyfnodau o helbul neu drallod. Dylid cofio bod yr amgylchiadau a arweiniodd at gŵyn wedi peri gofid neu loes efallai. Ni ddylai ymddygiad achwynydd gael ei ystyried yn annerbyniol am fod rhywun yn egnïol neu'n benderfynol. Fodd bynnag, gall gweithredoedd achwynwyr sy'n ddig, yn mynnu rhywbeth neu'n daer arwain at ofynion afresymol ar y Cyngor neu ymddygiad annerbyniol tuag at staff. Y gweithredoedd hyn sy'n cael eu hystyried yn annerbyniol.

Felly mae'r gan y Cyngor bolisi 'gweithredoedd annerbyniol gan achwynwyr'. Gweler y ddogfen ar wahan.

DRAFT

**Swyddogion Cwynion yn yr Adrannau**

Mae gan bob adran/gwasanaeth swyddog pwrpasol ar gyfer delio gyda chwynion a phryderon. Am gyngor a gwybodaeth bellach cysylltwch â'r swyddogion canlynol:

| Adran/Gwasanaeth | Enw | E-bost | Ffôn |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

DRAFFT

# Polisi ar Weithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr

DRAFFT

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Polisi hwn yn nodi dull gweithredu Cyngor Sir Ynys Môn (Y Cyngor) yng nghyswllt y nifer cymharol fach o achwynwyr y bernir bod eu gweithredoedd neu eu hymddygiad yn annerbyniol. Mae'r term achwynydd yn cynnwys unrhyw un sy'n gweithredu ar ran achwynydd neu sy'n cysylltu â'r Cyngor mewn perthynas â chŵyn.

## 2. Nodau'r Polisi

2.1 Nodi'n glir wrth bob achwynydd, yn y cyswllt cyntaf a thrwy gydol eu hymwneud â'r Cyngor, beth y gall neu na all y Cyngor ei wneud mewn perthynas â'u cwyn. Wrth wneud hyn, y nod yw bod yn agored a pheidio â chodi gobeithion neu ddisgwyliadau os nad ydynt yn debygol o gael eu gwireddu.

2.2 Delio'n deg, yn onest, yn gyson ac yn briodol gyda phob achwynydd, gan gynnwys y rhai hynny y bernir bod eu gweithredoedd yn annerbyniol. Cred y Cyngor bod gan bob achwynydd hawl i gael ei glywed, ei ddeall a'i barchu. Bernir hefyd bod gan staff y Cyngor yr un hawliau.

2.3 Darparu gwasanaeth y gall pob achwynydd ei ddefnyddio. Fodd bynnag, lle bernir bod gweithredoedd achwynydd yn annerbyniol, cedwir yr hawl i gyfyngu neu i newid yr hawl i ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor.

2.4 Sicrhau nad yw achwynwyr eraill na staff y Cyngor yn cael eu rhoi dan unrhyw anfantais o ganlyniad i achwynwyr sy'n gweithredu mewn modd annerbyniol.

## 3. Diffinio Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr

3.1 Bydd pobl yn gweithredu'n groes i'w cymeriad ambell waith pan fônt mewn trafferthion neu os ydynt yn poeni am rywbeth. Mae'n bosib bod amgylchiadau'r achwynydd cyn i gŵyn gael ei wneud wedi peri llawer o ofid neu boen meddwl. Nid yw'r Cyngor yn ystyried ymddygiad fel ymddygiad annerbyniol dim ond oherwydd bod hawlydd yn egnïol neu'n benderfynol. Mewn gwirionedd, derbynnir bod dal ati yn gallu bod o fantais bendant wrth ystyried cwyn. Fodd bynnag, gall gweithredoedd achwynwyr sy'n flin, sy'n gwneud llawer o ofynion ac sy'n gwrthod ildio arwain at bwysau afresymol ar y swyddfa neu ymddygiad annerbyniol



DRAFT

tuag at staff y Cyngor. Y gweithredoedd hyn sy'n cael eu hystyried yn annerbyniol, a dyma'r rhai y mae'r polisi hwn yn ceisio eu rheoli. Mae'r Ombwdsmon wedi grwpio'r gweithredoedd hyn dan dri phennawd cyffredinol:

**Ymddygiad Ymosodol neu Ddifrïol**

(i) Nid yw trais wedi ei gyfyngu i weithredoedd ymosodol a allai arwain at niwed corfforol. Mae hefyd yn cynnwys ymddygiad neu iaith (lafar neu ysgrifenedig) a allai wneud i'r staff deimlo'n ofnus, eu bod dan fygythiad neu eu bod yn cael eu sarhau.

(ii) Mae'r ymddygiadau sy'n cael eu grwpio dan y pennawd hwn yn cynnwys bygythiadau, trais corfforol, camdriniaeth eiriol bersonol, sylwadau difrïol ac anghwrteisi. Bernir hefyd bod datganiadau ymfflamychol a honiadau di-sail yn gallu bod yn ymddygiad difrïol.

(iii) Rydym yn disgwyl i bobl fod yn gwrtais tuag at ein staff a dangos parch tuag atynt. Mae trais neu ddiffyg parch tuag at staff yn annerbyniol. Mae staff y Cyngor yn deall y gwahaniaeth rhwng agwedd ymosodol a dicter. Mae'r dicter a deimlir gan lawer o achwynwyr yn ymwneud â thestun eu cwyn. Fodd bynnag, nid yw'n dderbyniol pan fo dicter yn troi'n agwedd ymosodol tuag at staff y Cyngor.

**Gofynion Afresymol**

(i) Gall achwynwyr gyflwyno gofynion sy'n cael eu hystyried yn ofynion afresymol i'r Cyngor oherwydd yr holl wybodaeth y maent yn gofyn amdani, natur a maint y gwasanaeth y maent yn ei ddisgwyl neu nifer y troeon y maent yn cysylltu â'r swyddfa. Bydd yr hyn a ystyrir fel gofynion afresymol yn dibynnu bob amser ar yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r ymddygiad a pha mor ddifrifol yw'r materion sy'n cael eu codi gan yr achwynydd.

(ii) Mae enghreifftiau o weithredoedd sy'n cael eu grwpio dan y pennawd hwn yn cynnwys ymatebion anodd o fewn amserlen afresymol, mynnu gweld neu siarad ag aelod penodol o'r staff, galwadau ffôn neu lythyrau parhaus, newid sylwedd y gŵyn drosodd a throsodd neu godi materion amherthnasol.

(iii) Mae'r gofynion hyn yn cael eu hystyried yn annerbyniol ac yn afresymol os ydynt yn dechrau cael effaith sylweddol ar waith y swyddfa, er enghraifft drwy gymryd gormod o amser y staff ar draul cwynion neu swyddogaethau eraill.

**Dal Ati'n Afresymol**

(i) Cydnabyddir y bydd rhai achwynwyr yn gwrthod neu'n methu â derbyn nad yw'r Cyngor yn gallu rhoi rhagor o gymorth iddynt na darparu gwasanaeth ar wahân i'r hyn a ddarparwyd yn barod. Mae'n bosib y bydd achwynwyr yn dal ati i anghytuno â'r weithred neu'r penderfyniad a wnaethpwyd mewn perthynas â'u cwyn neu'n cysylltu â'r swyddfa o hyd ac o hyd am yr un mater.

(ii) Mae gweithredoedd sy'n cael eu grwpio dan y pennawd hwn yn cynnwys gwrthod derbyn penderfyniad a wnaethpwyd mewn perthynas â chŵyn dro ar ôl tro, gwrthod derbyn eglurhad dro ar ôl tro ynglŷn â'r hyn y gall neu na all y swyddfa hon ei wneud a dal ati i geisio cael sylw i gŵyn heb gyflwyno unrhyw wybodaeth newydd. Mae'n bosib bod y ffordd y mae'r achwynwyr hyn yn cysylltu â'r Cyngor yn gwbl resymol, ond eu hymddygiad parhaus wrth ddal ati i weithredu fel hyn sy'n afresymol.

(iii) Bernir bod gweithredoedd achwynwyr mynych yn annerbyniol pan fônt yn cymryd yr hyn sydd ym marn y Cyngor yn gyfran anghymesur o amser ac adnoddau'r swyddfa.

## 4. Rheoli Gweithredoedd Annerbyniol Achwynwyr

4.1 Ychydig iawn o achwynwyr sydd â'u gweithredoedd yn cael eu hystyried gan y Cyngor fel rhai annerbyniol. Mae sut y rheolir y gweithredoedd hyn yn dibynnu ar eu natur a'u maint. Os yw'n cael effaith andwyol ar allu'r Cyngor i wneud ei waith a darparu gwasanaeth i eraill, mae'n bosib y bydd angen cyfyngu ar y cysylltiad a gaiff yr achwynydd â'r Cyngor er mwyn rheoli'r gweithredu annerbyniol. Y nod fydd gwneud hyn, lle bynnag y bo modd, mewn ffordd sy'n caniatáu i gŵyn fynd drwy'r Broses Gwynion yn ei chyfanrwydd. Gellir cyfyngu ar gysylltiad personol, dros y ffôn, ffacs, llythyr neu gyfrwng electronig neu drwy unrhyw gyfuniad o'r rhain. Gwneir pob ymdrech i geisio cadw o leiaf un trywydd cysylltu.

4.2 Mae'r bygythiad neu'r defnydd o drais corfforol, camdriniaeth eiriol neu aflonyddu ar staff y Cyngor yn debygol o arwain at ddiddymu pob cyswllt uniongyrchol â'r achwynydd. Gellir dwyn achosion i sylw'r

DRAFT

heddlu. Bydd hyn yn digwydd bob amser os yw trais corfforol yn cael ei ddefnyddio neu ei fygwth.

4.3 Ni fydd y Cyngor yn delio gyda gohebiaeth (llythyr, ffacs na gohebiaeth electronig) sy'n sarhau staff neu sy'n cynnwys honiadau di-sail. Pan fo hyn yn digwydd dywedir wrth yr achwynydd bod ei iaith yn cael ei hystyried yn dramgwyddus, nad oes galw am iaith o'r fath ac nad yw o unrhyw gymorth i'r sefyllfa. Gofynnir iddo roi'r gorau i ddefnyddio iaith o'r fath a bydd y Cyngor yn nodi na fydd yn ymateb i'w ohebiaeth onid yw'n rhoi'r gorau i ddefnyddio iaith o'r fath. Gall y Cyngor ofyn i'r achwynydd gysylltu yn y dyfodol drwy gyfrwng trydydd parti.

4.4 Bydd staff y Cyngor yn terfynu galwadau ffôn os ydynt o'r farn fod y galwr yn ymosodol, yn sarhaus neu'n peri tramgwydd. Mae gan yr aelod o'r staff sy'n cymryd yr alwad hawl i wneud y penderfyniad hwn, i ddweud wrth y galwr bod yr ymddygiad yn annerbyniol ac i ddod â'r alwad i ben os nad yw'n rhoi'r gorau i'r ymddygiad.

4.5 Lle bo achwynydd yn ffonio dro ar ôl tro, yn ymweld â'r swyddfa dro ar ôl tro, yn anfon dogfennau amherthnasol neu'n codi'r un materion, gall y Cyngor benderfynu:

- derbyn galwadau ffôn gan yr achwynydd ar adegau penodol ar diwrnodau penodol yn unig neu drefnu mai dim ond un aelod o'r staff sy'n delio gyda galwadau neu ohebiaeth gan yr achwynydd yn y dyfodol.

- gofyn i'r achwynydd wneud apwyntiad i weld aelod enwebedig o'r staff cyn ymweld â'r swyddfa (mewn achosion fel hyn bydd 2 swyddog yn bresennol yn y cyfarfod a gofynnir i'r achwynydd ddod ac ail berson gyda nhw) neu fod yr achwynydd yn cysylltu â'r swyddfa yn ysgrifenedig yn unig.

- dychwelyd y dogfennau i'r achwynydd neu, mewn achosion eithafol, cynghori'r achwynydd y bydd dogfennau amherthnasol eraill yn cael eu dinistrio.

- cymryd camau eraill sy'n briodol yn ein barn ni. Bydd y Cyngor, fodd bynnag, bob amser yn dweud wrth yr achwynydd pa gamau sy'n cael eu cymryd a pham.

4.6 Lle bo achwynydd yn parhau i ohebu ynglŷn ag amrediad eang o faterion, a bod hynny'n cael ei ystyried yn ormodol, yna dywedir wrth yr achwynydd mai dim ond nifer penodol o faterion fydd yn cael eu

DRAFT

hystyried mewn cyfnod penodol a gofynnir iddo gyfyngu neu ganolbwyntio ei geisiadau yn unol â hynny.

4.7 Byddai gweithredoedd achwynydd yn cael eu hystyried yn afresymol os yw'r holl drefniadau adolygu mewnol wedi eu dilyn ac os yw'r achwynydd yn dal i anghytuno â phenderfyniad y Cyngor mewn perthynas â'i gŵyn. Dywedir wrth yr achwynydd na dderbynnir rhagor o alwadau ffôn yn y dyfodol ac na chaniateir cyfweliadau yn ymwneud â'r gŵyn hon. Rhaid i unrhyw gysylltiad yn y dyfodol gan yr achwynydd ynglŷn â'r mater hwn fod yn ysgrifenedig. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y dyfodol yn cael ei darllen a'i ffeilio, ond ni fydd yn cael ei chydnabod ac ni fyddir yn ymateb iddi oni bai fod yr achwynydd yn darparu gwybodaeth newydd o bwys yn ymwneud â'r gŵyn.

## 5. Penderfynu Cyfyngu Cyswllt yr Achwynydd

5.1 Mae gan staff y Cyngor sy'n cael profiad uniongyrchol o ymddygiad ymosodol neu sarhaus gan achwynydd yr hawl i ddelio ar unwaith â'r ymddygiad hwnnw mewn modd sy'n briodol yn eu barn hwy i'r sefyllfa ac sy'n unol â'r polisi hwn.

5.2 Ac eithrio penderfyniadau o'r fath sy'n cael eu gwneud ar unwaith ar adeg digwyddiad, dim ond ar ôl i aelod uwch o'r staff ystyried y sefyllfa'n ofalus y bydd penderfyniadau i gyfyngu cyswllt â'r Cyngor yn cael eu gwneud. Lle bo modd, rydym yn rhoi cyfle i achwynydd newid ei ymddygiad neu ei weithredoedd cyn i benderfyniad gael ei wneud. Hysbysir achwynwyr yn ysgrifenedig ynglŷn â'r rheswm pam bod penderfyniad wedi ei wneud i gyfyngu cyswllt yn y dyfodol, y trefniadau ar gyfer y cyfyngiadau cysylltu ac, os yn berthnasol, am faint o amser y bydd y cyfyngiadau hyn mewn grym.

## 6. Apelio yn erbyn Penderfyniad i Gyfyngu ar Gysylltiad

6.1 Gall achwynydd apelio yn erbyn penderfyniad i gyfyngu ar gysylltiad. Bydd uwch aelod o'r staff nad yw wedi bod yn ymwneud â'r penderfyniad gwreiddiol yn ystyried yr apêl. Byddant yn hysbysu'r achwynydd yn ysgrifenedig naill ai bod y trefniadau ar gyfer y cyfyngiadau cysylltu yn dal i fod yn berthnasol neu eu bod cytuno ar drefniant gwahanol.



DRAFT

## 7. Cofnodi ac Adolygu Penderfyniad i Gyfyngu ar Gysylltiad

7.1 Mae'r Ombwdsmon yn cofnodi pob achos o weithredu annerbyniol ar ran achwynwyr. Lle penderfynir cyfyngu ar gysylltiad achwynydd, gwneir cofnod o hyn yn y ffeil berthnasol ac mewn cofnodion cyfrifiadurol priodol.

7.2 Gellir ailystyried penderfyniad i gyfyngu ar gysylltiad achwynydd os yw'r achwynydd yn dangos agwedd fwy derbyniol.

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | CYNGOR |
| **DYDDIAD:** | 5 MAWRTH 2013 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | NEWID I'R POLISI INDEMNIADAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | Y PENNAETH SWYDDOGAETH CYFREITHIOL A GWEINYDDOL / SWYDDOG MONITRO |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I GYDYMFFURFIO AG ARGYMHELLIAD LLYWODRAETH CYMRU DYDDIEDIG 15 IONAWR 2013 |

1. **CYD-DESTUN**

1.1 Ar 9 Mehefin 2011 fe ddefnyddiodd y Cyngor ei ddisgresiwn i fabwysiadu Polisi Indemniadau. Mae'r Polisi yn cynnwys indemniad i Aelodau i amddiffyn achosion a ddygwyd gan yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru mewn cysylltiad â honiadau o dorri'r Côd Ymddygiad.

1.2 Yr Is-Bwyllgor Indemniadau sy'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau am indemniad, sef Is-Bwyllgor y Cyngor, gyda phwerau llawn i weithredu.

1.3 Ers Mehefin 2011 mae'r Is-Bwyllgor Indemniadau wedi rhoi tri indemniad ac er nad yw'r Polisi yn cynnwys cap ariannol, mae'r Is-Bwyllgor hyd yn hyn wedi gosod cap o ddeng mil o bunnoedd ym mhob achos.

1.4 Fodd bynnag, nid yw'r agwedd hon bob amser wedi cael ei hadlewyrchu mewn Cynghorau eraill, a chanlyniad hynny fu i Lywodraeth Cymru fynegi pryderon mewn llythyr i'r Arweinydd, dyddiedig 15 Ionawr 2013. Mae copi ynghlwm ym **Mhapur 1**. Mae'r adrannau perthnasol wedi eu hamlygu.

1.5 Gofynnwyd i'n Harweinyddion Grwpiau am eu barn ynglŷn â chais Llywodraeth Cymru ac y maent o'r farn y dylid diwygio'r polisi cyfredol i gynnwys cap o ugain mil o bunnoedd mewn achosion sy'n ymwneud ag amddiffyn cwynion Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.

1.6 Ym **Mhapur 2** fe geir copi o Benderfyniad y Cyngor ar 9 Mehefin 2011, gyda'r newidiadau a awgrymir wedi eu hamlygu.

1.7 Ym **Mhapur 3** fe geir copi o'r Polisi a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn ar 9 Mehefin 2011, gyda'r newidiadau a awgrymir wedi eu hamlygu.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Cyngor yn diwygio ei Bolisi Indemniadau i osod uchafswm Indemniad o ugain mil o bunnoedd i amddiffyn gweithgareddau a ddygwyd gan yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru o dan y Côd Ymddygiad.

2.2 Bod uchafswm yr indemniad yn cael ei osod trwy gyfrwng y newidiadau a awgrymir ac a amlygir ym **Mhapurau 2 a 3**.

PAPUR / ENCLOSURE
1

**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**
**Minister for Llywodraeth Leol and Communities**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref
At:
Arweinwyr, Cynghorau Sir a
Chynghorau Bwrdeistref Sirol

Cadeiryddion, Awdurdodau Tân ac
Achub

Cadeiryddion, Awdurdodau
Parciau Cenedlaethol

15 Ionawr 2013

**FFRAMWAITH MOESEGOL LLYWODRAETH LEOL**

Ysgrifennaf i fynd ar drywydd agweddau ar Bapur Gwyn y llynedd sef 'Promoting Lleol Democracy' sy'n ymdrin â materion yn ymwneud â gweithredu'r fframwaith moesegol a sefydlwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000").

Roedd y 'Rhaglen Lywodraethu', a gyhoeddwyd ym Medi 2011, yn cynnwys ymrwymiad i adolygu'r broses ar gyfer gwneud cwyn o dan god ymddygiad aelodau llywodraeth leol i sicrhau na chaiff ei defnyddio ond at y diben y'i bwriadwyd ar ei gyfer.

Cyfleodd Papur Gwyn y llynedd ein barn bod y fframwaith presennol yng Nghymru, a seiliwyd ar set gyffredin o egwyddorion arweiniol a chod ymddygiad enghreifftiol statudol, yn darparu cydbwysedd priodol rhwng rhoi arweiniad i aelodau ar safonau ymddygiad a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd yr ymdrinnir â chamymddygiad yn gyson ac yn briodol. Er hynny, credaf fod lle i arddel dull mwy lleol o ddatrys cwynion lefel isel, heb orfod troi yn syth at you rôl ymchwilio lawn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rôl a allai fod yn gostus o dan rai amgylchiadau.

Gyda hyn mewn golwg, croesawodd y Papur Gwyn y trafodaethau a oedd eisoes wedi digwydd ar yr egwyddor bod awdurdodau lleol yn mynd ati'n wirfoddol i fabwysiadu ymagwedd genedlaethol, gyffredin, at brosesau lleol anffurfiol ar gyfer ymdrin â chwynion aelod yn erbyn aelod a swyddog yn erbyn aelod. Nododd y Papur Gwyn fod Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld y prosesau hynny'n cael eu rhoi ar waith gan bob cyngor sirol a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@Cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

phob cyngor bwrdeistref sirol, gan awdurdodau'r parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub cyn gynted ag y byddai'n ymarferol yn dilyn etholiadau lleol y llynedd.

Croesawodd y Papur Gwyn hefyd drafodaethau sydd wedi digwydd ar gyflwyno cap gwirfoddol o £20,000 ar lefel yr indemniad a gynigir gan awdurdodau i aelodau sy'n destun achos camymddygiad o dan Ddeddf 2000. Mae pwerau'r Awdurdodau i ddarparu indemniadau yn deillio o Orchymyn 'Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006'. Byddai'r pwerau hyn yn eu galluogi i osod terfyn o'r fath ac, unwaith eto, nododd y Papur Gwyn fod Llywodraeth Cymru'n dymuno gweld hwn yn cael ei roi ar waith yn fuan ar ôl etholiadau'r llynedd.

Caf ar ddeall bod rhai awdurdodau wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion hyn. Er hynny, rwyf yn pryderu nad yw pob awdurdod o bosibl wedi gwneud cynnydd a thrwy'r llythyr hwn, hoffwn bwysleisio i'r rhai sydd heb wneud hynny eto faint o bwys yr wyf yn ei roi ar fwrw ymlaen â hyn.

Er mwyn i mi gael darlun cyflawn o'r sefyllfa bresennol ledled Cymru, hoffwn ofyn i chi adrodd yn ôl i mi ar ba gamau y mae eich awdurdod wedi'u cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd (gydag amserlenni) i gyflwyno proses ddatrys leol ac i fabwysiadu'r cap gwirfoddol ar indemniadau ar gyfer achosion cod ymddygiad aelodau. Dylid anfon yr wybodaeth hon trwy e-bost erbyn diwedd Chwefror at: CorrespondenceMail-CS@Cymru.GSI.Gov.UK.

I hwyluso cyflwyno prosesau datrys lleol, rwyf yn bwriadu dileu'r rhwymedigaeth ar aelodau a gynhwysir ym mharagraff 6(1)(c) o'r cod ymddygiad enghreifftiol i roi gwybod am achosion posibl o dorri'r cod i'r Ombwdsmon. Mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi canllawiau ar sut y bydd yn delio ag achosion lefel isel o dorri'r cod a wneir i'w swyddfa ac ni fydd y rhwymedigaeth hon, o reidrwydd, yn peri oedi o ran cyflwyno prosesau ddatrys lleol lle mae hyn heb gael ei wneud eto.

Yn ogystal â dileu'r rhwymedigaeth i roi gwybod am dorri'r cod i'r Ombwdsmon, rwyf yn bwriadu mynd i'r afael â phryderon sy'n deillio o ddehongli paragraff 10(2)(b) trwy ddileu hyn o'r cod enghreifftiol. Byddai angen o hyd i aelodau sy'n gwneud penderfyniadau, p'un ai trwy weithredu ar y cyd neu yn unigol, yn ôl paragraff 8 o'r cod, weithredu yn wrthrychol ac er lles y cyhoedd wrth wneud hynny. Rwyf o'r farn, felly, y gellir dileu paragraff 10(2)(b) heb amharu ar y cod.

Hefyd, mewn perthynas â'r cod, byddwch yn ymwybodol o ddyfarniad yr Uchel Lys y llynedd - *'R (Calver) v Panel Arfarnu Cymru'* - mewn perthynas â'r gofyniad ym mharagraff 4(b) o'r cod i aelodau ddangos parch ac ystyriaeth i eraill. Mae'r Ombwdsmon wedi diwygio ei ganllawiau i gymryd y dyfarniad i ystyriaeth, ond rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried a oes angen unrhyw i'r cod gael ei addasu.

Wrth ysgrifennu, nodaf gyda phryder fod yr Ombwdsmon wedi barnu unwaith eto bod angen cyfeirio unwaith eto yn ei adroddiad blynyddol diweddaraf at nifer y cwynion aelod yn erbyn aelod y gellid barnu eu bod yn flinderus. Ni allai paragraff 6(1)(d) o'r cod fod yn gliriach wrth fynnu bod rhaid i aelodau beidio â gwneud cwynion gwacsaw, maleisus neu flinderus yn erbyn aelodau eraill neu yn erbyn unrhyw un sy'n gweithio i'w hawdurdod. Os nad eir i'r afael â'r gweithredoedd hynny, mae ganddynt y potensial i gronni yn y system ac i wyro adnoddau i ffwrdd o faterion pwysicach. Hoffwn ofyn bod lle blaenllaw yn cael ei roi i'r mater hwn pan drefnir hyfforddiant gloywi ar y cod ar gyfer aelodau.

Hefyd, byddwch wed gweld adroddiadau diweddar yn y cyfryngau am ddigwyddiadau anffodus sy'n deillio o'r defnydd amhriodol o gyfryngau cymdeithasol. Mae canllawiau'r Ombwdsmon ar y cod yn ei gwneud yn glir o dan ba amgylchiadau y cwmpesir defnyddio cyfryngau electronig a chymdeithasol gan y cod. Maes sy'n datblygu'n barhaus yw hwn ac

unwaith eto, credaf ei bod yn amserol annog yr aelodau i fanteisio ar yr hyfforddiant y mae'r awdurdodau'n ei ddarparu ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a'r anfanteision posibl i'w hosgoi.

Câi unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r agweddau hyn neu agweddau eraill ar y cod wrth ymateb yn unol â'r cais uchod eu croesawu yn fawr.

Yn olaf, hoffwn achub y cyfle hwn i grybwyll mater a godwyd gyda mi yn ddiweddar ynghylch cyhoeddi cofrestri o fuddiannau aelodau a gedwir o dan adran 81 o Ddeddf 2000. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i gofrestri fod ar gael yn swyddfa'r awdurdod i'w harchwilio gan aelodau'r cyhoedd ar bob awr resymol. Er hynny, mae dinasyddion yn disgwyl yn gynyddol gallu cael gafael ar wybodaeth am gynghorau a'u haelodau etholedig trwy'r rhyngrwyd. O ganlyniad, mae gennyf gydymdeimlad â'r farn a fynegwyd i mi y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau gyhoeddi'r cofrestri hyn ar eu gwefannau yn ogystal er mwyn hwyluso mynediad iddynt ac i wella tryloywder. Rwy, felly, yn bwriadu cyflwyno gwelliant i Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) i roi effaith i hyn. Mae cyfle'n bodoli - a hynny o fewn amser cyfyngedig - i gyflwyno gwelliant o'r fath ond cyn gwneud hynny hoffwn groesawu unrhyw safbwyntiau sydd gennych ar y mater hwn.

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Llywodraeth Leol and Communities

PAPUR / ENCLOSURE
2

## 3. INDEMNIADAU AR GYFER AELODAU A SWYDDOGION

(a) Dywedwyd - Bod y Cyngor Sir, yn ei gyfarfod ar 12 Mai 2011, wedi penderfynu *"i gytuno mewn egwyddor ar hyn o bryd bod y Cyngor yn dymuno mabwysiadu'r pŵer i roi indemniadau fel y darperir ar gyfer hynny gan y Gorchymyn a bod adroddiad pellach ar y mater yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn y man."*

(b) Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol – Bod angen mabwysiadu polisi a gweithdrefn ar gyfer gwneud a phenderfynu ar geisiadau am indemniadau dan y Gorchymyn. Roedd yr adroddiad hwn yn amlinellu polisi arfaethedig, gweithdrefn a ffurf geiriad cyffredinol ar gyfer indemniad ac roedd y cyfan i'w gweld yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

Fel a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol i'r Cyngor ar 12 Mai 2011, fe gynhaliwyd asesiad o'r effaith o ran cydraddoldebau ar y polisi a daethpwyd i'r canlyniad ei fod, yn gyffredinol, yn cael effaith gadarnhaol.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol bod yr adroddiad yn cyfeirio at sefydlu Is-Bwyllgor ac arno o leiaf 3 aelod o'r Cyngor i benderfynu ar geisiadau am indemniadau. Fodd bynnag, wedi edrych ymhellach ar y ffigyrau, roedd dewisiadau pellach ar gael i'r aelodau yn y cyswllt hwn, sef Is-Bwyllgor ac arno 4 aelod yn cynnwys cynrychiolydd o bob un o'r grwpiau gwleidyddol neu Is-Bwyllgor o 5 aelod i gynnwys yn ychwanegol, un aelod rhydd.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad ac y dylai'r Is-Bwyllgor gynnwys 5 aelod a bod Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor yn cael eu heithrio fel aelodau'r Is-Bwyllgor.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant y dylai'r Is-Bwyllgor gynnwys 10 o aelodau a bod arno gydbwysedd gwleidyddol.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol y gallai Is-Bwyllgor ac arno 10 aelod gael effaith ar gydbwysedd gwleidyddol cyffredinol y Pwyllgorau ar draws y Cyngor ac y byddai'n fwy beichus o safbwynt gweinyddol.

Dywedodd aelod y gwnaed cwyn yn erbyn aelod o Gyngor Sir y Fflint ac nad oedd gan yr aelod dan sylw y modd i ymladd yr achos oherwydd y byddai'n costio oddeutu £250k. Derbyniodd yr aelod y taliad ond heb yr arian hwnnw, ni fyddai wedi gallu ennill yr achos. Fodd bynnag, roedd y Cynghorydd yn derbyn yr egwyddor a gyflwynwyd ac yn cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad.

Rhoddwyd i Mr. Alex Aldridge, Comisiynydd, y cyfle i annerch y Cyngor. Mewn perthynas â'r sylwadau a wnaed, roedd yn dymuno egluro nad oedd Cyngor Sir y Fflint wedi talu'r swm y sonnir amdano i unigolyn. Roedd yr indemniad fel yr oedd yn sefyll yn ymwneud ag achos a aeth gerbron yr Ombwdsmon. Ar hyn o bryd roedd yr unigolyn yn Sir y Fflint yn disgwyl am ddyfarniad gan yr Ombwdsmon. Cafodd yr unigolyn hwnnw ei indemnio gan y Cyngor ar gyngor y Swyddog Monitro i ddod a chyfreithiwr i'w gynrychioli trwy'r broses ar y ddealltwriaeth glir y byddai rhaid iddynt ad-dalu'n llawn y costau i'r Cyngor petai'r achos yn colli. Roedd cyfyngiad llym hefyd ar y swm i'w wario. Roedd yr achos yn parhau. Yn Sir y Fflint, y Cyngor llawn wnaeth y penderfyniad yn seiliedig ar y cyngor a gafwyd gan y Swyddog Monitro.

Yn dilyn y datganiad uchod, tynnodd y cynigydd a'r eilydd eu gwelliant gwreiddiol o Is-Bwyllgor ac arno 10 aelodau a chynigiwyd ac eiliwyd gwelliant y dylai'r Cyngor hwn ddilyn esiampl Cyngor Sir y Fflint yn hyn o beth.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol yr ymddangosai o gyfraniadau gan rai aelodau nad oedd yr adroddiad wedi cael ei ddarllen na'i ddeall gan rai aelodau.  Yn yr amgylchiadau hynny, rhaid cynghori'r aelodau hynny i ymatal rhag pleidleisio ar y mater.

Collwyd y gwelliant gan 20 bleidlais i 7 a phenderfynwyd derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad yn amodol ar sefydlu Is-Bwyllgor o 5 aelod fel y cyfeirir at hynny uchod.

Roedd y Cynghorydd Raymond Jones yn dymuno iddo gael ei gofnodi ei fod wedi ymatal ei bleidlais ar y mater hwn.

**PENDERFYNWYD**

- **Os yw polisi yswiriant cyfredol y Cyngor o bosib, yn cynnig diogelwch ar gyfer y mater y gellir ei indemnio o dan delerau'r Gorchymyn, yna bydd indemniad ar gyfer y mater hwnnw yn cael ei gynnig trwy yswiriant yn unig ac ar delerau ac amodau, cyfyngiadau a gostyngiadau polisi y gall yswirwyr y Cyngor fod eu hangen.**

- **Lle nad yw polisi yswiriant presennol y Cyngor yn diogelu mater y gellir ei indemnio o dan delerau'r Gorchymyn, yna bydd indemniad ar gyfer y mater hwnnw, o bosib, yn cael ei gynnig trwy wneud taliad ariannol ond yn amodol ar delerau ac amodau y penderfynir arnynt yn unol â'r polisi fel a nodir yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn;**

- **Sefydlu Is-Bwyllgor i benderfynu ceisiadau am indemniadau fydd yn dod o fewn paragraff 4.1.2 uchod.  Bydd yr Is-Bwyllgor yn cynnwys o leiaf dri aelod, bydd arno gydbwysedd gwleidyddol a bydd yn  penodi Cadeirydd o blith ei Aelodau.  Dirprwyir i'r Is-Bwyllgor yr holl hawliau i wneud penderfyniadau ar geisiadau a rhoddir grym iddo ddyrannu arian yn unol ag unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau *ac eithrio na fydd yr Is-Bwyllgor yn gallu caniatáu indemniad dros £20,000 i aelod sy'n amddiffyn unrhyw gwyn yn ei erbyn am gamymddwyn dan y Côd Ymddygiad*.  Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Cyllid yn cynghori'r Is-Bwyllgor yn ystod ei drafodaethau fel y bydd angen.**

- **Mabwysiadu'r ffurf arfaethedig o eiriad ar gyfer indemniad, y polisi a'r weithdrefn ar gyfer delio gyda cheisiadau am indemniadau fel a nodir yn yr adroddiad i'r atodiad hwn.**

PAPUR / ENCLOSURE
3

## Y POLISI A'R WEITHDREFN AR GYFER INDEMNIADAU

**Materion yn ymwneud â Cheisiadau ar gyfer Indemniadau a Phenderfynu arnynt yn unol â Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau i Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006**

**A. Gweithdrefn**

1.1 Defnyddir y weithdrefn hon pan fo Cyngor Sir Ynys Môn ("y Cyngor") yn derbyn cais ("y Cais") gan Aelod neu Swyddog o'r Cyngor ("yr Ymgeisydd") am indemniad yn unol â Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau i Aelodau a Swyddogion)(Cymru) 2006 ("y Gorchymyn") gyda'r Cyngor wedi mabwysiadu pwerau'r Gorchymyn hwnnw trwy benderfyniad dyddiedig 12 Mai 2011.

1.2 Lle rhoddir indemniad bydd yn cyd-fynd â gofynion a chyfyngiadau'r Gorchymyn sy'n rhoi'r hawl i roi indemniad.

**2. Y Cais**

2.1 Fe all y Cais am indemniad osod allan unrhyw faterion y mae'r Ymgeisydd yn eu dymuno ond rhaid iddo gydymffurfio gyda'r anghenion lleiaf canlynol (lle bo'n berthnasol i'r Cais).

2.1.1 Rhaid iddo fod yn ysgrifenedig ac wedi'i gyfeirio i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor.

2.1.2 Rhaid iddo fod wedi'i arwyddo gan neu ar ran yr Ymgeisydd.

2.1.3 Rhaid iddo nodi'r swm y ceisir yr indemniad amdano.

2.1.4 Rhaid nodi enw a chyfeiriad y Cyfreithiwr gyflogwyd gan yr Ymgeisydd yn y mater lle ceisir cael indemniad ("y Mater"). Rhaid rhoi enw'r Cyfreithiwr unigol sy'n delio â'r mater ynghyd ag unrhyw berson arall sy'n ennill ffi ac a fydd yn delio gyda'r mater ynghyd â'u cyfraddau costau yn ôl yr awr neu ffi a gytunwyd a chrynodeb o'u profiad ym maes gwaith y Mater.

2.1.5 Nodi unrhyw fargyfreithiwr a gyflogwyd gan yr Ymgeisydd yn y Mater ynghyd â'r cyfraddau fesul awr y cytunwyd arnynt neu'r ffi briff y cytunwyd arni i'w cyflogi. At hyn, rhaid rhoi manylion am brofiad y bargyfreithiwr ym maes gwaith y Mater.

2.1.6 Nodi unrhyw dyst arbenigol neu unrhyw dyst arall y bydd yr Ymgeisydd yn talu ei g/chostau wrth ddelio gyda'r Mater ynghyd â manylion am y costau hyn yn ôl cyfraddau fesul awr, ffi gytunedig neu amcangyfrif o'r costau fel bydd yr achos.

2.1.7 Rhoi rhyw syniad o gyfanswm y costau tebygol i'r Ymgeisydd wrth ddelio gyda'r Mater.

2.1.8 darparu manylion yr achos o blaid ac yn erbyn yr Ymgeisydd fel y gellir gwneud asesiad rhesymol o rinweddau'r mater cyn penderfynu ar y Cais.

2.1.9 rhoi sylw i'r materion hynny yn y Gorchymyn sy'n rhwystro neu'n cyfyngu rhoi indemniad, gan wneud hynny'n ddigon manwl fel y gall y Cyngor fodloni ei hun bod caniatáu indemniad yn disgyn o fewn y pwerau a roddir gan y Gorchymyn.

2.2 Er gwaethaf yr uchod, gall y Cyngor (yn gweithredu yn y lle cyntaf trwy ei Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol) ofyn am ragor o wybodaeth ar y mater gan yr Ymgeisydd os yw'n credu nad oes ganddo ddigon o wybodaeth i benderfynu'n briodol ar y Cais yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn.

2.3 Ni roddir unrhyw indemniad mewn perthynas ag unrhyw gostau a gafodd yr Ymgeisydd cyn cyflwyno cais i'r Cyngor y mae'n rhaid iddo gydymffurfio gyda gofynion Rhan 2 yma.

2.4 Nid yw unrhyw benderfyniad ar Gais yn rhwystro'r Ymgeisydd rhag cymryd unrhyw gamau y gwêl yn ddoeth wrth roi sylw i'r mater, yn amodol ar unrhyw delerau y gellir rhoi indemniad arnynt.

3 <u>Penderfynu'r Cais</u>

3.1 Cyfrifoldeb yr Is-Bwyllgor a sefydlwyd gan y Cyngor llawn i'r pwrpas hwnnw fydd penderfynu ar y Cais.

3.2 Cynhelir cyfarfod o'r Is-Bwyllgor ("y Cyfarfod") cyn gynted ag y bo modd i benderfynu ar y cais ar ôl derbyn Cais sy'n cydymffurfio gyda gofynion paragraff 2 uchod. Os oes angen, cynhelir y cyfarfod yn breifat gyda'r wasg a'r cyhoedd wedi eu cau allan.

3.3 Yn y Cyfarfod bydd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno gan y Pennaeth Adnoddau Cyfreithiol a Gweinyddol ynghyd â chopi o'r Cais.

3.4 Mae'n bosib, os yw'r Ymgeisydd yn Aelod, y bydd ganddo ef (neu hi) ddiddordeb sy'n rhagfarnu a fydd yn golygu na chaiff ef (neu hi) fynychu'r cyfarfod. Gall yr ymgeisydd ystyried a gofyn am i'r Cais gael ei drin fel a ganlyn yr Is-Bwyllgor:-

3.4.1 fel Cais papur yn unig yn unig heb unrhyw sylwadau ar ran yr Ymgeisydd,

3.4.2 trwy gyflwyniad byr ar y Cais ar ran yr Ymgeisydd (er enghraifft gan eu cyfreithiwr) neu

3.4.3 trwy gyflwyniad byr gan yr Ymgeisydd ar yr amod, os oes gan yr Ymgeisydd ddiddordeb sy'n rhagfarnu yn y Mater, ei fod/bod wedi cael caniatâd arbennig yn gyntaf gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor yn caniatáu iddo/iddi fynychu'r Cyfarfod a gwneud eu sylwadau yn unol â thelerau unrhyw ganiatâd o'r fath.

3.5 Os yw'r Ymgeisydd yn gofyn am yr hawl i wneud cyflwyniad (un ai ei hun neu gan gynrychiolydd) yn y Cyfarfod bydd raid dilyn y drefn isod:

3.5.1 Cyflwynir yr adroddiad ysgrifenedig i'r Cyfarfod,

3.5.2 Rhoddir caniatâd i'r Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd wneud cyflwyniad byr i gefnogi'r Cais,

3.5.3 Gall Aelodau (neu swyddog) ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd neu i gynrychiolydd yr Ymgeisydd a gellir eu hateb,

3.5.4 Gall yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd / chynrychiolydd wneud datganiad byr i gloi,

3.5.5 Bydd Aelodau yn trafod y cais yn absenoldeb yr Ymgeisydd a'r cynrychiolydd,

3.5.6 Bydd Aelodau yn penderfynu ar y cais (yn amodol ar ddarpariaethau paragraff 3.7 isod) gyda golwg ar unrhyw fater, cyfyngiad neu amod sy'n codi o'r Gorchymyn neu o'r Polisi hwn ac a all fod yn berthnasol i amgylchiadau'r Cais.

3.5.7 Bydd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd / chynrychiolydd yn derbyn rhybudd ysgrifenedig o'r penderfyniad a wnaed cyn gynted ag y bo modd.

3.6 Ar yr amod bod yr Is-Bwyllgor yn fodlon bod ganddo ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad ar y cais, yna bydd yn penderfynu'r cais. Bydd raid cefnogi unrhyw benderfyniad gyda rhesymau a bydd raid cofnodi'r rhesymau hynny.

3.7 Os yw'r Is-Bwyllgor yn credu bod angen rhagor o wybodaeth cyn y gall benderfynu ar y Cais, bydd yn ceisio cael y wybodaeth honno gan yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd / chynrychiolydd yn y Cyfarfod. Onid yw'r wybodaeth honno ar gael yn ystod y Cyfarfod, bydd yr Is-Bwyllgor yn gohirio'r cyfarfod wedi iddo nodi a chofnodi'r wybodaeth sydd raid wrthi. Ailgynhelir y Cyfarfod cyn gynted ag y bo modd ar ôl derbyn y wybodaeth y gofynnwyd amdani.

## B. Amodau a Chyfyngiadau ar Delerau unrhyw Indemniad a Roddir

4.1 Bydd gan yr Is-Bwyllgor ddisgresiwn llwyr ynghylch telerau, natur, hyd ac/neu gyfyngiadau a roddir ar unrhyw indemniad i'r Ymgeisydd ac eithrio y bydd unrhyw indemniad a roddir i Aelod i amddiffyn honiadau o dorri'r Côd Ymddygiad yn destun cap o £20,000 (ugain mil o bunnoedd). Bydd unrhyw indemniad a roddir yn amodol ar delerau neu gyfyngiadau fel y gwêl yr Is-Bwyllgor yn ddoeth, a chan gymryd i ystyriaeth amgylchiadau pob mater unigol ac unrhyw gyngor a roddir gan y Pennaeth Adnoddau Cyfreithiol a Gweinyddol yn y Cyfarfod.

**Deleted:** i amddiffyn achos yn ei erbyn am gamymddwyn

4.2 Heb ragfarn i gyffredinolrwydd paragraff 4.1 uchod, gellir rhoi indemniad i'r Ymgeisydd yn amodol ar un neu ragor o'r cyfyngiadau isod:

4.2.1 Cap ar y swm ariannol a indemnir a bod y swm a delir yn cynnwys TAW,

4.2.2 Cyfyngiad ar gyfraddau a godir gan gyfreithwyr, bargyfreithwyr fesul awr neu gyfraddau unrhyw berson arall y mae eu costau yn rhan o'r Cais,

4.2.3 Ni fydd symiau a indemnir ond yn cael eu talu i'r Ymgeisydd mewn rhandaliadau ariannol penodol, yn unol â meini prawf neu amodau a osodwyd gan yr Is-Bwyllgor fel rhan o'r penderfyniad ar y Mater,

4.2.4 Dim ond rhai costau arbennig fydd yn cael eu hindemnio,

4.2.5 NI fydd indemniad yn cael ei dalu (neu ran o indemniad) ond ar ôl cyflwyno i'r Cyngor anfonebau gyda derbynebion ar gyfer costau a nodwyd yn y Cais,

4.2.6 Rhaid cael caniatâd neu gyngor ymlaen llaw gan berson penodol (fel y Pennaeth Adnoddau Cyfreithiol a Gweinyddol neu gwnsler annibynnol) neu rhaid i'r Ymgeisydd gymryd unrhyw gam a benodwyd mewn perthynas â'r Mater cyn y telir y cyfan neu ran neu gyfran o'r indemniad.

## C. Telerau Cyffredinol yr Indemniad

1. Yn amodol ar yr uchod ac unrhyw delerau, amodau neu gyfyngiadau a benderfynir neu a osodir mewn unrhyw achos penodol gan yr Is-Bwyllgor, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn indemnio pob aelod a swyddog o'r Cyngor yn erbyn hawliad, atebolrwydd neu golled ac/neu ddifrod mewn perthynas ag unrhyw weithred neu ddiffyg gweithredu gan unrhyw aelod neu swyddog a:-

(a) Mae wedi'i awdurdodi gan y Cyngor; neu

(b) Mae'n rhan o, neu'n codi o unrhyw bwerau a roddwyd neu ddyletswyddau a osodwyd ar yr aelod neu'r swyddog o ganlyniad i unrhyw swyddogaeth a weithredir gan yr aelod neu'r swyddog (p'un a ydyw'r aelod neu swyddog, wrth weithredu'r swyddogaeth honno, yn gwneud hynny yn rhinwedd ei swydd fel aelod neu swyddog o'r Cyngor)

(i) ar gais neu gyda chaniatâd diamwys y Cyngor; neu

(ii) i ddibenion y Cyngor

Ac eithrio na thelir costau amddiffyn hawliad o'r fath a gafwyd cyn bod Cais am indemniad yn llwyddiannus.

Heb ragfarn i gyffredinolrwydd yr indemniad (uchod) mae'r indemniad yn ymestyn i gamau:-

(a) a gymerwyd dan bwerau dirprwyol;

(b) a gymerwyd yn bersonol dan unrhyw ddarpariaeth statudol benodol fel y Pennaeth Gwasanaeth Taledig, Prif Swyddog Cyllid, Swyddog Monitro, Deddf Llywodraeth Leol (Contractau) 1997.

(c) a gymerwyd mewn Partneriaethau, trefniadau cydweithio anffurfiol, sefydliadau elusennol, cwmnïau (beth bynnag fo'u cyfansoddiad) pan fo'r aelod neu'r swyddog yn gwasanaethu fel cynrychiolydd y Cyngor ar y cyrff hyn.

(I bwrpas yr indemniad mae "aelod" yn cynnwys pobl annibynnol a chyfetholedig sy'n eistedd ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor).

**2. Amodau a Chyfyngiadau sy'n berthnasol i'r Indemniad**

**A. <u>Ewyllys Da</u>**

Rhaid i aelod neu swyddog sy'n dibynnu ar yr indemniad:-

(i) Credu bod y weithred, neu'r methiant i weithredu, dan sylw o fewn pwerau'r Cyngor
neu

(ii) Pan fo'r weithred neu'r methiant i weithredu yn golygu cyhoeddi neu awdurdodi unrhyw ddogfen ac ynddi ddatganiad ynghylch pwerau'r Cyngor perthnasol, neu unrhyw ddatganiad yn dweud y cymerwyd rhai camau neu y cyflawnwyd rhai gofynion, yn credu bod cynnwys y datganiad hwnnw yn gywir;
a
yn y naill achos neu'r llall, ei bod yn rhesymol i'r aelod neu'r swyddog gredu hynny ar y pryd pan y bu i'r aelod neu'r swyddog weithredu neu fethu gweithredu.

Bydd y Cyngor yn rhoi'r indemniad mewn perthynas â gweithred neu fethiant i weithredu os cesglir wedyn bod y weithred neu'r methiant i weithredu y tu draw i rym yr aelod neu'r swyddog dan sylw, ond dim ond i'r graddau bod yr aelod neu'r swyddog yn credu'n rhesymol bod y weithred neu'r diffyg gweithredu dan sylw o fewn grym yr aelod neu'r swyddog ar yr adeg pryd y bu i'r aelod neu'r swyddog fethu gweithredu.

**B. <u>Adennill costau</u>**

Os rhoddir indemniad i unrhyw aelod neu swyddog mewn perthynas ag amddiffyn unrhyw achos neu achosion troseddol sy'n honni y torrwyd y côd ymddygiad yna:-

(i) Mewn perthynas ag achos troseddol, os ceir yr aelod neu'r swyddog yn euog o drosedd, yna bydd raid ad-dalu i'r Cyngor neu i'r yswirwyr unrhyw symiau a wariwyd gan y Cyngor neu ei yswirwyr mewn perthynas â'r achos hwnnw.

(ii) Os yw’r achos yn ymwneud â honiad yn erbyn aelod o dorri’r cod ymddygiad:-

(a) Os cesglir bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio gyda’r côd ymddygiad (neu os yw’r aelod wedi cyfaddef hynny) ac, o ganlyniad, mae’r aelod yn cael ei atal/hatal, ei atal/hatal yn rhannol neu ei (h)anghymwyso, yna bydd raid ad-dalu i’r Cyngor neu ei yswirwyr y symiau a wariwyd gan y Cyngor;

(b) Yn achos honiad ynghylch torri’r côd ymddygiad ac os cesglir bod aelod wedi methu a chydymffurfio gyda’r côd ymddygiad (neu wedi cyfaddef hynny) ac, o ganlyniad, os yw’r aelod yn cael cerydd neu’n cael rhyw gosb arall yn hytrach na’i atal/ hatal, ei atal/hatal yn rhannol neu anghymhwyso / hanghymwyso yna, os yw’r Pwyllgor Safonau yn credu bod hynny’n briodol, rhaid ad-dalu i’r Cyngor neu ei yswirwyr y symiau a wariwyd gan y Cyngor neu ei yswirwyr.

Os bydd angen gwneud ad-daliad bydd hyn yn cynnwys unrhyw TAW a dalwyd fel rhan o’r swm a indemniwyd.

**C. <u>Difenwi</u>**

Nid yw’r indemniad hwn yn ymestyn i aelod neu swyddog yn **<u>gwneud</u>** unrhyw honiad mewn perthynas â difenwad honedig yr aelod neu’r swyddog hwnnw.

**D. <u>Swyddog Canlyniadau</u>**

Nid yw’r indemniad hwn yn berthnasol i waith a swyddogaethau’r Swyddog Canlyniadau.

**E. <u>Egwyddorion Cyffredinol</u>**

(i) Bydd y Cyngor yn rhoi i’r aelod neu’r swyddog fynediad rhesymol a chymesur at weithwyr ac adnoddau’r Cyngor a chyfleusterau fel bod modd i’r swyddog unigol neu’r aelod unigon ymateb yn briodol i honiadau o atebolrwydd personol;

(ii) Bydd y Cyngor yn caniatáu cynrychiolaeth gyfreithiol i aelod neu swyddog ar wahân i ymgynghorwyr cyfreithiol y Cyngor ei hun (ac/neu ymgynghorwyr cyfreithiol yr yswirwyr) lle gall diddordebau’r Cyngor a’r unigolyn wrthdaro neu mewn amgylchiadau eraill lle cytunwyd rhwng y Cyngor a’r swyddog unigol neu’r aelod unigon bod cynrychiolaeth gyfreithiol ar wahân yn briodol.

(iii) Ni fydd y Cyngor yn ceisio adennill gan unrhyw aelod neu swyddog unigol unrhyw golledion a gafodd y Cyngor o ganlyniad i weithredu neu fethiant i weithredu gan yr aelod neu’r swyddog dan sylw ac eithrio:-

(a) Lle nad oedd yr aelod neu'r swyddog dan sylw yn credu'n rhesymol bod y weithred neu'r methiant i weithredu dan sylw o fewn ei rym ar yr amser pryd digwyddodd y weithred neu'r diffyg gweithredu, neu

(b) Lle roedd y weithred neu'r methiant i weithredu yn dramgwydd troseddol.

This page is intentionally left blank

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **5 Mawrth 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Adrodd ar Adolygiad o Ddogfen Polisi Gamblo yr Awdurdod** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Adain Drwyddedu'r Adran Safonau Masnach** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Cyflwyno Drafft Terfynol o'r Polisi Gamblo yn dilyn ymgynghoriad i bwrpas ei gymeradwyo** |
| **GWEITHREDU** | **Mabwysiadu'r Polisi diwygiedig** |

## 1 RHAGARWEINIAD

1.1 Yn unol ar Deddf Gamblo 2005 mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol baratoi a chyhoeddi datganiad ar ei bolisi gamblo bob tair blynedd

1.2 Mae'r adroddiad yn crynhoi'r broses o ymgynghori ac, oherwydd bod y Polisi, fe dybir, wedi gweithio'n dda ac nad yw wedi ei herio, ychydig iawn o ymatebion a gafwyd a dim ond mân-newidiadau a wnaed.

## 2. BACKGROUND

2.1 Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol, yn unol ag Adran 5 Deddf Gamblo 2005, adolygu eu Polisi Gamblo bob tair blynedd. Mae'n rhaid penderfynu ar y Polisi diwygiedig cyn gynted ag sy'n ymarferol, sef ar 5 Mawrth 2013 yn yr achos hwn.

2.2 Mae copi cyflawn o'r Polisi Trwyddedu llawn ar gael i'w archwilio yn Atodiad A

2.3 Mae Atodiad D, o fewn y Polisi, yn cynnwys cofrestr o'r rheini yr ymgynghorwyd â nhw trwy e-bost i osgoi costau ychwanegol yn wyneb yr hinsawdd economaidd gyfredol

## 3. Argymhellion

Bod y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r adroddiad uchod ac yn mabwysiadu'r Polisi Gamblo diwygiedig.

Paratowyd yr Adroddiad gan D.M.JONES, Prif Swyddog Trwyddedu, ar ran yr Adran Safonau Masnach.

# Cyngor Sir Ynys Mon

# Datganiad o Bolisi Gamblo

# Cyngor Sir Ynys Mon
# Datganiad Drafft o Bolisi Gamblo

## Cefndir

Tudalen


**1. Cyflwyniad:**

1.1 Amcanion Trwyddedu
1.2 Crynodeb
1.3 Geirfa Dermau
1.4 Mathau o Drwydded
1.5 Eiddo Trwyddadwy
1.6 Egwyddorion Cyffredinol
1.7 Corff ymgynghorol er amddiffyn plant rhag niwed
1.8 Trefniadau Trosiannol
1.9 Ymgynghorwyd â
1.10 Cyfnewid Gwybodaeth

**2. Deddfwriaeth, Polisi a Strategaethau**

2.1 Deddfwriaeth
2.2 Perthynas gyda Pholisïau Cynllunio
2.3 Strategaethau Cenedlaethol
2.4 Strategaethau a Pholisïau Lleol
2.5 Cyfuno Strategaethau

**3. Cymryd Penderfyniadau**

3.1 Cylch Gorchwyl y Pwyllgor
3.2 Dyrannu Cyfrifoldebau Cymryd Penderfyniadau
3.3 Adolygiadau Trwyddedu

**4. Safonau Lleol**

4.1 Ceisiadau
4.2 Asesiad o angen
4.3 Amodau
4.4 Gorfodaeth
4.5Casinos
4.6 Trwyddedau peiriannau Hapchwarae mewn Canolfan Adloniant Teuluol Ddidrwydded
4.7 Canllawiau Ychwanegol
4.8 Loterïau Bychan

**5. Amcan Rhwystro Trosedd ac Anrhefn**

**6. Amcan fod Gamblo'n Cael ei Gynnal mewn Modd Teg ac Agored**

**7. Amcan Gwarchod Plant a Phobl Fregus**

7.1 Mynediad i eiddo trwyddedig
7.2 Pobl fregus

8. Cwynion yn erbyn Eiddo Trwyddedig
9. Gwybodaeth bellach

10. Atodiad A - Map o'r Ardal

11. Atodiad B – Dirprwyo Dyletswyddau

12. Atodiad C – Manylion Cyswllt yr Awdurdodau Perthnasol

13. Atodiad D – Y Rhai yr Ymgynghorwyd â Hwy

14. Atodiad E – Crynodeb Peiriannau Hapchwarae

*Er mwyn cael cysondeb ledled Gogledd Cymru, yn enwedig lle mae ffiniau awdurdodau trwyddedu'n cyfarfod, cafodd y ddogfen hon ei datblygu ar y cyd gan Weithgor Sefydliad Trwyddedu Gogledd Cymru.*

## Cefndir

Mae Deddf Gamblo 2005 yn gweithredu cynigion y Llywodraeth i ddiwygio'r gyfraith ar gamblo. Mae'r Ddeddf yn sefydlu system reolaethol newydd i reoli pob darpariaeth gamblo yng Ngwledydd Prydain ar wahân i'r Loteri Genedlaethol a betio lled. Cafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 7 Ebrill 2005

Mae'r Ddeddf Gamblo'n diddymu Deddf Betio, Hapchwarae a Loterïau 1963, Deddf Gamblo 1968 a Deddf Loterïau a Difyrion 1976. Mewn gwirionedd, bydd gamblo'n anghyfreithlon yng Ngwledydd Prydain oni bai ei fod yn cael ei ganiatáu o dan y mesurau yn y Ddeddf.

Mae'r Ddeddf yn caniatáu tri chategori o drwyddedau
Trwyddedau gweithredu
Trwyddedau personol
Trwyddedau eiddo

Bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am gyflwyno trwyddedau eiddo a bydd y Comisiwn Gamblo, sy'n disodli'r Bwrdd Hapchwarae, yn gyfrifol am gyflwyno'r trwyddedau gweithredu a phersonol.

Bydd y Comisiwn Gamblo yn rheoleiddio gamblo er budd y cyhoedd drwy gadw gamblo'n rhydd o droseddu, sicrhau fod gamblo'n cael ei gynnal yn deg ac yn agored a gwarchod plant a'r bregus. Bydd y Comisiwn yn dal i gyflwyno canllawiau i Awdurdodau Lleol ynghylch y modd y dylent reoli gamblo a darparu ar ei gyfer a gallai hynny hefyd gynnwys darpariaethau ar gyfer hysbysebu darpariaethau gamblo.

Gellir cysylltu â'r Comisiwn Gamblo ar www.gamblingcommission.gov.uk
Diffinnir Gamblo yn y Ddeddf fel hapchwarae, betio neu gymryd rhan mewn loteri.

Golyga **hapchwarae** chwarae gêm o siawns am wobr.
Golyga **betio** roi neu dderbyn bet ar ganlyniad ras, cystadleuaeth neu unrhyw ddigwyddiad arall, y tebygolrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd neu ddim yn digwydd ac a yw rhywbeth yn wir ai peidio.
**Loteri** yw pan fo raid i rywun dalu er mwyn cymryd rhan mewn trefniant lle mae un neu fwy o wobrau'n cael eu dyrannu drwy broses sy'n dibynnu'n gyfan gwbl ar hap.

# 1. CYFLWYNIAD:

## 1.1Amcanion Trwyddedu

Mae'r Ddeddf Gamblo 2005 yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y Cyngor i gynnal ei wahanol waith trwyddedu er mwyn hyrwyddo'r tri prif amcan trwyddedu:

- rhwystro gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu o gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd.
- sicrhau fod gamblo'n cael ei gynnal mewn modd teg ac agored ac
- amddiffyn plant a phobl fregus eraill rhag cael eu niweidio neu eu camddefnyddio gan gamblo.

## 1.2 Crynodeb

Daw Cyngor Sir Ynys Mon yn awdurdod trwyddedu o dan Ddeddf Gamblo 2005. Golyga hyn y bydd y Cyngor yn gyfrifol am ganiatáu trwyddedau eiddo yng Ngwynedd ar gyfer:

- ◆ adeiladau casino
- ◆ bingo mewn neuaddau ac mewn eiddo wedi'i drwyddedu ar gyfer gwerthu alcohol
- ◆ eiddo betio gan gynnwys traciau
- ◆ canolfannau hapchwarae i oedolion
- ◆ canolfannau adloniant teuluol
- ◆ a pheiriannau hapchwarae mewn tafarndai a chlybiau

Mae'r Cyngor yn gwasanaethu'r ardal ddaearyddol a adwaenir fel Ynys Môn – cyfeirir ati'n aml fel Môn Mam Cymru ac mae dwy bont wych, sef pont enwog Telford, 'Pont Borth' a Phont Britannia sy'n fwy diweddar, yn ei chysylltu gyda thir mawr Gogledd-orllewin Cymru. Oherwydd ei bod mor agos i Iwerddon, mae'n "borth" rhyngwladol strategol i Weriniaeth Iwerddon gyda phorthladd y fferi yng Nghaergybi yn cludo 2.5 miliwn o bobl bob blwyddyn dros y môr i ac o'r Ynys Werdd.

Gan Ynys Môn y mae'r boblogaeth leiaf yng Nghymru – 68,368 yng nghanol 2003. Serch hynny, gydag arfordir o 125 milltir yn cwmpasu ardal sy'n 720 cilometr sgwâr, Ynys Môn ydyw'r fwyaf o ynysoedd Cymru. Gweler map o'r ardal yn Atodiad A. Erys yn gadarnle i'r iaith a'r diwylliant Cymreig ac mae'n cynnwys 22,000 hectar o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, 60 safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n ategu at 4 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, 3 Ardal Diogelwch Arbennig ac 8 ardal sy'n ymgeisio am statws Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

Mae Deddf 2005 yn gofyn i'r Cyngor gyhoeddi 'Datganiad o Bolisi Trwyddedu' sy'n gosod allan y polisïau y bydd y Cyngor fel rheol yn eu defnyddio i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu wrth benderfynu ar geisiadau ac adolygiadau o dan y Ddeddf.

Cafodd y 'Datganiad Drafft o Bolisi Trwyddedu' ei baratoi gan gadw mewn cof ddarpariaethau'r Ddeddf Gamblo, y Canllawiau a dderbyniwyd oddi wrth y Comisiwn Gamblo a'r ymatebion a gafwyd yn ystod y broses o ymgynghori. Bwriedir iddi fod yn ddogfen addysgiadol ac yn ddogfen drafod a fydd yn arwain y Cyngor at fabwysiadu Datganiad o Bolisi Trwyddedu ffurfiol.

Daw'r polisi i rym ar y dyddiad y bydd yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor ac fe'i hadolygir fyn ôl y gofyn ac o leiaf bob tair blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu.

### 1.3 Geirfa Dermau

Yn y Datganiad o Bolisi hwn, diffinnir y geiriau a'r termau canlynol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Amcanion Trwyddedu** | Fel y diffinnir yn adran 1.1 uchod. |
| **Y Cyngor** | Cyngor Sir Ynys Mon |
| **Ardal** | Ardal Ynys Mon sy'n cael ei gweinyddu gan y Cyngor |
| **Trwyddedau** | Fel y diffinnir yn adran 1.4 isod. |
| **Ceisiadau** | Am Drwyddedau neu Hawlenni fel y diffinnir yn adran 1.4 isod. |
| **Hysbysiadau** | Hysbysiadau Defnydd Dros Dro a Hysbysiadau Defnydd Achlysurol |
| **Y Ddeddf** | Deddf Gamblo 2005 |
| **Rheoliadau** | Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Gamblo 2005 |
| **Eiddo** | Unrhyw le sy'n cynnwys cerbyd, llestr neu strwythur symudol |
| **Côd Ymarfer** | Codau cysylltiedig o dan adran 24 Deddf Gamblo 2005 |
| **Mandadol** | Amod benodol y darperir ar ei chyfer yn y rheoliadau |
| **Amod** | Ynghlwm wrth y drwydded |
| **Awdurdod Cyfrifol** | Mae Deddf Gamblo 2005 yn diffinio'r canlynol fel awdurdodau cyfrifol y nghylch eiddo<br>• Yr Awdurdod Trwyddedu (Cyngor Sir Ynys Mon)<br>• Y Comisiwn Gamblo<br>• Heddlu Gogledd Cymru<br>• Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.<br>• Adain Cynllunio Cyngor Sir Ynys Mon<br>• Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Sir Ynys Mon<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ynys Mon<br>• Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi |

**Parti â Diddordeb** At ddibenion Deddf Gamblo 2005, mae person yn barti â diddordeb ynghylch trwydded eiddo os yw, ym marn yr Awdurdod Trwyddedu sy'n cyflwyno'r drwydded neu y cyflwynir y cais iddo, yn

- Byw'n ddigon agos at yr eiddo fel ei bod yn debyg y bydd yn cael ei effeithio gan y gweithgareddau a ganiateid.
- Â diddordebau busnes a allai gael eu heffeithio gan y gweithgareddau a ganiateid; gallai hyn gynnwys hefyd, er enghraifft, cymdeithasau masnach, elusennau, grwpiau ffydd a meddygfeydd.
- Cynrychioli person sy'n bodloni un o'r uchod, er enghraifft Cymdeithasau Trigolion neu Denantiaid.

Wrth ystyried a yw person yn barti â diddordeb, ystyrir pob achos yn ôl ei deilyngdod ac wrth ystyried yr amgylchiadau perthnasol, gan gynnwys y rhai yng Nghanllaw'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol.

## 1.4 Mathau o Drwydded

Mae'r ddogfen yn gosod allan y polisïau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau ar gyfer:

1. Trwydded Eiddo
2. Hysbysiadau Defnydd Dros Dro
3. Hysbysiadau Defnydd Achlysurol
4. Hawlenni sydd raid eu cael o dan y Ddeddf, a
5. Cofrestriadau sydd raid eu cael o dan y Ddeddf

## 1.5 Eiddo Trwyddadwy a Hawlenni

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â phob eiddo/rhybudd/trwydded a

chofrestriadau a nodwyd fel rhai sy'n disgyn o fewn darpariaethau'r Ddeddf, sef: -

- adeiladau casino
- adeiladau bingo
- adeiladau hapchwarae, gan gynnwys traciau
- canolfannau gemau oedolion
- canolfannau adloniant teuluol.

Ac eithrio yn achos traciau (ble nad perchennog y trac sy'n cael trwydded adeilad yw'r unigolyn efallai sydd yn cynnig yr hapchwarae) ni ellir ond rhoi trwyddedau adeilad i bobl gyda thrwydded gweithredu berthnasol. Er enghraifft, i gael trwydded adeilad bingo rhaid i'r ymgeisydd fod â thrwydded gweithredu bingo. Gellir trosglwyddo trwyddedau eiddo i rywun arall sydd â thrwydded weithredu ddilys.

Yn unol â'r Ddeddf gall awdurdodau trwyddedu atodi amodau i drwyddedau eiddo. Mae Rhan 9 o'r Canllawiau hyn yn awgrymu pa amodau y gellid eu hystyried mewn perthynas â phob math o drwydded.

Yn ogystal â thrwyddedau, gall awdurdod trwyddedu roi awdurdod ar ffurf arall, er enghraifft, awdurdod i ddefnyddio eiddo am gyfnod dros dro, rhybuddion defnydd achlysurol a phum math gwahanol o drwyddedau ar gyfer canolfannau adloniant teuluol heb drwydded, gemau gyda gwobrau, peiriannau, gemau mewn eiddo gyda thrwydded alcohol a thrwyddedau gemau clybiau a pheiriannau clybiau.

## 1.6 Egwyddorion Cyffredinol

Ni fydd dim yn y Datganiad o Bolisi hwn yn:

1. Tanseilio hawliau unrhyw berson i gyflwyno cais o dan y Ddeddf am sawl math o ganiatâd ac i gael y cais wedi'i ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun NEU'n
2. Goresgyn hawl unrhyw berson i gyflwyno sylwadau ar unrhyw gais neu ofyn am adolygiad o drwydded neu hawlen lle mae'r Ddeddf yn caniatáu hynny.

Y man cychwyn ar gyfer penderfynu ar geisiadau fydd rhagdybio y dylid caniatáu'r cais, heb amodau. Dim ond pan fydd eu hangen i gyfarfod ag anghenion yr amcanion trwyddedu yr ystyrir amodau ac ni fydd unrhyw amod a osodir yn or lawdrwm ond bydd yn gymesur â'r cais ac â'r 'risgiau' a ragwelir. Fel rheol, ystyrir na fydd angen amodau os oes deddfwriaeth arall sy'n cyflawni'r un amcan.

Wrth benderfynu ar gais am drwydded eiddo neu adnewyddu trwydded eiddo, telir sylw i ba mor agos yw'r eiddo at ysgolion, canolfannau oedolion bregus neu at ardaloedd trigiannol gyda nifer fawr o deuluoedd â phlant. Ystyrir hefyd pa mor fawr yw'r eiddo gamblo a sut y bydd yn gweithio. Fodd bynnag, penderfynir ar bob achos yn ôl ei deilyngdod. Felly, os gall ymgeisydd ddangos mewn gwirionedd sut y gallai oresgyn bryderon ynghylch amcan trwyddedu, bydd hyn yn cael ei ystyried.

Mae trwyddedu'n golygu rheoli eiddo trwyddedig, Hysbysiadau Defnydd Dros Dro a Hysbysiadau Defnydd Achlysurol o dan delerau'r Ddeddf. Gellir gosod amodau ar drwyddedau ar gyfer ymdrin â materion sydd o dan reolaeth trwyddedeion unigol.

Wrth ystyried a ddylid gosod amodau ar drwyddedau, dylai'r Cyngor ganolbwytio'n bennaf ar beth fyddai effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n digwydd mewn eiddo trwyddedig ar y cyhoedd sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal honno. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliad, ddarparu ar gyfer gosod amod benodol ar Drwydded Eiddo fel amod 'fandadol neu 'ddiofyn'. Wrth benderfynu ar gais, ni ddylai'r Awdurdod Trwyddedu dalu sylw i'r gofyn am yr hyn sy'n cael ei ddarparu.

Mae'r Cyngor yn cydnabod fod sawl ffordd arall ar gael ar wahân i drwyddedu o dalu sylw i achosion o ymddygiad afreolus a allai ddigwydd y tu allan i eiddo trwyddedig, gan gynnwys:

1. Rheoli cynllunio
2. Gwaith i greu amgylchedd diogel a glân yn yr ardaloedd hynny mewn partneriaeth â busnesau lleol, cwmnïau cludiant ac Adrannau eraill o'r Cyngor.
3. Cysylltiad rheolaidd gyda'r Heddlu ynghylch problemau gorfodi'r gyfraith pan geir anrhefn ac ymddygiad gwrth gymdeithasol
4. Hawliau'r Heddlu, awdurdodau cyfrifol eraill neu drigolyn neu fusnes lleol i ofyn am adolygiad o'r drwydded

Bydd gofyn i wrthwynebwyr gyfeirio eu gwrthwynebiad yn nhermau un neu ragor o'r Amcanion Trwyddedu, fel y nodir yn adran 1.1uchod cyn y bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gallu ei ystyried.

Pan fo person, sydd naill ai'n cael ei effeithio'n uniongyrchol gan y cais neu sy'n byw gerllaw eiddo yr ystyrir ei drwyddedu, yn cyflwyno'i hun fel cynrychiolydd trigolion y cyffiniau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn gofyn am brawf ei fod yn eu cynrychioli mewn gwirionedd.

Bydd y Cyngor, wrth ymgymryd â'i waith trwyddedu, yn talu sylw dyladwy i'r angen i wahardd gwahaniaethu anghyfreithlon ac i hyrwyddo cydraddoldeb a pherthynas dda rhwng pobl o wahanol hil.

## 1.7 Corff ymgynghorol er amddiffyn plant rhag niwed

Mae'r Cyngor, fel awdurdod trwyddedu, yn dynodi Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Mon fel yr awdurdod cymwys i ddarparu cyngor ar amddiffyn plant rhag niwed o gofio am y cyfoeth o wybodaeth arbenigol ac o arbenigedd sydd ganddi yn y maes hwn. Mae'r Ddeddf yn dweud y dylai pob Cyngor enwebu un corff unigol ar gyfer hyn ond efallai y byddai'n ddoeth i'r Cyngor gynnwys sefydliadau eraill os yw o'r farn y byddai hynny'n briodol er mwyn rhwystro niwed corfforol, moesol neu seicolegol, yn enwedig lle mae'n derbyn ceisiadau am hynny.

## 1.8 Trefniadau Trosiannol

Yn ystod cyfnod y trefniadau trosiannol a benodir gan y Ddeddf, cyflwynir trwyddedau eiddo i'r rhai sy'n ymgeisio o dan Atodlen 18 y Ddeddf sydd wedi cyflwyno'r wybodaeth, y dogfennau a'r ffi angenrheidiol. Cyflwynir trwyddedau ar y sail mai parhau'r caniatâd sy'n bodoli eisoes fydd hynny. Fodd bynnag os yw'r Heddlu'n gwrthwynebu ar sail y byddai cyfnewid trwydded bresennol yn niweidio'r amcan o rwystro trosedd ac anhrefn, yna bydd y drwydded yn cael ei hystyried gan Bwyllgor neu Is Bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor.

## 1.9 Y rhai yr ymgynghorwyd â nhw

Ymgynghorir yn ffurfiol ynghylch y Datganiad o Bolisi Trwyddedu hwn gyda:

1. Heddlu Gogledd Cymru.
2. Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
3. Cynrychiolwyr o ddeiliaid gwahanol drwyddedau eiddo yn yr ardal a fydd yn cael eu heffeithio gan y polisi hwn.
4. Pobl a busnesau a fyddai'n debygol o gael eu heffeithio gan y gamblo a awdurdodir yn yr Ardal

*Ni fwriedir i'r rhestr uchod fod yn gyflawn, yn wir disgwylir yr ymgynghorir yn hynod o eang, gweler Atodiad D am restr gyflawn.*

Bydd y Cyngor, gan dalu sylw llawn i Ganllawiau'r Comisiwn, yn rhoi'r pwys dyladwy ar farn y rhai yr ymgynghorwyd â nhw. Wrth benderfynu ar faint o bwys a ddylid ei roi i sylw penodol, bydd y Cyngor yn cadw mewn cof:

i. pwy sy'n cyflwyno'r sylw (beth yw ei arbenigedd neu ei ddiddordeb)

ii. beth allai fod eu cymhelliad

iii. faint o bobl eraill sydd wedi mynegi barn debyg

iv. y graddau y mae'r sylwadau'n berthnasol i faterion y dylai'r Cyngor fod yn eu cynnwys yn y ddogfen bolisi.

## 1.10 Cyfnewid Gwybodaeth

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau a'i waith o dan Ddeddf Gamblo 2005 bydd y Cyngor yn cyfnewid gwybodaeth berthnasol gyda chyrff rheolaethol eraill a bydd yn sefydlu protocolau ar gyfer hynny. Wrth gyfnewid gwybodaeth o'r fath, bydd y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gamblo a chyda deddfwriaeth gwarchod gwybodaeth a rhyddid gwybodaeth yn unol â pholisïau presennol y Cyngor.

Bydd manylion cyswllt y rhai a fydd yn cyflwyno sylwadau a manylion y sylwadau a geir ar gael i'r ymgeiswyr er mwyn symbylu trafodaeth a, pe cynhelid gwrandawiad, bydd yn dod yn rhan o'r ddogfen gyhoeddus. Hysbysir pawb a fydd yn cyflwyno sylwadau neu'n gofyn am adolygu trwydded eiddo y bydd y manylion hynny'n cael eu datgelu.

# 2. DEDDFWRIAETH, POLISI A STRATEGAETHAU

## 2.1 Deddfwriaeth

Wrth gynnal ei waith trwyddedu o dan Ddeddf Gamblo 2005 bydd raid i'r Cyngor ystyried deddfwriaethau eraill, gan gynnwys:

1. Adran 17 Deddf Trosedd ac Anrhefn 1988
2. Deddf Hawliau Dynol 1998
3. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayb 1974;
4. Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990;
5. Deddf Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol 2003;
6. Deddf Cysylltiadau Hiliol (a newidiwyd) 1976
7. Deddf Drwyddedu 2003
8. Gorchymyn Datganiadau Rheolaethol (Diogelwch Tân) 2005

Fodd bynnag, ni fwriedir i'r polisi ddyblygu'r ddeddfwriaeth bresennol na'r trefniadau rheolaethol sydd eisoes yn clymu cyflogwyr a gweithredwyr.

## 2.2 Perthynas gyda Pholisïau Cynllunio

Ni ellir talu sylw wrth benderfynu ar gais, o dan delerau'r Ddeddf, i ganiatâd cynllunio neu reoliadau adeiladu neu i gyfyngiadau cynllunio.

Nid yw galw heb ei ddiwallu yn ystyriaeth y telir sylw iddo wrth benderfynu ar gais am drwydded eiddo o dan Ddeddf Gamblo 2005.

Mae'r broses o gyflwyno Caniatâd dros Dro am drwydded eiddo yn broses wahanol ac ar wahân i ganiatáu Caniatâd Cynllunio. Rhaid gwneud cais a derbyn caniatâd Cynllunio a Rheoliadau Adeiladu cyn y gellir cychwyn ar unrhyw ddatblygu.

## 2.3 Strategaethau Cenedlaethol

Bydd y Cyngor yn talu sylw i Strategaethau eraill y Llywodraeth, cyn belled a'u bod yn effeithio ar ei waith trwyddedu.

## 2.4 Strategaethau a Pholisïau Lleol

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gan gadw mewn cof y polisïau lleol eraill a fabwysiadwyd, gan gynnwys Gweledigaeth, Amcanion Strategol a Blaenoriaethau'r Cyngor.

### 2.5 Cyfuno Strategaethau

Drwy ymgynghori'n eang cyn cyhoeddi'r datganiad polisi hwn bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau y bydd y polisi'n cyfuno'n briodol gyda'r strategaethau lleol ar gyfer rhwystro troseddu, cynllunio, cludiant, twristiaeth a diwylliannol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod na ddylai'r broses o benderfynu ar geisiadau trwyddedu ymddangos fel pe byddai'n ail adrodd y drefn o ymdrin â cheisiadau cynllunio a bydd raid gwahaniaethu'n glir rhwng y trefniadau cynllunio a'r trefniadau trwyddedu er mwyn osgoi dyblygu a chreu aneffeithiolrwydd.

Gellid ystyried y ffaith na chydymffurfiwyd â gofynion statudol wrth benderfynu ar a ddylid caniatáu trwydded ai peidio, ond dim ond os derbynnir sylw perthnasol.

## 3. CYMRYD PENDERFYNIADAU

### 3.1 Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

Bydd panel trwyddedu o dri chynghorydd yn ystyried ceisiadau y derbyniwyd sylwadau yn eu cylch gan bartïon â diddordeb a chan awdurdodau cyfrifol. Ni fydd cynghorwyr ward yn eistedd ar y panel pan ystyrir cais yn eu ward nhw.

Bydd y pwyllgor trwyddedu hefyd yn penderfynu ar faterion trwyddedu cyffredinol sydd wedi'u dirprwyo iddo gan y Cyngor llawn sydd heb gysylltiad â Deddf Gamblo 2005.

Pan fo cynghorydd, sy'n aelod o'r pwyllgor trwyddedu, yn cyflwyno neu wedi cyflwyno sylwadau ynghylch trwydded ar ran parti â diddordeb, dylai, er mwyn cadw at drefn lywodraethol dda, ymatal rhag cymryd unrhyw ran yn y broses o benderfynu a fyddai'n effeithio ar y cais hwnnw am drwydded.

Bydd y panel trwyddedu'n cyfeirio at y pwyllgor trwyddedu unrhyw fater nad yw'n gallu ei drafod oherwydd nad yw rhai o'i aelodau'n gallu cymryd rhan na phleidleisio yn ei gylch.

Bydd y pwyllgor trwyddedu'n cyfeirio at y Cyngor llawn unrhyw fater nad yw'n gallu ei drafod oherwydd nad yw rhai o'i aelodau'n gallu cymryd rhan na phleidleisio yn ei gylch.

Rhaid cofnodi rhesymau clir a dealladwy pam y gwnaed penderfyniad trwyddedu gan y pwyllgor neu banel trwyddedu. Anfonir y penderfyniad a'r rheswm am hynny at yr Ymgeisydd ac at y rhai a gyflwynodd sylwadau perthnasol gynted ag y bydd hynny'n ymarferol. Rhoddir crynodeb o'r penderfyniad hefyd ar wefan y Cyngor gynted â bod modd ar ôl cadarnhau'r penderfyniad lle bydd yn ffurfio rhan o'r gofrestr drwyddedu statudol y mae gofyn i'r Cyngor ei chadw.

Bydd swyddogion trwyddedu'r Cyngor yn delio gyda phob cais arall am drwydded lle na cheir sylwadau, neu lle cafwyd sylwadau ond fod pob parti'n cytuno nad oes gofyn cael gwrandawiad.

Bydd swyddogion y Cyngor yn penderfynu a yw sylwadau'n amherthnasol, yn ddisylwedd neu'n flinderus a'r swyddogion hefyd a fydd yn penderfynu a ddylid cyfeirio sylwadau neu geisiadau am adolygu trwyddedau at y pwyllgor neu'r panelau trwyddedu. Pan wrthodir sylwadau, rhoddir rhesymau ysgrifenedig pam y gwnaed hynny.

Er mwyn osgoi gymaint â bo modd o ddyblygu gyda threfniadau statudol eraill, ni fydd y Cyngor yn gosod amodau ar drwydded oni bai yr ystyrir fod rhaid gwneud hynny er mwyn hyrwyddo amcanion trwyddedu. Fel rheol, ystyrir na fydd angen amodau os gellir cyflawni'r amcan drwy ddefnyddio deddfwriaeth berthnasol arall.

## 3.2 Dyrannu Cyfrifoldebau Cymryd Penderfyniadau

Mae'r gan y Cyngor nifer fawr o gyfrifoldebau ynghylch trwyddedu ac mae wedi sefydlu Pwyllgor Trwyddedu i'w gweinyddu. Gan y gwerthfawrogir y dylid darparu gwasanaeth cyflym, effeithiol a chost effeithiol i'r holl bartïon sy'n gynwysedig yn y broses trwyddedu mae'r Pwyllgor wedi dirprwyo rhai penderfyniadau a gwaith ac wedi sefydlu Is Bwyllgor ar gyfer hynny.

Bydd llawer o'r penderfyniadau a'r gwaith yn rhai hollol weinyddol a dirprwyir hawl i Swyddogion y Cyngor i ganiatáu ceisiadau diwrthwynebiad, er enghraifft y trwyddedau a'r hawlenni hynny lle na chafwyd sylwadau yn eu cylch.

Mae'r Tabl yn Atodiad B yn dangos beth y cytunwyd i'w dirprwyo i'r Pwyllgor Trwyddedu, i'r Paneli ac i'r Swyddogion.

Nid yw'r drefn ddirprwyo'n gwahardd Swyddogion rhag cyfeirio cais i Banel, y Panel i'r Pwyllgor Llawn a'r Pwyllgor i'r Cyngor Llawn os bydd angen.

## 3.3 Adolygiadau Trwyddedu

Bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad o'r drwydded eiddo pan fydd yn derbyn cais ffurfiol yn unol â'r Ddeddf i'w hadolygu mewn perthynas ag un neu ragor o'r Amcanion Trwyddedu. Gallai sylwadau fod ynghylch yr hyn sy'n digwydd yn yr eiddo, gan gynnwys y canlynol:

- Defnydd o eiddo trwyddedig i werthu a dosbarthu cyffuriau Dosbarth A a golchi cynnyrch troseddau cyffuriau.
- Defnyddio eiddo trwyddedig ar gyfer gwerthu a dosbarthu drylliau anghyfreithlon

- Defnyddio eiddo trwyddedig ar gyfer puteinio neu werthu pornograffiaeth anghyfreithlon
- Defnyddio eiddo trwyddedig fel canolfan gweithgaredd troseddol wedi'i drefnu.
- Defnyddio eiddo trwyddedig i drefnu ymosodiadau hiliol, homoffobig neu drais rhywiol.
- Defnyddio eiddo trwyddedig ar gyfer gwerthu tybaco neu nwyddau wedi'u smyglo
- Defnyddio eiddo trwyddedig ar gyfer gwerthu nwyddau wedi'u lladrata
- Bod plant neu bobl fregus yn cael eu peryglu

Rhoddir yr ystyriaeth briodol i bob sylw perthnasol ond anwybyddir sylwadau sy'n disgyn i'r categorïau canlynol:

a) ar sail nad oes sylwedd iddo

b) ar sail ei fod yn flinderus

c) ar sail ei fod yn amherthnasol

d) ar sail na fyddai'r sylw yn achosi'r Cyngor i ddiddymu neu atal trwydded neu dynnu neu osod amodau ar Drwydded yr Eiddo

e) ar sail ei fod yn sylweddol yr un fath â sylw a gyflwynwyd mewn cais blaenorol ynghylch yr un eiddo; neu

f) ar sail ei fod yn sylweddol yr un fath a sylw a wnaed pan oedd y cais am Drwydded Eiddo'n cael ei ystyried.

Gall y Cyngor ei hunan hefyd benderfynu y dylid adolygu Trwydded Eiddo.

# 4. SAFONAU LLEOL

## 4.1 Ceisiadau

Dim ond person sydd un ai wedi derbyn NEU wedi ymgeisio am Drwydded Gweithredu sy'n ei awdurdodi i gynnal y gweithgaredd all ymgeisio am Drwydded Eiddo ar gyfer y gweithgaredd hwnnw.

Rhaid cyflwyno asesiad o sut y bydd yr ymgeisydd yn hyrwyddo pob Amcan Trwyddedu ar ffurf Atodlen Gweithredu ysgrifenedig gyda phob cais am gael, trosglwyddo neu amrywio trwydded eiddo. Gall Ymgeisydd ofyn am gyngor gan y Cyngor ynghylch faint o wybodaeth a ddylid ei gyflwyno.

Bydd y cyngor yn cynghori faint o fanylion y dylid eu cyflwyno a bydd hynny yn gymesur â natur y cais a gyflwynir.

## 4.2 Asesiad o Angen

Nid yw galw nad yw'n cael ei ddiwallu yn ystyriaeth y telir sylw iddo wrth benderfynu ar gais am drwydded eiddo o dan Ddeddf Gamblo 2005.

## 4.3 Amodau

Rhoddir amodau sy'n gymesur ac yn addas ar gyfer y busnes, y sefydliad neu'r unigolyn ar drwyddedau. Bydd y Cyngor yn dibynnu'n bennaf ar gyngor a geir gan y Comisiwn Gamblo ac yn gosod amodau yn unol ag amgylchiadau pob cais unigol.

Bydd amodau a osodir ar drwyddedau eiddo yn adlewyrchu strategaethau atal trosedd lleol, cyn belled â bo hynny'n bosibl. Er enghraifft, byddai'n addas gofyn am deledu cylch cyfyng mewn rhai eiddo.

## 4.4 Gorfodaeth

Bydd y Cyngor yn cael ei arwain gan Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo a bydd yn ymdrechu i fod yn

- Gymesur: dim ond pan fo angen gwneud hynny y bydd rheoleiddwyr yn ymyrryd; bydd yr hyn a gynigir yn addas ar gyfer y risg a welir ac yn costio cyn lleied â phosibl.
- Atebol: Bydd rheoleiddwyr yn gallu cyfiawnhau penderfyniadau a bydd pob gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd.
- Cyson: bydd rheolau a safonau yn gyson ac yn cael eu gweithredu'n deg.
- Tryloyw: bydd rheoleiddwyr yn agored ac yn ymdrechu i gadw'r rheoliadau'n syml ac yn hawdd eu deall.
- Wedi'u targedu: bydd rheoli'n canolbwyntio ar y broblem ac yn achosi'r lleiaf posibl o sgîl-effeithiau.

Bydd y Cyngor yn ceisio osgoi dyblygu gyda threfniadau rheolaethol eraill cyn belled â bo modd.

Sefydlir cynllun o archwilio eiddo'n rheolaidd a phenderfynir pa mor aml y gwneir hynny yn ôl yn risg sy'n codi o'r eiddo h.y. bydd eiddo lle'r ystyrir fod mwy o risg yn cael ei archwilio'n amlach nag eiddo sydd â llai o risg.

Wrth benderfynu ar risg, ystyrir y canlynol:

- natur y gamblo sy'n digwydd yn yr eiddo
- lleoliad yr eiddo mewn perthynas ag ysgolion ayb.
- y gweithdrefnau sydd gan y rheolwyr ar gyfer cyrraedd yr amcanion trwyddedu.

Gellir archwilio ar hap hefyd, yn ôl disgresiwn y tîm trwyddedu, pan ystyrir fod hynny'n angenrheidiol i gyfarfod ag amcan trwyddedu neu pan dderbynnir cwyn. Bydd yr Ardal yn cael ei monitro am eiddo didrwydded.

Bydd y Cyngor yn cydweithio'n agos gyda'r heddlu i orfodi deddfwriaeth trwyddedu. Bydd yn annog yr heddlu i rannu gwybodaeth ynghylch trwyddedeion ac eiddo trwyddedig o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

## 4.5 Casinos

Does dim penderfyniad i wahardd casinos yn y Sir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adolygu hyn ac efallai y bydd, rywbryd, yn penderfynu peidio â chaniatáu casinos. Does dim casinos yn y Sir ar hyn o bryd.

Pe byddai'r Cyngor yn cymryd penderfyniad o'r fath, byddai'n cael ei wneud gan y Cyngor Llawn ar ôl trafodaeth drwyadl a byddai'r rhesymau paham y penderfynwyd felly'n cael eu cofnodi. Ni fyddai hawl i apelio yn erbyn penderfyniad o'r fath.

## 4.6 Canolfannau Adloniant Teuluol Ddidrwydded

Pan nad oes gan eiddo Drwydded Eiddo ond dymunir cael peiriannau hapchwarae gellir cyflwyno cais i'r awdurdod trwyddedu am hawlen.

Dim ond os yw'r awdurdod trwyddedu'n fodlon y defnyddir yr eiddo fel Canolfan Adloniant Teuluol didrwyddedd, ac os ymgynghorwyd gyda phrif swyddog yr heddlu, y caniateir hawlen. Yr hyn a ystyrir yn berthnasol wrth benderfynu ar y cais fydd addasrwydd yr ymgeisydd, megis a oes ganddo unrhyw record droseddol a fyddai'n ei wneud yn anaddas i redeg canolfan adloniant teuluol, ac addasrwydd yr eiddo o ran lleoliad ac a oes yno hanes o anhrefn.

## 4.7 Canllawiau Ychwanegol

Mae'r Cyngor yn nodi fod y term 'Peiriant Hapchwarae' erbyn hyn yn golygu pob peiriant gamblo ac mae'r term yn cael ei ddefnyddio yn y Ddeddf gan ei fod yn un hawdd i'w ddeall. Mae'r diffiniad o 'beiriannau hapchwarae' yn ehangach yn Neddf Gamblo 2005 nag mewn deddfwriaeth gamblo o'r blaen ac mae'n berthnasol i bob math o weithgareddau gamblo y gellir eu cynnal ar beiriant, gan gynnwys betio ar rith- ddigwyddiadau.

Dylid nodi, fodd bynnag, fod gwahaniaeth yn dal rhwng peiriannau sy'n profi sgil a pheiriannau hapchwarae a bod dal eithriadau pwysig ynghylch pan nad yw peiriant yn cael ei ystyried yn beiriant hapchwarae hyd yn oed pan mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gamblo, er enghraifft, cyfrifiadur personol yn y cartref.

Mae Deddf Gamblo 2005 yn rhoi'r hawl i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi rheoliadau i ddiffinio pedwar dosbarth o beiriannau hapchwarae. Dangosir y manylion sydd ar gael gan y Comisiwn Gamblo ar hyn o bryd yn Atodiad E ynghyd â thabl yn crynhoi'r darpariaethau. Nid yw'r Comisiwn Gamblo wedi gorffen ymgynghori ynghylch hyn eto.

### 4.8 Loterïau Bychan

Bydd y Cyngor yn dal i drwyddedu loterïau bychan ond gyda gweithdrefnau ychydig yn wahanol. Cyhoeddir y manylion fis Medi 2006 gan y Comisiwn Gamblo. Gellir cael manylion pellach ar wefan y Comisiwn Gamblo o dan ‘Guidance to Licensing Authourities – Small Society Lotteries (*consultation document*).

## 5. AMCAN RHWYSTRO TROSEDD AC ANRHEFN

Bydd y Cyngor, wrth benderfynu ar geisiadau, yn ystyried a fyddai caniatáu trwydded eiddo yn arwain at gynnydd mewn trosedd ac anhrefn.

Mae’r Comisiwn Gamblo wedi nodi yn ei Ganllaw drafft i awdurdodau lleol y dylid ystyried ‘anhrefn’ fel rhywbeth sy’n aflonyddu’n fwy difrifol ac sy’n fwy na dim ond niwsans. Ffactorau i’w hystyried wrth benderfynu a yw aflonyddwch yn ddigon difrifol i’w ystyried yn ‘anhrefn’ yw a oedd angen cymorth yr heddlu a pha mor fygythiol oedd yr ymddygiad yng ngolwg y rhai a allai ei weld a’i glywed. Mae’r awdurdod yn cytuno gyda’r datganiad hwn.

Anogir ymgeiswyr i drafod y gweithdrefnau atal troseddu yn eu heiddo gyda Swyddogion Trwyddedu’r Cyngor a neu gyda Heddlu Gogledd Cymru cyn cyflwyno cais ffurfiol.

Wrth ystyried ceisiadau am drwydded bydd y Cyngor yn talu sylw penodol i’r canlynol:

1. Dyluniad a gosodiad yr eiddo
2. A yw’r hyfforddiant a roddir i staff mewn atal troseddu yn addas ar gyfer yr eiddo
3. Nodweddion diogeledd ffisegol a osodir ar yr eiddo. Gall hyn gynnwys pethau fel lleoliad y tiliau neu safon y teledu cylch cyfyng.
4. Pan fo gan eiddo gyfyngiad oedran, y trefniadau i sicrhau y cedwir at hynny.
5. Y tebygolrwydd o unrhyw drais, problem trefn gyhoeddus neu broblem plismona pe caniateid y drwydded.

## 6 Amcan fod Gamblo’n Cael ei Gynnal mewn Modd Teg ac Agored

Yn gyffredinol, nid yw’r Comisiwn Gamblo’n disgwyl i awdurdodau trwyddedu drafferthu sicrhau fod gamblo’n cael ei gynnal mewn modd teg ac agored gan mai mater i reolwyr y busnes gamblo yw hynny, ac mae’n cael ei reoli gan y Drwydded Weithredu, a bydd addasrwydd a gweithgareddau unigolion yn cael eu rheoli gan Drwyddedau Personol. Cyfrifoldeb y Comisiwn yw’r ddwy drwydded honno.

# 7 Amcan Gwarchod Plant a Phobl Fregus Eraill

## 7.1 Mynediad i eiddo trwyddedig

Gydag ychydig eithriadau, ni chaniateir plant na phobl ifanc mewn eiddo gamblo. Dim ond oedolion gaiff fynd yno.

Bydd y Cyngor yn ceisio cyfyngu ar hysbysebu eiddo fel nad yw gamblo'n cael ei anelu at blant nac yn cael ei hysbysebu mewn modd sy'n ei wneud yn arbennig o ddeniadol i blant.

Bydd y Cyngor yn ymgynghori gyda'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch unrhyw gais sy'n awgrymu y gallai pryderon godi fod plant neu oedolion bregus yn cael mynd i mewn i'r eiddo.

Bydd y Cyngor yn ystyried teilyngdod pob cais unigol cyn penderfynu a ddylid gosod amodau ar gategorïau penodol o eiddo i warchod plant. Gallai hyn gynnwys gofynion megis:

1. Arolygu'r drysau
2. Gwahanu mannau lle caniateir gamblo oddi wrth fannau lle caniateir plant.
3. Arolygu'r peiriannau hapchwarae sydd mewn mannau lle caniateir plant.

Mae Deddf 2005 yn darparu ar gyfer Côd Ymarfer ynghylch plant a chasinos a bydd y Cyngor yn gweithio'n glos gyda'r heddlu er mwyn sicrhau fod y gyfraith yn cael ei gorfodi'n briodol.

## 7.2 Pobl Fregus

Nid yw'r Cyngor yn ceisio gwahardd grwpiau penodol o oedolion rhag gamblo fel y mae'n ceisio gwahardd plant ond bydd yn rhagdybio, at ddibenion rheolaethol, fod 'pobl fregus' yn cynnwys:

- pobl sy'n gamblo mwy nag a ddymunant
- pobl sy'n gamblo mwy nag a allant ei fforddio, a
- pobl na all, o bosibl, benderfynu'n wybodus neu'n gytbwys ynghylch gamblo oherwydd nam ar y meddwl, alcohol neu gyffuriau.

## 8. CWYNION YN ERBYN EIDDO TRWYDDEDIG

Bydd y Cyngor yn ymchwilio i gwynion yn erbyn eiddo trwyddedig o ran materion sy'n berthnasol i'r amcanion trwyddedu y mae ganddo gyfrifoldeb amdanynt. Anogir pawb i gwyno'n gyntaf wrth y trwyddedai neu'r busnes a cheisio datrys y mater eu hunain.

Pan fo parti â diddordeb yn cyflwyno sylwadau ynghylch eiddo trwyddedig, neu'n cyflwyno cais dilys am adolygu trwydded, gall y Cyngor yn gyntaf argymell cyfarfod cymodi i geisio egluro a datrys y broblem.

Ni fydd y broses yn amharu ar hawl unrhyw barti â diddordeb i ofyn i'r pwyllgor trwyddedu ystyried gwrthwynebiadau dilys a bydd gan ddeilydd trwydded hawl i wrthod cymryd rhan mewn cyfarfod cymodi.

**Rhoddir yr ystyriaeth briodol i bob sylw perthnasol oni bai yr ystyrir eu bod yn amherthnasol, yn ddisylwedd neu'n flinderus**

## 9. Gwybodaeth bellach

Gellir cael gwybodaeth bellach ynghylch Deddf Gamblo 2005, y Datganiad hwn o Bolisi Trwyddedu ac ynghylch y broses o ymgeisio, gan gynnwys ffurflenni cais a nodiadau canllaw, oddi wrth

Y Rheolwr Trwyddedu
Cyngor Sir Ynys Mon
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Mon
LL77 7TW

Rhif Ffôn 01248 752840
Ffacs 01248 752884
E-bost www.dmjpp@anglesey.gov.uk

Gellir cael gwybodaeth hefyd oddi wrth

Gambling Commission
Berkshire House
168 - 173 High Holborn
LLUNDAIN
WC1V 7AA

Ffôn: 020 - 7306 6219

Gwefan: www.gamblingcommission.gov.uk



## TABL O DDIRPRWYADAU GWAITH TRWYDDEDU

Atodiad B

| Y MATER I'W DRAFOD | Y CYNGOR LLAWN | IS BWYLLGOR NEU BANEL | SWYDDOGION |
|---|---|---|---|
| Polisi trwyddedu tair blynedd | X | | |
| Polisi i beidio â chaniatáu casinos | X | | |
| Gosod Ffioedd – pan yn addas | | Pwyllgor Gwaith | |
| Cais am drwydded eiddo | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am amrywio trwydded | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am drosglwyddo trwydded | | Pan dderbynnir sylwadau oddi wrth y Comisiwn | Pan na dderbynnir sylwadau oddi wrth y Comisiwn |
| Cais am drwydded dros dro | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Adolygu trwydded eiddo | | X | |
| Cais am hawlenni peiriannau / clwb hapchwarae | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Diddymi hawlenni peiriannau / clwb hapchwarae | | X | |
| Ceisiadau am hawlenni eraill | | | X |
| Diddymu hawlenni peiriant hapchwarae eiddo trwyddedig | | | X |
| Ystyried hysbysiadau defnydd dros dro | | | X |
| Penderfyniad i gyflwyno gwrth hysbysiad i hysbysiad defnydd dros dro | | X | |
| Penderfynu a yw person yn Barti â Diddordeb | | | X |
| Penderfynu a yw sylwadau'n berthnasol | | | X |
| Penderfynu a yw sylwadau'n amherthnasol, yn ddisylwedd, yn flinderus neu'n ailadroddus | | | X |

## Atodiad C

**Manylion Cyswllt yr Awdurdodau Perthnasol**

| | |
|---|---|
| **Cyngor Gwynedd**<br>**Adain Trwyddedu** | **Y Rheolwr Trwyddedu**<br>**Cyngor Sir Ynys Mon**<br>**Swyddfeydd y Cyngor**<br>**Llangefni**<br>**Ynys Mon**<br>**LL77 7TW**<br>**Dmjpp@anglesey.gov.uk** |
| **Y Comisiwn Gamblo** | **Berkshire House**<br>**168 - 173 High Holborn**<br>**LLUNDAIN**<br>**WC1V 7AA**<br>**info@gamblingcommission.gov.uk** |
| **Heddlu Gogledd Cymru.** | **Adain Trwyddedu**<br>**North Wales Police,**<br>**Yr Ala**<br>**Pwllheli**<br>**Gwynedd**<br>**LL53 5BU**<br>**Ian.williams4@nthwales.pnn.police.uk** |
| **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** | **North Wales Fire & Rescue Services**<br>**Head Office**<br>**Llanberis Road**<br>**Caernarfon**<br>**Gwynedd**<br>**LL55 2DF**<br>**Fs.wd.supv1@nwales-fireservice.org.uk** |
| **Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol** | **Swyddfeydd y Cyngor**<br>**Llangefni**<br>**Ynys Mon**<br>**LL77 7TW** |
| **Tollau a Chyllldi EM** | **HM Revenue & Customs**<br>**National Registration Unit**<br>**Portcullis House**<br>**21 India Street**<br>**Glasgow**<br>**G2 4PZ** |

## Y Rhai yr Ymgynghorwyd â hwy

Swyddogion Etholedig, Cyngor Sir Ynys Mon
Cynghorau Tref a Chymuned ar Ynys Mon
Y Comisiwn Gamblo
Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru.
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
Pennaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ynys Mon
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Mon
Pennaeth Addysg a Hamdden, Cyngor Sir Ynys Mon
Pennaeth Cynllunio Cyngor Sir Ynys Mon
Cymdeithas Bingo
Poppelston Allen
William Hill
Ladbrooks
Coral
Corbetts
Carefree Racing
Empire Bingo
Crown Leisure Links
Leisure Link
Sceptre Leisure Solutions Ltd
City Vending UK Ltd
Gamestec Leisure Ltd
Grŵp yn cynrychioli Eiddo Trwyddedig yn gwerthu alcohol
Perchnogion Safleoedd Carafannau
Grwpiau Crefyddol / Ffydd
Canolfannau Cynghori
Gam Care (Gamblwyr Anhysbys)
Byddin yr Iachawdwriaeth
Asiantaethau Rheoli Dyled
Urdd Gobaith Cymru
Undebau Llafur
Sefydliadau Gwirfoddol / Cymunedol yn gweithio gydag phlant / oedolion bregus

Cynrychiolwyr o ddeiliaid gwahanol drwyddedau yn yr Ardal a fydd yn cael eu heffeithio gan y polisi hwn.

Aelodau o'r cyhoedd a fydd yn cael eu heffeithio gan y polisi hwn.

Noder: Nid yw'r rhestr o angenrheidrwydd yn gyflawn. Bydd croeso i unrhyw un sy'n cael ei effeithio gan y polisi hwn gyflwyno sylwadau.

# Atodiad E

## Tabl A

Mae’r atodlen isod yn dangos cynigion diweddaraf y Comisiwn Gamblo ynghylch y gwahanol gategorïau ac uchafswm yr arian a ellir ei fetio a’i ennill.

| Categori Peiriant | Uchafswm mentro | Uchafswm gwobrwyedig |
|---|---|---|
| A | | |
| B1 | £2 | £4,000 |
| B2 | £100 | £500 |
| B3 | £1 | £500 |
| B4 | £1 | £250 |
| C | £1 | £70 |
| D | 10p neu 30p pan ddim gwobyr ariannol | £5 neu £8 pan ddim gwobyr ariannol |

Mae Tabl B, isod, yn ymhelaethu ar y darpariaethau uchod ac yn cyplysu’r math o eiddo sy’n addas gyda phob categori o beiriant a’r nifer a ganiateir ar yr eiddo.

Tabl B

| | Categori Peiriant | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Math o Eiddo | A | B1 | B2 | B3 | B4 | C | D |
| Casino Rhanbathol (ratio bwrdd/peiriant o 25-1 i fyny i uchafswm) | Uchafswm i 1250 peiriant<br>Unrhyw gyfuniad o beiriannau yng nghategoriau A i D tu fewn i'r cyfyngiad cyflawn o 1250 (yn ddibynnol ar y ratio byrddau) | | | | | | |
| Casino fawr (ratio bwrdd/peiriant o 5-1 i fyny i uwchafswm) | | Uchafswm i 150 peiriant<br>Unrhyw gyfuniad o beiriannau yng nghategoriau B i D tu fewn i'r cyfyngiad cyflawn o 150 (yn ddibynnol ar y ratio byrddau) | | | | | |
| Casino bach (ratio bwrdd/peiriant o 2-1 i fyny i uwchafswm | | Uchafswm i 80 peiriant<br>Unrhyw gyfuniad o beiriannau yng nghategoriau B i D tu fewn i'r cyfyngiad cyflawn o 80 (yn ddibynnol ar y ratio byrddau) | | | | | |
| Casino cyn deddf 2005 (dim ratio bwrdd/peiriant) | | Uchafswm i 20 peiriant o gategoriau B i D neu C neu D yn eu lle | | | | | |
| Eiddo betio a thrac wedi ei feddiannu gan Fetio Pwll | | | Uchafswm i 4 peiriant o categori B2 i D | | | | |
| Eiddo Bingo | | | | Uchafswm i 4 peiriant o categori B3 i B4 | | Dim cyfyngiad ar beiriannau C neu D | |
| Canolfan Adloniant Oedolion | | | | Uchafswm i 4 peiriant o categori B3 i B4 | | Dim cyfyngiad ar beiriannau C neu D | |
| Canolfan Adloniant Oedolion (gyda Thrwydded Eiddo) | | | | | | Dim cyfyngiad ar beiriannau C neu D | |
| Canolfan Adloniant Deuluol (gyda caniatad) | | | | | | | Dim cyfyngiad ar beiriannau D |
| Clybiau neu Glybiau Sefydliad y Glowyr gyda caniatad | | | | | Uchafswm i 3 peiriant o categori B4 i D | | |
| Eiddo trwyddedig alcohol sy'n cymhwyso | | | | | | 1 neu 2 beiriant o gategori C neu D awtomatig ar hysbysiad | |
| Eiddo trwyddedig alcohol sy'n cymhwyso gyda caniatad peiriant hapchwarae | | | | | | Nifer fel y penodir ar y caniatad | |
| Ffeiriau teithiol | | | | | | | Dim cyfyngiad ar beiriannau categori D |
| | A | B1 | B2 | B3 | B4 | C | D |

This page is intentionally left blank

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **5 Mawrth 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Adrodd ar Adolygiad o Ddogfen Polisi Trwyddedu'r Awdurdod** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Adain Drwyddedu'r Adran Safonau Masnach** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Cyflwyno Drafft Terfynol o'r Polisi Trwyddedu yn dilyn ymgynghoriad i bwrpas ei gymeradwyo** |
| **GWEITHREDU** | **Mabwysiadu'r Polisi diwygiedig** |

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Yn unol â Deddf Trwyddedu 2003, mae angen i'r Awdurdod Adolygu ei Bolisi Trwyddedu bob pum mlynedd. Fodd bynnag, mae cyflwyno Deddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 wedi esgor ar ddeddfwriaeth newydd ac wedi newid rhai o'r telerau yn Neddf Trwyddedu 2003 gan olygu bod angen cynnal adolygiad buan.

1.2 Mae'r adroddiad yn crynhoi'r broses ymgynghori ac, oherwydd bod y Polisi, fe dybir, Wedi gweithio'n dda ac nad yw wedi ei herio, ychydig iawn o ymatebion a gafwyd a dim ond mân- newidiadau a waned heblaw cyflwyno ac amlygu'r ddeddfwriaeth ar dewisiadau rheolaeth newydd fydd ar gael i'r Awdurdod.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol, yn unol ag Adran 5 Deddf Trwyddedu 2003, adolygu ei Bolisi Trwyddedu Alcohol ac Adloniant bob pum mlynedd . Mae'n rhaid penderfynu ar y Polisi diwygiedig erbyn 5 Mawrth 2013.

2.2 Mae copi cyflawn o'r Polisi Trwyddedu llawn ar gael i'w archwilio ond heb gynnwys Atodiad A oherwydd nad yw'r canllawiau ar gyfer ymgeiswyr wedi newid o gwbl. Mae'r holl newidiadau a'r holl ychwanegiadau wedi eu hamlygu.

2.3 Mae Atodiad B yn cynnwys cofrestr o'r rheini yr ymgynghorwyd â nhw trwy e-bost i osgoi costau ychwanegol yn wyneb yr hinsawdd economaidd gyfredol. Roedd yr Adain Drwyddedu hefyd yn ymwybodol o'r ffaith bod Llywodraeth Ganolog yn ymgynghori ynghylch "Ailgydbwyso'r Ddeddf Drwyddedu" ac efallai, yn yr ychydig fisoedd nesaf, y bydd newidiadau ychwanegol i Ddeddf Trwyddedu 2003, gan olygu, y byddai angen ymgynghori ac adolygu unwaith yn rhagor o bosib.

## 3. Argymhellion

Bod y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r adroddiad uchod ac yn mabwysiadu'r Polisi Trwyddedu diwygiedig.

Paratowyd yr Adroddiad gan D.M.JONES, Prif Swyddog Trwyddedu, ar ran yr Adran Safonau Masnach.

**ATODIAD A**

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# DATGANIAD DRAFT AR Y POLISI TRWYDDEDU AT DDIBENION DEDDF TRWYDDEDU 2003


**1.** Cefndir

**2.** Cyflwyniad

**3.** Rhwystro Trosedd ac Anrhefn

**4.** Diogelwch y Cyhoedd

**5.** Rhwystro Niwsans Cyhoeddus

**6.** Amddiffyn Plant rhag Niwed

**7.** Effaith Gronnol

**8.** Cynllunio

**9.** Ceisiadau am Grantiau Newydd ac Amrywiad o'r Telerau ac Amodau

**10.** Oriau Gweithredu

**11.** Camau Gorfodi

**12.** Y Broses Drwyddedu

**13.** Trwyddedau Personol

**14.** Gwybodaeth ychwanegol

**Atodiad "A" - Cyfarwyddyd ynglŷn â'r drefn ar gyfer Ymgeiswyr**
**Atodiad "B" - Dirprwyo Swyddogaethau**

**1. Cefndir**

1.1 Seiliwyd y Datganiad Polisi Trwyddedu ar Ddeddf Trwyddedu 2003. Gwelir yn y ddogfen hon y polisïau hynny y bydd y Cyngor yn eu gweithredu pan fydd yn penderfynu ynglŷn â cheisiadau ar gyfer y canlynol:

- Mân-werthu alcohol;
- Cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb i, neu ar orchymyn, aelod o'r clwb;
- Darparu lluniaeth hwyrnos (bwyd neu ddiodydd poeth o unrhyw adeiladau rhwng 23.00 a 05.00) a
- Darparu adloniant rheoleiddiedig ar gyfer y cyhoedd neu aelodau o glwb neu gyda'r bwriad o wneud elw gan gynnwys codi arian tuag at elusen pan fydd yr adloniant yn cynnwys :
  - Perfformiad theatr neu arddangos ffilm
  - Chwaraeon dan do
  - Gornest baffio/reslo
  - Cerddoriaeth fyw
  - Cerddoriaeth wedi ei recordio
  - Perfformiad dawns
  - Darparu cyfleusterau i chwarae cerddoriaeth – *i'w dynnu oherwydd y Ddeddf Cerddoriaeth Fyw*
  - Darparu cyfleusterau dawns.

1.2 Ceir cyfarwyddyd yn Atodiad A ynglŷn â'r drefn gywir i ymgeiswyr a'r rhai sy'n gwneud sylwadau.

**2. Cyflwyniad**

2.1 Cyfrifoldeb y Cyngor yw cyflawni ei ddyletswyddau dan ddarpariaethau'r Ddeddf er mwyn hybu'n gyfartal yr amcanion trwyddedu a ganlyn:

- **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
- **Diogelwch y Cyhoedd;**
- **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
- **Amddiffyn plant rhag niwed.**

2.2 Cydnabyddir mai un ffordd yn unig o gyflawni'r amcanion hyn yw'r swyddogaeth drwyddedu. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Cymunedau Lleol, yr Heddlu, busnesau lleol a chydranddeiliaid a phartneriaid perthnasol arall.

2.3 Mae'n rhaid i'r awdurdod gydymffurfio gyda deddfwriaethau eraill wrth gyflawni ei swyddogaeth drwyddedu:

- Yn unol ag Adran 17 Deddf Trosedd ac Anrhefn 1988 rhaid i awdurdodau wneud cymaint ag sy'n rhesymol i rwystro trosedd ac anrhefn yn y gymuned.
- Dan ddarpariaethau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a weithredir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1988, mae dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i amddiffyn hawliau'r unigolyn dan amgylchiadau amrywiol .
- Deddf Iechyd a Diogelwch wrth Weithio a Deddf Iechyd 2006 (Adeiladau Ddi-Fwg 2007);
- Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990;

- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Yfed Alcohol mewn Mannau Cyhoeddus dynodedig) 2001. Deddf Iechyd 2006
- Deddf Gostwng Troseddau Treisgar 2006 a Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf Trosedd a Diogelwch 2010 ac Atodlen 7 Deddf Plismona a Throsedd 2009
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 fel y cafodd ei diwygio gan ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000
- Deddf Hapchwarae 2005
- Cyfarwyddeb Gwasanaeth yr Undeb Ewropeaidd
- Deddf Cydraddoldebau 2010
- Deddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Gymdeithasol 2011
- Y Ddeddf Cerddoriaeth Fyw

Nodiadau: - Pan fydd y gyfraith eisoes yn gosod rhwymedigaethau statudol ar yr ymgeiswyr ni fydd y Cyngor yn gosod yr un dyletswyddau neu rai tebyg fel amod ar drwydded yr adeilad, deilydd y drwydded na'r clwb.

2.4 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio cyflawni'r dyletswyddau hynny a ddynodir mewn Strategaethau eraill gan y Llywodraeth i'r graddau y byddent yn cael effaith ar amcanion y Mesur Trwyddedu. Gweler yr enghreifftiau isod o'r Strategaethau hyn:

- Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â throseddau, anhrefn a niwsans sy'n gysylltiedig ag alcohol;
- Mynychu Clybiau yn ddiogel;
- Rheoliad Llywodraeth Leol / Côd Ymarfer y Sefydliad Safonau Masnach ar Bryniannau Prawf
- Strategaeth Gostwng Trosedd ac Anrhefn
- Concordat Gorfodi
- Strategaeth Alcohol y Llywodraeth a gyflwynwyd i'r Senedd ym Mawrth 2012

Nid yw llawer o'r strategaethau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu ond cânt effaith anuniongyrchol arnynt. Mae cydgysylltu ac integreiddio polisïau, strategaethau a chynlluniau o'r fath felly yn hanfodol ac fe'u hamlinellir yn Strategaeth y Llywodraeth y disgwylir iddi edrych ar isafswm pris fesul uned, gan integreiddio strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol, cyfiawnder troseddol ac addysg.

2.5 Bydd y Cyngor hefyd yn dwyn i sylw fentrau sydd yn berthnasol i faes trwyddedu:

- *Camerâu Teledu CC yng nghanol y dref*
- *Gorchmynion Gwahardd o Ganol y Dref*
- *Canllawiau Mynychu Clybiau yn ddiogel*
- *Cynllun "Pub Watch"*
- *Grŵp Ymgynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau*

2.6 Diben y drefn drwyddedu yw caniatáu parhau i werthu alcohol a darparu gweithgareddau trwyddedadwy mewn modd fydd yn sicrhau diogelwch y cyhoedd ac na fydd er afles i drigolion nac ychwaith yn amharu ar fwynderau. Dymuniad y Cyngor yw hwyluso adeiladau sydd dan reolaeth dda gyda deiliaid trwyddedau yn dangos sensitifrwydd i'r effaith ar drigolion lleol.

2.7 Mae'r Cyngor yn sylweddoli fod y diwydiant adloniant yn y Sir hon yn cyfrannu tuag at yr economi lleol. Mae'n denu ymwelwyr a thwristiaid, yn creu trefi a phentrefi bywiog ac yn gyflogwr mawr. Yn ogystal bydd gan ddeiliaid masnachol ddisgwyliadau dilys o ran cael amgylchedd sydd yn ddeniadol i fusnesau. Ond dylid sicrhau cydbwysedd hefyd gydag anghenion y trigolion y mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i'w gwarchod.

2.8 Bydd y Cyngor hefyd yn edrych ar yr ystyriaethau ehangach sy'n cael effaith ar fwynderau'r ardal. Bydd y rhain yn cynnwys taflu sbwriel a baeddu, sŵn, troseddu ar y strydoedd a chapasiti isadeiledd y sir ac adnoddau'r heddlu i ymdopi gyda mewnlif o ymwelwyr, yn enwedig gyda'r nos.

2.9 Mabwysiadwyd y polisi hwn gan y Cyngor ac mae'n amlinellu sut y bydd yn trin ceisiadau am drwyddedau adeiladau a thrwyddedau personol. Wrth fabwysiadu'r polisi hwn mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd pob un cais yn cael ei ystyried yn ôl ei haeddiant.

2.10 Diben y Datganiad o'r Polisi Trwyddedu yw cynorthwyo swyddogion ac aelodau i wneud penderfyniad ar gais penodol gan fanylu ar y materion hynny y rhoddir ystyriaeth iddynt fel arfer. Yn ogystal, mae'r Polisi yn ceisio rhoi gwybodaeth glir i ymgeiswyr, trigolion a deiliaid a buddsoddwyr eraill i'w galluogi hwynt i drefnu symud i'r Sir, neu aros neu fuddsoddi ynddi gyda rhywfaint o sicrwydd.

2.11 Mae Ddeddf Trwyddedu 2003 yn gwneud darpariaeth ar gyfer adolygu ac ymgynghori ar y polisi hwn (a weithredwyd gyntaf yn Ionawr 2005) o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, yn sgil cyflwyno Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 cafodd y polisi ei adolygu yn Ebrill 2012 ac wedyn ym mis Ionawr 2013.

Canolbwyntiodd yr adolygiad ym mis Rhagfyr 2012 ar Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2011 a ddaeth i rym ar 1 Hydref a'r Ardoll Hwyr y Nos a Chyfyngiadau Cyfyngu Plygeiniol a ddaeth i rym ar 31 Hydref 2012.

2.12 Fel arfer bydd y polisïau'n berthnasol ar gyfer unrhyw gais am drwydded y penderfynir arno ar ôl y dyddiad pryd y penderfynodd y Cyngor weithredu'r polisïau hyn, beth bynnag fo dyddiad cyflwyno'r cais yn y lle cyntaf. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â;

Trwyddedau Adeilad
Trwyddedau Adeilad Clwb
Trwydded Bersonol
Rhybudd Digwyddiad Dros Dro

2.13 Os bydd y Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003 yn cael eu diwygio ar unrhyw adeg, bydd raid i'r Awdurdod Trwyddedu gymryd y canllawiau hynny i ystyriaeth lle maent yn gwyro oddi wrth y Polisi hwn.

2.14 Bydd raid i'r Cyngor gymryd i ystyriaeth sylwadau a wnaed gan yr Awdurdod Iechyd Cyhoeddus sy'n un o'r Awdurdodau Cyfrifol ychwanegol yr ymgynghorir â nhw ynghylch Trwyddedau Adeiladau. Er nad oes Amcan Trwyddedu penodol sy'n ymwneud â'r maes Iechyd, mae'n rhesymol i Awdurdod Iechyd wneud sylwadau ar ddiogelwch y cyhoedd o fewn sgôp yr economi gyda'r nos ac ar unrhyw straen a roddir ar ei wasanaethau a'i adnoddau.

2.15 Bydd raid i'r Cyngor gymryd i ystyriaeth sylwadau a wnaed gan yr Adran Trwyddedu sy'n un o'r Awdurdodau Cyfrifol ychwanegol yr ymgynghorir â nhw ynghylch Trwyddedau Adeiladau. Alluogi'r newid hwn i'r Awdurdod Trwyddedu i gymryd camau ymhellach i'r weithred gydraddol gyfredol o fedru gwrthod, cael gwared ar neu arolygu trwyddedau heb neu cyn gorfod derbyn sylwadau gan bartïon eraill.

## 3.0 Rhwystro Trosedd ac Anrhefn

3.1 Dylai'r Datganiad Polisi Trwyddedu, ynghyd â'r trefniadau a'r amodau sydd yn rhan o'r broses, hybu'r Amcanion Trwyddedu (gweler paragraff 1.3):

3.2 Bydd y Cyngor yn defnyddio amrediad cyflawn o fesurau gan gynnwys rheolaeth gynllunio, rheolaeth trafnidiaeth, polisïau a phwerau trosedd ac anrhefn. Bydd y Cyngor yn sefydlu partneriaethau er mwyn cyd-weithio'n agos gyda'r heddlu, yr awdurdod tân, y Bwrdd Iechyd Lleol, busnesau lleol, cynrychiolwyr yn y gymuned a phobl leol i gyflawni'r amcanion hyn.

3.3 Bydd y Cyngor yn rhoi sylw i Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 sydd yn rhoi cyfrifoldeb ar y Cyngor i rwystro/gostwng trosedd ac anrhefn yn y gymuned.

3.4 Gostwng lefelau troseddu mewn ardaloedd penodol yw un o flaenoriaethau pwysicaf Strategaeth Trosedd ac Anrhefn y Cyngor. Felly bydd y polisi yn rhoi sylw i effaith debygol trwyddedu ar drosedd ac anrhefn ar yr ynys, yn enwedig pan fydd yn ystyried lleoliad, effaith, gweithrediad a rheolaeth yr holl geisiadau tebygol am drwydded a cheisiadau i adnewyddu neu amrywio trwyddedau.

Bydd y Cyngor yn rhoi sylw priodol i sylwadau Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru, ac eithrio lle mae tystiolaeth glir nad ydynt yn berthnasol, a bydd yn ymgynghori gyda hwy fel un o'r Awdurdodau Cyfrifol sydd yn ymwneud â cheisiadau am Drwyddedau Adeiladau a Rhybuddion Digwyddiadau Dros Dro.

### 3.5 **Mynychu Clybiau yn Ddiogel**

Dymuna'r Cyngor hybu egwyddorion "Mynychu Clybiau yn Ddiogel". Bydd yn argymell canllawiau cyfredol y Swyddfa Gartref yn y cyswllt hwn i Ddeiliad Trwyddedau Adeilad a Deiliaid Tystysgrif Adeilad Clwb. Gellir gosod amodau trwyddedu priodol a chymesur i reoli'r amgylchedd mewn rhai adeiladau perthnasol er mwyn cyflawni amcanion "Mynychu Clybiau yn Ddiogel".

### 3.6 **Cyffuriau**

Bydd angen gosod amodau arbennig ar rai mathau o leoliadau er mwyn gostwng y posibilrwydd o werthu a defnyddio cyffuriau ac i greu awyrgylch mwy diogel ar gyfer y rheini na fyddent efallai yn ymwybodol o faterion o'r fath. Bydd yr amodau hyn yn ystyried yr arweiniad a gafwyd gan y Swyddfa Gartref ac y cyfeiriwyd ato uchod ynglŷn â Mynychu Clybiau yn Ddiogel. Bydd y Cyngor yn ymgynghori gyda'r Heddlu a chyda'r Timau Gweithredu Cyffuriau lleol ym mhob achos pan fydd angen gosod yr amodau hyn.

3.8 **Goruchwylwyr ar y Drysau**

Efallai y bydd y Cyngor yn penderfynu y bydd angen goruchwylwyr mewn rhai adeiladau er mwyn gostwng lefelau trosedd ac anrhefn ac er mwyn eu rhedeg yn fwy diogel. Os digwydd hynny caiff y Cyngor osod amod y dylid cyflogi goruchwylwyr trwyddedig ar y drysau (Awdurdod Diwydiant Diogelwch) naill ai trwy gydol yr amser neu ar yr adegau hynny pan ddigwydd rhai gweithgareddau trwyddedadwy ac yn unol â'r nifer a'r gymhareb a bennir gan y Cyngor.

3.9 **Ardoll Hwyr y Nos**

Yn sgil newidiadau yn y brif ddeddfwriaeth trwy Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, roedd posib i'r awdurdod fabwysiadu grym lleol ychwanegol i gynorthwyo i reoli unrhyw effaith andwyol y gallai'r economi hwyr y nos ei gael ar y gymuned leol, gan gynnwys costau gorfodaeth a rheoli. Gallai'r Ardoll hon ganiatáu'r awdurdod i ofyn am gyfraniad gan gyflenwyr alcohol sydd ar agor yn hwyr tuag at gostau plismona mewn perthynas â'r agwedd honno ar yr economi.

3.10 **Cyfyngiadau Cyfyngu Plygeiniol**

Mae'r Cyfyngiadau Cyfyngu Plygeiniol yn cael eu gweld fel pecynnau syml y gall yr awdurdod eu defnyddio i symud ffocws yr economi hwyr y nos oddi wrth yfed problemus pe bai mesurau o'r fath yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Yn dechnegol, ar ôl cyfnod o ymgynghori a gwrandawiad posib, gellid gostwng oriau agor eiddo problemus ac eiddo mewn ardaloedd problemus rhwng hanner nos a 0600.

## 4.0 Diogelwch y Cyhoedd

4.1 Dymuna'r Cyngor anelu at safonau uchel o ddiogelwch i'r cyhoedd mewn perthynas â'r adeiladau a'r gweithgareddau o fewn sgôp Deddf Trwyddedu 2003 a'r Rheoliadau Dim Ysmygu a nodir yn Neddf Iechyd 2006 .

4.2 Ymgynghorir gydag Adain Iechyd Yr Amgylchedd yn y Cyngor sydd yn Awdurdod â Chyfrifoldeb yn hyn o beth i gymell iechyd a diogelwch mewn adeiladau perthnasol ac fe gaiff ei swyddogion hefyd weithredu fel y Sawl sydd ag Awdurdod i sicrhau cydymffurfiaeth gyda Deddf Trwyddedu 2003.

4.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod na fydd dyletswyddau cyffredinol iechyd a diogelwch bob amser yn cynnwys rhai materion penodol a gyfyd mewn tai trwyddedig mewn cysylltiad â rhai mathau o adloniant ac felly bydd angen gosod amodau ar drwydded/dystysgrif.

4.4 Pan fydd angen Trwydded Adeilad neu Dystysgrif Adeilad Clwb caiff y Cyngor ddewis rhai amodau os ydynt yn briodol ac yn gymesur. Bydd yr amodau hyn yn briodol ar gyfer natur y gweithgareddau a ragnodwyd yn y rhestr weithredoedd a byddant yn adlewyrchu'r pedwar amcan trwyddedu a benodir ym mharagraff 1.3.

4.5 Mae'r Cyngor o'r farn y dylid darparu'r un lefel o warchodaeth iechyd a diogelwch pan fydd gwirfoddolwyr neu bwyllgor clwb, adeiladau cymunedol neu gymdeithas yn trefnu gweithgareddau ag a ddarperir pan fydd perthynas rhwng cyflogwr a'r

cyflogedig yn bodoli, beth bynnag fo'r dyletswyddau cyfreithlon dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.

4.6 Pan fydd unrhyw amodau wedi'u gosod ar Drwydded Adeiladau neu Dystysgrif Adeiladau Clwb, gall Swyddog Awdurdodedig ar ran y Cyngor archwilio'r adeiladau hynny ar unrhyw adeg resymol er mwyn sicrhau y cydymffurfir gyda'r amodau.

4.7 Byddai'r Cyngor yn disgwyl i drefnwyr digwyddiadau mawr, lle cynhelir gweithgareddau y mae angen trwyddedau ar eu cyfer, baratoi cynllun rheoli ar gyfer y digwyddiad gan gynnwys asesiadau risg priodol wedi ei rhoi ger bron y Grŵp Ymgynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau

4.8 Diogelwch_Tân

Bydd y Cyngor yn rhoi sylw priodol i sylwadau Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru a bydd yn ymgynghori gyda hwy fel un o'r Awdurdodau â Chyfrifoldeb sydd yn ymwneud â cheisiadau am drwyddedau a thystysgrifau.

4.9 Caiff y Cyngor ddewis yr amodau priodol a chymesur mewn cysylltiad â materion iechyd a diogelwch ac wedi ymgynghori gyda Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru.

Bydd Rheoliadau Rhagofalon Tân (Lle Gwaith) 1997 (diwygiad) yn berthnasol mewn unrhyw adeiladau lle bydd gweithgaredd yn digwydd. Gorfodir y rheoliadau hyn gan Wasanaeth Tân Gogledd Cymru a bydd dyletswydd statudol ar oruchwylwyr adeiladau i gynnal eu hasesiadau risg eu hunain ar gyfer pob adeilad.

Dylai'r ddogfen Asesiad Risg roi sylw i'r ffigyrau defnydd ar gyfer eiddo trwyddedig.

**5.0 Rhwystro Niwsans Cyhoeddus**

5.1 Pan fydd y Cyngor yn dyfarnu ynghylch yr hyn sydd yn creu niwsans bydd yn canolbwyntio ar effaith afresymol y gweithgareddau trwyddedadwy yn yr adeiladau perthnasol ar y rheiny sydd yn byw ac yn gweithio yn y cyffiniau. Byddent yn ymwneud yn bennaf â'r canlynol

- Sŵn o'r adeiladau
- Gwastraff
- Sbwriel
- Meysydd Parcio
- Difwyno'r Golau
- Arogleuon andwyol
- Ymddygiad/Anrhefn

5.2 Pan fydd y Cyngor yn ystyried yr effaith bosibl a gaiff unrhyw dŷ trwyddedig ar yr ardal oddi amgylch i'r adeilad hwnnw, bydd y Cyngor yn cymryd i ystyriaeth y math o weithgaredd adloniant, yr oriau gweithredu a fwriedir, uchafswm y nifer a ddeil yr adeilad, natur yr ardal a'r agosrwydd at y trigolion lleol. Gallai opsiynau ychwanegol gynnwys cyflwyno Gorchmynion Cyfyngu Plygeiniol neu hyd yn oed Ardoll Hwyr y Nos yn yr ardal honno.

5.3 Gorfodir darpariaethau Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 gan yr Adain Iechyd Yr Amgylchedd sydd yn ymwneud â niwsans sŵn ac fe ymgynghorir gyda'r Adran honno ynghylch unrhyw adeiladau os amherir ar y trigolion neu'r gymuned fusnes. Ymgynghorir gyda nhw hefyd mewn perthynas ag atal niwsans cyhoeddus ac ar dderbyn Rhybudd Digwyddiad Dros Dro.

5.4 Bydd y Cyngor yn defnyddio'r rhestr o amodau trwyddedu i reoli sŵn a ddaw o unrhyw adeilad ac i gynghori datblygwyr ynghylch y trefniadau gostegu sŵn y mae eu hangen ar gyfer adeiladau newydd( gweler "Canllawiau Ymarfer Da ynghylch Rheoli Sŵn o Dafarndai a Chlybiau"). Gosodir amodau sy'n fwy caeth ar gyfer rheoli sŵn mewn ardaloedd lle mae'r adeilad yn gyfagos i eiddo preswyl.

5.5 Ni fydd y Cyngor yn gosod amodau ar adeiladau trwyddedig na fyddant dan reolaeth uniongyrchol y trwyddedai/tafarnwr nac unrhyw amodau ar faterion nad ydynt yn gysylltiedig â chyffiniau'r anheddau hynny.

5.6 Yn ogystal mae gan Heddlu Gogledd Cymru hawliau a roddir gan y Ddeddf Trwyddedu 2003 i reoli sŵn o adeiladau; pe byddai angen iddynt ddefnyddio'r grym hwn byddant yn cysylltu, pan fo hynny'n bosibl, â'r Cyngor yn unol â'r protocol ynghylch gorfodaeth.

5.7 Cyfrifoldeb personol yr unigolyn fydd rheoli unrhyw sŵn neu aflonyddwch a achosir wrth gyrraedd a gadael yr adeiladau a gall yr Heddlu orfodi'r gyfraith yn y modd arferol o ran anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

5.8 Bydd y Cyngor yn cydbwyso'r posibilrwydd o aflonyddu ar gymunedau gyda'r angen i hybu a chefnogi cerddoriaeth fyw, dawnsio a theatr.

5.9 Mae cyflwyno rheoliadau dim ysmygu dan delerau Deddf Iechyd 2006 â goblygiadau o ran y posibilrwydd o niwsans cyhoeddus trwy arogleuon drwg a sŵn o dyrfaoedd sy'n ymgynnull y tu allan i eiddo trwyddedig i ysmygu. Dylai Goruchwylwyr Adeilad Dynodedig fod yn ymwybodol yr erys dyletswydd statudol i lynu wrth y pedwar amcan trwyddedu.

5.10 Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Gweithredwyr Adeiladau Trwyddedig i sicrhau y glynir wrth holl delerau priodol Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2006.

5.11 Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cau adeilad am hyd at 24 awr os yw sŵn o adeilad trwyddedig yn achosi niwsans.

**6.0 Amddiffyn Plant rhag Niwed**

6.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod y gellir cyflwyno cais am drwydded ar gyfer dewis eang o adeiladau megis theatrau, sinemâu, tai bwyta, tafarndai, clybiau nos, caffis, siopau pryd ar y stryd, neuaddau pentref ac ysgolion. Ni fydd plant yn cael eu rhwystro mewn unrhyw ffordd rhag iddynt gael dod i mewn i adeiladau o bob math oni fydd yn briodol a chymesur gwneud hynny er lles diogelwch y plant.

6.2 Pan fydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am drwyddedau bydd yn cymryd i ystyriaeth yr hanes a berthyn i adeilad arbennig a natur y gweithgareddau y bwriedir eu cynnal yn yr adeilad hwnnw pan fydd yn ystyried unrhyw opsiynau a fyddai'n briodol i rwystro plant rhag niwed. Er enghraifft:
Pan fu collfarn flaenorol am werthu alcohol i rywun o dan 18 oed neu pan fydd tystiolaeth fod yfed dan oed yn digwydd (gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd gan Adain Safonau Masnach y Cyngor ynghylch prynu ar brawf mewn cysylltiad â chyflenwi alcohol);

- Pan fydd cysylltiad agored gyda defnydd a gwerthiant cyffuriau ;
- Pan fydd elfen gref o hapchwarae yn yr adeilad; neu
- Pan fydd adloniant o fath rhywiol neu adloniant i oedolion yn cael ei gynnig yn aml

6.3 Mewn amgylchiadau megis y rheiny ym mharagraff 6.2, yna caiff y Cyngor osod amodau megis y rhai a ganlyn ynghlwm wrth y drwydded i amddiffyn plant rhag niwed

- Cyfyngu ar yr oriau pryd caiff plant fod yn yr adeilad;
- Cyfyngu ar oedran y sawl sydd yn cael bod yn yr adeilad (tan 18 oed);
- Cyfyngu ar ba bryd y cynhelir rhai digwyddiadau ; neu
- Bod angen oedolyn yn gwmni i blentyn

6.4 Mae Deddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn caniatáu i Awdurdodau Trwyddedu a'r Heddlu y dewis o orfodi cyfnod o gau gwirfoddol am hyd at bythefnos (48 awr ar y lleiaf) yn achos adeilad lle gwerthir alcohol yn gyson i blant. Defnyddir yr opsiwn hwn yn hytrach nag erlyn mewn rhai achosion. Mae'r ddirwy uchaf wedi ei chodi i £20,000.

6.5Pan fydd nifer helaeth o blant yn debygol o fod mewn adeilad trwyddedig, er enghraifft ar gyfer sioe blant neu bantomeim, bydd y Cyngor angen nifer priodol o staff (wedi eu gwirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol) er mwyn sicrhau diogelwch y plant.

6.6Pan fydd caniatâd wedi'i roi i ddangos ffilmiau bydd yr awdurdod yn disgwyl i'r adeilad gydymffurfio gyda chyfyngiadau oedran yn unol ag argymhellion Dosbarthiadau Ffilm y Bwrdd Prydeinig*. Saif y rheol gyffredinol hon ac ni fydd yr awdurdod yn gwyro o'r rheol ac eithrio mewn achosion eithriadol iawn*.

6.7 Ni ddangosir unrhyw ffilm mewn adeilad trwyddedig os yw'n debygol y bydd yn:

- Creu anrhefn;
- Ennyn casineb neu ysgogi trais tuag at unrhyw ran o'r gymdeithas ar sail lliw, hil neu dras ethnig neu genedlaethol, anabledd, credoau neu gyfeiriadedd rhywiol.

6.8 Ni fydd y Cyngor yn gosod unrhyw amodau a fydd yn gofyn yn benodol am fynediad i blant i unrhyw adeilad. Pan na fydd cyfyngiad mater i'r trwyddedai unigol neu i'r clwb fydd trefnu mynediad.

6.9 Mae Deddf Trwyddedu 2005 yn caniatáu elfen o hapchwarae siawns cyfartal mewn adeilad trwyddedig ynghyd â nifer gyfyngedig o beiriannau gemau a bydd raid i'r Cyngor neu Oruchwyliwr Dynodedig yr Adeilad fonitro presenoldeb plant neu bobl fregus.

6.10 **Mannau Adloniant Rhywiol** - Gyda chyflwyniad Adran 27 Deddf Plismona a Throsedd 2009 a lle mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Atodlen 3 Deddf Llywodraeth Leol 1982 (Darpariaethau Amrywiol) os defnyddir adeilad ar fwy na 12 achlysur o fewn cyfnod o 12 mis ar gyfer adloniant rhywiol perthnasol, rhaid trwyddedu'r eiddo fel man adloniant rhywiol. Mae Adloniant Rhywiol Perthnasol yn cynnwys: dawnsio glin, dawnsio polyn, dawnsio bwrdd, sioeau stripio, sioeau sbecian a sioeau rhyw fyw.

## 7.0 Effaith Gronnol

7.1 Gall y nifer o bobl a fydd naill ai'n cerdded trwy'r strydoedd neu'n hel at ei gilydd ar y strydoedd yn ystod oriau'r nos gynyddu oherwydd effaith gronnol niferoedd o adeiladau adloniant hwyrnos (gan gynnwys caffis nos). Gall hyn arwain at;

- Cynnydd mewn troseddau;
- Cynnydd yn y lefelau sŵn fydd yn amharu ar drigolion;
- Cynnydd sylweddol yn llif y cerddwyr ar y strydoedd;
- Tagfeydd traffig a/neu anawsterau parcio;
- Gollwng sbwriel a baeddu.

7.2 Gall hyn ymyrryd â mwynderau'r trigolion lleol mewn modd annymunol ac ni fydd modd priodoli hynny bob amser i'r rheini sy'n mynychu rhai adeiladau penodol. Felly, serch cymryd y camau gorfodi i sicrhau cydymffurfio â'r amodau, ni fydd hyn o reidrwydd yn datrys yr holl broblemau mewn ardal.

7.3 Dan y fath amgylchiadau fe all y Cyngor benderfynu gwrthod derbyn trwyddedau newydd yn yr ardal honno oherwydd y problemau a gafwyd gynt gyda thai trwyddedig. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn trin pob cais yn ôl ei haeddiant ac yn rhoi ystyriaeth briodol i bob un.

7.4 Wrth benderfynu ceisiadau ar gyfer ardal benodol, fe gaiff y Cyngor, ymhlith pethau eraill, wneud fel a ganlyn –

- Casglu gwybodaeth ynglŷn â phryder difrifol a pharhaol gan awdurdod â chyfrifoldeb neu drigolion lleol ynghylch niwsans ac anrhefn
- Nodi'r ardal lle mae problemau yn codi a ffiniau'r ardal honno
- Gwneud asesiad o'r rhesymau

7.5 Dylid nodi mai un ffordd yn unig o ddelio gyda'r problemau a nodwyd uchod yw Trwyddedu ac y dylid troi at y dulliau canlynol er mwyn ceisio delio gyda'r problemau

- Rheolaeth gynllunio
- Hawliau'r awdurdodau lleol i ddynodi rhannau o ardal yr awdurdod fel mannau lle na chaniateir yfed alcohol yn gyhoeddus a lle bydd alcohol yn cael ei atafaelu
- Hawliau'r heddlu i gau adeiladau neu ddigwyddiadau dros dro am hyd at 24 awr ar sail anrhefn, neu'r tebygolrwydd o anrhefn neu sŵn gormodol
- Erlyn deiliad trwydded bersonol am werthu alcohol i bobl sydd wedi meddwi
- Hawliau'r heddlu, yr awdurdod cyfrifol, y trigolion lleol neu fusnes lleol i wneud cais i adolygu trwydded neu dystysgrif adeilad

## 8. Cynllunio

8.1 O ran eiddo y mae angen trwydded ar ei gyfer , bydd y Cyngor yn disgwyl y bydd gan ymgeiswyr dystysgrif ddefnydd awdurdodedig ar ei gyfer yn unol â darpariaethau'r ddeddfwriaeth gynllunio, er nad yw'n ddyletswydd gyfreithiol.

8.2 Fe welir polisïau cynllunio'r Cynulliad ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol. Fe welir Polisïau Cynllunio'r Cyngor yng Nghynllun Fframwaith Unedol Ynys Môn

8.3 Yn gyffredinol bydd caniatâd cynllunio yn awdurdodi math eang o ddefnydd o'r adeiladau ond rhoddir trwyddedau ar gyfer math arbennig o weithgaredd. Er enghraifft, gall caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd adloniant gynnwys gweithgareddau a fydd yn cael amrywiaeth eang o wahanol effeithiau ar y gymuned. Pan gyflwynir cais gan ymgeisydd am drwydded adeiladau dylid ystyried yn fanwl natur yr effaith y bydd y gweithgareddau yn ei gael.

8.4 Mae gweithdrefnau Cynllunio a Thrwyddedu yn ystyried materion gwahanol (er bod cysylltiad rhyngddynt). Er enghraifft gall Trwyddedu ystyried niwsans cyhoeddus tra byddai Cynllunio yn rhoi sylw i fwynderau. O'r herwydd, ni ddylai ceisiadau trwyddedu ddyblygu ceisiadau cynllunio ond bydd y Cyngor yn disgwyl i ymgeiswyr gyflwyno manylion am unrhyw gyfyngiadau a all fod wedi eu gosod gan bwyllgor cynllunio.

8.5 Pan fydd unrhyw oriau yn wahanol i oriau Cynllunio a Thrwyddedu rhaid i'r ymgeisydd lynu wrth yr amser cau cynharaf. Byddai modd erlyn , dan gyfraith cynllunio, yn achos unrhyw adeilad sy'n cael ei redeg mewn modd sy'n tynnu'n groes i'r caniatâd cynllunio.

8.6 Bydd y Cyngor yn annog trwyddedwyr i ddarparu cyfleusterau a fydd yn galluogi pobl anabl i gael mynediad i'r adeiladau hynny. Ni osodir unrhyw amodau y gellid eu defnyddio i gyfiawnhau cadw (rhywrai) allan ar sail diogelwch y cyhoedd.

## 9.0 Ceisiadau am Grantiau newydd ac Amrywiad o'r Telerau ac Amodau

9.1 Pan fydd y Cyngor yn ystyried pob cais newydd neu gais i amrywio amodau bydd yn eu hystyried yng ngoleuni'r amcanion trwyddedu a bydd yn rhoi sylw arbennig i'r canlynol:

9.1.1. Y camau a gymerodd yr ymgeisydd, neu'r rheiny y bwriedir eu cymryd, i atal sŵn a dirgryniad o'r adeilad, gan gynnwys cerddoriaeth, sŵn o offer awyru a sŵn lleisiau. Gall y fath gamau gynnwys cyfarpar a dyfeisiau i ynysu'r adeilad rhag sain, i dymheru'r awyr, i gyfyngu ar sŵn a lobïau acwstig.

9.1.2. Y camau a gymerodd yr ymgeisydd, neu'r rheiny y bwriedir eu cymryd, i rwystro cwsmeriaid rhag creu twrw wrth adael neu gyrraedd yr adeilad.

9.1.3. Y camau a gymerodd yr ymgeisydd, neu'r rheiny y bwriedir eu cymryd i rwystro pobl rhag sefyll mewn ciw, neu os nad oes modd osgoi hynny, i wyro ciwiau i ffwrdd o eiddo cyfagos neu, fel arall, i gadw rheolaeth ar y ciw fel na fo'n creu rhwystr na helynt.

9.1.4. Y camau a gymerodd yr ymgeisydd, neu'r rheiny y bwriedir eu cymryd i sicrhau y bydd y staff yn gadael yr adeilad yn ddistaw.

9.1.5.Y trefniadau parcio i gwsmeriaid a wnaethpwyd neu'r rheiny y bwriedir eu gwneud ac effaith hyn ar y trigolion lleol.

9.1.6.A oes darpariaeth ddigonol ar gyfer cludiant cyhoeddus i gwsmeriaid.

9.1.7.A fydd y tacsis a'r cerbydau hurio preifat sydd yn cynnig gwasanaeth i'r adeiladau yn debyg o darfu ar y trigolion lleol.

9.1.8. A yw'r ffyrdd ar gyfer cerddwyr, ceir, danfonwyr nwyddau neu wasanaethau sydd yn arwain at yr adeiladau ac oddi wrthynt yn mynd heibio i eiddo preswyl.

9.1.9.A gymerwyd i ystyriaeth unrhyw ddulliau eraill i rwystro niwsans, megis defnyddio camerâu cylched cyfyng neu gyflogi goruchwylwyr cofrestredig ar y drysau.

9.1.10Y camau y bwriedir eu cymryd i nadu'r defnydd neu'r gwerthiant o gyffuriau anghyfreithlon, gan gynnwys unrhyw ddulliau o chwilio.

9.1.11.Y camau y bwriedir eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd

9.1.12.Y tebygolrwydd y defnyddir trais, neu y bydd anhrefn cyhoeddus neu y bydd anawsterau gyda'r heddlu pe rhoddir trwydded.

9.1.13.Manylion ynglŷn ag unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd mewn perthynas ag unrhyw adeilad arall y mae'r ymgeisydd wedi cael trwydded ar ei gyfer.

9.1.14 A fyddai cynnydd mewn problemau gyda chadw neu gael gwared â sbwriel, neu a fyddai sbwriel ychwanegol yng nghyffiniau'r adeilad.

9.1.15 Derbyn sylwadau gan awdurdodau â chyfrifoldeb*

9.1.16 Derbyn sylwadau gan gyrff sydd â diddordeb**

9.1.17 Yn unol â Deddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, rhaid i ymgeiswyr, pan fônt yn amlinellu'r camau uchod, ddarparu gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol i gefnogi eu cais ac i ddangos ymwybyddiaeth o'r gymuned leol; gallai hynny gynnwys nodweddion demograffig yr ardal ac/neu faterion trosedd ac anrhefn lleol penodol er enghraifft.

9.1.18 Pan fo'n briodol, gwneir trefniadau i'r pwyllgor dderbyn adroddiadau ar anghenion yr economi dwristiaeth leol ar gyfer yr ardal i sicrhau bod y rheini wedi eu hadlewyrchu yn eu hystyriaethau. Yn yr un modd, dylid rhoi gwybod i'r pwyllgor trwyddedu am y sefyllfa gyflogaeth yn yr ardal a'r angen posib am fuddsoddiad a chyflogaeth newydd lle mae hynny'n briodol.

9.1.19 Ni fydd cerddoriaeth fyw yn cael ei hystyried fel adloniant y bydd raid ei rheoleiddio mewn adeiladau a drwyddedwyd ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol i'w yfed yno dan yr amgylchiadau a ganlyn: pan nad yw'r gerddoriaeth wedi ei seinchwyddo a phan fydd yn digwydd

rhwng 8:00am ac 11:00pm, neu, pan fo wedi ei seinchwyddo ac yn cael ei chwarae ym mhresenoldeb cynulleidfa o 200 o bobl neu lai rhwng 8:00am ac 11:00pm - ac eithrio lle mae’r Awdurdod yn dweud yn wahanol ar y drwydded yn sgil gwrandawiad Adolygu.

9.1.20 Cyflwyno Ardoll Hwyr y Nos neu Orchymyn Cyfyngu Plygeiniol.

*(* Gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Awdurdod Tân Gogledd Cymru, ac Adeiniau Iechyd Yr Amgylchedd a Chynllunio’r Cyngor.*

*** Gan gynnwys y sawl sydd yn byw yng nghyffiniau’r adeiladau a’r cylch masnach)*

**Yn ychwanegol yn achos cais am amrywiad:**

9.2 Bydd y Cyngor yn rhoi sylw i unrhyw ddiffyg cydymffurfio â gofynion statudol a ddaeth i sylw’r Cyngor yn enwedig pan fyddant yn tanseilio’r amcanion trwyddedu a welir ym mharagraff 1.4. Bydd hyn yn digwydd oherwydd y gall unrhyw ddiffyg cydymffurfio â gofynion statudol eraill ddangos nad yw’r adeiladau yn addas ar gyfer y gweithgareddau a fwriedir neu nad oes rheolaeth ddigonol ar yr adeiladau i ddiogelu’r cyhoedd rhag niwed neu niwsans.

9.3 A gytunwyd ar fesurau priodol ac a weithredwyd hwynt gan yr ymgeisydd er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau andwyol.

9.4 **Amrywiadau Bychan** – Gall deilydd tystysgrif adeilad clwb/trwydded adeilad wneud cais dan y drefn “amrywiad bychan” ar gyfer amrywiadau bychain a fydd yn cael effaith andwyol ar yr amcanion trwyddedu. Nid oes hawl i wrandawiad. Fodd bynnag os gwrthodir y cais gellir gwneud amrywiad llawn.

9.5 **Tynnu Amod fod rhaid cael Goruchwylydd Adeilad Dynodedig** - Os oes gan adeilad yn y gymuned drwydded sy’n caniatáu cyflenwi/gwerthu alcohol, gall deilydd y drwydded wneud cais i gael gwared ar yr amod mandadol sy’n dweud bod rhaid penodi goruchwylydd dynodedig ar gyfer yr adeilad. Mae hyn yn trosglwyddo’r cyfrifoldeb am werthu/cyflenwi alcohol i’r Pwyllgor Rheoli ar gyfer yr adeilad.

## 10.0 Oriau Gweithredu

10.1 Mae’r Cyngor yn sylweddoli y gellir creu anrhefn ac aflonyddwch ar y strydoedd trwy osod oriau cau sefydlog ac annaturiol o fuan mewn rhai ardaloedd pan fydd nifer helaeth o bobl yn tueddu i adael adeiladau trwyddedig ar yr un pryd. Fodd bynnag, dan y telerau yn y Canllawiau a gyhoeddwyd dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003 nid oes rhagdybiaeth gyffredinol o blaid estyn oriau. Y pedwar amcan trwyddedu fydd y prif ystyriaethau pob amser a bydd pob cais yn cael sylw yn ôl ei haeddiant.

10.2 O ganlyniad gellid cyfrannu tuag at ostwng yr anghydfod sydd yn arwain at anrhefn ac aflonyddwch, ac a welir mewn llefydd sydd yn gwerthu bwyd yn hwyr yn y nos, safleoedd tacsi a mathau eraill o gludiant, trwy estyn yr oriau trwyddedig i werthu alcohol.

10.3 Bydd siopau, storfeydd ac archfarchnadoedd gyda'r hawl i werthu alcohol (na cheir ei yfed yn yr adeilad) yn ystod oriau agor arferol y busnes. Pe byddai'r heddlu neu drigolyn(drigolion) yn gosod cwynion gerbron y Cyngor ynglŷn â siopau unigol gellir cyfyngu ar yr oriau gwerthu yn yr achosion hynny.

10.4 Bydd y Cyngor yn rhoi sylw i'r ffactorau a ganlyn pan fydd yn ymdrin â cheisiadau gan ymgeiswyr am oriau cau (sef oriau terfyn ar fusnes), sef :

- Ansawdd yr amgylchedd
- Mwynderau trigolion
- Swyddogaeth neu gymeriad unrhyw ardal arbennig; a
- Natur y gweithgaredd y bwriedir ei gynnal yn yr adeilad

10.5 Bydd yr oriau cau fel arfer yn cael eu cymeradwyo pan fydd yr ymgeisydd yn gallu dangos na fydd y bwriad yn cael effaith andwyol ar yr uchod. Caiff y Cyngor bennu amser cau cynharach pan fo hynny yn briodol ym marn y Cyngor o ystyried natur y gweithgareddau a mwynderau'r ardal honno.

10.6 Pan fydd yr adeiladau yn agos i ardal breswyl gellir gosod amodau mwy caeth ynglŷn â rheoli sŵn ond ni ddylai hyn gyfyngu ar yr oriau agor, ar yr amod y cydymffurfir â'r amodau angenrheidiol.

**11.0 Camau Gorfodi**

11.1 Gweler yn Atodiad 'D' y protocolau ynglŷn â'r camau gorfodi y bydd y Cyngor a Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn eu gweithredu ar y cyd. Gweler hefyd gopi o'r protocol gorfodaeth lleol y cytunwyd arno gan y Cyngor a'r Heddlu.

11.2 Fel rheol bydd y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion gorfodaeth a gytunwyd ac yn unol â pholisi gorfodaeth y Cyngor ei hun. I'r perwyl hwn bydd y Cyngor yn cadw at brif egwyddorion cysondeb, tryloywder a chymesuredd.

11.3 Bydd diwygiad i Ddeddf Trwyddedu 2003 dan delerau a nodir yn Neddf Gostwng Troseddau Treisgar 2006 yn caniatáu i'r Awdurdod Lleol, ar gais gan Swyddog Uchel o'r Heddlu, osod amodau ar drwyddedau hyd nes y cynhelir adolygiad llawn.

11.4 **Deddf Trosedd a Diogelwch 2010 -** yn newid Deddf Trwyddedu 2003 i ganiatáu i awdurdodau lleol wneud gorchmynion cyfyngu gwerthu alcohol yn oriau mân y bore gan ddisodli unrhyw drwydded adeilad, tystysgrif clwb neu rybuddion digwyddiadau dros dro sy'n awdurdodi gwerthu alcohol rhwng 0300 ac 0600.

11.5 Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn ymhelaethu ar yr uchod, a thrwy gyfrwng Gorchmynion Cyfyngu Plygeiniol mae modd gwahardd eiddo rhag gweithredu am gyfnodau penodol rhwng hanner nos a 0600.

11.6 Mae'r Ddeddf uchod hefyd yn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd o godi Ardoll Hwyr y Nos ynghylch eiddo sy'n gweithredu rhwng hanner nos a 0600 i gwrdd â'r costau ychwanegol o ran plismona'r economi gyda'r nos.

**12.0 Y Broses Drwyddedu**

**12.1 Amodau Trwydded**

Bydd y Cyngor, cyn belled ag y bydd yn rhesymol ymarferol iddo wneud hynny, yn osgoi gosod amodau anghymesur a thrwm ar unrhyw adeilad.

12.2 Gallai'r Cyngor atodi amodau i bob trwydded unigol fel sy'n briodol ac ar ôl ystyried amgylchiadau pob achos unigol. Bydd yr amodau yn ymwneud â materion o gwmpas -

- Trosedd ac anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Sinemâu a diogelwch tân
- Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed

12.3 Pan fydd y Cyngor yn gosod amodau bydd hefyd yn sylweddoli'r angen i osgoi unrhyw fesurau a fyddai'n atal cerddoriaeth fyw, dawnsio neu theatr trwy osod costau anuniongyrchol o natur sylweddol. I sicrhau amrywiaeth ddiwylliannol mae'r Cyngor wedi sefydlu polisi i drwyddedu rhai mannau cyhoeddus yn y gymuned yn eu henw eu hunain ac mae manylion amdanynt yn y Gofrestr Genedlaethol.

Mae cyflwyno Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012 yn golygu y gellir chwarae cerddoriaeth sydd heb ei seinchwyddo rhwng 0800 a 2300 ac yn caniatáu chwarae cerddoriaeth sydd wedi ei seinchwyddo yn ystod yr un cyfnod ond dim ond i gynulleidfa o 200 o bobl neu lai a hynny heb fod rhaid i'r adloniant fod wedi ei reoleiddio – ac eithrio lle mae amodau yn cael eu hailosod neu pan fo amodau newydd neu ychwanegol yn cael eu gosod yn sgil gwrandawiad adolygu.

12.4 Wrth drafod ceisiadau bydd y Cyngor yn rhoi sylw i unrhyw gynghorion a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref, Cyfryngau a Chwaraeon. Yn arbennig, bydd yn rhoi sylw i'r angen i annog a hybu cerddoriaeth fyw, dawnsio a theatr fel y bydd y gymdogaeth gyfan yn cael budd ohonynt. Os gwneir sylwadau ynglŷn â'r posibilrwydd o anrhefn mewn ardal neilltuol, bydd y Cyngor yn pwyso a mesur yr ystyriaethau yn erbyn lles ehangach y gymuned.

12.5 **Amodau Mandadol** - Cyflwynodd Deddf Plismona a Throsedd 2009 gyfres o amodau ychwanegol mandadol ar gyfer trwyddedau, sy'n cael effaith ar y ffordd y mae adeiladau a chlybiau sy'n gwerthu/cyflenwi alcohol yn cael gweithredu.

O Ebrill 2010 mae'r tri amod isod yn berthnasol i bob trwydded adeilad a thystysgrif clwb.

Gwaherddir ymgyrchoedd hyrwyddo anghyfrifol ar gyfer diodydd.
Rhaid sicrhau bod dŵr tap ar gael yn rhad ac am ddim i gwsmeriaid ar gais.
Ni ellir rhoi alcohol yn uniongyrchol yng ngheg person arall (oni bai ei fod/bod yn anabl)

O 1 Hydref 2010 bydd yr amodau isod hefyd yn berthnasol.

Polisi dilysu oed i rwystro gwerthiannau i bobl dan oed.
Cyfle i'r cwsmeriaid dewis fesurau bychain o gwrw, seidr, gwirodydd a gwin.

Nid oes rhaid i'r Cyngor ailgyhoeddi trwyddedau sy'n cynnwys yr amodau ychwanegol ond, lle cyfyd cyfleon, ailgyhoeddir trwyddedau yn rhad ac am ddim gyda'r amodau perthnasol ynghlwm wrthynt.

**12.6 Gweinyddiaeth – Cwrs Ceisiadau**

Gweinyddol fydd natur llawer o'r swyddogaethau i raddau helaeth. Bydd y cyfrifoldeb am brosesu unrhyw gais nad oes dadlau yn ei gylch yn cael ei ymddiried i'r Swyddogion.

12.7 Bydd y Cyngor yn disgwyl i bob un ymgeisydd gyrraedd yr amcanion trwyddedu a welir yn y Cynllun Gweithredol gan roi sylw i'r math o adeiladau, y gweithgareddau trwyddedadwy a gynhelir, y dulliau gweithredu, natur y lleoliad ac anghenion y gymuned leol yn unol ag adran 9.1.17

12.8 Anogir ymgeiswyr i fod yn ymwybodol o unrhyw bolisïau cynllunio a chludiant, strategaethau diwylliannol a thwristiaeth a mentrau lleol i rwystro trosedd ac iddynt roi sylw iddynt pan fo hynny'n briodol wrth lunio eu cynllun.

12.9 Mae'r Cyngor yn cydnabod cyngor gan y Swyddfa Gartref na ddylid caniatáu i farn y lleiafrif uchel eu cloch gael blaenoriaeth dros les cyffredinol y gymuned.

12.10 Caiff y Pwyllgor Trwyddedu, neu Is-Bwyllgor, neu unrhyw swyddog gydag awdurdod dirprwyol, weinyddu awdurdod y Cyngor o dan ddarpariaethau'r Ddeddf.

12.11 Bydd Pwyllgor Trwyddedu swyddogol y Cyngor yn trin ceisiadau y mae sylwadau wedi eu gwneud yn eu cylch ynghyd ag unrhyw gais i adolygu'r drwydded. Ni fydd sylwadau ond yn berthnasol os ydynt yn ymwneud ag effaith debygol caniatáu trwydded ar o leiaf un o'r pedwar amcan trwyddedu. Gall unrhyw berson arall, gan gynnwys trydydd parti, gyflwyno sylwadau neu fe all Cynghorydd Ward wneud hynny ar eu rhan. Fodd bynnag, bydd raid bodloni'r Cyngor ynghylch enw a chyfeiriad y parti sydd â diddordeb a bod person o'r fath wedi cael awdurdod gan y trydydd parti i weithredu ar eu rhan.

**Partïon sydd â diddordeb** - Mae Adran 33 Deddf yr Heddlu a Throsedd 2009 yn diwygio rhannau 13 a 69 Deddf Trwyddedu 2003 i ganiatáu i Aelodau Etholedig y Cyngor weithredu fel partïon sydd â diddordeb. Mae hyn yn caniatáu i aelodau awdurdodau trwyddedu wneud sylwadau i wrthwynebu ceisiadau am drwydded neu i alw am adolygiad. Dan Ddeddf Trwyddedu 2003 nid oedd y grymoedd hyn ond ar gael i bartïon sydd â diddordeb neu awdurdodau cyfrifol.

**Rheoliadau Darparu Gwasanaethau 2009** - Yn trawsosod Cyfarwyddeb Gwasanaethau Ewropeaidd i mewn i ddeddfwriaeth y Deyrnas Gyfunol gan ganiatáu ceisiadau, rhybuddion a sylwadau ar ffurf electronaidd trwy un pwynt cyswllt (www.eu-go.eu) . Yn y Deyrnas Gyfunol gwelir y pwynt cyswllt dan www.ukwelcomes.businesslink.gov.uk sy'n caniatáu gwneud ceisiadau am drwydded a thaliadau ar lein.

Bydd y Cyngor yn hysbysebu ceisiadau ar ei wefan ei hun i godi ymwybyddiaeth.

**12.12 Cyfuno Strategaethau ac osgoi Dyblygu**

Bydd unrhyw benderfyniad ynglŷn â chais am drwydded yn cael ei wneud yn hollol ar wahân i unrhyw benderfyniad sydd yn ymwneud â materion cynllunio. Fodd bynnag dylai'r Pwyllgor Cynllunio dderbyn adroddiadau yn rheolaidd ynglŷn â cheisiadau am drwyddedau yn yr ardal a bydd yr adroddiadau hynny yn rhoi sylw i'r effaith gyffredinol a gaiff trosedd ac anrhefn sydd yn gysylltiedig ag alcohol.

12.13 Dylai'r Pwyllgor Trwyddedu dderbyn adroddiadau oddi wrth Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn ynglŷn â Throsedd ac Anrhefn yn y Sir.

12.14 Wrth drafod ceisiadau mae'n bosibl y bydd angen rhoi sylw i nifer o faterion ehangach; gan hynny dylai Pwyllgor Trwyddedu'r Cyngor dderbyn adroddiadau ar y materion a ganlyn -

- Anghenion y diwydiant ymwelwyr yn yr ardal
- Strategaeth Ddiwylliannol yn yr ardal
- Y sefyllfa o safbwynt cyflogaeth yn yr ardal a'r angen am fuddsoddiad a gwaith newydd pan fo hynny'n briodol
- Ystyriaethau cynllunio a fedr effeithio ar drwyddedau i adeiladau.

12.15 Pan fydd unrhyw brotocolau y cytunwyd arnynt gyda'r heddlu yn nodi angen penodol i wasgaru pobl o ganol y dref yn gyflym ac yn ddiogel er mwyn osgoi casgliadau o bobl a fyddai'n gallu creu trosedd ac anrhefn, bydd y Cyngor yn ceisio rhoi gwybod i'r sawl sydd yn gyfrifol am drefnu cludiant lleol fel y gellir gwneud trefniadau, lle bo hynny'n bosibl, i leihau'r posibilrwydd y bydd problemau'n codi.

**12.16 Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro**

Bydd y Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd eglur a dealladwy yn lleol i weithgareddau dros dro a ganiateir. Y cyfnod o rybudd lleiaf posibl fydd deng niwrnod; (heb gynnwys y dyddiad cyflwyno a dydd(iau) y digwyddiad). Serch hynny byddai'r Cyngor yn annog y dylid rhoi ugain diwrnod gwaith o rybudd er lles ymgynghori agored.

12.17 Gall yr Heddlu a'r Adran Iechyd yr Amgylchedd gyflwyno gwrthwynebiad i Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro, cyn pen tri diwrnod i gyflwyno'r Hysbysiad, a fydd yn caniatáu cyfnod ar gyfer adolygu'r Hysbysiad, a fydd yn arwain at ei newid mewn rhai achosion fel y gall y Cyngor ychwanegu amodau iddo.

12.18 Gellir cyflwyno Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro yn hwyr rhwng 9 a 5 diwrnod gwaith cyn y Digwyddiad, ond os bydd yr Heddlu neu Iechyd yr Amgylchedd yn gwrthwynebu, ni fydd unrhyw fodd apelio.

12.19 Mae cyfnod yr Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro wedi ei estyn dan delerau Deddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2012 o'r 96 awr gwreiddiol i hyd at 136 awr a hynny'n bennaf er mwyn hwyluso theatrau symudol, syrcasau a grwpiau gwirfoddol sy'n dymuno cynnal digwyddiad wythnos gyfan heb y toriad 24 awr angenrheidiol dan delerau'r hen ddeddfwriaeth.

12.20 Bydd y Cyngor yn rhoi cyngor helaeth ynglŷn â threfnu'r fath ddathliadau, gan gynnwys ar faterion diogelwch y cyhoedd. Lle bo angen, bydd cydweithrediad rhwng awdurdodau cyfrifol yn cael ei hwyluso gan y Cyngor. Trwy'r Grŵp Diogelwch Ymgynghorol.

12.21 Bydd llawer o'r digwyddiadau lleol wedi cael eu trefnu gan wirfoddolwyr neu gan bwyllgor clwb neu gymdeithas leol. Mae'r Cyngor o'r farn y dylid rhoi'r un math o sicrwydd iechyd a diogelwch ag y rhoddir mewn sefyllfa waith rhwng cyflogwr a gweithwyr beth bynnag fo'r cyfrifoldebau cyfreithiol caeth o dan ddarpariaethau deddfwriaeth iechyd a diogelwch

## 13. Trwyddedau Personol

Er y bydd y Cyngor yn rhoi arweiniad eglur a chyflawn ynglŷn â thrwyddedau personol bydd pob adeilad sydd â Thrwydded Adeiladau priodol angen Goruchwyliwr Dynodedig ar gyfer pob safle. Rhaid i'r sawl a ddynodir gael trwydded bersonol ond ni fydd angen iddynt fod yn bresennol trwy'r amser ond gallant awdurdodi pobl eraill i werthu alcohol - byddai'n ddoeth cael y fath ganiatâd ar bapur. Y Goruchwyliwr Dynodedig fydd yn gyfrifol yn gyffredinol am redeg adeilad trwyddedig ac ef / hi fydd y prif bwynt cyswllt gyda'r Cyngor, yr Heddlu a'r Awdurdodau Cyfrifol.

13.1 Rhaid i'r ymgeisydd fod mewn sefyllfa i gadarnhau'r canlynol cyn y bydd y Cyngor yn ystyried rhoi trwydded iddo/iddi:

- Eu bod dros 18 oed
- Bod ganddynt gymhwyster trwyddedu perthnasol
- Na chafodd unrhyw drwydded a oedd ganddynt ei fforffedu yn ystod y 5 mlynedd cyn y cais presennol
- Na chafwyd hwy yn euog o unrhyw drosedd perthnasol ac nad yw collfarn y drosedd honno wedi darfod

Noder: - Wrth gyfeirio at drosedd berthnasol bydd y canlynol yn cael eu cynnwys

- Trais difrifol
- Anonestrwydd difrifol (gan gynnwys unrhyw ymwneud â gwerthu tybaco neu alcohol wedi smyglo)
- Cyflenwi cyffuriau
- Troseddau sydd angen eu cofnodi yn y gofrestr troseddau rhywiol
- Torri'r deddfau trwyddedu alcohol

13.2 Mae Trwyddedau Personol yn ddilys am ddeng mlynedd ac unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi yr awdurdod a'u cyhoeddodd sy'n parhau fel yr awdurdod trwyddedu perthnasol ar eu cyfer, er efallai y bydd deilydd y drwydded yn symud o'r ardal.

13.3 Bydd yn rhaid i'r sawl sy'n dal Trwydded Bersonol roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw gollfarnau perthnasol a rhoi gwybod i'r llysoedd bod ganddynt drwydded bersonol cyn gynted ag y bo modd fel bod modd ystyried, ardystio, atal neu ddirymu trwydded. Bydd peidio â chydymffurfio â'r uchod yn drosedd.

13.4 Mae'r Llywodraeth, gyda chymorth awdurdodau trwyddedu, yn bwriadu datblygu cofrestr drwyddedu ganolog a fydd, ymysg pethau eraill, yn cynnwys manylion am bawb a chanddynt drwydded bersonol.

Rhoddir gwybod am ddatblygiadau yn y dyfodol mewn perthynas â chreu cofrestr drwyddedu ganolog ar wefan yr Adran ar gyfer Diwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon.

14. **Gwybodaeth Ychwanegol**

14.1 Bydd Masnachwyr Stryd yn rhoi sylw i Awdurdod y Polisi ynghylch masnachu ar y stryd a rhaid sicrhau bod yr holl safleoedd a ddefnyddir wedi'u trwyddedu yn unol â'r meini prawf a ddiffinnir yn Neddf Trwyddedu 2003.

14.2 Bydd Gweithredwyr yn rhoi sylw i Bolisi Byrddau a Chadeiriau'r Awdurdod mewn perthynas â dodrefn gardd/stryd ac unrhyw oblygiadau posib o ran cydymffurfio a'r pedwar amcan trwyddedu sydd wedi'i nodi yn Neddf Trwyddedu 2003.

14.3 Mae Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012 yn dweud nad oes angen trwydded ar gyfer cerddoriaeth fyw rhwng 0800 a 2300 os nad yw'r gerddoriaeth wedi ei seinchwyddo, nac ar gyfer cerddoriaeth wedi ei seinchwyddo rhwng 0800 a 2300 os yw'n cael ei chwarae i gynulleidfa o 200 o bobl neu lai. Rhaid i'r eiddo fod wedi ei drwyddedu ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol ac ar agor ar gyfer busnes yn ystod y cyfnodau hyn. Gellir adolygu'r "eithriad" a'r amodau ychwanegol yn dilyn Adolygiad.

14.4 **Ymhelaethu ar y gorchmynion Cyfyngu Plygeiniol (Gorchmynion**).
Yn caniatáu cyfyngiad plygeiniol ar werthu alcohol yn holl ardal yr Awdurdod, neu rannau ohoni, rhwng hanner nos a 0600.

Bydd gan bobl y mae cyfyngiadau o'r fath yn cael effaith arnynt 42 o ddiwrnodau i wneud sylwadau perthnasol o blaid neu yn erbyn Gorchmynion o'r fath.

Bydd raid i'r Awdurdod roi gwybod i bob adeilad trwyddedig a fyddai'n cael ei gynnwys o fewn cwmpas cyfyngiadau arfaethedig o'r fath, yn hytrach na phob eiddo yn yr ardal drwyddedu.

Dylid rhoi cyhoeddusrwydd i gynnig i gyflwyno cyfyngiadau o'r fath ar wefan yr Awdurdod ac mewn papur newydd lleol.

Ni fydd unrhyw eithriadau o gyfyngiadau o'r fath. Fodd bynnag, bydd darpariaeth i sicrhau y gall eiddo sy'n darparu llety dros nos barhau i ddarparu gwasanaeth ystafell a bariau mini. Ni fydd Gorchmynion o'r fath yn berthnasol i ddathliadau'r Flwyddyn Newydd.

14.5 **Ymhelaethu ar yr Ardoll Hwyr y Nos**
Bydd hon yn Ardoll y gall yr Awdurdod ddewis ei gweithredu ai peidio ond, wrth wneud y penderfyniad hwnnw, bydd rhaid i'r Awdurdod ystyried – cost plismona a threfniadau eraill ar gyfer gostwng neu atal trosedd ac anhrefn mewn perthynas â chyflenwi alcohol rhwng hanner nos ac 0600 – a rhaid hefyd ystyried y costau hynny a dymunoldeb codi refeniw yn unol â'r Rheoliadau.

Gall trigolion lleol arfer eu hawliau cyfredol i wneud sylwadau a defnyddio sianelau cyfathrebu eraill i alw am weithredu'r ardoll yn yr ardal.

Gallai'r Awdurdod gyllido'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â rheoli'r economi hwyr y nos ond byddai gan yr Heddlu fwy o sgôp ynghylch ym mhle y byddai eu cyfran hwy o'r ardoll yn cael ei dyrannu.

Gallai'r Awdudrdod gynnig gostyngiad o hyd at 30% yn swm yr Ardoll i adeiladau sy'n dangos arferion da neu sy'n chwarae rhan mewn sefydliadau fel 'Pubwatch' neu 'Best Bar None' Gellir defnyddio disgresiwn lleol i eithrio o'r ardoll, eiddo sy'n cynnig llety dros nos, theatrau, sinemâu, neuaddau bingo, adeiladau cymunedol a rhai tafarndai mewn pentrefi.

## Responsible Authorities

**ATODIAD B**

**Ian Williams North Wales Police Ian.g.williams@north-wales.police.uk**

**Mike Plant Fire and Rescue Service Mike.plant@nwales-fireservice.org.uk**

**Dianne Jones Social Services dwjss@anglesey.gov.uk**

**A.Burgess Environmental Health tbxpp@anglesey.gov.uk**

**E.L.Jones Trading Standards eljpp@anglesey.gov.uk**

**J.I.Williams Planning jiwpp@anglesey.gov.uk**

**Betsy Cadwaleder Health Board**

Mark.Polin@nthwales.pnn.police.uk Stephanie.Arton@nthwales.pnn.police.uk

Winston.Roddick@nthwales.pnn.police.uk

## Internal Consultation

**GW6 Elected Members GW6Directors Chief executive Community Safety**

**Menter Mon Highways Planning Emergency Planning Policy**

## Breweries/Supermarkets

**Punch Taverns Lees Robinsons Tates**
**Summerfiled Waitrose Tescos Premier McCoys McDonalds**

**Magistrates Nw-caernarfonmcenq@hmcourts-service.gsi.gov.uk**
**Albert Owain ynysmonclp@btconnect.com**

**Pubwatch Groups Amlwch, Benllech, Llangefni, Holyhead, Menai Bridge, Beaumaris**

**Welsh Tourist Board Ambulance Service CAB**
**Gambling Commission Derek Bebbington d.bebbington@gamblingcommission.gov.uk**

## Other North Wales Authorities

**Gwynedd AmlynAbIorweth@gwynedd.gov.uk Conwy Kim.Evans@conwy.gov.uk**

**Denbighshire Flint Gemma.Brighton@Flintshire.gov.uk Wrexham Alan.Davies@wrexham.gov.uk**

## Licensing Act 2013

**All Premises Licence Holders as per Register – approximately 550**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | CYNGOR SIR |
| DYDDIAD: | 5 MAWRTH 2013 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | **CARCHAR YN Y GOGLEDD** |
| ADRODDIAD GAN: | PRIF WEITHREDWR AR RAN BWRDD PARTNERIAETH GOGLEDD CYMRU |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | Cyflwyno gwybodaeth i'r Cyngor am y trafodaethau yn y Bwrdd Rhanbarthol i wneud achos dros leoli'r carchar newydd arfaethedig yng Ngogledd Cymru. |
| GWEITHREDU: | Gofynnir I aelodau'r Cyngor ystyried eu cefnogaeth I ymdrechion y Bwrdd I wneud achos dros leioli'r carchar yng Ngogledd Cymru. |

**CARCHAR YN Y GOGLEDD**

**Diben yr adroddiad**

Mae adroddiad yn anelu i:

- Grynhoi cyhoeddiad diweddar y Weinyddiaeth Gyfiawnder am garchardai
- Gwahodd y Bwrdd I gadarnhau unwaith eto ei ymrwymiad i gael carchar yn y gogledd ar sail telerau a gyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Hysbysu cynghorau'r gogledd am y camau y mae'r bwrdd wedi cytuno arnyn nhw er mwyn i'r gogledd allu cyflwyno o safon I gael carchar yn y gogledd.

**Cyflwyniad**

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cyfiawnder, Chris Grayling, ddatganiad (wedi'i atodi) am Reoli Carchardai ar 10fed Ionawr 2013.

Dywedodd y Gweinidog y gallai carchardai modern roi gwasanaethau gwell na'r hen garchardai o ran cadw carcharorion a'u hadfer. Cyfeiriodd at yr arian yr oedd Carchar Oakwood wedi'i arbed, sef carchar newydd sy'n cynnig lleoedd a gwasanaethau gwell am lai hanner yr hyn mae'n ei gostio mewn carchardai ar hyn o bryd.

Felly, cyhoeddodd y Gweinidog ei fod yn bwriadu cau 6 charchar, gan gynnwys yr un yn yr Amwythig, yn ogystal â chau 3 charchar arall yn rhannol.

Mae'r 2,600 o leoedd y bydd yn cael eu colli yn cyfateb i'r nifer sydd ar gael yng Ngharchar Oakwood a phedwar datblygiad arall tebyg i fân-garchardai a adeiladwyd ar yr un safle, gan gynnwys datblygiad yng Ngharchar Parc ger Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn sgil y gostyngiad sylweddol mewn costau y mae'r datblygiadau newydd yn eu cynnig o gymharu ag adeiladau hŷn y carchardai, mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i edrych ar ba mor ymarferol fyddai adeiladu carchar newydd gyda lle i dros 2,000 o garcharorion yng ngogledd-orllewin Lloegr, Llundain neu ogledd Cymru.

**Cyfle**

Mae'r Bwrdd wedi bod yn lobïo am gael carchar yn y gogledd er 2007, a bron iddo lwyddo i gael un ger Caernarfon cyn etholiad 2010.

Dyma pam mae'r bwrdd am weld carchar yn y gogledd:

- Y manteision economaidd sylweddol o ran cynnig swyddi diogel yn ogystal â chadwyn gyflenwi sy'n cynnwys amrywiaeth o wasanaethau ym meysydd addysg, iechyd, arlwyo a chynnal adeiladau.
- Y gogledd yw'r unig ranbarth yn y DU sydd heb garchar.
- ran diwylliant, byddai carcharorion o'r gogledd sy'n siarad Cymraeg yn cael defnyddio eu hiaith gyntaf, yn unol â gofynion Deddf y Gymraeg. Byddai hyn o fantais o ran lleihau'r nifer sy'n aildroseddu.
- I wella effeithlonrwydd i'r gwasanaethau cyhoeddus (cludo carcharorion a chostau cludo ac amser teithio i'r llys/carchar ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol/rheoli carcharorion).
- I wella gwasanaethau adfer a lleihau'r nifer sy'n aildroseddu fel bod teuluoedd a gweithwyr cymorth proffesiynol ar gael yn haws i garcharorion o'r gogledd. Mae cadw teuluoedd gyda'i gilydd hefyd yn arbed arian i wasanaethau cyhoeddus ac mae cael carchardai sy'n hwylus i deuluoedd yn rhan o hynny.

Byddai carchar yn y rhanbarth yn rhoi hwb i system Cyfiawnder Troseddol yr ardal (gwasanaeth prawf, llysoedd, ac ati) ac yn creu swyddi yn system y gyfraith a'r llysoedd.

Byddai'r manteision economaidd yn sylweddol. Yn ôl asesiad am effaith cael carchar gyda 1,500 o welyau, tybiwyd y byddai 1,165 o swyddi'n gallu cael eu creu drwy gyfuniad o weithio'n uniongyrchol i'r carchar, yn ogystal ag yn anuniongyrchol drwy'r gadwyn gyflenwi. Byddai carchar gyda 1,500 o welyau yn gwario tua £47m a fyddai'n mynd i'r gymuned ehangach a byddai dros hanner y swyddi newydd yn rhai lleol.

Mae angen hyfforddiant a chymwysterau i allu gweithio mewn carchar. Byddai carchar yn gwella cymwysterau'r gweithlu e.e. NVQ, yn ogystal ag annog cyflogwyr eraill i fuddsoddi yn y farchnad waith leol.

Mae'r gogledd yn dibynnu'n helaeth ar swyddi gweithgynhyrchu, yn enwedig yn y gogledd-ddwyrain. Byddai cael carchar yn y gogledd yn rhoi gwell cydbwysedd i'r economi o ran cael mwy o swyddi yn sector y gwasanaethau.

Mae Ysgrifennydd Cymru wedi hysbysu pob awdurdod lleol yn y rhanbarth am y cyfle yn ogystal â chynnig eu helpu i weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. San Steffan sy'n penderfynu ble bydd carchardai'n cael eu hadeiladu.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi mynegi diddordeb mewn cynorthwyo cynghorau'r gogledd i gael carchar yn yr ardal.

**Dysgu**

Mae'r cyhoeddiad diweddar yn dechrau trydedd ran y gwaith o geisio cael carchar yn y gogledd.

Rhaid tybio bod y cyfarfod diweddar gyda Gweinidog y Carchardai, Jeremy Wright AS, a drefnwyd gan Swyddfa Cymru, yn gysylltiedig â'r ffaith fod y gogledd ymhlith y rhanbarthau sydd ar y rhestr fer fel lleoliad ar gyfer carchar newydd.

Dyma oedd hanfod y cynnig gan gynrychiolwyr y gogledd:

- Safleoedd addas ar gyfer carchar gyda 1,500 o welyau a chysylltiadau da gyda system cyfiawnder troseddol gogledd-orllewin Lloegr.
- Mae'r awdurdodau lleol yn awyddus i gydweithio â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn nodi safleoedd addas ar gyfer carchar.
- Parodrwydd i fodloni meini prawf y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Parodrwydd i rannu carchar gyda gogledd-orllewin a/neu orllewin canolbarth Lloegr.

Mae cyhoeddiad a chyngor Gweinidog y Carchardai i gynrychiolwyr y gogledd yn dangos mai lleihau costau carchardai yw prif nod y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac mae graddfa yn gysylltiedig â hyn.

Dangosodd yr ymdrech i gael carchar yng Nghaernarfon nad yw cais am garchar sy'n diwallu anghenion y gogledd yn unig yn ddigon mawr i fodloni meini prawf y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac nid yw ar y raddfa fydd yn lleihau costau yn unol â'r hyn sydd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder dan sylw (h.y. dros 50%).

Bu bron i brosiect Caernarfon lwyddo oherwydd ymrwymiad gwleidyddol David Hanson AS, sef Gweinidog y Carchardai ar y pryd, ond canslodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y cytundeb wedi iddo gael ei symud i adran arall.

Aeth y gogledd ati wedyn i gymryd rhan mewn ymarfer i ystyried pa mor ymarferol fyddai cael carchar gyda 1,500 o welyau fyddai'n diwallu anghenion y gogledd a gogledd-orllewin Lloegr fel ei gilydd. Ymrwymodd y Bwrdd i rannu carchar gyda rhanbarthau cyfagos dros Glawdd Offa er mwyn bodloni meini prawf y Weinyddiaeth Gyfiawnder o gael carchar gyda 1,500 o welyau. Wrth wneud hyn, ystyriodd swyddogion y Bwrdd a fyddai modd diwallu anghenion lleol mewn adeilad penodol mewn carchar mwy. Buon nhw hefyd yn ystyried sut gallai'r rhanbarth gyfan fanteisio'n llawn ar y datblygiad.

Daeth yr ymarfer i ddewis safle ar gyfer carchar gyda 1,500 o welyau i ben yn 2010 ar ôl yr etholiad cyffredinol a'r cyhoeddiad wedi hynny am leihau gwariant cyhoeddus.

Bydd y gwaith newydd o bennu meini prawf er mwyn ystyried dichonoldeb y safle yn debyg i'r ymarfer a gafodd ei ddechrau yn 2009/10 ar ôl canslo prosiect Caernarfon. Roedd yn cynnwys amserau teithio i garcharorion a theuluoedd.

Gall y broses newydd ddefnyddio'r profiad yma a gafwyd yn 2009/2010, yn ogystal â'r posibiliadau oedd o dan ystyriaeth.

Bydd ceisio cael carchar yn yr ardal yn broses hynod gystadleuol a bydd gwleidyddiaeth a chynllun busnes cadarn ar sail meini prawf y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dylanwadu ar y penderfyniad. Bydd llwyddiant y cais yn dibynnu ar gael cefnogaeth wleidyddol gadarn ar draws y rhanbarth a chyflwyno 'cynnig busnes' deniadol sy'n bodloni amcanion economaidd a pholisïau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Bydd angen parodrwydd i gydweithio â'r adran mewn modd adeiladol er mwyn diwallu anghenion troseddwyr o'r gogledd mewn sefydliad ehangach.

Byddai cael carchar yn y gogledd yn cynnig y manteision economaidd isod i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder:

- Bydd yn lleihau costau'n sylweddol o gymharu â charchardai ar hyn o bryd. Bydd gwerth tiroedd yn ogystal â safon a gallu'r gweithlu lleol yn berthnasol.
- Bydd yn moderneiddio gwasanaethau mewnol er mwyn lleihau'r nifer sy'n aildroseddu.
- Cysylltiadau ardderchog â system drafnidiaeth gogledd-orllewin a gorllewin canolbarth Lloegr.
- Cysylltiadau ardderchog â system cyfiawnder troseddol gogledd-orllewin a gorllewin canolbarth Lloegr.
- Bydd yn cymryd y carcharorion sydd yn yr Amwythig gan gynnwys y rhai o ganolbarth Cymru, yn ogystal â chymryd carcharorion o garchardai eraill fel Altcourse

**Camau nesaf**

Dyma flaenoriaethau Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru:

- Dangos ymrwymiad gwleidyddol i gael carchar yn y gogledd.
- Hysbysu pob awdurdod lleol am y cyfle i gael carchar yn y gogledd.
- Ystyried amcanion polisïau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ofalus (h.y. lleihau costau a moderneiddio cyfleusterau er mwyn lleihau'r nifer sy'n aildroseddu).
- Cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ac asesu safleoedd posibl, gan gynnwys amserlenni.

- Cael gwybodaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder am y niferoedd sydd mewn carchardai a pha gategorïau o garcharorion sydd ganddyn nhw o dan sylw ar gyfer carchar posibl yn y gogledd.

- Cyfarwyddo swyddogion i nodi safleoedd posibl ar sail y meini prawf y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi'u cyflwyno.

**Argymhellion**

Gofynnir i'r cyngor gymeradwyo cynigion y Bwrdd a'i gefnogi drwy:

- Gyflwyno datganiad i'r wasg sy'n croesawu'r cyfle i geisio cael carchar yn y gogledd.

- Cyfathrebu â Swyddfa Cymru, Gweinidog y Carchardai a Llywodraeth Cymru i groesawu'r cyhoeddiad a chynnig cymorth er mwyn cael carchar yn y gogledd.

**Nodwch:**

- Bydd swyddogion o bob cyngor yn cwrdd â swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder i nodi meini prawf y safle a chael gwybodaeth am droseddwyr (categorïau carcharorion, nifer y carcharorion a'r rhai sy'n aros eu prawf yn ddalfa, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u dedfrydu am lai na blwyddyn, ac ati).

- Bydd swyddogion o bob cyngor yn cwrdd i amlygu safleoedd posib yn ogystal â thrafod yr ewyllys gwleidyddol i hyrwyddo safleoedd a galluogi'r rhanbarth i gynnig rhestr fer o safleoedd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n bodloni ei meini prawf.

- Nid yw amlygu safleoedd a chynllunio'n rhan o'r un broses, a bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn egluro hynny.

- Bydd Heddlu'r Gogledd yn paratoi cynllun busnes i nodi sut bydd cymunedau'r gogledd yn elwa ar gael carchar yn yr ardal y bydd troseddwyr o'r gogledd yn cael eu hanfon iddo. Bydd angen i swyddogion cynghorau hwyluso trafodaethau gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am hyn.

- Bydd y Bwrdd yn adolygu hynt a helynt y broses yn rheolaidd ym mhob un o'i gyfarfodydd.

Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
***Arwain Gwasanaethau Cyhoeddus***

# Carchar yn y gogledd

## Diben yr adroddiad

- Crynhoi cyhoeddiad diweddar y Weinyddiaeth Gyfiawnder am garchardai
- Gwahodd y Bwrdd i gadarnhau unwaith eto ei ymrwymiad i gael carchar yn y gogledd ar sail y telerau a gyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Hysbysu cynghorau'r gogledd am y camau y mae'r bwrdd wedi cytuno arnyn nhw er mwyn i'r gogledd allu cyflwyno cais o safon i gael carchar yn y gogledd.

## Cyflwyniad

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cyfiawnder, Chris Grayling, ddatganiad (wedi'i atodi) am Reoli Carchardai ar 10fed Ionawr 2013.

Dywedodd y Gweinidog y gallai carchardai modern roi gwasanaethau gwell na'r hen garchardai o ran cadw carcharorion a'u hadfer. Cyfeiriodd at yr arian yr oedd Carchar Oakwood wedi'i arbed, sef carchar newydd sy'n cynnig lleoedd a gwasanaethau gwell am lai hanner yr hyn mae'n ei gostio mewn carchardai ar hyn o bryd.

Felly, cyhoeddodd y Gweinidog ei fod yn bwriadu cau 6 charchar, gan gynnwys yr un yn yr Amwythig, yn ogystal â chau 3 charchar arall yn rhannol.

Mae'r 2,600 o leoedd y bydd yn cael eu colli yn cyfateb i'r nifer sydd ar gael yng Ngharchar Oakwood a phedwar datblygiad arall tebyg i fân-garchardai a adeiladwyd ar yr un safle, gan gynnwys datblygiad yng Ngharchar Parc ger Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn sgil y gostyngiad sylweddol mewn costau y mae'r datblygiadau newydd yn eu cynnig o gymharu ag adeiladau hŷn y carchardai, mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i edrych ar ba mor ymarferol fyddai adeiladu carchar newydd gyda lle i dros 2,000 o garcharorion yng ngogledd-orllewin Lloegr, Llundain neu ogledd Cymru.

## Cyfle

Mae'r Bwrdd wedi bod yn lobïo am gael carchar yn y gogledd er 2007, a bron iddo lwyddo i gael un ger Caernarfon cyn etholiad 2010.

Dyma pam mae'r bwrdd am weld carchar yn y gogledd: -

- Y manteision economaidd sylweddol o ran cynnig swyddi diogel yn ogystal â chadwyn gyflenwi sy'n cynnwys amrywiaeth o wasanaethau ym meysydd addysg, iechyd, arlwyo a chynnal adeiladau.

- Y gogledd yw'r unig ranbarth yn y DU sydd heb garchar.

- O ran diwylliant, byddai carcharorion o'r gogledd sy'n siarad Cymraeg yn cael defnyddio eu hiaith gyntaf, yn unol â gofynion Deddf y Gymraeg. Byddai hyn o fantais o ran lleihau'r nifer sy'n aildroseddu.

- I wella effeithlonrwydd i'r gwasanaethau cyhoeddus (cludo carcharorion a chostau cludo ac amser teithio i'r llys/carchar ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol/rheoli carcharorion).

- I wella gwasanaethau adfer a lleihau'r nifer sy'n aildroseddu fel bod teuluoedd a gweithwyr cymorth proffesiynol ar gael yn haws i garcharorion o'r gogledd. Mae cadw teuluoedd gyda'i gilydd hefyd yn arbed arian i wasanaethau cyhoeddus ac mae cael carchardai sy'n hwylus i deuluoedd yn rhan o hynny.

Byddai carchar yn y rhanbarth yn rhoi hwb i system Cyfiawnder Troseddol yr ardal (gwasanaeth prawf, llysoedd, ac ati) ac yn creu swyddi yn system y gyfraith a'r llysoedd.

Byddai'r manteision economaidd yn sylweddol. Yn ôl asesiad am effaith cael carchar gyda 1,500 o welyau, tybiwyd y byddai 1,165 o swyddi'n gallu cael eu creu drwy gyfuniad o weithio'n uniongyrchol i'r carchar, yn ogystal ag yn anuniongyrchol drwy'r gadwyn gyflenwi. Byddai carchar gyda 1,500 o welyau yn gwario tua £47m a fyddai'n mynd i'r gymuned ehangach a byddai dros hanner y swyddi newydd yn rhai lleol.

Mae angen hyfforddiant a chymwysterau i allu gweithio mewn carchar. Byddai carchar yn gwella cymwysterau'r gweithlu e.e. NVQ, yn ogystal ag annog cyflogwyr eraill i fuddsoddi yn y farchnad waith leol.

Mae'r gogledd yn dibynnu'n helaeth ar swyddi gweithgynhyrchu, yn enwedig yn y gogledd-ddwyrain. Byddai cael carchar yn y gogledd yn rhoi gwell cydbwysedd i'r economi o ran cael mwy o swyddi yn sector y gwasanaethau.

Mae Ysgrifennydd Cymru wedi hysbysu pob awdurdod lleol yn y rhanbarth am y cyfle yn ogystal â chynnig eu helpu i weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. San Steffan sy'n penderfynu ble bydd carchardai'n cael eu hadeiladu.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi mynegi diddordeb mewn cynorthwyo cynghorau'r gogledd i gael carchar yn yr ardal.

## Dysgu

Mae'r cyhoeddiad diweddar yn dechrau trydedd ran y gwaith o geisio cael carchar yn y gogledd.

Rhaid tybio bod y cyfarfod diweddar gyda Gweinidog y Carchardai, Jeremy Wright AS, a drefnwyd gan Swyddfa Cymru, yn gysylltiedig â'r ffaith fod y gogledd ymhlith y rhanbarthau sydd ar y rhestr fer fel lleoliad ar gyfer carchar newydd.

Dyma oedd hanfod y cynnig gan gynrychiolwyr y gogledd: -

- Safleoedd addas ar gyfer carchar gyda 1,500 o welyau a chysylltiadau da gyda system cyfiawnder troseddol gogledd-orllewin Lloegr.

- Mae'r awdurdodau lleol yn awyddus i gydweithio â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn nodi safleoedd addas ar gyfer carchar.

- Parodrwydd i fodloni meini prawf y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

- Parodrwydd i rannu carchar gyda gogledd-orllewin a/neu orllewin canolbarth Lloegr.

Mae cyhoeddiad a chyngor Gweinidog y Carchardai i gynrychiolwyr y gogledd yn dangos mai lleihau costau carchardai yw prif nod y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac mae graddfa yn gysylltiedig â hyn.

Dangosodd yr ymdrech i gael carchar yng Nghaernarfon nad yw cais am garchar sy'n diwallu anghenion y gogledd yn unig yn ddigon mawr i fodloni meini prawf y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac nid yw ar y raddfa fydd yn lleihau costau yn unol â'r hyn sydd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder dan sylw (h.y. dros 50%).

Bu bron i brosiect Caernarfon lwyddo oherwydd ymrwymiad gwleidyddol David Hanson AS, sef Gweinidog y Carchardai ar y pryd, ond canslodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y cytundeb wedi iddo gael ei symud i adran arall.

Aeth y gogledd ati wedyn i gymryd rhan mewn ymarfer i ystyried pa mor ymarferol fyddai cael carchar gyda 1,500 o welyau fyddai'n diwallu anghenion y gogledd a gogledd-orllewin Lloegr fel ei gilydd. Ymrwymodd y Bwrdd i rannu carchar gyda rhanbarthau cyfagos dros Glawdd Offa er mwyn bodloni meini prawf y Weinyddiaeth Gyfiawnder o gael carchar gyda 1,500 o welyau. Wrth wneud hyn, ystyriodd swyddogion y Bwrdd a fyddai modd diwallu anghenion lleol mewn adeilad penodol mewn carchar mwy. Buon nhw hefyd yn ystyried sut gallai'r rhanbarth gyfan fanteisio'n llawn ar y datblygiad.

Daeth yr ymarfer i ddewis safle ar gyfer carchar gyda 1,500 o welyau i ben yn 2010 ar ôl yr etholiad cyffredinol a'r cyhoeddiad wedi hynny am leihau gwariant cyhoeddus.

Bydd y gwaith newydd o bennu meini prawf er mwyn ystyried dichonoldeb y safle yn debyg i'r ymarfer a gafodd ei ddechrau yn 2009/10 ar ôl canslo prosiect Caernarfon. Roedd yn cynnwys amserau teithio i garcharorion a theuluoedd.

Gall y broses newydd ddefnyddio'r profiad yma a gafwyd yn 2009/2010, yn ogystal â'r posibiliadau oedd o dan ystyriaeth.

Bydd ceisio cael carchar yn yr ardal yn broses hynod gystadleuol a bydd gwleidyddiaeth a chynllun busnes cadarn ar sail meini prawf y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dylanwadu ar y penderfyniad. Bydd llwyddiant y cais yn dibynnu ar gael cefnogaeth wleidyddol gadarn ar draws y rhanbarth a chyflwyno 'cynnig busnes' deniadol sy'n bodloni amcanion economaidd a pholisïau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Bydd angen parodrwydd i gydweithio â'r adran mewn modd adeiladol er mwyn diwallu anghenion troseddwyr o'r gogledd mewn sefydliad ehangach.

Byddai cael carchar yn y gogledd yn cynnig y manteision economaidd isod i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder:

- Bydd yn lleihau costau'n sylweddol o gymharu â charchardai ar hyn o bryd. Bydd gwerth tiroedd yn ogystal â safon a gallu'r gweithlu lleol yn berthnasol.
- Bydd yn moderneiddio gwasanaethau mewnol er mwyn lleihau'r nifer sy'n aildroseddu.
- Cysylltiadau ardderchog â system drafnidiaeth gogledd-orllewin a gorllewin canolbarth Lloegr.
- Cysylltiadau ardderchog â system cyfiawnder troseddol gogledd-orllewin a gorllewin canolbarth Lloegr.
- Bydd yn cymryd y carcharorion sydd yn yr Amwythig gan gynnwys y rhai o ganolbarth Cymru, yn ogystal â chymryd carcharorion o garchardai eraill fel Altcourse

## Camau nesaf

Dyma flaenoriaethau Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru: -

- Dangos ymrwymiad gwleidyddol i gael carchar yn y gogledd.
- Hysbysu pob awdurdod lleol am y cyfle i gael carchar yn y gogledd.
- Ystyried amcanion polisïau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ofalus (h.y. lleihau costau a moderneiddio cyfleusterau er mwyn lleihau'r nifer sy'n aildroseddu).
- Cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ac asesu safleoedd posibl, gan gynnwys amserlenni.
- Cael gwybodaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder am y niferoedd sydd mewn carchardai a pha gategorïau o garcharorion sydd ganddyn nhw o dan sylw ar gyfer carchar posibl yn y gogledd.
- Cyfarwyddo swyddogion i nodi safleoedd posibl ar sail y meini prawf y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi'u cyflwyno.

## Argymhellion

Gofynnir i'r cyngor gymeradwyo cynigion y Bwrdd a'i gefnogi drwy: -

- Gyflwyno datganiad i'r wasg sy'n croesawu'r cyfle i geisio cael carchar yn y gogledd.

- Cyfathrebu â Swyddfa Cymru, Gweinidog y Carchardai a Llywodraeth Cymru i groesawu'r cyhoeddiad a chynnig cymorth er mwyn cael carchar yn y gogledd.

Nodwch: -

- Bydd swyddogion o bob cyngor yn cwrdd â swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder i nodi meini prawf y safle a chael gwybodaeth am droseddwyr (categorïau carcharorion, nifer y carcharorion a'r rhai sy'n aros eu prawf yn ddalfa, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u dedfrydu am lai na blwyddyn, ac ati).

- Bydd swyddogion o bob cyngor yn cwrdd i amlygu safleoedd posib yn ogystal â thrafod yr ewyllys gwleidyddol i hyrwyddo safleoedd a galluogi'r rhanbarth i gynnig rhestr fer o safleoedd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n bodloni ei meini prawf.

- Nid yw amlygu safleoedd a chynllunio'n rhan o'r un broses, a bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn egluro hynny.

- Bydd Heddlu'r Gogledd yn paratoi cynllun busnes i nodi sut bydd cymunedau'r gogledd yn elwa ar gael carchar yn yr ardal y bydd troseddwyr o'r gogledd yn cael eu hanfon iddo. Bydd angen i swyddogion cynghorau hwyluso trafodaethau gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am hyn.

- Bydd y Bwrdd yn adolygu hynt a helynt y broses yn rheolaidd ym mhob un o'i gyfarfodydd.

# Arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus y Gogledd yn Croesawu'r Cyfle i Gyflwyno Cais am Garchar "yn y Gogledd"

***Mae Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, sy'n cynrychioli arweinwyr chwe chyngor y gogledd, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, Heddlu'r Gogledd, Awdurdod Tân ac Achub y Gogledd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, wedi croesawu'r cyhoeddiad gan yr Ysgrifennydd Cyfiawnder, Chris Grayling, bod posibilrwydd y caiff carchar ei adeiladu yn y gogledd.***

Yn ôl y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych,

"Mae'r Bwrdd wedi bod yn lobïo am garchar yn y gogledd er dros 5 mlynedd. Mae'r ffaith ein bod ar restr fer o ranbarthau o dan ystyriaeth yn newyddion gwych.

Cafodd cynrychiolwyr y Bwrdd y cyfle i gyflwyno eu hachos dros gael carchar yn y gogledd mewn cyfarfod gyda Gweinidog y Carchardai a Swyddfa Cymru fis Hydref diwethaf. Yn sgil ein hymdrechion, mae posibilrwydd y caiff buddsoddiad sylweddol ei wneud yn ein rhanbarth a fyddai'n creu dros fil o swyddi a rhoi hwb gwerth £50 miliwn i economi'r gogledd bob blwyddyn."

Dyma farn y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd Cyngor Gwynedd,

"Mae'r posibilrwydd o gael carchar yn y gogledd yn ddatblygiad cyffrous. Mae angen y buddsoddiad a'r swyddi arnon ni, yn ogystal â charchar lle mae Deddf y Gymraeg yn berthnasol er mwyn i system y carchardai allu cydnabod diwylliant Cymru. Bydd carchar yn y gogledd yn nes at adref ac yn golygu bod teuluoedd a gweithwyr cymorth proffesiynol ar gael yn haws i garcharorion o'r gogledd. Yn sgil hynny, bydd llai o aildroseddu a bydd cymunedau'n fwy diogel wedi i'r troseddwyr gael eu rhyddhau."

Meddai'r Cynghorydd Neil Rogers, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Wrecsam,

"Mae cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Cyfiawnder yn gyfle mawr i'r gogledd. Fodd bynnag, bydd rhanbarthau eraill yr un mor awyddus i gael carchar. Mae'n hollbwysig nad ydyn ni'n rhoi'r drol o flaen y ceffyl a'n bod yn cydweithio'n agos â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddeall beth sydd ei angen arnyn nhw. Mae'n ddyddiau cynnar a rhaid i'r cyhoedd ddeall ei bod yn llawer rhy gynnar i ni sôn am safleoedd penodol. Gofynion y Gweinidog Cyfiawnder fydd yn pennu'r meini prawf ar gyfer y safle ac nid ydyn ni wedi trafod y rhain eto."

Cytunodd y Bwrdd: -

- Bydd maint y carchar sydd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn golwg yn golygu y bydd ar gyfer carcharorion o'r gogledd yn ogystal â gogledd-orllewin a gorllewin canolbarth Lloegr.

- Bydd Heddlu'r Gogledd yn paratoi cynllun busnes i fesur sut byddai carchar yn y gogledd o les i ddiogelwch cymunedol yn sgîl llai o aildroseddu.

- Bydd cynrychiolwyr y Bwrdd yn cwrdd â swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder i weld pa fath o amserlen a manylion sydd ganddyn nhw mewn golwg ar gyfer adeiladu'r carchar newydd. Gofynion y Weinyddiaeth Gyfiawnder fydd yn arwain y meini prawf o ran lleoliad a manylion penodol y safle.

- Bydd yn gofyn i bob awdurdod y gogledd groesawu cyhoeddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder a chael adroddiad am gamau Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol y Gogledd.

**DIWEDD**

**WRITTEN MINISTERIAL STATEMENT**

Thursday 10 January 2013

**MINISTRY OF JUSTICE**

*Prison Capacity Management*

**The Lord Chancellor and Secretary of State for Justice (Chris Grayling):**

Our strategy for the custodial estate is to ensure that we have sufficient places to meet the demand of the courts whilst securing best value for money for the taxpayer.

My intention is to have more adult male prison capacity available than we had in 2010 but at a much lower unit and overall cost. Our strategy for achieving this is to replace accommodation which is old, inefficient or has limited long-term strategic value with cheaper modern capacity which is designed to better meet the demand for prison places and supports our aim to drive down stubbornly high reoffending rates. I am also announcing today that the Government is to start feasibility work on a new prison that could hold more than 2,000 prisoners – around a quarter more than the largest current facility.

At present, we have buildings within the prison estate which date back to the 18th Century. Prisons are not all located where we would want them to be to best meet the needs of the courts or support resettlement and there is an annual maintenance cost of approximately £184m. There is clear evidence that by replacing old uneconomic places with modern prison capacity we can drive substantial savings for the taxpayer and I am determined to do just that.

Last year we opened a significant amount of new accommodation including 1,600 places at HMP Oakwood in the West Midlands. The average cost at Oakwood is £13,200 per place. This is less than half the average cost of existing prison places, and sets the benchmark for future costs. In order to further drive down unit costs in prisons, I can today announce that we plan to significantly increase capacity at four existing prisons by building additional houseblocks to provide up to 1,260 new modern and cost effective places. Our current intention is that new accommodation will be built at HMP Parc in Bridgend, HMP Peterborough in Cambridgeshire, HMP The Mount in Hertfordshire and HMP Thameside in London.

These houseblocks, along with Oakwood, which is now reaching capacity, represent over 2,800 new places. This provides the opportunity to close excess capacity elsewhere in the estate.

I am therefore announcing that we will close around 2,600 old and uneconomic places through the closure of six prisons and the partial closure of accommodation in three other sites. The affected establishments are:

| Closures | | Partial Closures |
|---|---|---|
| Bullwood Hall | Kingston | Chelmsford |
| Canterbury | Shepton Mallet | Hull |
| Gloucester | Shrewsbury | Isle of Wight |

The decision to close, or partially close places in these establishments is based on the suitability, sustainability and the cost of this accommodation.

Closures form just one part of our strategy to improve the operation of our prison estate and drive down the costs to the public. We will also decommission 200 contractually crowded places at private prisons, which are not currently needed.

We will continue to ensure that our estate reflects prison population demands, and in line with the falling population in the youth estate, I can also announce that we intend to negotiate a change to the function of HMYOI Ashfield and re-role it to a prison to hold adult male prisoners. I intend to work with the Youth Justice Board to review the operation of the youth estate to ensure that it provides effective education and training for young people whilst delivering value for money to the taxpayer.

Furthermore, I am conscious that women offenders have particular needs and that the custodial female estate should be organised as effectively as possible to meet gender specific requirements whilst also delivering best value for the public. I have therefore asked officials to undertake a review of custodial arrangements for women. I expect this review to be completed by the summer.

As part of our strategy to modernise the estate and significantly reduce unit and overall costs, I have asked officials to explore options for building a new prison to enable us to accelerate the closure of uneconomic capacity across the rest of the estate. We will consider the feasibility of sites in the North West, North Wales and in London in line with demand for places in these regions and I will provide further details to the House as this work progresses.

Overall, this capacity reduction will save £63 million per year from the cost of running our prisons. These savings are in addition to the plans we have already set out to the House for how we propose to make significant cost reductions over the next few years through the application of an efficient benchmark for all public sector prisons, and through further competition of services.

This Government is determined to ensure that we have a resilient custodial estate with sufficient capacity available to meet the demands to imprison those committed by the courts. We also intend to ensure that the cost of a prison place is dramatically reduced. The strategy I am outlining today will help achieve both these aims.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank